Bangor University

**DOETHUR MEWN ATHRONIAETH**

# Astudiaeth o Ddylanwad Celtigrwydd ar Lyfrau Teithio Cymraeg am Lydaw ac Iwerddon yn yr Ugeinfed Ganrif

Hughes, Llyr Titus

*Award date:*
2022

*Awarding institution:*
Prifysgol Bangor

Link to publication

**General rights**
Copyright and moral rights for the publications made accessible in the public portal are retained by the authors and/or other copyright owners and it is a condition of accessing publications that users recognise and abide by the legal requirements associated with these rights.

- Users may download and print one copy of any publication from the public portal for the purpose of private study or research.
- You may not further distribute the material or use it for any profit-making activity or commercial gain
- You may freely distribute the URL identifying the publication in the public portal ?

**Take down policy**
If you believe that this document breaches copyright please contact us providing details, and we will remove access to the work immediately and investigate your claim.

Download date: 19. Apr. 2024

# Astudiaeth o Ddylanwad Celtigrwydd ar Lyfrau Teithio Cymraeg am Lydaw ac Iwerddon yn yr Ugeinfed Ganrif

Traethawd PhD

Llŷr Titus

Ysgol y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd
Prifysgol Bangor

Medi 2021

## CYNNWYS

| | |
|---|---|
| Diolchiadau | iii |
| Crynodeb | iv |
| Rhagymadrodd | 1 |
| Pennod 1 | 6 |
| Pennod 2 | 33 |
| Pennod 3 | 114 |
| Casgliad | 176 |
| Llyfryddiaeth | 181 |
| Atodiad 1 | 195 |

**Diolchiadau**

Hoffwn ddiolch yn gyntaf oll i Ganolfan Hyfforddiant Doethurol yr AHRC am gyllido'r ymchwil hwn, ac am gynnig cyllid ychwanegol a'm galluogodd i ehangu fy ymchwil a'm profiadau wrth fynd ati i gwblhau'r astudiaeth.

Carwn ddiolch i'm teulu a'm ffrindiau am eu cyfeillgarwch ac yn benodol felly fy rhieni am eu ffydd, Jenny am ei chyngor a'i hamynedd, Gareth Evans-Jones am ei gymorth a Mr Ellis Jones am y sgyrsiau difyr. Mae diolch mawr i fy nghyd-fyfyrwyr ym Mangor yn ogystal â'r Stampwyr am eu hanogaeth hefyd.

Diolch i staff a myfyrwyr Adran Astudiaethau Celtaidd Prifysgol Harvard am eu cyfeillgarwch a'u croeso ac i staff Llyfrgell Widener am fod mor barod eu cymorth.
Diolch i staff Llyfrgelloedd ac Archifau Prifysgol Bangor ac i staff Llyfrgell Genedlaethol Cymru am eu holl waith.

Diolch yn fawr i Marion Löffler am ei chyngor a'i hanogaeth ar ddechrau'r astudiaeth ac i Peredur Lynch, fy nhiwtor, am ei gyngor dros y blynyddoedd ac i Angharad Price am ei chymorth hefyd.

Yn olaf, diolch i weddill staff yr Adran Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd; Jason Walford Davies, Jerry Hunter, Aled Llion Jones, Robat Trefor, Gerwyn Wiliams a Manon Wyn Williams am ddegawd o gyngor, cymorth a chyfeillgarwch.

**Crynodeb**

Y mae hon yn astudiaeth sydd yn trafod effeithiau Celtigrwydd ar lyfrau teithio Cymraeg yn yr ugeinfed ganrif gan ganolbwyntio ar Lydaw ac Iwerddon.

Yn y bennod gyntaf gosodir cyd-destun i'r trafodaethau a geir yn y penodau dilynol wrth drafod 'Celtigrwydd' a 'Cheltiaid' fel cysyniadau gan rannu'r bennod yn gyfres o is-adrannau. Ynddynt, tynnir ar feysydd ysgolheictod clasurol, archaeoleg, genynneg ac efrydiau Cymreig a rhoddir sylw i'r portreadau o Geltigrwydd a Cheltiaid yn y dychymyg poblogaidd yn ogystal. Trafodir hirhoedledd y cysyniadau a'r cymhlethdod sydd wrth geisio defnyddio labeli o'r fath er bod elfennau hanesyddol ac archaeolegol yn rhan o'u sylfaen. Yna eir ati i ddiffinio *genre* llenyddiaeth teithio fel modd o osod fframwaith ar gyfer y dadansoddiad testunol gan nodi beth yw nodweddion cyffredinol y *genre* a sut y mae rhai agweddau ohono'n wahanol mewn cyd-destun Cymraeg a Chymreig.

Ym mhennod dau canolbwyntir ar Lydaw gan drafod mewn tair is-adran dri thestun canolog: *Tro yn Llydaw* (1896/1921) gan O. M. Edwards, *O Ben Tir Llydaw* (1937) gan John Dyfnallt Owen, a *Pererindodau* (1941) gan W. Ambrose Bebb. Gwelir sut y bu i ddarlun Edwards nid yn unig fod yn un cynrychioliadol o werthoedd y Gymru Gymraeg Anghydffurfiol wrth edrych ar wlad Geltaidd arall ond hefyd yn un tra dylanwadol. Cynigir golwg wahanol ar Lydaw gan Dyfnallt a dadleuir iddo gynnig darlun amgen fel ymateb uniongyrchol i Edwards. Gwelir hefyd bod y testun yn adlewyrchu'r diddordeb cynyddol mewn Celtigrwydd yng Nghymru. Dangosir yn y drydedd is-adran sut y mae Bebb yntau yn arddel cysylltiad ag Edwards a sut yr ymagweddai at Lydaw fel ymwelydd cyson â hi ac fel un a ymgorfforai mewn rhai agweddau obeithion pan-Geltaidd hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif.

Yn y drydedd bennod canolbwyntir ar ail hanner yr ugeinfed ganrif ac ar Iwerddon, gan ddadlau bod y canfyddiad ohoni fel gwlad yn rhannu tebygrwydd a gwahaniaethau gyda'r un o Lydaw. Trafodir tair cyfrol unwaith eto; *Tro yn Iwerddon* (1964) gan Myfi Williams, *Iwerddon* (1993) gan Clive James a *Pobol Drws Nesa* (2008) gan Ioan Roberts, a thrwy hynny trafodir rhwng y ddwy wlad rychwant o'r ganrif ar ei hyd. Cynigir darlun o'r newid mewn ymagweddiad crefyddol tuag at Gatholigiaeth gan Williams wrth iddi droi at gyfeiriad mwy goddefgar na'r portreadau cynharach. Wrth drafod cyfrol James gwelir bod y gyd-berthynas Geltiadd erbyn degawd olaf y nawdegau wedi datblygu'n ffaith ddiwylliannol a gymerir yn ganiataol. Yn olaf trafodir cyfrol Roberts, un sydd yn cynnig golwg ar berthynas

yr awdur ag Iwerddon am dros bedwar degawd, ac sydd, o'r herwydd, yn cynnig golwg tra defnyddiol ar ddatblygiad y berthynas rhwng Cymru a hi.

Daw'r traethawd i glo wrth gasglu bod Celtigrwydd yn syniadaeth hirhoedlog, eang ei hapêl. Trafodir sut yr etifeddwyd syniadau am Geltigrwydd a hanfod y 'Celtiaid' gan ffynonellau allanol. Rhoddir golwg hefyd ar sut y'u defnyddiwyd i gynnig darluniau amrywiol o Iwerddon a Llydaw a oedd eto'n rhannu rhai nodweddion tebyg gan y cyfrolau a astudiwyd. Yna'n olaf myfyrir ar effaith a dylanwad Celtigrwydd heddiw gan ddod â'r drafodaeth i gyd-destun cyfoes.

Yn yr Atodiad cynhwysir darluniau o gyfrol Myfi Williams fel modd o enghreifftio sut y cyflwynir darlun penodol o Iwerddon, nid yn unig yn destunol ond hefyd yn weledol o fewn ei chyfrol.

## Datganiad

Yr wyf drwy hyn yn datgan mai canlyniad fy ymchwil fy hun yw'r thesis hwn, ac eithrio lle nodir yn wahanol. Caiff ffynonellau eraill eu cydnabod gan droednodiadau yn rhoi cyfeiriadau eglur. Nid yw sylwedd y gwaith hwn wedi cael ei dderbyn o'r blaen ar gyfer unrhyw radd, ac nid yw'n cael ei gyflwyno ar yr un pryd mewn ymgeisiaeth am unrhyw radd oni bai ei fod, fel y cytunwyd gan y Brifysgol, am gymwysterau deuol cymeradwy.

**Rhagymadrodd**

'Tyda ni'm yn bod go iawn i'r rhain, mach i.'[1] Daw'r dyfyniad hwn gan gymeriad o'r enw Deicws yng nghyfrol Robin Llywelyn, *O'r Harbwr Gwag i'r Cefnfor Gwyn*.[2] Dyma nofel a gydbletha sawl naratif ac mae un yn benodol yn berthnasol i'r astudiaeth hon, sef y drafodaeth a geir am drigolion y Gogledd Dir. Pobl werinol, henffasiwn sydd ag elfen ymron yn hudolus yn rhan o'u diwylliant a'u cyfansoddiad ydynt. Mae perygl iddynt ddiflannu, ac mae eu ffordd o fyw a'u diwylliant o dan fygythiad hefyd. Ceir yr argraff eu bod yn perthyn i'r gorffennol a bod y byd y tu draw i'r Gogledd Dir wedi symud yn ei flaen gan adael y wlad ar ôl. Dyma nodweddion y gellid eu priodoli i'r Celt 'traddodiadol' hefyd, y Celt rhamantaidd a boblogeiddiwyd, fel y gwelir yn ddiweddarach yn yr astudiaeth hon, gan weithiau Ernest Renan a Matthew Arnold.[3]

Gellir yn hawdd weld y trigolion hyn fel analogau am drigolion y gwledydd Celtaidd ac un wlad Geltaidd yn benodol. Rhanna Deicws a phobl y Gogledd Dir yn benodol rai nodweddion â thrigolion Llydaw: gwisgant glocsiau pren[4] a chapiau gwynion,[5] ac mae'r portread ohonynt yn cyd-fynd ag un ehangach o Lydaw fel y trafodir ymhellach yn yr astudiaeth hon. Ni ddylid ychwaith anghofio am hoffter yr awdur o'r wlad a'i gred mewn cysylltiadau rhwng gwledydd Celtaidd.[6]

Yn yr adran y daw'r dyfyniad uchod ohoni, mae hi'n Ŵyl Mabsant (dyma gyffelybiaeth arall rhwng trigolion y Gogledd Dir a'r Llydaw Gatholig), ac mae'r trigolion lleol yn dathlu ac yn dawnsio. Dônt yn destun chwilfrydedd i dwristiaid; pobl sydd yn eu cofnodi ar fideo a ffilm gyda chamerâu ond nad ydynt, yn ôl y cymeriadau, yn gweld dim byd, mewn gwirionedd, gan nad yw'r trigolion yn ddim mwy na deunydd cywreinrwydd i'w gwylwyr. Dywed Deicws wrth drafod y cofnod o'r digwyddiad gan y twristiaid:'Cwbwl gân nhw ydi sgwâr gwag heblaw am ddwy gasgen.'[7]

Nid pobl o gig a gwaed y mae'r twristiaid yn eu cofnodi ond, yn hytrach, syniadau a fersiynau parc antur o drigolion y wlad, ac felly, awgrymir yn y nofel na cheir darlun 'go

[1] Robin Llywelyn, *O'r Harbwr Gwag i'r Cefnfor Gwyn* (Llandysul: 1994), t. 47.
[2] Ibid.
[3] Lewis F. Mott, 'Renan and Matthew Arnold', *Modern Language Journal*, 2 (1918), *JSTOR*, <http://www.jstor.org/stable/2915405>; cyrchwyd 12 Rhagfyr 2020, tt. 67-8.
[4] Llywelyn, *O'r Harbwr Gwag i'r Cefnfor Gwyn*, t. 46.
[5] Ibid., t.79.
[6] Robin Llywelyn, 'Celtigrwydd?', *Llais Llyfrau*: *Rhifyn Arbennig ar Hunaniaeth Geltaidd* (Gwanwyn 1998), tt. 5-6.
[7] Llywelyn, *O'r Harbwr Gwag i'r Cefnfor Gwyn,* t. 47.

iawn' ohonynt. Gan hynny, nid yw'r cofnod sydd ganddynt yn un o bobl real yng nghyd-destun y naratif ond, yn hytrach, yn fersiwn simplistig, ddau-ddimensiwn. Serch hynny, wedi i'r twrist dynnu ei gofnod at ei ddibenion ei hun a mynd adref i rannu ei ddelweddau gyda'r bobl nad aethant i'r Gogledd Dir, ei fersiwn ef o'r dawnswyr fydd y 'gwir' wedyn. Awgrymir yn y nofel, felly, mai gan y twristiaid sy'n cofnodi y mae'r grym i gynrychioli, ac er bod y trigolion lleol yn ymddangos yn hyderus yn eu safle presennol, heb boeni'n ormodol am y portread ohonynt, maent dan anfantais. Er bod ganddynt eu hunaniaeth, eu traddodiadau a'u straeon, nid oes lle i'r rheiny yn y portread arwynebol, twristaidd. Bwriad prif gymeriad y nofel, Gregor, yw cofnodi diwylliant y trigolion a'u straeon fel rhan o'i waith fel Llyfrgellydd.[8] Nid oes modd i'r un camera ddangos dyfnder diwylliant na chynnig darlun llawn o'r hyn y mae ef yn ei dynnu, ac ym myd realaeth hudol y nofel, awgrymir gan un cymeriad mai goblygiadau hyn yw nad oes modd cael delweddau o'r bobl o gwbl.[9] Mae Gregor yntau'n nodi bod hon yn gred sydd ar goedd.[10] Nid yw hynny'n wir y tu draw i fyd y nofel, wrth gwrs. Ond mae'r trosiad yn un sy'n ein hatgoffa y dylid cwestiynu a yw'r darlun a gynigir gan wylwyr allanol yn un dibynadwy.

Bwriad y thesis PhD hwn yw edrych yn fanylach ar y fersiynau 'allanol' hyn fel y'u cyflwynir mewn cyfrolau taith, ac yn benodol, fel y'u cyflwynir gan awduron o un wlad Geltaidd, sef Cymru, mewn perthynas â dwy wlad Geltaidd arall, sef Llydaw ac Iwerddon. Bydd y traethawd yn trafod perthynas pobloedd 'gynhenid' ac ymwelwyr, yn ogystal â grym a dibynadwyedd y portreadau 'allanol' o bobl a geir mewn llyfrau taith. Yn yr un modd â'r twristiaid yn nofel Robin Llywelyn, ymwelwyr yw'r awduron unigol a astudir yma ac er eu bod yn ysgrifenwyr taith, yn ohebyddion, ac yn ffigyrau blaenllaw yn eu maes (yn hytrach na rhes ddiwyneb o gamerâu), dadleuir bod y portread o'r twrist a geir yn *O'r Harbwr Gwag i'r Cefnfor Gwyn* yn dal yn gyd-destun buddiol wrth drafod y portreadau o wledydd Celtaidd eraill gan ddetholiad o awduron Cymraeg o'r ugeinfed ganrif.

Fel yr awgrymwyd eisoes, haen ychwanegol o gymhlethdod yw prism Celtigrwydd. Dadleuir bod Celtigrwydd yn llafn deufin i'r awdur Cymraeg wrth fynd ati i bortreadu gwledydd a phobloedd Geltaidd eraill. Gwelir y caiff y darlun ei ystumio y naill ffordd gan y cysyniad disgwyliedig o agosrwydd 'teuluol' rhwng y gwledydd Celtaidd; ar y llaw arall, gall, wrth drafod trigolion gwlad gyda chysylltiad, hefyd arwain at ystumio barn a hyd yn oed feithrin agwedd nawddoglyd, wrth i gysyniadau poblogaidd a phroblematig o Geltigrwydd, a

[8] Ibid., tt. 68-9.
[9] Ibid., t. 86.
[10] Ibid., t. 116.

natur pobloedd Geltaidd, ymdreiddio i bortread yr awduron Cymraeg, a hynny, fe ymddengys yn ddiarwybod iddynt.

Dewiswyd Llydaw ac Iwerddon i gynrychioli'r gwledydd Celtaidd am amryw resymau. Yn gyntaf oll, roedd ystyriaeth ymarferol ynghylch swmp deunydd a diddordeb Cymry'r ugeinfed ganrif yn y ddwy wlad hyn. Dyma ddwy wlad a enynnodd y diddordeb mwyaf sylweddol mewn papurau newydd, cyfnodolion ac yn y wasg yn ehangach. Yn eironig ddigon erbyn heddiw, efallai, prin oedd y sylw i'r Alban yng ngwasg Gymraeg yr ugeinfed ganrif a hynny am nad oedd y mudiad cenedlaethol yno ond yn ei fabandod. I'r gwrthwyneb, roedd Iwerddon wedi llwyddo i ennill annibyniaeth er 1921. O safbwynt Llydaw, apeliodd hi at Gymry'r ugeinfed ganrif oherwydd ei phellter daearyddol, a swyn yr anghyfarwydd yn chwilfrydedd. Roedd Llydaw yn wlad a adleisiai'r gorffennol i Gymru'r ugeinfed ganrif tra oedd Iwerddon yn cynnig patrwm newydd.

Mae'r traethawd wedi ei rannu'n dair Pennod, a phob un o'r tair wedi eu dosbarthu'n gyfres o is-adrannau. Mae Pennod 1 yn gosod cyd-destun y trafodaethau a geir yn y ddwy bennod a'i dilyna. Yn rhan gyntaf y bennod hon, archwilir y cysyniad o Geltigrwydd ac o'r Celtiaid, gan dynnu ar feysydd ysgolheictod clasurol, archaeoleg, genynneg ac efrydiau Cymreig, yn ogystal â'r portreadau a geir yn y dychymyg poblogaidd. Gwelir bod y cysyniad yn un hirhoedlog a bod iddo gnewyllyn hanesyddol ac archaeolegol, ond nodir yr un pryd gymhlethdod ac ansadrwydd labeli o'r fath, ac mai yn gymharol ddiweddar y daethant yn wir ddylanwadol. Mae dealltwriaeth o'r cyd-destun yn gwbl allweddol wrth astudio a dadansoddi y llyfrau taith y canolbwyntir arnynt yng nghorff y traethawd. Yn ail ran y bennod gyntaf hon, diffinnir *genre* llenyddiaeth teithio yn fframwaith ar gyfer y dadansoddi testunol. Nodir beth yw nodweddion cyffredinol y *genre* a'i berthynas ganolog ag imperialaeth, ond pwysleisir hefyd bod i'r *genre* hwn briodweddau arbennig mewn iaith leiafrifol fel y Gymraeg. Unwaith eto, dyma gyd-destun hollbwysig wrth fynd ati i graffu ar y llyfrau taith dan sylw.

Mae Pennod 2 y traethawd yn canolbwyntio'n benodol ar Lydaw a'r llyfrau taith a ysgrifennwyd yn y Gymraeg am y wlad honno yn hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif. Penderfynwyd dethol tri thestun allweddol o blith y gweithiau posib y gellid bod wedi eu trafod, sef (i) *Tro yn Llydaw* (1896/1921) gan O. M. Edwards, (ii) *O Ben Tir Llydaw* (1937) gan John Dyfnallt Owen, a (iii) *Pererindodau* (1941) gan W. Ambrose Bebb. Roedd cyfrol O. M. Edwards yn ddewis amlwg. Gellid honni mai ef yw 'tad' ysgrifennu taith yn y Gymraeg. Roedd ei lyfrau teithio, o *O'r Bala i Geneva* (1889) i *Yn y Wlad* (1921), yn eithriadol o ddylanwadol, ac nid oedd *Tro yn Llydaw* yn eithriad. Ymgorffora rai o brif ddaliadau a

gwerthoedd y Gymru Gymraeg Anghydffurfiol ar ddechrau'r ugeinfed ganrif wrth edrych tuag at Lydaw Gatholig a welir yn wlad Geltaidd arall, ond eto'n un ddieithr a 'hynafol' ei naws. Yn sicr, roedd hon yn un o'r cyfrolau teithio cyntaf yn y Gymraeg i dynnu sylw'r cyhoedd yn ehangach at y berthynas rhwng y gwledydd Celtaidd, a phrofodd yn dra dylanwadol ar ddychymyg y Cymry ar ddechrau'r ugeinfed ganrif.

Dewiswyd *O Ben Tir Llydaw* gan John Dyfnallt Owen am ei bod yn cynnig golwg wahanol ar Lydaw, i'r un a gafwyd gan O. M. Edwards. Yn wir, gellid dadlau bod John Dyfnallt Owen yn fwriadol yn herio ac yn ceisio cywiro'r darlun a gafwyd yn *Tro yn Llydaw*. Rheswm arall pam y dewiswyd y testun hwn oedd am ei fod yn adlewyrchu'r diddordeb cynyddol mewn Celtigrwydd ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, ac yn hynny o beth, mae'n dangos perthynas â gwaith O. M Edwards ond hefyd yn ei ddatblygu ymhellach. I hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif y mae'r drydedd gyfrol yn perthyn hefyd. Dewiswyd trafod *Pererindodau* gan Ambrose Bebb am dri rheswm. Yn gyntaf, mae hon yn hefyd yn arddel perthynas â phortread cynnar O. M. Edwards. Yn ail, mae'n ffrwyth hir ymwneud Bebb â Llydaw, ei diwylliant a'i hanes. Ac yn drydydd, mae'n ymgorffori argyhoeddiadau Celtaidd cryf yr awdur ac yn fynegiad o benllanw gobeithion pan-Geltaidd a fu'n gynyddol amlwg yn hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif.

Mae Pennod 3 y traethawd yn troi'r sylw at Iwerddon, gwlad sydd — yn groes i Lydaw a gynigiai ryw olwg ar y gorffennol Celtaidd i'r Cymry — yn ddarlun o ddyfodol posibl i Gymru fel gwlad Geltiadd wleidyddol annibynnol. Penderfynwyd, yn achos Iwerddon, ganolbwyntio ar lyfrau teithio mwy diweddar er mwyn cael rhychwant eang o ymatebion Cymraeg i'r gwledydd Celtaidd, hynny yw, ymatebion a ymledai drwy gydol yr ugeinfed ganrif.

Perthyn i'r 1960au y mae cyfrol Myfi Williams, *Tro yn Iwerddon* (1964), cyfrol a ddewisiwyd nid yn unig am fod ei theitl yn adleisio cyfrol ddylanwadol O. M. Edwards rhyw drigain mlynedd ynghynt, ond hefyd am iddi ddod yn agos at y brig yng nghystadleuaeth y Fedal Ryddiaith yn 1963; arwydd o'r twf ym mhoblogrwydd ysgrifennu taith yn y Gymraeg erbyn y 1960au. A hithau'n wraig i weinidog Anghydffurfiol, mae'r gyfrol hefyd yn cynnig darlun o'r newid a fu mewn ymagweddau crefyddol erbyn ail hanner yr ugeinfed ganrif, gyda golwg mwy goddefgar yn cael ei roi ar Gatholigiaeth y chwaer genhedloedd Celtaidd.

Cyhoeddwyd *Iwerddon* (1993) gan Clive James yn negawd olaf yr ugeinfed ganrif, cyfrol a ddewiswyd gan ei bod yn mynd â'r llyfr taith Cymraeg i gyfeiriad newydd, yn fath o lawlyfr ymarferol bron i'r teithiwr o Gymro ar ymweliad ag Iwerddon. Yr hyn sy'n drawiadol am ymdriniaeth James â Cheltigrwydd yn y cyd-destun hwn yw y cymerir y berthynas gyd-

Geltaidd yn ganiataol fel ffaith ddiwylliannol, er na chaiff ei rhamantu ganddo. Gwelir oddi wrth gyfrol James, fod Iwerddon yn dal i gynnig model gwleidyddol y gallai'r Cymry anelu ato (yn enwedig ei haelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd), ond bod ymwybyddiaeth ddeallgar hefyd o sefyllfaoedd gwahanol ieithoedd Celtaidd yn y ddwy wlad.

Ffrwyth ymwneud personol hanner canrif ag Iwerddon yw *Pobol Drws Nesa* (2008) gan Ioan Roberts. Er mai yn 2008 y'i cyhoeddwyd, mae'r profiadau a geir ynddi'n costrelu ei ymwneud â'r cymdogion Celtaidd ers y 1960au (aeth yno gyntaf tua'r adeg â Myfi Williams yn 1961).[11] Yn hynny o beth, roedd yn ddewis amlwg wrth ddwyn yr astudiaeth hon i ben. Ac yntau'n etifedd i dros ganrif o ysgrifennu teithio Cymraeg am y gwledydd Celtaidd, mae agwedd Roberts at Iwerddon yn arddangos dealltwriaeth ddofn, nid yn unig o hunaniaeth gymhleth y wlad, ond hefyd o'i draddodiad a'i werthoedd etifeddedig ei hun fel Cymro wrth ymwneud â hi.

Gwelir trwy gydol yr astudiaeth hon pa mor amlhaenog yw ymwneud yr awduron Cymraeg hyn â Llydaw ac Iwerddon fel gwledydd Celtaidd ac fel cyrchfannau taith, ond bod rhai elfennau penodol yn eu tynnu ynghyd. Yn sicr, mae dealltwriaeth ramantaidd o ryw gyswllt Celtaidd digon annelwig yn brigo i'r wyneb ymhob un o'r testunau dan sylw, o'r cyntaf ar droad yr ugeinfed ganrif i'r olaf ar ddechrau'r unfed ar hugain.

Fel y gwelir yng nghorff yr holl ddadansoddiadau a'r casgliadau a geir yn yr astudiaeth, mae'r cysyniad o Geltigrwydd ac o gydberthynas rhwng y Celtiaid modern wedi dal ei afael yn gryf hyd at y presennol, gan newid ei ffurf a'i wedd yn ôl y gofyn. Yn sicr, mae lle i ymestyn y drafodaeth ymhellach — i gyfeiriadau'r Alban, Cernyw ac Ynys Manaw, dyweder, neu tuag at *genres* neu ffurfiau diwylliannol gwahanol. Yn anorfod bu'n rhaid cadw'r cwmpas i derfynau astudiaeth unigol a bu sawl agwedd ar yr astudiaeth hon yn heriol. Y mwyaf o'r heriau hynny'n ddi-os oedd pandemig Covid-19 a lesteiriodd yr ymchwil gan atal mynediad at lyfrgelloedd a rhai ffynonellau ac yn ogystal ddwysáu sialensau arferol dod ag ymchwil o'r fath at ei gilydd. Ond gobeithir bod yma o leiaf gyfraniad at ein dealltwriaeth o Geltigrwydd mewn perthynas ag un maes penodol a hynny mewn iaith a gwlad 'Geltaidd' yn y byd sydd ohoni.

[11] Ioan Roberts, *Pobol Drws Nesa[:] Taith Fusneslyd Drwy Iwerddon* (Llanrwst: 2008), t. 11.

# PENNOD 1

## Celtigrwydd a sail y syniad o ‘Gelt’

Digon ansad yw'r syniad 'traddodiadol' o Gelt. Bwriwyd amheuon arno o sawl cyfeiriad. Mae'r drafodaeth wedi derbyn peth sylw dros y degawdau diweddar[12] gan ennyn ymatebion cryf. Gellir yn fras osod dwy garfan yn y drafodaeth honno: y 'Celtophiliaid' a'r 'Cetlosgeptigwyr', er bod y ddau label yn cynnwys rhychwant eang o ddadleuon a all orgyffwrdd. Lle unwaith y bodolai darlun monolithig o 'Gelt', ac yn sgil hynny Geltigrwydd, bellach mae'r darlun yn wahanol. Yn wir, cododd dadleuon newydd am ddilysrwydd y term o gwbl, boed hynny yn hanesyddol, yn ddiwylliannol neu fel label ethnig. Bydd y rhan hon o'r traethawd yn crynhoi'r dadleuon hynny isod a thrafodir tystiolaeth archaeolegol, DNA y cofnod clasurol, a'r disgẃrs modern ynghylch 'Celtigiaeth'. Trwy hynny, gosodir cyd-destun i safbwyntiau'r awduron amrywiol a astudir yn y traethawd hwn, gan eu gweld yn llinach canrifoedd o deithwyr ymchwilgar ac awduron a geisiodd bennu hunaniaeth ddi-ddal y 'Celt' a'i bresenoldeb yn hanes diwylliant rhai o wledydd gorllewin Ewrop.

Y Celtiaid yn y deunydd poblogaidd

Os am ddiffiniad o'r hyn sydd yn nodweddu'r Celtiaid hanesyddol yn y dychymyg poblogaidd, gellir troi at grynhoad Simon James yn ei gyfrol, *The Atlantic Celts.*[13] Yn ei grynhoad o'r darlun poblogaidd o Gelt, diffinnir hwy ganddo fel trigolion Oes yr Haearn yn bennaf, rhai a oedd yn byw mewn bryngaerau ym Mhrydain ac ar hyd Ewrop hefyd. Roedd eu cymdeithas yn un filwriaethus gyda strwythur pendant iddi, a brwydro a champau corfforol yn rhan nodedig o'u diwylliant. Byddai'r brwydro hwnnw'n digwydd yn noeth neu gyda phaent glaslys ar eu crwyn, a chasglai'r ymladdwyr bennau fel tlysau. Penaethiaid ysbrydol y bobl hyn oedd y Derwyddon. Roedd eu harddull gelfyddydol yn un nodweddiadol 'Geltaidd', hynny yw, defnyddid motiffau natur gyda phatrymau ailadroddus. Goroesodd y dull celfyddydol hwn hyd heddiw ar gofroddion twristiaid a thatŵau lle byddent gynt ar dariannau a broetsiau. Yn ôl y darlun o'r Celt poblogaidd a gynigir gan James, daeth Celtiaid i Brydain mewn tonnau o fewnlifiad o'r Cyfandir, ac o ganlyniad, sefydlwyd diwylliant homogenaidd o orllewin Iwerddon hyd at ffiniau eithaf cyfandir Ewrop. Mae crynodeb James a'r darluniau a geir gan eraill yn ychwanegu at hynny nodweddion Celtaidd pellach fel natur ysbrydol, gallu creadigol nodedig (yn enwedig felly gyda barddoniaeth a cherddoriaeth), a theimlad o gysylltiad greddfol rhwng trigolion y gwledydd Celtaidd.

---

[12] Manuel Fernández-Götz, ' "Celts: art and identity" exhibition: "New Celticism" at the British Museum', *Antiquity,* 90/349 (Chwefror 2016), t. 237.
[13] Simon James, *The Atlantic Celts, Ancient People or Modern Invention?* (London: 1999), tt. 20-1.

Derbyniwyd y darlun poblogaidd hwn o’r Celtiaid fel ffaith, neu un a chanddo beth dilysrwydd, nid yn unig mewn cyd-destun poblogaidd ond hefyd yn ysgolheigaidd ac yn archaeolegol tan yn gymharol ddiweddar. Nid yw hyn yn syndod o gofio bod peth tystiolaeth hanesyddol iddo. Gellir yn hawdd, er enghraifft, ddarllen am ‘Geltiaid’ yn y deunydd clasurol a derbynnir y defnyddiwyd y gair ‘Celt’ am bobl neu bobloedd gan awduron Groegaidd a Rhufeinig. Mae deunydd archaeolegol yn cyd-fynd â’r cyd-destun hwnnw, gydag olion sydd yn ymddangos yn rhai ‘Celtaidd’ o ran eu ffurf neu eu dyluniad i’w gweld mewn amgueddfeydd. Mae tebygrwydd digamsyniol rhwng gwrthrychau a godwyd o ddaear Hallstatt a La Tène ac arteffactau a ddarganfuwyd ym Mhrydain. Awgryma hyn mai’r un bobl a fu’n byw yn yr ardaloedd hynny. Ond cyfyd anawsterau wrth fynd ati i ddehongli’r gwrthrychau hynny ac mae hyn, yn ei dro, wedi bwrw amheuaeth ar y naratif traddodiadol am wir hunaniaeth y Celtiaid hanesyddol.

Celtigrwydd: Tystiolaeth Glasurol

Fel y nodwyd uchod, ceir y cyfeiriad cyntaf at Gelt yn y deunydd clasurol wrth i’r term ‘Keltoi’ gael ei ddefnyddio i ddisgrifio grŵp o bobl.[14] Noda Herodutus fod y Celtiaid, fel y gwyddai amdanynt, yn byw y tu hwnt i Bileri Ercwlff a chyfeiria at y cartref hwnnw fel ‘ek Kelton’,[15] sef ‘gwlad y Celt’, wrth drafod rhai digwyddiadau. Mae Pythos yntau yn trafod ‘Celtica’.[16] O’r awduron clasurol eraill, mae gan Aristoteles,[17] Callimachus,[18] Diodorus,[19] Cesar[20] a Strabo[21] gyfeiriadau at ‘Galiad’ neu ‘Geltiaid’. Erbyn hyn, defnyddir y termau hyn fel ei gilydd wrth gyfeirio at yr un bobl, ond mae lle i ddadlau a yw hyn yn cyd-fynd â defnydd gwreiddiol y termau.

Yr hyn a wneir yn y cyd-destun modern yw uno’r cyfeiriadau hyn â’i gilydd, gan greu grŵp unfath, neu o leiaf grwpiau sydd â chysylltiad agos rhyngddynt. Drwy wneud hynny, caiff y dystiolaeth ei fframio mewn ffordd benodol. Awgrymir cysylltiadau lle na fyddai rhai yn wreiddiol. Ni cheir yn y deunydd clasurol, er enghraifft, awgrym fod y ‘Galiaid’ y bu Cesar yn brwydro yn eu herbyn yn gysylltiedig â’r ‘Keltoi’ hynny a fu’n ymosod ar Delphi. Curadir y cyfeiriadau hyn mewn cyfrolau fel un John T. Koch, *The Celtic Heroic Age*, mewn

[14]Timothy P. Bridgman, ‘Keltoi, Galatai, Galli: Were They All One People?’ *Proceedings of the Harvard Celtic Colloquium,* 24/25 (2004/5), t. 156.
[15]Ibid.
[16] Ibid., t. 158.
[17] Ibid., t. 157.
[18] Ibid., t. 158.
[19] Ibid., t. 159.
[20] Ibid., t. 161.
[21] Ibid., t. 157.

dull defnyddiol i ysgolheigion yn y maes (ac mae'n adnodd a fu'n dra defnyddiol ar gyfer yr astudiaeth hon). Fodd bynnag, pwysig yw nodi y collir peth ar y cyd-destun gwreiddiol wrth wneud hynny, a megir cyd-destun newydd. Wrth gyfuno'r cyfeiriadau hyn, ensynnir bod cysylltiad cynhenid rhwng yr enwau a'r bobl a ddynodir ganddynt.

Hyd yn oed os derbynnir bod y bobloedd a fu'n byw ar y Cyfandir yn y cofnodion hynny yn gysylltiedig â'i gilydd, noder na soniodd yr un awdur clasurol am 'Geltiaid' yn byw ym Mhrydain. Cesar a ddaw agosaf at wneud hynny wrth nodi bod rhai llwythau Belgaidd wedi symud i Brydain,[22] a chymhara hwy â'r Galiaid, gan nodi fod rhai nodweddion o'u cymdeithas, megis arferion amaethu, yn debyg. [23] Roedd trigolion Prydain yn wahanol i'r 'Celtiaid' clasurol yng ngolwg Cesar, ac mae'r cyfieithiad yn ategu hynny gan gyfeirio atynt fel 'Prydeinwyr'.[24]

Yn wir, cyn derbyn y cofnodion clasurol fel tystiolaeth ddiamwys, dylid hefyd gofio bod arferiad ymysg awduron i ailgylchu deunydd hŷn yn eu gwaith. Dylanwadodd rhai cofnodion ar y rhai a'u dilynodd. Mae Posidoniws, yn enwedig, yn taflu cysgod hir. Honna ef ei fod yn llygad-dyst i'r hyn a geir yn ei gofnod,[25] a thrwy hynny, gellid dadlau bod ei weithiau'n nes at y gwir na gweithiau a ddefnyddiodd ddeunydd ail-law. O ganlyniad, defnyddir ei gofnod fel toriad rhwng dau gyfnod gwahanol yn y cofnodion clasurol.[26]

Er hyn, nid oes dim o'r gwaith gwreiddiol hwnnw'n bodoli bellach.[27] Ceir, felly, yn y corff o waith ôl-Bosidonaidd ddeunydd na allwn ei gymharu gyda'r gwreiddiol er mwyn cadarnhau ei agosrwydd ato. Mae'n anorfod y bu newidiadau drwy addasu a chamddehongli yng ngwaith awduron diweddarach megis Diodorus a Strabo. Gellid dadlau bod y pwyslais ar elfennau tebyg mewn gwahanol gymdeithasau Celtaidd yn dod yn sgil yr ailgylchu hwn, wrth i'r un deunydd gael ei droi i ddisgrifio gwahanol bobloedd.

Yn ddi-os hefyd (fel y twristiaid yn y Gogledd Dir y cyfeiriwyd atynt yn y Rhagymadrodd), mae gan bob cofnodwr ei ragfarn a'i fwriad unigol. Yn sicr, nid cynnig darlun cwbl ddiduedd i'r oesoedd a ddêl oedd bwriad y cofnodwyr clasurol. Fel yr ysgrifenwyr taith a drafodir isod maes o law yn y traethawd hwn, roedd cymhelliad a chefndir unigol y cofnodwyr yn effeithio ar eu portread. Yr amlycaf o ran ei gymhelliad yw Cesar wrth iddo ddisgrifio'r Galiaid pan oedd ar ganol brwydro yn eu herbyn. Gwnaeth yn yr un

[22] 'Celts: People', *Britannica*, <http://www.britannica.com/topic/Celt-people>; cyrchwyd 12 Medi 2019.
[23] John T. Koch (gol.), *The Celtic Heroic Age: Literary Sources for Ancient Celtic Europe & Early Ireland & Wales* (Aberystwyth: 2000), t. 24.
[24] Ibid., t. 23.
[25] Ibid., t. 5.
[26] Ibid., t. 5.
[27] Ibid., t. 5

modd yn ddiweddarach â thrigolion Prydain. Mae'n gwbl dryloyw ei gymhelliad, fel y noda Koch: 'Cæsar's discussion of Gaulish politics and civilisation was motivated largely by his desire to justify his military and political intervention in Gaulish politics.'[28]

Cynnig portread penodol oedd bwriad Cesar, sef un a fyddai'n cadarnhau nad oedd y trigolion cynhenid y brwydrai yn eu herbyn mor alluog â'r Rhufeiniaid. Yr un pryd, roedd yn bwysig iddo allu cynnig un a fyddai eto'n gallu cyfiawnhau ei fethiannau mewn brwydrau hefyd. Gan hynny, portreadir tactegau rhyfel y gelyn mewn modd penodol gan awgrymu eu bod yn rhai annheg na roddai gyfle i'r Rhufeiniaid ymbaratoi cyn i'r rhyfelwyr ymosod.[29] Felly, er iddo gael profiad uniongyrchol o ymwneud â 'Cheltiaid', ac er iddo deithio i'w plith, ni ellir ymddiried yn llwyr yn ei bortread. Darn o bropaganda gwleidyddol yw'r darlun a dynnir ganddo o'r bobloedd hyn.

Yn sicr, roedd portreadu gelyn yn rhan bwysig o'r cyfiawnhad dros ryfela, a gellid dadlau bod hyn yn rheswm dros bwysleisio'r tebygrwydd rhwng y portread o drigolion Prydain a Gâl yng nghofnodion Cesar. Yn hytrach na chreu gelyn o'r newydd, roedd hi'n haws cyfiawnhau ymgyrch yn erbyn mwy o Galiaid neu o leiaf garfan o bobl a oedd yn debyg iawn iddynt. Nid yn unig roedd y gelyn wedyn yn parhau'n un cyfarwydd ond roedd y gwaith o osod sylfeini'r portread wedi ei wneud eisoes. Trwy homogoneiddio'r gelyn hwylusai Cesar ei waith ei hun. Er bod ei waith yn nodi gwahaniaeth rhwng trigolion Prydain a'r Cyfandir, ceir yr argraff ganddo eu bod yn 'deip' arbennig o bobl, a bod math tebyg o ymgyrch filwriaethol yn debygol o weithio unwaith eto.

Agwedd imperialaidd yw hon, ac fel mewn ysgrifennu taith, portread o'r 'arall' a geir yn y cofnodion clasurol.[30] Ceir cyffredinoli, gorbwyslais ar rai agweddau, a diffyg trafod ar eraill, i gyd-fynd â naratif penodol. I'r perwyl hwnnw, dadleua Chapman fod 'Celt' ynddo'i hun yn derm propagandaidd dirmygus a oedd yn cyffredinoli'n fwriadol. Cynigia ei fod yn un a ddefnyddir ar gyfer sawl grŵp o bobloedd wahanol ac mai'r prif beth a'u daliai ynghyd oedd y ffaith nad oeddynt yn debyg i'r Rhufeiniaid a'r Groegiaid.[31] Hynny yw, 'barbariaid' y gogledd oedd y Celtiaid a digon annelwig oedd y diffiniad ohonynt y tu draw i hynny.

Mae gwahaniaeth mewn edrychiad yn ffordd hwylus o arallu, a chanolbwyntir ar y cosmetig a'r arwynebol wrth drafod y Celtiaid. Mae hynny'n rhan o'r esboniad ynghylch pam y crybwylla'r deunydd clasurol ymddangosiad y Celtiaid mor aml. Noda Chapman:

---

[28] Ibid., t. 20.
[29] Ibid., t. 25.
[30] Malcom Chapman, *The Celts- the Construction of a Myth* (Wiltshire: 1992), t. 31.
[31] Ibid., t. 33.

> A striking difference between the barbarians and themselves, for both Greek and Roman authors, was that the barbarian men wore lower body garments that parted at the crotch – trousers, so to speak.[32]

Afraid dweud nad oedd trowsusau yn unigryw i'r bobloedd hyn gan fod Mongoliaid a Scythiaid yn eu gwisgo,[33] ac mae cofnod archaeolegol o'u defnydd yn Tsieina rhwng 10 ac 13 C.C. yn ardal Yanghai.[34] Er y gall dilledyn nodi cefndir diwylliannol mewn rhai achlysuron, er hwylustod ymarferol y datblygodd y math hwn o ddilledyn yn hytrach na rhesymau diwylliannol.[35]

Nid yw 'Celt' yn y cyd-destun hwn yn fawr mwy na label allanol wedi ei osod ar gasgliad o wahanol bobloedd gan rymoedd imperialaidd mewn modd tebyg i'r term 'Indiaid Cochion', dyweder. Defnyddir y math hwn o derm yn aml gan rymoedd na feddant ar ddealltwriaeth lawn o'r bobloedd dan sylw ac nad ydynt yn ymwybodol o natur eu hunaniaeth. Ni ellir dibynnu ar y deunydd clasurol i gynnig prawf o wareiddiad Celtaidd, felly, gan mai ansad yw'r dystiolaeth a chan mai amwys yw cymhelliad y croniclwyr. Hyd yn oed pe byddai dadl dros ddefnyddio'r deunydd clasurol yn sail dros fodolaeth ymerodraeth Geltaidd yn yr ystyr modern, erys y ffaith mai diffiniad allanol yw 'Celt' yn y cyd-destun cynnar hwn. Parhaodd hynny tan yn gymharol ddiweddar.

Tystio i rym y cofnodwyr dros y cofnodedig a wna'r ffaith mai o'r deunydd hwn y tynnir ysbrydoliaeth llawer o'r hyn sy'n cael ei alw yn 'Geltaidd' ar lefel boblogaidd heddiw. Mae'r Derwyddon yn elfen amlwg a brofodd yn ddylanwadol ar gred unigolion modern ac ar bortreadau gweledol modern o Geltiaid. Serch hynny, anodd yw dod o hyd i olion dysg neu syniadaeth grefyddol y Derwyddon o ddarllen y cofnodion amdanynt. Cyfeirir atynt yn y deunydd clasurol,[36] ond mae'n amhosib dod o hyd i dystiolaeth i gadarnhau'r hyn a briodolwyd iddynt, boed hynny'n ddefnydd o uchelwydd mewn defodau, eu gallu athronyddol, neu eu harfer o aberthu defodol.[37] Fel nifer o'r pethau hynny sy'n diffinio

---

[32] Ibid., t. 37.
[33] 'Trousers', *Britannica*, <http://www.britannica.com/topic/trousers>; cyrchwyd 14 Medi 2020.
[34] Ulrike Beck, Mayke Wagnera, Xiao Lib, Desmond Durkin-Meisterernstc, Pavel E. Tarasovd, 'The invention of trousers and its likely affiliation with horseback riding and mobility: A case study of late 2nd millennium BC finds from Turfan in eastern Central Asia.', *Quaternary International*, 348 (Hydref 2014), t. 224.
[35] Ibid.
[36] Koch, *The Celtic Heroic Age*, tt. 30-6.
[37] Ibid., t. 13.

Celtigrwydd yn weledol, creadigaeth sy'n deillio o gamddealltwriaeth a chamddehongli rhamantaidd yw'r syniad o Dderwyddon barfog a wisgai ddillad llaes gwyn.[38]

Hanes tebyg sydd i laslys, yn ogystal, gyda thystiolaeth brin hyd yn oed yn y deunydd clasurol (o gofio pa mor boblogaidd yw'r darlun o'r Celt wedi'i liwio'n las a geir heddiw). Cesar yw'r un a rydd ddisgrifiad uniongyrchol o'r arferiad wrth iddo nodi: 'mae'r holl Frythoniaid yn paentio eu crwyn gyda glaslys sydd yn rhoi lliw glas iddynt ac ymddangosiad arswydus mewn brwydr'.[39] Gan mai prin yw'r olion o gyrff o'r Oes Haearn, yn enwedig ym Mhrydain,[40] a bod dod o hyd i groen wedi ei gadw heb bydru neu ddirywio yn anghyffredin iawn, mae cadarnhau neu wrthbrofi'r cofnod hwn yn anodd. Er nad yw diffyg tystiolaeth yn dystiolaeth ynddi'i hun, mae hyn, yn ogystal â chymhelliad Cesar i gynnig portread brawychus o frodorion y mae'n brwydro'n eu herbyn, yn rhywbeth y dylid bod yn ymwybodol ohono wrth feddwl am yr hyn sydd yn diffinio 'Celt' i ni heddiw.

Ai cyrraedd Prydain yn ystod yr Oes Haearn yn bennaf mewn tonnau o fudo a wnaeth y Celt fel y credid tan yn gymharol ddiweddar?[41] Mae olrhain union ddechreuad y mudo honedig hwn yn heriol fel y noda James,[42] er bod y cysyniad yn un cyfarwydd yng ngwaith haneswyr cynharach. Dyma ran bwysig o sylfaen pan-Geltigrwydd, hynny yw, y gred bod trigolion presennol y gwledydd 'Celtaidd' yn hanu o'r un cyndeidiau annelwig a deithiodd ar draws Ewrop gan oroesi yn y pen draw ar y Ffin Geltaidd neu'r 'Celtic Fringe' gan rannu cysylltiad genynnol. Unwaith eto, nid oes sicrwydd empirig i'r mudo hwnnw ddigwydd. Dadleua James mai dehongliad, nid ffaith hanesyddol, yw bodolaeth y Celt o gwbl: 'It has absolutely no ancient pedigree: it is a modern interpretation, not unambiguous historical truth.'[43]

Nid yn yr Oes Haearn y daeth y Celtiaid i Brydain, felly, ond yn hytrach yn ystod y ddeunawfed ganrif wrth i'r ymchwydd mewn diddordeb yn y gair 'Celtaidd' ennill tir. Dyfodiad syniadaethol yn hytrach nag un a seiliwyd ar fudiad pobloedd ydoedd ac un a ddeilliai yn rhannol o ddryswch academaidd wedi ei seilio ar dystiolaeth ddiffygiol. Damcaniaethodd Paul Yves-Pezron yn anghywir mai iaith a oroesodd ers dyddiau'r Galiaid oedd Llydaweg ac arweiniodd ei gred iddi groesi i Brydain at ei ddefnydd o'r label

[38] 'Druids', *Britannica*, < http://www.britishmuseum.org/explore/highlights/articles/d/the_druids.aspx>; cyrchwyd 14 Tachwedd 2020.
[39] Koch, *The Celtic Heroic Age*, t. 24.
[40] 'Burial and funeral rites in Iron Age Britain', *britishmuseum.org*, <http://www.britishmuseum.org/explore/highlights/article_index/b/burial_rites,_iron_age_britain.aspx>; cyrchwyd 14 Tachwedd 2020.
[41] James, *The Atlantic Celts*, t. 29.
[42] Ibid., t. 26.
[43] Ibid., t. 16.

'Celtaidd'. Mewn gwirionedd, digwyddodd y gwrthwyneb wrth i Lydaweg gyrraedd y cyfandir o Brydain.[44] Defnyddiwyd y label 'Celtaidd' yn ddiweddarach gan Edward Lhuyd wrth drafod Gwyddelod, y Cymry ac Albanwyr, gan ehangu'r diffiniad gwreiddiol.[45] Effaith hyn oedd gosod gwreiddiau'r syniad mai Celtiaid oedd trigolion hynafol Prydain, haeriad a gymerwyd yn ganiatäol wedi hynny, fel y trafodir isod.

Celtigrwydd: Y Dystiolaeth Archaeolegol

Wrth drafod mudo 'Celtaidd', mae olion diriaethol archaeolegol yn cael eu defnyddio o blaid y theori honno. Ond mae syniadaeth ac ideoleg yn chwarae rôl bwysig wrth drafod yr olion hynny hefyd. Gwrthrychau Hallstatt ynghyd â La Tène sy'n arddangos y ddwy arddull Geltaidd enwocaf, a bu darganfyddiadau Hallstastt yn 1846 a La Tène yn 1857 yn dra dylanwadol wrth drafod y syniad o ddiwylliant Celtaidd. Yn anffodus, nid oedd dulliau cofnodi archaeolegol ar y pryd o'r un safon ag y maent heddiw, sy'n golygu fod rhai bylchau yn y dystiolaeth. Mae hyn yn wir yn enwedig yn achos La Tène, gan na chafodd yr arteffactau eu cofnodi'n llawn nes iddynt gyrraedd catalog ocsiwn, a hynny wedi i ladron fod yn dwyn o'r safle.[46] Mae hanes Hallstatt yn fwy eglur gyda chofnodi mwy safonol nag a oedd yn arferol yn y cyfnod wedi ei wneud, a hynny pan ddarganfuwyd y deunydd cyntaf.[47] Mewn archaeoleg, mae cyd-destun yn hollbwysig wrth ddyddio a dadansoddi; o Hallstatt y ceir y darlun cywiraf gydag olion yno cynorthwyo'r darlun.

Bu dadlau ar y pryd a oedd deunydd La Tène yn wirioneddol 'Geltiadd',[48] er ei fod bellach yn cael ei weld yn enghraifft gynrychioliadol o gelfyddyd y Celtiaid. Ferdinand Keller, archaeolegydd o'r Swistir, a lwyddodd i ddadlau o blaid y priodoliad wedi iddo ddefnyddio gwaith Augustus Franks yn sail i'w ddehongliadau. Deilliai gwaith Franks yn rhannol o ddehongliad Lhuyd wrth i'w ddiffiniad o 'late Keltic Art'[49] gynnwys deunydd o Brydain a oedd, fel henebion Côr y Cewri, yn ei dyb ef yn 'Geltaidd' oherwydd eu cysylltiad â hynafion Prydain.

Tybiwyd fod deunydd fel broets Tara [50] a tharian Battersea[51] (a ddarganfuwyd yn y 1850au) yn 'Geltaidd' am resymau tebyg ac am nad oeddent yn gweddu i gategorïau eraill fel

---

[44] John Collis, *The Celts, Origins Myths & Inventions* (Stroud: 2003), t. 223.
[45] Ibid., t. 12. Gweler hefyd tt. 49-52.
[46] Ibid., t. 75.
[47] Ibid., t. 74.
[48] Michael A. Morse, *How the Celts Came to Britain, Druids, Ancient Skulls and the Birth of Archaeology* (Stroud: 2005), t. 140.
[49] Collis, *The Celts,* t. 82.
[50] Ibid. t. 80.

'Llychlynnaidd' neu 'Sacsonaidd'.[52] Gan fod deunydd La Tène yn debyg, datblygodd dadl gylchol o fath wrth i ddeunydd Celtaidd fod yn Geltaidd am ei fod yn dod o ardaloedd Celtaidd. Y cam nesaf oedd dynodi'r ardaloedd hynny'n rhai Celtaidd am fod y deunydd i'w gael ynddynt.

Wrth i anthropoleg fagu gafael ar archaeoleg, ac wrth i arteffactau ddod yn olion i'w dadansoddi er mwyn ennyn syniad o gymuned yn hytrach na deunydd i'w ddyddio'n unig,[53] galwyd La Tène a Hallstatt yn 'ddiwylliannau'. Dadleuwyd wedi hynny fod symudiad y deunydd hwn o La Tène a Hallstatt yn gyfystyr â symud y bobloedd a'i creodd yn hytrach na bod masnachu rhwng unigolion neu rannu syniadau'n gyfrifol am hynny. Cynigiwyd, felly, bod mudo yn gyfrifol am ddarganfod deunydd tebyg mewn gwahanol leoliadau. Llwydda Chapman i ddefnyddio trosiad cyfoes i ddangos nad yw dadl o'r fath yn gywir o anghenraid:

> Archaeologists, looking back on the twentieth century, may notice that the Coca-Cola bottle had spread throughout the world by 1950 and had been completely replaced by the Coca-Cola can in many locations by 1990. We know, however, that they would be wrong to conclude [...] that the Coca-Cola bottle people had emerged from North America, and spread throughout the world, massacring all others as they went; or that they in their turn had been displaced and massacred by the Coca-Cola can people.[54]

Er bod defnyddio olion diriaethol yn rhan hanfodol o archaeoleg, dylid bod yn wyliadwrus wrth briodoli hunaniaeth i bobl gan ddefnyddio'r olion hynny. Ni cheir y darlun llawn, neu fel yn achos Celtigrwydd, ceir darlun wedi ei ystumio a rhaid cwestiynu a yw'r cysyniad poblogaidd o'r gorffennol Celtaidd yn un y gellir dibynnu arno, yn enwedig wrth feddwl am briodoli ethnigrwydd a thrafod cysylltiadau mewn cyd-destun modern.

Mater dadleuol arall yw priodoli hunaniaeth a strwythur cymdeithasol gan ddefnyddio olion diriaethol. Noda Collis[55] a James[56] fod disgrifio Hallstatt a La Tène fel 'diwylliannau' yn broblematig ac y dylid gochel rhag rhoi gormod o bwyslais ar olion o'r fath yn unig. Noda'r ddau, nid yn unig fod diwylliant yn beth ehangach na'r olion diriaethol a adawyd ar ôl ganddo, ond bod y dystiolaeth ei hun heb fod yn gwbl ddibynadwy. Serch hynny, mae'r meddylfryd hwn wedi hydreiddio'r disgẃrs am y Celtiaid. Mae geiriad brawddeg, hyd yn oed, yn gallu gwneud gwahaniaeth. Er enghraifft: 'The earliest ironsmiths made daggers of

---

[51] Ibid., t. 82.
[52] Ibid., tt. 82-3.
[53] Ibid., t. 86. Gweler, hefyd, James, *The Atlantic Celts,* t. 59.
[54] Chapman, *The Celts,* t. 43.
[55] Collis, *The Celts,* t. 224.
[56] James, *The Atlantic Celts,* tt. 59-60.

the Hallstatt type but of a distinctively British form.'[57] Yma, awgrymir cysylltiad cryfach rhwng Hallstatt a Phrydain nag a allai fod mewn gwirionedd. Awgrymir mai dylanwad Hallstatt yw'r peth amlycaf am y gyllell dan sylw, a bod y nodweddion unigryw hynny a berthynai i Brydain yn eilradd i hynny. Byddai nodi, 'The earliest ironsmiths made daggers of a distinctively British form with elements of the Hallstatt type', yn rhoi argraff dra gwahanol. Trwy edrych ar ddehongliadau a datganiadau fel hyn yn feirniadol, gwelir mai pur ansad yw'r dystiolaeth am 'ddiwylliant Celtaidd' eang ac unffurf.

Hyd yn oed heb dystiolaeth archaeolegol, bu'r syniad mai Celtiaid oedd trigolion cynharaf Prydain yn un poblogaidd a hirhoedlog.[58] Magodd 'Celtigrwydd' dir fel ffenomen yn y cyfnod modern, diolch, yn anad neb, i Ernest Renan a Matthew Arnold. Dyma ddau grëwr y cysyniad poblogaidd o Gelt, ac mae modd olrhain eu dylanwad trwy gydol yr ugeinfed ganrif hyd heddiw. Er bod ymwybyddiaeth o'r term 'Celtiaid', a'r cysyniad o Geltigrwydd, yn bodoli cyn y ddeunawfed ganrif, pan ddefnyddiwyd y term 'Celtaidd' gan Edward Lhuyd yn y ganrif honno,[59] diffiniad ieithyddol oedd ganddo ac nid ehangodd ei gyfoeswr, Paul Yves-Pezron, ar y diffiniad ychwaith pan gyfeiriodd yntau at ieithoedd Celtaidd.[60]

Ni chymerodd lawer o amser i'r term fagu ystyr tebyg i'r hyn a geir heddiw, fodd bynnag, a deilliodd y ddealltwriaeth honno o gamargraff mai trigolion cynharaf Prydain oedd y Celtiaid. Cysylltwyd henebion â Cheltiaid heb sail ffeithiol, dim ond y dybiaeth mai Celtiaid oedd y bobl fwyaf hynafol a fu'n byw ym Mhrydain.  Erbyn 1723 cyfeiriodd Henry Rowland ato ef ei hun a Chymry eraill fel 'We the Celate',[61] yn ei gyfrol, *Mona Antiqua Restaurata: An Archaeological Discourse on the Antiquities, Natural and Historical, of the Isle of Anglesey, the Ancient Seat of the Britith Druids,* ac ni newidiwyd y cyfeiriad yn ailargraffiad 1766.[62] Dyma label a goleddai gysylltiad rhwng trigolion Môn oes Rowland a rhai cyn-hanesyddol.

Nododd Lewis F. Mott fel y bu i Ernest Renan, yntau, ganrif yn ddiweddarach, fod yn rym dylanwadol ar y syniadau hyn gan 'stabilize these ideas and bring them fully into consciousness'.[63] Profodd lwyddiant mawr wrth grynhoi a rhoi siâp strwythuredig i'r

---

[57] Paul R. Josephson, 'United Kingdom', *Britannica*,< http://www.britannica.com/EBcheckedtopic/615557/United-Kingdom/44734/Iron-Age#ref482452>; cyrchwyd 8 Mehefin 2020.
[58] James, *The Atlantic Celts*, t. 47.
[59] Morse, *How the Celts Came to Britain*, t. 20.
[60] Ibid., t. 21.
[61] James, *The Atlantic Celts*, t. 47.
[62] Henry Rowlands, *Mona Antiqua Restaurata: An Archaeological Discourse on the Antiquities, Natural and Historical, of the Isle of Anglesey, the Antient Seat of the British Druids* (London: 1766), t. 55.
[63] Lewis F. Mott, 'Renan and Matthew Arnold', *Modern Language Journal,* 2 (1918), gwefan *JSTOR*, <http://www.jstor.org/stable/2915405>; cyrchwyd 12 Rhagfyr 2020.

syniadau annelwig hyn yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Drwy ei waith ef a Matthew Arnold (yn ddiweddarach yn y ganrif honno), poblogeiddiwyd y syniad o Geltigrwydd a chyrhaeddodd gynulleidfa ehangach. Gan Arnold, cafodd Celtigrwydd gyd-destun penodol Gymreig wrth iddo ddod â bywyd yr Eisteddfod yn rhan o'i drafodaeth am anian y Celt. Fel un a oedd yn mwynhau gwyliau yng Nghymru ac a feddai gysylltiad â'r wlad, nid yw'n syndod fod y Cymry a Chymru yn cael cymaint o sylw ganddo yn ei gyfrol, *On The Study of Celtic Literature,* a gyhoeddwyd yn 1891.[64] Yn wir, pan fo'n lleoliad Eisteddfod, daw Llandudno'n drosiad ehangach o'r hyn sydd yn diffinio 'Celt', wrth i'r ardal honno gael ei chyferbynnu â Lloegr Diwtonaidd. Ynddi, ceir 'eternal softness and the mild light of the west',[65] o gymharu â 'Saxon hive'[66] ddiwydiannol Lerpwl. Cyfeirir yn anuniongyrchol at gysylltiad Môn â Derwyddiaeth ganddo hefyd wrth iddo nodi, 'the low line of the mystic Anglesey.'[67] Yna, try at Garnedd Dafydd a Charnedd Llywelyn sydd yn etheraidd eu naws: 'fading away, hill behind hill, in an aërial haze'.[68] Dyma ddelfrydu barddonol rhamantaidd o leoliad a oedd yn un poblogaidd gyda thwristiaid Seisnig. Pa ryfedd i Arnold fel un a ddôi ar ei wyliau i Gymru weld y wlad fel encil oesol, ddigyfnewid a Cheltaidd?

Yn llythrennol, felly, o gofio ei ddisgrifiad o Fôn hudolus, ceir y portread o 'ynys baradwys bell',[69] chwedl Alun Llywelyn-Williams, y byddai beirdd rhamantaidd yn dyheu am gael dianc iddi. O ramantu'r dirwedd yn y fath fodd, nid yw'n syndod i'r trigolion a oedd yn byw ynddi gael eu trin yn yr un modd. Wrth fyw mewn ynys 'Geltaidd' ei naws, dôi'r trigolion hwythau'n fath o 'Geltiaid' modern.

Yn nisgrifiad Arnold o Gymru, cawn grynhoad o'i ganfyddiad o Geltiaid yn ehangach:

> Wales, where the past still lives, where every place has its tradition, every name its poetry, and where the people, the genuine people, still knows this past, this tradition, this poetry, and lives with it, and clings to it.[70]

---

[64] Mathew Arnold, *On The Study of Celtic Literature: Popular Edition* (London: 1912), t. 1.
[65] Ibid., t. 2.
[66] Ibid., t. 1.
[67] Ibid., t. 2.
[68] Ibid. Clywir adleisiau o ramantu o'r fath mewn hysbysebion twristiaid heddiw wrth i natur gyfrin Geltaidd Cymru gael ei defnyddio o hyd i hudo ymwelwyr. Gweler, er enghraifft, ymgyrch 'Blwyddyn y Chwedlau' a bortreadodd Cymru fel gwlad chwedlonol ac a ddefnyddiodd Luke Evans, actor a oedd, ar y pryd, yn adnabyddus fel un o sêr cyfres ffilmiau ffantasi poblogaidd *The Hobbit*; *WalesOnline*, <https://www.walesonline.co.uk/lifestyle/showbiz/hollywood-star-luke-evans-stars-12674528>, cyrchwyd 3 Mehefin 2021. Gweler hefyd y wefan 'Llwybrau Celtaidd' sydd yn hybu teithiau 'Celtaidd' eu naws: <https://llwybrauceltaidd.cymru/>, cyrchwyd 3 Mehefin 2021. Mae gwefan 'Visit Wales' hefyd yn cynnig teithiau Celtaidd fel yr un isod i feicwyr; <https://www.visitwales.com/things-do/adventure-and-activities/cycling-and-mountain-biking/celtic-trail-journey-discovery> , cyrchwyd 3 Mehefin 2021.
[69] Alun Llywelyn-Williams, *Y Nos, y Niwl a'r Ynys: Agweddau ar y Profiad Rhamantaidd yng Nghymru 1890-1914* (Caerdydd: 1960), t. 108.
[70] Arnold, *On The Study of Celtic Literature,* t. 2.

Yma, mae'r diamseredd yn creu cysylltiad anorfod, ym meddwl Arnold, sy'n clymu'r Celtiaid hanesyddol â'r rhai modern. Ceir hefyd awgrym o dynged anorfod y Celtiaid i edwino'n ddim a cholli rhan o'u hanian, wrth ddangos y Cymry yn 'crafangu' ('cling') i ddal gafael ar eu gorffennol a'u traddodiadau. Tybed hefyd nad yw'r ferf 'cling' yn nodi peth o siomedigaeth Arnold gyda'r ystyfnigrwydd nodweddiadol Geltaidd a nodweddai rai o'r Cymry a oedd yn cydoesi ag ef i beidio â rhoi'r gorau i'w hiaith a dod yn rhan o deulu ymerodraethol ehangach Prydain imperialaidd? Yn sicr, mae'r ferf yn un amwys yn y cyd-destun hwn ac yn cyfleu'n dda agwedd ddeublyg Arnold at y Celtiaid — ei barodrwydd i fawrygu eu rhamant ond hefyd ei awydd i wadu unrhyw rym gwirioneddol iddynt.

Caiff rhethreg debyg ei thrafod gan Edward Said yn ei gyfrol, *Orientalism*, ac mae modd cymharu'r naratifau sy'n dwyreinioli (*orientalize*) â'r rhai sy'n trafod y Celt. Adleisir yn benodol y syniad diamser hwn gan Said wrth iddo drafod y cymunedau hynny a ddarluniwyd gan Orientaliaeth: 'The very possibility of development, transformation, human movement - in the deepest sense of the word - is denied the Orient and the Oriental.'[71] Mae'r gymysgfa sydd yn ymddangos yn wrthgyferbyniol i lygaid modern — rhwng y nawddogi ar y naill law a'r mawrygu ar y llaw arall —- i'w cael mewn Orientaliaeth a Cheltigrwydd fel ei gilydd. Nododd Llŷr Gwyn Lewis yn ei astudiaeth o Geltigrwydd T. Gwynn Jones a W. B. Yeats fod gan Geltigrwydd dueddiad i 'gyffredinoli, lleihau, a hanfodoli',[72] sy'n adleisio'r naratif Orientalaidd pan fo hithau'n trafod yr 'arall'. Yn eironig ddigon, gwelir yn yr astudiaeth hon sut y mae rhai o'r disgrifiadau o drigolion Llydaw ac Iwerddon gan Gymry Cymraeg yn gogwyddo tuag at yr arfer hwnnw, fel petai un garfan o 'Geltiaid' modern wedi mewnoli'r ideoleg imperialaidd a'i defnyddio wrth drafod carfanau 'Celtaidd' eraill.

Ceir adlais o ddisgrifiad Said o'r Dwyrain yng nghynllun Arnold i uno'r Celtiaid â'r byd Seisnig hefyd: 'Their great moments were in the past; they are useful in the modern world only because the powerful and up-to-date empires have effectively brought them out of the wretchedness of their decline [...]'.[73] Nid cael gwared ar Geltiaid oedd bwriad Arnold, ond yn hytrach greu uniad rhwng dwy 'hil' y Celt a'r Sacson er budd y ddwy. Byddai bywyd diwylliannol Lloegr yn cael ei gyfoethogi a byddai'r Celt yn gallu parhau i fyw drwy hynny yn hytrach na darfod â bod. Defnyddio'r Celt fel antithesis i'r Tiwton Sacsonaidd a wnaeth Arnold felly, a hynny er mwyn cwblhau ymgyrch ideolegol bersonol. Credai fod philistiaeth

---

[71] Edward Said, *Orientalism* (London: 2003), t. 208.
[72] Llŷr Gwyn Lewis, '"Newydd gân a luniodd i'w genedl": Agweddau ar Geltigrwydd T. Gwynn Jones a W. B. Yeats, 1890-1925' (Traethawd PhD heb ei gyhoeddi, Prifysgol Caerdydd, Caerdydd: 2014) t. 37.
[73] Ibid., t. 33.

wedi magu gafael ar y gymdeithas Fictoriaidd ac y dylid brwydro yn erbyn hynny.[74] Ym marn Arnold, meddai'r Celt ar y nodweddion hynny a allai achub y gymdeithas Seisnig a gwyrdroi effeithiau'r Philistiaeth: 'On the side of beauty and taste, vulgarity; on the side of morals and feeling, coarseness; on the side of mind and spirit, unintelligence,- this is philistinism.'[75] Wrth 'ddatblygu', collodd Lloegr rywbeth gwerthfawr, ym meddwl Arnold, ac roedd gan y Celt cyntefig, diamser feddiant ar rywbeth llawer mwy gwerthfawr na diwydiant cyfalafol. Adleisir athroniaeth yr anwar nobl yma, gyda diffygion y byd modern yn cael eu cyfosod gyda rhyddid cyntefig y Celt.

Yn y cyd-destun hwn, llwydda Arnold i ganmol yn ogystal â chondemnio. Mae ei waith yn bleidiol i'r Celt drwodd a thro, ac arweiniodd hynny at dderbyniad mwy gwresog o blith y Cymry i'w faniffesto nag fel arall. Noda, er enghraifft, natur greadigol, ysbrydol y Celt: 'Take the more spiritual arts of music and poetry. All that emotion alone can do in music the Celt has done [...] In poetry again [...] the Celt has shown genius, indeed, splendid genius.'[76] Dyma nodwedd sy'n cael ei choleddu hyd heddiw gan artistiaid a'i defnyddio i droi dŵr i ambell felin.[77]

Yn sgil y meddylfryd hwn, buan y daeth y cysyniad o rywbeth 'Celtaidd', nid yn unig yn nodyn hunaniaeth i unigolyn, ond hefyd yn ansoddair ac yn nodwedd fesuradwy. Digon amlwg oedd elfennau pasiantaidd Derwyddol yr Eisteddfod Genedlaethol erbyn Oes Fictoria, er enghraifft, a rhoddwyd y Gadair yn 1903 am awdl ar y testun 'Y Celt'. Nododd y beirniaid y bu i'r buddugwr, y Parchedig J. T. Job, lwyddo am fod ei awdl yn 'fwy Celtaidd' nag eiddo'r ymgeiswyr eraill.[78] Dewiswyd pigion o'r awdl fuddugol a'u cynnwys yng nghylchgrawn *Y Gymraes* yn 1904,[79] ac mae'r detholiad yn arwyddocaol yn ei 'Geltigrwydd', fel y dengys yr englynion canlynol:

---

[74] Arnold, *On The Study of Celtic Literature,* t. 151.
[75] Ibid., t. x.
[76] Arnold, *On The Study of Celtic Literature,* tt. 86-7.
[77] Gweler, er enghraifft, y fideo gerddorol gan yr artist 'Gwenno', *Celtic Legend "Ysolt Ynn Gweinten" feat Gwenno Saunders*, a wna ddefnydd o ddelweddaeth Geltaidd a Derwyddol gan gynnwys meini hirion a chromlechau a dillad llaesion; < https://www.youtube.com/watch?v=PYMhh6u3nks>; cyrchwyd 3 Mehefin 2021. Mae'r fideo "*Eus Keus?"* ganddi hefyd yn gwneud defnydd o ddelweddaeth 'Geltaidd' esoteraidd ei naws; < https://www.youtube.com/watch?v=6_U9yh6ivjc>; cyrchwyd 3 Mehefin 2021. Gellir hefyd weld defnydd o'r gair 'Celtaidd' fel disgrifair ar gyfer gwaith artistiaid eraill megis Casi Wyn gyda'r wefan *swnfest,* yn disgrifio ei gwaith fel a ganlyn: 'One foot in Celtic mysticism and Welsh folksong, one in the world of crisp electronic beats' ; <https://swnfest.com/casi/> cyrchwyd 3 Mehefin 2021.
[78] Dyfed, 'Beirniadaeth Cystadleuaeth y Gadair', yn E. Vincent Evans (gol.), *Cofnodion a Chyfansoddiadau Eisteddfod Genedlaethol 1903* (Caerdydd: 1903), t. 11.
[79] J. T Job, 'Bardd Cadeiriol Llanelli', *Y Gymraes; Cyhoeddiad Misol Darluniadol i Ferched Cymru* (8/89) t. 25.

Oludog Gelt! Gwlad y Gân — a gedwaust,[*sic*]
Er gwad a chyflafan ;
Eithr nid ei thir — ond ei than [*sic*]
A'i hathrylith oreulan.

Fflamdan fu dy anian di, — heriasai'r
Oesoedd i'w diffoddi ;
A than [*sic*] yw'r gân a geni—
Rhewa haul cyn oera hi![80]

Adleisir yma yn eglur y naratif Arnoldaidd o golled, anian greadigol, a'r ysfa i ddal gafael ar fuddugoliaeth er mai colli a wneir yn y pen draw. Enwir y 'splendid genius'[81] hwnnw y soniodd Arnold amdano yn esgyll yr englyn cyntaf, a gwelwn sut y mae'r Celt gwrthryfelgar, creadigol a ddioddefodd golledion wedi magu gafael yn nychymyg y Cymry. Yr hyn a olygir gan 'fwy Celtaidd' y beirniaid yw bod awdl Job yn cadw at y syniadau hynny a boblogeiddiwyd gan Arnold. Ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, felly, roedd y syniadau hyn wedi ymdreiddio'n ddwfn i'r diwylliant llenyddol Cymraeg.

*Exotica* o fath oedd y Celtiaid i Arnold, er mor ganmoliaethus ydoedd ohonynt a'u cynefinoedd. Fel y Rhufeiniaid a'r Groegiaid gynt, portread arwynebol a geir ganddo ac un a yrrwyd gan resymau a rhagfarnau personol. Fel un y dylanwadwyd arno gan feddylfryd ei oes, daeth yr hil Geltaidd, fel 'hilioedd' neu bobloedd eraill, yn un i'w chategoreiddio a'i defnyddio er budd imperialaidd. Yn yr un cyfnod, ceisiodd unigolion fel John Beddoe, drwy ddulliau ffrenoleg a disgrifiadau allanol, nodweddu'r 'Celtiaid' a oedd yn byw ym Mhrydain yn hil wahanol i'r Saeson, gan fynnu eu bod yn hil 'Africanoid'.[82] Nododd hefyd ei gred eu bod yn ddisgynyddion y Cromagnon, a hynny ar sail y ffaith eu bod yn 'prognathous' yn hytrach nag 'orthognathous', hynny yw, bod ganddynt enau amlwg. Roedd hyn, bid siŵr, yn eu gwneud yn fwy cyntefig.[83] Nid oedd naratif a oedd yn dad-ddynoli i'r fath raddau yn un anghyfarwydd yn y cyfnod, a noder yma sut y cymharodd yr awdur Charles Kinglesy y Gwyddelod i epaod:

> But I am haunted by the human chimpanzees I saw along that hundred miles of horrible country. I don't believe they are our fault [...] But to see white chimpanzees is dreadful; if

[80] Ibid.
[81] Arnold, *On The Study of Celtic Literature,* tt. 86-7.
[82] John Beddoe*, The Races of Britain; a Contribution to the Anthropology of Western Europe* (Bristol: 1885), t. 11.
[83] Ibid., tt. 10-11.

> they were black, one would not feel it so much, but their skins, except where tanned by exposure, are as white as ours.[84]

Yn sicr, ni cheisir honni yma bod y disgrifiadau hyn o Geltiaid yr un mor niweidiol â rhai hiliol y meddylfryd imperialaidd Prydeinig yn Oes Fictoria. Ni cheisir ychwaith ddarlunio 'Y Celtiaid' fel endidau ar wahân i'r ymerodraeth honno (derbynnir y ffaith ddigamsyniol i Gymry a Chymry Cymraeg fod yn rhan hapus o beirianwaith imperialaidd Prydain am genedlaethau). Nodir yn hytrach fod agweddau oes benodol, effaith anorfod yr ysfa imperialaidd i ddosbarthu, a dylanwad meddwl am bobloedd yn nhermau hil yn cael effaith ar feddylfryd a bydolwg y sawl a oedd yn byw ynddi. Ni ddylai fod yn syndod, felly, fod Arnold yn cyfeirio at yr 'hil Geltaidd',[85] a bod disgrifiadau o'r 'arall' nad oedd yn Seisnig yn defnyddio ymadroddion cyffredin a dulliau tebyg o drafod. O ystyried natur hollbresennol meddylfryd o'r fath dros gyfnod estynedig, ni ddylai'r ffaith fod Cymry, wrth drafod yr arall Llydewig neu Wyddelig, yn adleisio naratifau o'r fath, serch eu bod yn honni bod yn wrth-drefedigaethol neu'n Geltigwyr mawr, fod yn syndod. Cymaint yw grym syniadaethau nes bod angen graddau mawr o hunanymwybyddiaeth i weithredu yn eu herbyn. Yn sicr, mae'r testunau a astudir yn y traethawd hwn yn dyst i hynny, ac i hirhoedledd y dull Fictoraidd o synio am y 'Celt'.

Mae cyd-destun crefyddol yr oes hefyd yn cynnig cipolwg ar batrymau meddwl a fagodd syniad penodol am Geltiaid, gyda'r cysyniad o fudo ar batrwm Beiblaidd yn cael ei briodoli i naratif Celtaidd. Rhoddodd hanes meibion Noa a'r bobloedd homogenaidd a ddeilliodd o'u llinach batrwm o fath penodol hefyd, sef pobloedd a feddai nodweddion unfath a chynhenid.[86] Yn yr un modd, ceir effaith cyd-destun ymerodraethol ehangach wrth i'r syniad o 'gyntefigion' ddod yn gynyddol bwysig i gyfiawnhau gorthrwm ac ecsbloetio ar raddfa eang. At ddibenion ymerodraeth, hybwyd y syniad o frodorion heb allu cynhenid i newid na 'datblygu' heb ddylanwad allanol. [87] Honnwyd mai mudo allanol oedd wedi gyrru datblygiad y Celtiaid ac felly, roedd yn rhaid i frodorion wella eu safle drwy dderbyn 'cymorth' allanol. Cymaint oedd grym y syniad hwn nes fod dehongli archaeolegol yn cael ei effeithio ganddo hefyd. Yn unol â syniadaeth o'r fath, roedd yn rhaid bod esboniad allanol am y newid graddol mewn arteffactau, dulliau claddu neu arferion eraill:

---

[84] Dyfynnir gan Edna Duffy, ' "As White as Ours": Africa, Ireland, Imperial Panic, and the Effects of British Race Discourse', yn Graham MacPhee, Prem Poddar (goln.), *Empire and After: Englishness in Postcolonial Perspective* (Oxford: 2010), t. 25.
[85] Arnold, *On The Study of Celtic Literature,* t. xi.
[86] Genesis, pennod 10, *Y Beibl* (Llundain: 1986), t. 13.
[87] James Hunt, *On the Negro's Place in Nature* (London: 1863), t. 31.

> If societies did not innovate, then changes – such as new ranges of artefacts, styles of art, types of monument or burial rite – had to be explained by incursions of people from elsewhere.[88]

Nid oedd modd, felly, i bobl frodorol Prydain addasu yn yr Oes Efydd a datblygu fel cymdeithas neu gasgliad o gymdeithasau ar wahân: rhaid bod tonnau o fudo o'r cyfandir yn gyfrifol am hynny. Nid gwadu'r cysyniad o fudo yn gyfan gwbl yw bwriad y ddadl uchod. Cwestiynir yn hytrach ai dyna'r unig reswm dros newidiadau yn y cofnod archaeolegol. Fel y noda Chapman: 'It is surely necessary, however, to take into account the possibility that what were moving across the map were names and fashions, not people at all.'[89]Atgyfnerthwyd y darlun o griwiau unfath o bobl a thrwy hynny ddarlun unfath o'r gorffennol yn gyffredinol; canlyniad hyn oedd hybu syniad oesol a diamser o'r Celt. Roedd y fath bortread, nid yn unig yn gweddu i'r meddylfryd imperialaidd yn Oes Fictoria, fel y nodwyd eisoes, ond hefyd o fudd i naratifau cyfoes ar y pryd am wledydd Celtaidd. Roedd manteision diriaethol i'r rheiny a feddai rym i hybu'r syniad hwn o Gelt, er enghraifft, gwleidyddion a deallusion fel Robert Knox a ddadleuai yn erbyn hunanlywodraeth yn Iwerddon.[90] Heb allu i newid a datblygu yn rhan o'u cyfansoddiad, dadleuodd na allai Iwerddon ei rheoli ei hun am na feddai Gwyddelod y gallu i droi eu llaw at wleidyddiaeth fodern. Mae hi'n werth nodi i Knox ddadlau dros lawer gwaeth na hynny hefyd, gan gynnwys glanhau ethnig i waredu'r 'hil Geltiadd' o'r tir.[91] Dyma syniadaeth a oedd wedi ei seilio ar yr ystrydebau Celtaidd a oedd yn bwydo'i ddisgrifiad o'r 'hil' honno.

Yn wir, bu i Matthew Arnold yntau geisio llesteirio'r deffroad gwleidyddol yn y gwledydd Celtaidd a cheisio atal y mudiad 'Home Rule' rhag ehangu.[92] O nodi'r disgrifiad, 'vernacular racist epithet',[93] a nodwyd gan Chapman i ddisgrifio'r gair 'Celt' yn wreiddiol, ymddengys bod elfen o hynny'n wir yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg ac yn negawdau cynnar yr ugeinfed ganrif. Hyd yn oed mewn portreadau cymharol ganmoliaethus fel un Arnold, mae'r gwreiddiau hyn i'w gweld ac mae ei agwedd nawddoglyd yn amlwg yn ei ddisgrifiadau o'r Cymry a'r Celtiaid yn ehangach. Pleidiol i fath arbennig o ddatblygiad yr oedd Arnold, fel y dangosodd ei gefnogaeth i adroddiad y Llyfrau Gleision.[94] Fel term allanol, rhywbeth a

---

[88] James, *The Atlantic Celts,* t. 55.
[89] Chapman, *The Celts,* t. 44.
[90] Morse, *How the Celts Came to Britain,* t. 120.
[91] Robert Knox, *The Races of Men: a Fragment* (London: 1850), tt. 253-4.
[92] Lewis, 'Newydd gân a luniodd i'w genedl', t. 19.
[93] Chapman, *The Celts*, t. 33.
[94] Saunders Lewis, 'Tynged yr Iaith', Gwefan Llyfrgell Genedlaethol Cymru,

ddefnyddid er budd y sawl a oedd mewn grym oedd ‘Celt’, term a oedd yn ei fenthyg ei hun i bropaganda hiliol ac imperialaidd. Anorfod, felly, yw fod dylanwad hynny wedi ei blethu’n ddwfn i’r dehongliadau diweddarach o Gelt, gan gynnwys rhai Cymraeg a Chymreig, wrth i Geltigrwydd fagu gafael.

Celtigrwydd: Y Dystiolaeth DNA.

Wrth feddwl am frawdgarwch Celtaidd mewn cyd-destun cyfoes, boed hynny mewn gwyliau diwylliannol neu wrth gefnogi timau rygbi, mae’r syniad o ‘berthyn’ drwy waed cyndeidiau yn un poblogaidd, er mor annelwig ydyw. Cymysglyd yw tystiolaeth DNA o blaid dadl o’r fath, er bod y dechnoleg honno’n cynnig gwybodaeth ychwanegol am hanes symudiad pobloedd ar draws cyfandir Ewrop. Pe darganfyddid cysylltiad genynnol pendant rhwng unigolion y gwledydd Celtaidd ym Mhrydain a’r rhai ar y cyfandir, byddai modd dadlau dros fath penodol o ‘Geltigrwydd’, a hwnnw wedi ei seilio ar y syniad o ‘waed’ neu dras Geltaidd. Mae’r trafod yn y cyfryngau yn dangos bod diddordeb cyhoeddus yn y pwnc. [95]

Mewn un astudiaeth a gyhoeddwyd yn *Nature*, aethpwyd ati i ddadansoddi DNA 2,039 o unigolion o’r Deyrnas Unedig.[96] Bu’n rhaid ymorol bod neiniau a theidiau’r unigolion hynny a gynigiodd samplau wedi byw yn yr un ardal â hwy, a hynny er mwyn sicrhau nad oedd mudo’r ugeinfed ganrif yn effeithio ar ganlyniadau’r dadansoddiad.[97] Cymharol fychan yw maint y sampl, yn sicr, ond mae hi’n werth nodi na ddarganfuwyd unrhyw dystiolaeth o fudo ‘Celtaidd’ ar raddfa werth ei thrafod, er bod tystiolaeth o beth mudo i Brydain rhwng y cyfnod Mesolithig a’r cyfnod pan gyrhaeddodd y Rhufeiniaid.[98] Ni ddangoswyd tebygrwydd genynnol rhwng trigolion Yr Alban, Iwerddon, Cymru na Chernyw ychwaith, gyda’r nodweddion tebyg yr un mor gyson rhyngddynt ag yr oeddynt rhwng trigolion y gwledydd hynny a Lloegr.[99] Roedd ‘Celtiaid’ Cernyw yn debycach o ran eu DNA i drigolion Lloegr na rhai Cymru, er enghraifft.[100] Ni phrofwyd gan yr astudiaeth hon bod math arbennig o bobl o ddeutu unrhyw ffin ddaearol, na bod unrhyw symudiad i’r gwledydd ‘ymylol’ hynny a ystyrir

---

< https://www.llgc.org.uk/ymgyrchu/Iaith/TyngedIaith/tynged.htm>; cyrchwyd 10 Tachwedd 2020.

[95] Pallab Ghosh, ‘DNA study shows Celts are not an unique genetic group’ , *BBC News*, <http://www.bbc.co.uk/news/science-environment-31905764>; cyrchwyd 7 Mehefin 2020.

[96] Peter Donnelly ac eraill, ‘The fine-scale genetic structure of the British population’, *Nature* <http://www.nature.com/nature/journal/v519/n7543/full/nature14230.html>; cyrchwyd 6 Hydref 2020.

[97] Ghosh, ‘DNA study shows Celts are not an unique genetic group’ *BBC News,* <http://www.bbc.co.uk/news/science-environment-31905764>; cyrchwyd 6 Hydref 2020.

[98] Donnelly, ‘The fine-scale genetic structure of the British population’, http://www.nature.com/nature/journal/v519/n7543/full/nature14230.html; cyrchwyd 6 Hydref 2020

[99] Ibid., cyrchwyd 6 Hydref 2020.

[100] Ibid., cyrchwyd 6 Hydref 2020.

yn rhai Celtaidd. Unwaith eto, ymddengys bod gan y gred mewn 'Celtigrwydd' lawn cymaint i'w wneud â chysylltiadau diwylliannol rhwng gwledydd Celtaidd ag unrhyw anian enynnol. Yn wir, pwysleisiwyd mai creadigaeth fodern yw'r brawdgarwch hwn gan Patrick Sims-Williams wrth iddo drafod Cymru ac Iwerddon, dwy wlad a fu unwaith yn bur elyniaethus: 'The modern sympathy between Welsh and Irish only arose after scholars discovered they were all "Celts" lingustically.'[101]

Er nad yw'r darlun o orffennol Celtaidd yn eglur, mae'n un sydd wedi ffynnu serch hynny. Os label allanol oedd y term 'Celt' yn hanesyddol, parhaodd y traddodiad hwnnw yn y cyfnod modern. Seiliwyd y nodweddion hynny sydd yn diffinio'r syniad o Gelt ar y diffiniadau allanol hynny. Mae i'r sylweddoliad hwn oblygiadau i'r ymdriniaeth yn yr astudiaeth hon, yn sicr. Noda Simon Brooks ymhellach fod trefedigaethedd wedi siapio'r cysyniad hwnnw: 'Nid oes dwywaith mai trefedigaethu tebyg sydd wrth wraidd y syniad o Geltigrwydd'.[102] Yn wir, dadleua mai twyll deallusol yw Celtigrwydd a maes Astudiaethau Celtaidd a bod y canolbwyntio ar y gorffennol sydd yn rhan ganolog o'r ddau yn fodd i atal trigolion y gwledydd Celtaidd rhag dehongli'r heriau presennol sydd yn eu hwynebu. Rhydd grynhoad o'i ddadl fel a ganlyn:

> Y gwir amdani yw mai syniad Seisnig yw 'Celtigrwydd' sy'n gynnyrch mudiad rhamantaidd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae'n defnyddio gwyddorau coeg ieithyddiaeth ac etymoleg i honni fod yna gyswllt 'anorfod' ac 'ysbrydol' rhwng y bobloedd yn ynysoedd Prydain nad ydynt yn Saeson.[103]

Golwg negyddol ar Geltigrwydd sydd gan Brooks, ac er na ellir cytuno gyda phob rhan o'i ddadl — natur gynllwyniol Astudiaethau Celtaidd fel arf i dynnu sylw oddi ar broblemau cyfoes, yn enwedig, efallai — mae hi'n codi pwyntiau diddorol sydd yn berthnasol i'r astudiaeth hon. Er nad trafod pa mor ddilys yw 'Celtigrwydd' fel syniadaeth yw pwrpas y traethawd PhD presennol, ond yn hytrach olrhain ei effaith a'i ddylanwad, mae diffiniad Brooks yn cynnig golwg beirniadol a defnyddiol ar y cysyniad. Label allanol oedd Celtigrwydd yn wreiddiol a dderbyniwyd yn gymharol ddigwestiwn. Gellir dadlau bod yr elfennau ystrydebol, niweidiol hynny a ddaeth o bortread allanol wedi eu defnyddio yn y cyd-destun Cymraeg a Chymreig hefyd, hyd yn oed, fel y gwelir yn y penodau dilynol, gan y Cymry eu hunain. Hyd yn oed heb ddadl Brooks mai cynnyrch trefedigaethedd yw

---

[101] Patrick Sims-Williams, 'Celtic Civilization: Continuity or Coincidence?', *Cambrian Medieval Celtic Studies,* 64 (Gaeaf 2012), t. 31.
[102] Simon Brooks, 'Celtigrwydd', *Yr Hawl i Oroesi* (Llanrwst: 2009), t. 106.
[103] Ibid., t. 106.

Celtigrwydd, gellir yn hawdd dynnu cymariaethau rhwng y naratif Seisnig wrth drafod Celtigrwydd a'r un imperialaidd.

Gan mai etifeddu cysyniad a oedd mewn difrif yn eu harallu a wnaeth y 'Celtiaid' modern, nid yw'n synod fod elfennau o'r ystrydebau hynny i'w gweld wrth hunanddiffinio ac wrth ddisgrifio eraill drwy brism Celtigrwydd a hunaniaeth Geltaidd. Dangosir yn yr astudiaeth hon fod y patrymau imperialaidd hyn o ddosbarthu a diffinio i'w gweld mewn naratifau Celtaidd Cymreig, yn enwedig, felly, wrth bortreadu 'arall' Celtaidd (boed hynny'n Wyddelod neu'n Llydawyr yn yr achos hwn). Ceir, er enghraifft, homogeneiddio wrth drafod y trigolion yn eu gwledydd unigol ond hefyd wrth drafod y 'Celt' yn gyffredinol. Ac fel y gwelir yn y ddwy bennod ddilynol, fe homogoneiddir yr hunan hefyd wrth i'r cysylltiad Celtaidd ddod yn drosiad ac esboniad dros feddylfryd, agweddau ac ymddygiad ar lefel unigol a chenedlaethol.

<u>Celtigrwydd a Chymru</u>

Mae ymwybyddiaeth gyffredinol o Geltigrwydd wedi hydreiddio sawl agwedd ar fywyd y Cymry, boed yn ddiwylliannol, yn wleidyddol ac y tu hwnt i hynny. Teg holi, felly, sut y magodd y cysyniad o Geltiaid hanesyddol y fath afael yng Nghymru, a pham fod Celtigrwydd yn gysyniad mor apelgar. Yn gyntaf oll, gellid dadlau i'r cysyniad gynnig chwedl sylfaenu i'r Cymry. Perthnasol yma yw cadw mewn cof i'r Cymry ymateb yn dra ffafriol i hanesyddiaeth Sieffre o Fynwy yn yr Oesoedd Canol a hyd at y ddeunawfed ganrif. Cadwodd y fytholeg hanesyddol hon ei gafael am gyfnod estynedig, gan brofi'n rym ffurfiannol ar hunaniaeth y Cymry, fel y noda John Davies: 'Am ganrifoedd lawer [roedd] yn ganolog i ymwybyddiaeth y Cymry o'u hunaniaeth'.[104] Gosododd hanesyddiaeth Sieffre y Cymry ar lefel debyg i'r Rhufeiniaid o ran eu tras, a chawsant sylfaen chwedlonol i'w cenedl, sef eu bod yn hanu o linach Brutus o Gaerdroea. Dyma dywysog chwedlonol o linach anrhydeddus ac un y cafodd ei ddyfodiad i Brydain ei dynghedu gan y dduwies Diana.[105] Ganddi hefyd y cafodd yr anogaeth i fynd yno.[106] Nodwyd eu bod hefyd gyda'r cyntaf i gyrraedd Prydain, a thrwy hynny, cawsant nid yn unig hynafiaeth ond hefyd yr hawl i honni perchnogaeth ar Brydain. Drwy hynny, daeth y syniad o golled enbyd hefyd wrth gymharu'r gorffennol gogoneddus hwnnw â phresennol mwy heriol.

104 John Davies, *Hanes Cymru* (London: 1992), t. 1.
105 Dafydd Glyn Jones, *Agoriad yr Oes* (Talybont: 2001), t. 70.
106 Ibid, t. 71.

Dyma gymysgfa feddwol i genedl fechan a frwydrai i sefydlu syniad o hunaniaeth genedlaethol. Noda Ceri Davies i'r gwaith fod yn eithriadol o ddylanwadol a bod ganddo 'a key role in maintaining a sense of Welsh consciousness.'[107] Er i John Davies ddadlau mai hybu grym rheoli Llundain a wnaeth Sieffre yn y pen draw, gan iddo roi pwyslais ar hawl Locrinus i reoli'r brodyr eraill Albanacus a Camber,[108] rhoddodd hanesyddiaeth Sieffre sylfaen eang i hanes mythaidd y Cymry ac un y gallent ymfalchïo ynddo. O ddipyn i beth, collodd hanes Sieffre ei dir wrth i ymchwil manylach o gyfnod y Dadeni Dysg ymlaen fagu gafael, ond ceisiodd y Cymry ddal eu gafael ar hanfod ei fersiwn ef am fod tynfa'r syniad mor gryf.[109] Un dyneiddiwr a aeth ati i amddiffyn y myth oedd John Prys yn ei gyfrol *Historiae Britannicae Defensio*[110] gan ymateb i waith Polydore Vergil *Historia Anglica* a danseiliodd fersiwn Sieffre o hanes Prydain.[111] Yr oedd yn adweithio yn erbyn yr hyn a gredai oedd yn 'serious and sustained attack'[112] yn erbyn y fersiwn boblogaidd o hanes Cymru a ddeilliodd o waith Sieffre. Pan aeth ei fab Richard Prys ati i gyhoeddi'r gyfrol ymddengys bod elfen emosiynol, genedlaetholgar yn ei ddewis i fwrw iddi a thrwy hynny amddiffyn y chwedl. Wrth restru ei gymhellion noda:

> Yna, yr oedd cariad tuag at fy ngwlad, y mae ei hurddas yn cael ei amddiffyn yma, ac enw da'r holl genedl Frytanaidd, cenedl a bardduwyd â llawer gair enllibus yn hanes Polydor Vergil, ond y mae ei cham yn cael ei achub yma rhag ei enllibion ef.[113]

Bu'r chwedl yn gyndyn o ollwng ei gafael ac er y dadlau yn ei herbyn gan Vergil ac eraill ni lwyddwyd i'w gwaredu yn gyfan gwbl. Fel nododd Dafydd Glyn Jones roedd yr apêl yn un dwfn a phery rhyw elfen o hynny hyd heddiw: 'Mae'n rhan ohonom. Mae'n balchder ni rwyfodd ynghlwm wrtho.'[114]

Serch hynny, rhoddodd Celtigrwydd a'r gorffennol Celtaidd fersiwn mwy derbyniol o'r apêl hwn ac un a oedd yn haws ei blygu i hanes ffeithiol. Er eu bod yn wahanol ddehongliadau o'r gorffennol mae ganddynt swyddogaethau tebyg: yn gyntaf, esboniad o

---

[107] Ceri Davies (gol.), *Historiae Britannicae Defensio = A Defence of the British History* (Oxford: 2015), t. xxxv.
[108] Davies, *Hanes Cymru*, t. 119
[109] Ibid., tt. 242-3.
[110] John Prise yn Ceri Davies (gol.), *Historiae Britannicae Defensio = A Defence of the British History* (Oxford: 2015).
[111] Davies, *Historiae Britannicae Defensio*, tt. xxxvii – xxxviii.
[112] Ibid., t. xxxiv
[113] Richard Prise yn Ceri Davies (gol.) *Rhagymadroddion a Chyflwyniadau Lladin, 1551-1632* (Caerdydd: 1980), t. 27.
[114] Jones, *Agoriad yr Oes*, t. 90.

ddyfodiad y Cymry i'w lleoliad presennol, ac yn ail, eu cysylltiad gyda naratif ehangach ac Oes Aur dybiedig. Mae lle i ddadlau eu bod yn rhannu diffygion o ran cywirdeb ffeithiol yn ogystal.

Mae'r sawl sydd yn coleddu'r gorffennol 'Celtaidd' traddodiadol a drafodwyd uchod yn wynebu dadrithiad yn wyneb dadleuon ysgolheigion Celtosgeptigol. Wrth gwrs, mae'n faes cynhennus. Defnyddiwyd y term 'ethnic cleansing'[115] gan Vincent a Ruth Megaw wrth drafod y ddadl Geltosgeptigol. Fe'i cyffelybwyd i hil-laddiad ganddynt, felly,[116] prawf fod hwn yn bwnc a all godi gwrychyn ac ennyn ymateb eithafol. Plethwyd Celtigrwydd i gymaint o agweddau hanesyddol, diwylliannol a gwleidyddol nes bod gwahaniaethu rhwng ffaith a ffuglen yn dod yn orchwyl anodd.

Fel y Neo-Dderwydd yn paratoi ar gyfer defod, mae elfen o wisgo'r wisg Geltaidd yn wirfoddol yn parhau yn gryf ymysg nifer o'r Celtiaid modern. Noda Sims-Williams fod parodrwydd ymysg 'Celtiaid' honedig i chwarae rôl ddisgwyliedig, un a ddiffiniwyd yn gyntaf gan ystrydebau allanol.[117] Dadleua fod manteision posibl mewn ymddygiad o'r fath, a bod ymdrech ymwybodol yn cael ei gwneud i efelychu'r ystrydebau cyfarwydd. Aiff cyn belled â galw'r unigolion hyn yn 'gynllunwyr',[118] yn eu plith Iolo Morganwg a Gerallt Gymro, er i'r olaf o'r ddau droi at stereoteipiau ethnograffig yn hytrach na rhai Celtaidd. Ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, hybodd Lloyd George y cysyniad o'r 'Welsh Wizard'[119] fel ei lysenw, un a oedd yn codi delweddau o Dderwyddon a Myrddin y Dewin gan fanteisio ar rym y cysyniad. Nid yw hyn yn syndod efallai gan fod creu chwedlau a chreu cymeriad cenedl wrth ddiffinio a hunanddiffinio yn rhan annatod o greu neu reoli cenedl. Daeth y syniad o Geltigrwydd i droi'r mythau hyn yn sail i gysylltiadau rhwng gwledydd, hanes a phersonoliaethau unigol, a hynny ar gyfer pob math o ddibenion.

Mae rôl Celtigrwydd a hunaniaeth Geltaidd yng Nghymru yn unigryw am sawl rheswm. Ni roddir pwyslais eithriadol ar y gorffennol Celtaidd. Yn hytrach, erys yn fwy cefndirol a hynny am fod safbwynt ieithyddol leiafrifol Cymry Cymraeg yn fodd i leihau'r 'ethno-envy'[120] a drafodir gan Michael Dietler. Mae'r genfigen hon yn rhan o apêl gorffennol

---

[115] J. V. S. Megaw, M. R. Megaw, 'Ancient Celts and Modern Ethnicity', *Antiquity*, 70/267 (Mawrth 1996), tt. 175–181.
[116] John Collis, 'The Sheffield Origins of Celtic Art' yn Christopher Gosden, Sally Crawford (goln.), *Celtic Art in Europe: Making Connections* (Oxford: 2014), t. 19.
[117] Patrick Sims-Williams, 'The Visionary Celt: The Construction of an Ethnic Preconception', *Cambridge Medieval Celtic Studies*, 11 (Haf 1986), t. 77.
[118] Ibid.
[119] Ibid.
[120] Michael Dielter, 'Celticism, Celtitude and Celticity; The consumption of the past in the age of globalization' *Acadeima*; <https://www.academia.edu/273595/Celticism_Celtitude_and_Celticity_the_

hynafol i fwyafrifoedd gwynion pan fônt yn drigolion gwledydd gyda lleiafrif ethnig brodorol a chanddi hunaniaeth ddyfnach nag un y newydd-ddyfodiaid. Gan fod y Cymry sy'n byw yng Nghymru hefyd yn parhau'n rhan o genedl mewn ystyr ddaearyddol, gellid dadlau na ddefnyddir Celtigrwydd at ddibenion 'ethno-nostalgic'[121] ychwaith. Yn hytrach, daw Celtigrwydd yn rhan o'r 'triadic structure of nationalist rhetoric'.[122] Llunnir y triawd hwn, medd Dietler, o 'glorious past'[123], 'degraded present',[124] ac 'utopian future'.[125] Daw'r gorffennol gorwych i fod wrth drafod Oes Aur Geltaidd annelwig gyda llwythau'n ymestyn ar draws Ewrop. Yna, ceir y presennol diraddedig o ddau safbwynt, un ai o un Arnoldaidd, rhamantaidd gyda bywyd y Celt ar drai a'r angen i 'foderneiddio' yn gwasgu, neu o safbwynt gwledydd unigol yn brwydro dros annibyniaeth a gwell safle i'w hiaith a'u diwylliant. Daw'r dyfodol iwtopaidd ar ffurf y frwydr honno ac ymdrechion i gydweithio i godi gwledydd yn ei sgil. Gwelir enghraifft o hynny ymhlith y Cymry Cymraeg, a drafodir yn y bennod nesaf yn haeru y dylid cenhadu yn Llydaw er mwyn sicrhau gwell dyfodol iddi fel gwlad. Mae'r ddelfryd honno i'w gweld yn ymdrechion mudiadau fel yr Undeb Celtaidd hefyd. Atgyfnerthir y teimlad ein bod ni 'yma o hyd' gan ymwybyddiaeth o Geltigrwydd, a cheir cysur brawdgarol o fod yn yr un cwch â gwledydd eraill. Grym goddefol yw Celtigrwydd yn y cyd-destun hwn, modd i atgyfnerthu naratif gwladgarol ehangach.

Wrth gymryd golwg gwrthrychol ar y dystiolaeth fel ag y mae, a chasglu bod ansicrwydd ynghylch y Celt yn hanesyddol, gellid datgan gyda pheth sicrwydd i'r Celt gyrraedd Prydain erbyn y ddeunawfed neu'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn unig ac ymledu'i diriogaeth yn eang erbyn yr ugeinfed. Os na fodolai brawdgarwch rhwng y gwledydd yn hanesyddol, fe'i gwelir yn ddiamau yn yr oes fodern (er enghraifft, yng Ngŵyl Lorient neu yn y Gyngres Ban-Geltaidd).[126] Bob blwyddyn, pan gynhelir Eisteddfod Genedlaethol, ceir unigolion i gynrychioli'r gwledydd Celtaidd fel dirprwyaeth yn seremonïau'r Orsedd hefyd. O'r syniad o frawdgarwch, cododd cydweithrediad wrth i sefyllfaoedd ieithyddol a diwylliannol tebyg ennyn cydymdeimlad.

Er hynny, hanes o ddiffinio allanol yw hanes Celtigrwydd ac mae'n anorfod, hyd yn oed wrth i unigolion fwrw ati i ailymweld â'r naratifau allanol hynny, fod cysgodion y

---

consumption_of_the_past_in_the_age_of_globalization>; cyrchwyd 25 Tachwedd 2020, t. 240.
[121] Ibid.
[122] Matthew Levinger a Paula Franklin Lytle, 'Myth and Mobilisation': the triadic structure of nationalist rhetoric', *Nations and Nationalism,* 7 (2001), tt. 175-94, t. 178.
[123] Ibid., t. 178.
[124] Ibid.
[125] Ibid.
[126] Lewis, 'Newydd Gân a Luniodd i'w Genedl', t. 1.

meddylfryd gwreiddiol yn cael eu derbyn yn ddiarwybod. Gwelir yn y cyfrolau y canolbwyntir arnynt yn y penodau a ganlyn fod y dylanwad hwnnw'n bresennol drwy gydol yr ugeinfed ganrif a hyd at y ganrif bresennol.

Llyfrau Teithio

Mae llyfrau teithio yn *genre* sydd yn gweddu'n dda ar gyfer olrhain dylanwad Celtigrwydd yn yr ugeinfed ganrif yng Nghymru a thu hwnt gan ei fod yn cynnig darlun, nid yn unig o wledydd Celtaidd eraill ond o feddylfryd ac agweddau'r sawl a'u hysgrifennodd. Ceir ynddynt hefyd gofnod o agweddau trigolion y gwledydd hynny at yr awduron. Yn ogystal, gan eu bod yn weithiau mwy poblogaidd eu natur a'u bwriad, dadleuir y gellir cael darlun llawnach o effaith Celtigrwydd ar gynulleidfa ehangach a'u hymwybyddiaeth o'r maes.

Amserol yw dadansoddi'r *genre* am fod diddordeb academaidd wedi cynyddu ynddo yn y blynyddoedd diweddar fel y noda Carl Thompson.[127] Gall y math hwn o ysgrifennu gynnig gweledigaeth i ystod eang o drafodaethau, yn ddiwylliannol, gwleidyddol a hanesyddol,[128] ac nid fel ysbienddrych ar wledydd Celtaidd eraill yn unig y'i defnyddir yn yr astudiaeth hon, ond yn hytrach fel drych ar y Cymry yn ogystal. Yng Nghymru, bu ymchwydd mewn diddordeb ysgolheigaidd yn y maes, gyda Llion Wigley yn nodi, er enghraifft, fod dadansoddi'r *genre* yn cynnig golwg bwysig ar '[d]dyheadau ac amcanion gwleidyddol a deallusol mwyaf arwyddocaol' y genedl.[129] Noda Thompson fod llyfr teithio nid yn unig yn adlewyrchu'r byd a ddisgrifir a'r 'arall' ond hefyd fyd mewnol y sawl a'i hysgrifennodd a'r 'hunan':[130]

> It is most obviously, of course, a report on the wider world, an account of an unfamiliar people or place. Yet it is also revelatory to a greater or lesser degree of the traveller who produced that report, and of his or her values, preoccupations and assumptions. And, by extension, it also reveals something of the culture from which that writer emerged, and/or the culture for which their text is intended.[131]

Er y bydd gwaith Thompson ac eraill yn cynnig man cychwyn i'r astudiaeth hon, noder bod cyd-destun y drafodaeth hon yn wahanol i'r norm o ran y *genre*. Trafodaethau ar ysgrifennu

---

[127] Carl Thompson, *Travel Writing: the New Critical Idiom* (Abingdon: 2011), t. 2.
[128] Ibid., t. 3.
[129] Llion Wigley, '"Rhyfeddu at y Cread": Llenyddiaeth taith yn y Gymraeg c.1931—1975 (i)', *Y Traethodydd*, CLXXIV/734 (Gorffennaf 2020), t. 135.
[130] Thompson, *Travel Writing*, t. 10.
[131] Ibid.

teithio Saesneg a geir gan amlaf gan ysgolheigion. Y canfyddiad mewn gweithiau megis rhai Thompson yw bod ysgrifennu teithio yn anorfod ynghlwm wrth imperialaeth a threfedigaethu, yn enwedig yn y cyfnod cyn yr Ail Ryfel Byd,[132] a bod ysgrifennu teithio'n anorfod yn dod yn rhan o beiriant propaganda. Ni thelir cymaint o sylw i'r materion hyn yma gan nad ydynt, at ei gilydd, yn berthnasol i gyd-destun iaith a diwylliant lleiafrifol.

Rhaid bod safle lleiafrifol a threfedigaethol Cymru yn newid peth ar bwyslais y naratif hwnnw. Mae ysgrifennu teithio yn gallu bod yn arf gwleidyddol, ac mae hynny'n wir mewn cyd-destun Cymreig a Chymraeg hefyd, ond gall y pwyslais fod ar wrth-drefedigaethu yn ogystal. Gellid disgwyl i'r weithred o arallu fod yn wahanol fel a drafodir gan Thompson[133] ac eraill, yn sicr.

Nid yw hynny'n golygu nad oes datganiadau ac agweddau o fewn y gweithiau hyn a fyddai'n cael eu disgrifio fel rhai imperialaidd eu naws a hynny efallai am fod dylanwad testunau eraill ac agweddau imperialaidd yn rhan o'r canon ehangach o ysgrifennu teithio a allai ddylanwadu ar y *genre* yn y Gymraeg. Serch hynny, mae'r cyfeirio at gysylltiad Celtaidd a'r empathi sy'n codi o syniad o'r fath yn golygu bod y darlun a geir wrth i'r Cymry drafod, dyweder, Llydaw neu Iwerddon yn gymhleth.

Yng nghyd-destun ysgrifennu teithio ceir, fel y noda Thompson, ddwy radd o 'arallu' neu ddisgrifiad o'r 'arall' a'r 'gwahanol':

> In a weaker, more general sense, 'othering' simply denotes the process by which the members of one culture identify and highlight the differences between themselves and the members of another culture. In a stronger sense, however, it has come to refer more specifically to the processes and strategies by which one culture depicts another culture as not only different but also inferior to itself.[134]

Cymhelliad unigol a rhagfarn sydd yn aml yn gwahaniaethu rhwng sut y disgrifir yr 'arall' a gwelwn fel y bydd y ddau ddiffiniad uchod yn berthnasol i'r cyfrolau a astudir yn y traethawd hwn.

Er mwyn fframio'r drafodaeth rhaid wrth ddiffiniad o'r *genre*, ac fel y mae Thompson yn ei nodi, nid ar chwarae bach y mae gwneud hynny.[135] Aiff Jonathan Raban ymhellach, a

[132] Ibid., tt. 59-60.
[133] Ibid., t. 136.
[134] Thompson, *Travel Writing,* tt. 132-3.
[135] Ibid., t. 9.

datgan bod y *genre* mor agored fel nad oes modd ei ddiffinio o gwbl.[136] Gellir, serch hynny, ddadlau bod diffiniad ymddangosiadol syml i'w gael: ceir mewn ysgrifennu teithio drafodaeth ar daith neu deithiau gan unigolyn neu unigolion. Rhaid cofio, serch hynny, fod y gair taith yn un amwys: os mai'r weithred o symud drwy ofod yw taith a fyddai, fel y mae Thompson yn nodi, picio i'r dref agosaf i'r siop yn cael ei ddiffinio fel taith i ddibenion ysgrifennu teithio?[137]

Nid y weithred o symud yn unig sydd yn greiddiol i ysgrifennu teithio. Y mae rhyw elfen ddieithr yn bwysig mewn llyfr taith, dieithrwch i'r darllenydd sydd yn un modd o ennyn diddordeb, ond hefyd elfen anghyfarwydd i'r sawl sydd yn ysgrifennu gan amlaf. Byddai taith i'r siop felly yn rhy 'normal' ac ni fyddai ysgrifennu am brofiad o'r fath yn cael ei ddiffinio fel ysgrifennu teithio.

Hefyd, rhaid gwahaniaethu rhwng ysgrifennu taith a theithwyr proffesiynol er bod y ffin hon unwaith eto yn un denau. Gall, er enghraifft, adroddiadau swyddogol fel adroddiad y Llyfrau Gleision ymddangos fel ysgrifennu taith. Teithiodd y sawl a'i paratôdd o gwmpas Cymru ac roedd yr adroddiad yn gofnod cymdeithasol o'r wlad ar y pryd. Yn ôl y diffiniadau mwyaf llac o'r *genre*, byddai modd derbyn bod yr adroddiad hwn yn enghraifft o ysgrifennu taith. Mwy buddiol, felly, fyddai defnyddio diffiniad manylach o fewn 'ysgrifennu taith' sef llyfr taith ar gyfer yr astudiaeth hon. Noder hefyd fod hunanddiffinio'r *genre* yn rhan bwysig o'r dehongliad, yn enwedig wrth ystyried dylanwad cymdeithasol y gweithiau a drafodir. Os yw gwaith yn cael ei gyflwyno a'i farchnata fel llyfr taith ac yn ei osod ei hun fel ffynhonnell awdurdodol ar wlad arall, yna mae'r canfyddiad hwnnw yn rhan ganolog o'i ddylanwad a theg yw ei drin yng ngolau y modd y'i cyflwynwyd.

Yn nghyd-destun unigolion fel John Dyfnallt Owen ac W. Ambrose Bebb yn enwedig, a ddaeth yn gyfarwydd â Llydaw dros flynyddoedd o ymweld ac ymwneud â hi, gall eu ymgyfarwyddwch ymddangos fel anhawster os ydym am ddiffinio eu gwaith fel ysgrifennu teithio. Noda Dyfnallt fod y ffaith ei fod yn gyfarwydd â Llydaw yn rhoi mantais iddo dros O. M. Edwards, na feddai ar yr un adnabyddiaeth[138] gan ddadlau y golygai hynny bod *O Ben Tir Llydaw* yn rhagori ar *Tro yn Llydaw*, a dichon bod hynny'n wir. Mae adnabod gwlad neu ei hymchwilio yn fodd o gynnig portread mwy cywir ohoni ac nid yw yn ei hanfod yn niweidiol i naratif.

---

[136] Jonathan Raban, *Writers Abroad* (London: 1992) t. 6, dyfynnir yn Richard Phillips 'Decolonizing Travel: James/Jan Morris's Geographies', yn J. Edwards a R. Graulund (goln), *Postcolonial Travel Writing: Critical Explorations* (London: 2011), tt. 88-9.
[137] Thompson, *Travel Writing*, t. 10.
[138] John Dyfnallt Owen, *O Ben Tir Llydaw* (Dinbych: 1937), t. 9.

Serch hynny, petai Llydaw yn rhy gyfarwydd iddo yna gallai ei adnabyddiaeth ohoni danseilio'r naratif heb yr ymwybyddiaeth hanfodol honno o ddieithrwch. Rhaid wrth gydbwysedd rhwng adnabyddiaeth a gorgyfeillgarwch, ac yn achosion Dyfnallt a Bebb, ychwanegai eu gwybodaeth gyffredinol am Lydaw a'i phobl ddyfnder i'w naratifau gan gadw peth dieithrwch hefyd. O gymharu, golygai dieithrwch cymharol Edwards fod cyferbynnu mwy rhwng Llydaw a Chymru a bod hynny, yn rhyfedd ddigon, yn lleihau'r elfen o ddieithrwch ar brydiau.

Gwell efallai fyddai diffinio'r elfen hon o ddieithrwch fel un o rywun ar y tu allan yn edrych i mewn ar fyd gwahanol. Er i Bebb a Dyfnallt dreulio cyfnodau yn Llydaw a'u bod yn llythyru gyda'i thrigolion, nid Llydawyr mohonynt. Ni cheisia'r un o'r ddau bortreadu eu hunain felly, a'r agosaf a ddônt yw ymagweddu fel brodyr neu gefndryd drwy eu cysylltiad 'Celtaidd' honedig. Daw eu hadnabyddiaeth yn amlwg ond nid yw eu teithiau (er iddynt gyfarfod hen ffrindiau a dychwelyd i bentrefi cyfarwydd) heb ddisgrifiad o'r newydd a'r gwahanol. Y maent hefyd yn ymwybodol o ffiniau'r *genre* y maent yn rhan ohono ac felly'n sicrhau bod elfen o'r dieithr apelgar ar gael i ddarllenwyr yng Nghymru.

Gellir defnyddio'r dieithrwch a'r adnabyddiaeth yma fel prism ar gyfer agweddau'r awduron wrth i'w perthynas ddatblygu a newid gyda'r gwledydd. Perthynas wahanol iawn sydd gan Myfi Williams ac Ioan Roberts ag Iwerddon, er enghraifft, a hynny o achos eu perthynas gyda'r wlad a'i phobl — daeth Roberts yn dra chyfarwydd gyda hi dros gyfnod o ddegawdau. Cadwodd Bebb yntau gofnod dros amser wrth i'w ymwybyddiaeth o Lydaw ddatblygu ac mae ei agwedd tuag ati yn datblygu yn yr un modd.

Gall ffurf ysgrifennu teithio fod o fudd wrth ddiffinio yn ogystal — tybed a fyddai cerdd yn cael ei gweld fel enghraifft o'r *genre*? Defnyddia Thompson 'I Wondered Lonely as a Cloud' fel enghraifft[139] gan ei bod yn gerdd sydd yn disgrifio canfyddiad o rywbeth sydd heb fod yn gyfarwydd ar daith. Pe byddai cerddi yn ffurf ddilys yn y cyd-destun hwn yna byddai enghraifft fel 'Y Mynydd a'r Allor' gan R. Williams Parry, cerdd sy'n disgrifio offeren mewn eglwys yn Llydaw, yn un y gellid ei thrafod yn y bennod ddilynol. Casgla Thompson, serch hynny, fod yr elfen ryddieithol yn bwysig mewn ysgrifennu taith a hynny drwy dynnu ei ddadleuon o ysgrifennu Paul Fussell.[140] Disgrifia Fussell ysgrifennu teithio fel naratif rhyddieithol estynedig sydd, gan amlaf, wedi ei rannu gan benodau.[141] Gall llyfr teithio

[139] Thompson, *Travel Writing,* t. 25.
[140] Ibid., t. 13.
[141] Ibid., t. 14

gynnwys lluniau a mapiau neu elfennau eraill ond bydd y rheiny yn eilradd i'r testun. O dderbyn yr elfennau hyn, nid yw cerddi, na rhai erthyglau, yn gweddu i'r diffiniad.

Ffurf arall y gellir ei thafoli yw arweinlyfrau gan fod anghytuno a yw'r cyfrolau hynny yn perthyn i'r *genre*. Dadleua Fussell nad ydynt yn enghreifftiau o lenyddiaeth deithio[142] gan nodi bod hynny'n rhannol am fod awduron cyfrolau o'r fath yn canolbwyntio ar gyflwyno ffeithiau yn hytrach na phrofiadau. Mae Zweder von Martels, ar y llaw arall, yn gweld llyfr taith ac arweinlyfr fel dau raniad o'r un *genre*[143] gan ddatgan yn gywir mai tenau yw'r ffin rhwng enghreifftiau y gellid eu gosod yn y naill gategori neu'r llall. At ddibenion y traethawd hwn cytunir gyda chasgliad Thompson, sef bod y *genre*, at ei gilydd, yn un eang ac annelwig ei derfynau, ac nad ydi eu gosod yn rhy bendant yn beth buddiol.[144] Hyd yn oed os nad yw arweinlyfrau yn enghreifftiau o 'lenyddiaeth' deithio, yna maent yn sicr yn enghreifftiau o 'ysgrifennu' teithio.

Bwrir, felly, bod y chwe chyfrol a astudir yn y traethawd hwn yn cwrdd â'r meini prawf hanfodol ar gyfer gweithiau o fewn stabl ysgrifennu taith a'u bod yn cynnig golwg eang ar yr ymateb i Geltigrwydd wrth drafod dwy wlad.

---

[142] Ibid., t. 15.
[143] Ibid., t. 23.
[144] Ibid., t. 26.

# PENNOD 2

## Llydaw

*Tro yn Llydaw.*

*O. M. Edwards.*

Dechreuwn yn gronolegol gyda *Tro yn Llydaw* gan O. M. Edwards. Yn wir, cyhoeddwyd y llyfr hwn ar ddiwedd y ganrif ddiwethaf ond un yn 1890[145] ond fe'i hailgyhoeddwyd yn 1921 yn dilyn marwolaeth Edwards.[146] Addaswyd ychydig ar y testun i weddu i'r ganrif newydd. Trafodwyd uchod fod yr ysgrifennwr teithio yn datgelu agweddau personol sydd, yn eu tro, yn adlewyrchiad o gymdeithas ehangach y mae'n rhan ohoni wrth bortreadu gwlad arall ac mae hynny'n berthnasol iawn wrth drafod O. M. Edwards. Cariai ei gefndir crefyddol a diwylliannol gydag ef ac fe'i gwelai ymhobman, yn llythrennol felly ar fwy nag un achlysur, wrth iddo weld wynebau trigolion y Bala ymysg rhai'r Llydawyr.[147] Aeth â mwy na chês gydag ef i Lydaw: aeth yno gyda chanfyddiadau a rhagfarnau a liwiodd ei brofiad a thrwy hynny a gamliwiodd ei daith i'w ddarllenwyr.

Nid wrth edrych yn ôl o'n cyfnod presennol yn unig mae'r rhagfarn honno yn amlwg: erbyn ailargraffiad y llyfr yn 1921,[148] ymddengys bod sylweddoliad bod naratif y gyfrol yn unochrog ac y gallai godi gwrychyn rhai darllenwyr. Gosodwyd nodyn golygyddol ar ddiwedd y rhagymadrodd yn yr ailargraffiad, a hynny i geisio lliniaru effaith y naratif dilynol yn ogystal ag annog ysbryd Pan-Geltaidd o fath:

> Gwyddis yr ysgrifennwyd y llyfr hwn a'r awdur yn fachgen ifanc. Diau pe bai wedi ei ysgrifennu yn hwyrach yn ei fywyd y buasai ambell i beth ynddo yn wahanol. Ceir ynddo Llydaw fel ei gwelid gan Brotestant, eto un oedd yn ei charu. Dywed y Llydawr Catholig nad ydyw y llyfr yn rhoddi eu crefydd yn yr olwg briodol, ac felly nad yw yn gwneud cyfiawnder a hwy. Dylai'r Cymry sydd yn cymeryd diddordeb yn eu perthynasau agos, y Llydawyr, geisio deall y ddwy olwg ar y wlad, ac wedi iddynt ddarllen "Tro yn Llydaw" ddarllen dau bamffled y Bonwr Pierre Mocaër- "LLYDAW A CHYMRU" a "TUEDDIADAU LLENYDDIAETH LLYDAW" . . . Dylai y gwledydd Celtaidd dynnu yn agosach at ei gilydd, dylem gymeryd mwy o ddiddordeb yn ein gilydd.[149]

Erbyn y 1920au, felly, nid yn unig yr oedd barn lem Edwards yn un y teimlai'r golygydd fod angen ei lliniaru, ond caed anogaeth i ddysgu mwy am Lydaw mewn ysbryd Pan-Geltaidd hefyd. Efallai bod modd cytuno bod ieuenctid Edwards wedi hogi ychydig ar ei

---

[145] O. M. Edwards, *Tro yn Llydaw* (Wrecsam: 1921), t. 5.
[146] Ibid., blaenddalen.
[147] Ibid., t. 54.
[148] Ibid., t. iii.
[149] Ibid., t. vi.

dafod gan fod ei sylwadau'n finiog ar adegau a hynny, yn bennaf, am bobl nad oeddynt yn Gymry. Ceir yn fynych ddisgrifiadau anffafriol a gwawdlyd o unigolion ar daith Edwards. Boed yn ddwy hen wraig, un yn dew a chyda wyneb 'mawr fel cloc hen ffasiwn'[150] a'r llall wrth ei hochr oedd â thafod 'na all yr un dyn ei ddofi',[151] neu'n Ffrancwyr gyda'u gwalltiau wedi torri'n flêr,[152] nid oes gwadu nad yw Edwards yn gallu bod yn ddigon miniog ei dafod.

Er hyn, dichon fod disgrifiadau o'r fath yn gogwyddo fwy at ymgais i gynnig ysgafnder a hiwmor o'u cymharu â datganiadau Edwards am rai agweddau ar fywyd Llydaw, ac yn bennaf Catholigiaeth. Nid ieuenctid yn unig yw'r gyrrwr y tu ôl i'r rhagfarn rhwng cloriau *Tro yn Llydaw*: er y gall fod yn wir y byddai awdur hŷn wedi dal mymryn mwy ar ei dafod, efallai, byddai sail y rhagfarn yno o hyd.

Yn ei chofiant i Edwards, cyniga Hazel Walford Davies fod Edwards mewn 'rhyw dymer anfoddog iawn'[153] pan aeth i Lydaw, gan fod Cymru yn ogystal â Llydaw o dan y lach ganddo. Gallai hynny fod yn wir, ac yn sicr, mae natur obsesiynol Edwards yn y gyfrol wrth drafod crefydd a glendid yn eithafol fel y trafodir isod, ond nid ei dymer ddrwg yw'r unig reswm am y portread a geir ynddi. Rhaid derbyn bod rhagfarn ddofn yn rhan o gyfansoddiad Edwards a'i bod yn ei hamlygu ei hun yn *Tro yn Llydaw.*

Noda Davies, 'Os bu teithiwr rhagfarnllyd erioed, Owen oedd hwnnw, ac mae tanbeidrwydd ei ymateb i'r hyn y mae'n ei gasáu yn amharu yn aml ar swyn ei lyfrau taith',[154] a gellid dadlau bod hynny'n wir am *Tro yn Llydaw* yn anad yr un gyfrol arall. Noda ymhellach iddo gyfaddef hynny ei hun,[155] ond nad yw ei esboniad ysgafn yn ddigon i gyfiawnhau nac esbonio'r modd yr aeth ati i ddarlunio Iddewon yn *O'r Bala i Geneva*, er enghraifft, a'i ddefnydd cyson o ystrydebau gwrth-Semitaidd. [156] Dichon fod y datganiad hwnnw'n wir am ei ymdriniaeth â thrigolion Catholig Llydaw hefyd a'i wrth-Gatholigiaeth ronc.

Er ei bod yn amlwg fod rhagfarn gynhenid wrth-Gatholig yn rhan o fydolwg Edwards wrth ysgrifennu *Tro yn Llydaw*, gall ffactorau eraill fod wedi ffyrnigo'r rhagfarn honno. Yn ddi-os, roedd ganddo ddelfryd o Lydaw, delfryd — fel y dadleuir isod — wedi ei siapio gan nifer o ddylanwadau gyda Matthew Arnold ac Ernest Renan yn eu plith. Nid ei ragfarnau yn

150 Ibid., t. 10.
151 Ibid.
152 Ibid., t. 28.
153 Hazel Walford Davies, *O. M. Cofiant Syr Owen Morgan Edwards* (Llandysul: 2020), t. 402.
154 Ibid., t. 397.
155 Ibid.
156 Gweler, er enghraifft, 'Yr Iuddewon'. O. M. Edwards, *O'r Bala i Geneva* (Y Bala: 1889), tt. 78-87.

unig a oedd ganddo gyda'i gês wrth groesi'r môr, ond syniad o Lydaw a'i harweiniodd ar gyfeiliorn gan chwilio am ail Gymru.[157]

Trawa Davies yr hoelen ar ei phen wrth nodi, 'Heb os, y mae *Tro yn Llydaw* yn ymwneud cymaint â Chymru ag y mae â Llydaw y cyfnod'.[158] Chwilio am ail Gymru roedd Edwards ac afraid dweud na chafodd hyd iddi. Disgrifia ei obeithion yn y rhagymadrodd, mai Llydaw fyddai'r wlad leiaf dieithr iddo'i gweld y tu draw i Gymru a hynny am mai 'yr un bobl yw'r Llydawiaid a'r Cymry'.[159] Roedd dwy anfantais i fynd i Lydaw i ysgrifennu llyfr teithio gyda rhagdybiaeth o'r fath. Y gyntaf oedd bod Edwards yn siŵr o gael ei siomi a'r ail oedd ei fod yn fwy tebygol o farnu pobl a dybiai oedd yr un bobl ag ef, yn unol â'i safonau personol. Cafodd siom a gadawodd y siom honno flas chwerw ar yr holl daith. Noda Catrin Puw Morgan, nad oedd Edwards yn gallu dioddef gweld pethau nad oedd yn cytuno â hwy yn ogystal â nodweddion a aeth yn erbyn ei ragdybiaeth a bod hynny wedi arwain at chwerwi o fath.[160]

Eto, glyna Edwards at y syniad hwnnw o gysylltiad ac o fod o'r un anian yn y bôn, gan ddadlau bod yna syniad o berthyn rhwng Llydäwr a Chymro. Mae gan y syniad o 'waed' neu ddisgynyddiaeth ran yn hyn, a'r cymharu pryd a gwedd rhwng Llydawyr a Chymry yn symptom o hynny. Y prif ddull y cymhara'r ddwy genedl o ran tebygrwydd, serch hynny, yw manylu ar yr ieithoedd a'u cysylltiad. Yn dilyn yr hyn a ddywed Edwards, byddai modd maddau i ddarllenydd heb ymwybyddiaeth o'r ddwy iaith pe credai mai'r un iaith oeddynt mewn difri. Dyma sgwrs yr honnai Edwards iddo'i chael gydag unigolion wrth ddrws gwesty lle bu'n aros, yr Hotel de la Poste, un noswaith:

> 'Nos fad.'
> 'Nos fad.'
> 'Bara, 'menyn, cig dafad?'
> 'Ia, ia.'
> 'Dau wely dros y nos?'
> 'Ia, ia.'[161]

Dyna un enghraifft ymhlith nifer. Dro ar ôl tro aiff Edwards ati i nodi geiriau tebyg neu ddatgan ei fod yn gallu cynnal sgwrs gyda Llydäwr a'r naill a'r llall yn siarad ei iaith ei hun. Ar daith mewn cerbyd, mae criw o Lydäwyr yn rhestru enwau lleoedd wrth Edwards ac

[157] Catrin Puw Morgan, 'Athro ar Daith', *Yr Arloeswr,* 5 (Gaeaf 1959), t. 10.
[158] Davies, *O. M.* , t. 402.
[159] Edwards, *Tro yn Llydaw*, t. v.
[160] Morgan, 'Athro ar Daith', t. 6.
[161] Edwards, *Tro yn Llydaw*, t. 39.

enwau pethau sydd i'w gweld wrth fynd heibio.[162] Wrth gwrs, mae'r enwau hynny — 'Pen ar Lan, Croes Hedd, Tre Melfen'[163] — a'r gwrthrychau — '"moch," "porchell," "gwenith"'[164] — i gyd yn gyfarwydd ac yn ddealladwy i ddarllenydd o Gymro.

Enghraifft hynod arall yw pan geisia Edwards godi sgwrs gyda gwraig ar ochr ffordd mewn Ffrangeg a methu ond yna mae'n llwyddo wrth siarad Cymraeg.[165] Dechreua Edwards wrth enwi anifeiliaid, cyn cynnig ei bod yn '"Sul braf"'[166] yna, dyweda: 'Dechreuodd hithau lefaru ar unwaith, gwyddwn fod ganddi galon lawn, ac yr oedd yn cymryd diddordeb ynom,'[167] ac aiff ymlaen i drafod sut y soniodd y wraig fod ganddi frawd ym Mhen Pwl. Yr argraff a geir yw nad oedd unrhyw anawsterau ieithyddol mewn trafodaeth o'r fath gydag Edwards yn deall y Llydawes a hithau'n gallu ei ddeall yntau er eu bod yn siarad dwy iaith wahanol.

Nid elfen i wahaniaethu yw'r iaith i Edwards, fel y byddai'r disgwyl, ond yn hytrach elfen i uno a chyfle i fanylu ar debygrwydd. Gellir tybio bod yr elfennau tebyg yn ddifyrrwch i ddarllenydd yn llawn cymaint ag yr oedd i'r Llydawyr a gymerai, yn ôl Edwards, ddiddordeb mawr yn y tebygrwydd ieithyddol.[168] Er bod y manylu hwn ar gysylltiad â rhywbeth tebyg yn torri ar lif y rhagfarn wrth-Gatholig unwaith eto, cyniga Morgan fod hyn yn fethiant ar ran Edwards. Pwysleisia'r nodweddion tebyg (geiriau unfath neu rai sydd yn agos at fod felly gan amlaf) hyd at y graddau ei fod yn gorbwysleisio'r cysylltiad ieithyddol a hynny'n ei dro yn tanseilio'r gyfrol fel llyfr taith. [169] O gofio rheidrwydd llyfr teithio i arallu[170] ac i gyflwyno'r dieithr ac i amlygu gwahaniaethau fel y trafodwyd uchod, cynigia Morgan fod ymlyniaeth Edwards wrth gyflwyno'r tebygrwydd hwn yn fethiant o ran rhinwedd llyfr teithio. Noda wrth drafod obsesiwn Edwards gyda Chymru wrth deithio:

> Y gwladgarwch trosgynnol hwn yw un o'r bendithion mwyaf a gafodd Cymru. Ond prin ei fod yn fantais i O. M. y teithiwr, oblegid ni chai'r wlad y teithiai ynddi hanner chwarae teg. Ni allai ei gwerthfawrogi pan oedd ei holl fryd ar wlad arall. Nid oes dim sy'n codi gwrychyn dyn gymaint â theithiwr a ddefnyddia'i ymweliad fel cyfle i glodfori ei wlad enedigol ar draul y wlad estron.[171]

---

[162] Ibid., tt. 79-80.
[163] Ibid.
[164] Ibid.
[165] Ibid., t. 74.
[166] Ibid.
[167] Ibid., t. 74.
[168] Ibid., t. 39.
[169] Ibid.
[170] Carl Thompson, *Travel Writing: the New Critical Idiom* (Abingdon: 2011), t. 132.
[171] Morgan, 'Athro ar Daith', t. 10.

Er bod arallu'n digwydd yn naturiol i raddau wrth i unigolyn o un diwylliant ddisgrifio diwylliant arall,[172] mae'n rhaid wrth ymdrech ar ran yr awdur hefyd.

Dadleua Morgan mai cymhelliad gwleidyddol oedd i'r manylu ar y tebygrwydd hwn gan fod Edwards yn gobeithio troi Llydaw at Brotestaniaeth drwy gyfrwng y Cymry[173] a bod tebygrwydd yr iaith yn fodd o brofi perthynas agos rhwng y ddwy wlad y gellir manteisio arni at y perwyl hwnnw. Pa gymhellion bynnag oedd ganddo o ran y pwysleisio hwn, llesteirir yr ymdrech i gynnig darlun o fyd anghyfarwydd. Daw'r Llydaweg yn fath gwahanol o Gymraeg a thrwy hynny, collir yr elfen ddieithr.

Mae llinach anrhydeddus i ymdrechion o'r fath ar sail tebygrwydd ieithoedd gyda Thomas Price neu Carnhuanawc yn annog cyfieithu'r Beibl i'r Llydaweg. Bu Carnhuanawc yn weithgar iawn wedi iddo sylweddoli nad oedd cyfieithiad cyflawn o'r Beibl mewn Llydaweg. Magodd ddiddordeb mewn materion Llydawaidd wedi iddo gyfarfod carcharorion rhyfel o Lydaw yn y Fenni rhwng 1805 a 1810.[174] Casglwyd arian ac aethpwyd ati i gyfieithu dan law Jean-François Le Goindec, unigolyn a oedd eisoes wedi cyhoeddi gramadeg a geiriadur Llydawaidd ac un o sylfaenwyr yr L'academie Celtique ym Mharis. Yn 1835, gorffennwyd y cyfieithiad er mai dim ond y Testament Newydd a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod hwnnw;[175] ni chyhoeddwyd fersiwn llawn hyd 1866 a hynny am fod gwerthiant y Testament Newydd mor wael. Dadl ar sail achubiaeth grefyddol a thebygrwydd iaith oedd gan Carnhuanawc fel Edwards yntau. Serch hynny, roedd ei ddadansoddiad ieithyddol  yn fwy realistig o ran y tebygrwydd a'r gwahaniaethau rhwng y Llydaweg a'r Gymraeg nag un Edwards.[176]

Yn unol â darlun ehangach a wthiai ddadleuon cenhadol, nid diwylliant unigryw Lydewig a geir ym mhortread Edwards ond yn hytrach ryw ffurf arall ar Gymru, ac eir â'r ddelfryd hon i eithafion. Arallu o fath gwahanol a geir gan Edwards: nid yr arallu ar sail cenedl, diwylliant, hil neu iaith a geir mewn llyfrau teithio eraill a astudir, ond yn hytrach, arallu crefyddol a moesol. Fel y trafoda Thompson yn aml, mae arallu yn golygu dangos diwylliant arall fel un israddol: 'not only different but also inferior to itself',[177] ac yn sicr, mae hynny'n wir yn nhrafodaeth Edwards o grefydd y Llydawyr. Gan mai'r 'un bobl' yw'r Llydawyr a'r Cymry yng ngolwg Edwards, nid eu diwylliant a'u hiaith eu hunain sydd ganddynt ond yn hytrach

---

[172] Thompson, *Travel Writing*, t. 133.
[173] Ibid.
[174] John T Koch (gol.), *Celtic Culture : a Historical Encyclopedia* (Santa Barba: 2006), t. 210.
[175] Ibid., t. 428.
[176] Jane Williams (gol.), *The Literary Remains of The Rev. Thomas Price, Carnhuanawc, Vicar of Cwm Dû, Breconshire and Rural Dean, Author of Hanes Cymru, Essays on the Geographical Progress of Empire and Civilivation, ETC ETC.* (Llandovery: 1854), t. 108.
[177] Thomspon, *Travel Writing*, tt. 132-2.

amrywiad ar y norm yng Nghymru. Yn achos yr iaith, nid yw hynny'n ddrwg o beth: caiff ei gwahaniaethau eu boddi gan yr elfennau tebyg a nodwedd i ddiddanu'r gynulleidfa, yn ogystal ag Edwards, yw hynny, ond mae'r amrywiadau eraill yn fwy problematig. Teg fyddai galw'r gwahaniaethau crefyddol a moesol yn wyriad yn hytrach nag amrywiad ar y norm ym marn Edwards — a hwnnw'n wyriad peryglus.

Y pechod mwyaf ym marn Edwards yw Catholigiaeth. Yma y mae'r gwahaniaethau rhwng Cymru a Llydaw yn fwyaf amlwg iddo a Chatholigiaeth yw ffynhonnell llawer o'r drwg arall a welodd megis yfed alcohol. Heb os, hwn yw'r maen tramgwydd mwyaf i Edwards ar ei daith a'r nodwedd y manyla fwyaf arni. Mae Catrin Puw Morgan yn crynhoi'r nodwedd hon fel a ganlyn: 'Y mae popeth Pabyddol yn golledig, a phopeth Protestannaidd yn berffaith',[178] ac anodd yw dadlau gyda hynny. Yn ddieithriad, nid oes dim oll a'i gysylltiad â Chatholigiaeth yn werth ei achub, a chan fod y Llydawyr a'u crefydd wedi eu cyd-blethu mor agos, nid yw'n synod mai anffafriol yw'r darlun a geir ohonynt droeon yn sgil eu harferion crefyddol.

Yn aml, mae Edwards yn ddifrïol o gredoau Catholig ac un enghraifft o hyn yw ei arferiad o gyfeirio at ddŵr wedi ei gysegru fel 'dŵr swyn'.[179] Nid oes ychwaith yr un offeiriad Catholig a ddisgrifir mewn modd canmoladwy. Y mae corffolaeth yr offeiriaid yn destun trafod a chyfeirir atynt yn amlach na pheidio fel unigolion gordew,[180] a hynny mewn cyferbyniad â'u plwyfolion sydd yn dlodaidd a thenau. Fel modd o ddarlunio deheudir Llydaw fel lle annymunol a thlotach na gweddill y wlad, aiff Edwards ati i alw'r offeiriaid yn 'heidiau duon fel brain'.[181] Y mae brain yn adar cyrff sydd yn bwydo ar anifeiliaid eraill ac awgrymir bod yr offeiriaid tewion hyn yn pesgi ar draul eu praidd. Ar adegau, ymyla'r darlun anffafriol cyffredinol hwn ar y pantomeimaidd a cheir enghraifft o Edwards yn pentyrru nodweddion anffafriol wrth iddo deithio drwy ardal St Brieuc: 'hen offeiriad tew, darlun o erlidiwr, yn gwgu arnom ac yn chwipio'i geffyl i lawr y goriwaered wrth ein pasio'.[182]

Mae'r offeiriaid hefyd yn cael eu portreadu fel rhai diog. [183] Cyniga Edwards sylw o'r fath pan yw'n cyd-deithio ar drên gydag offeiriad, ac nid oes cyd-destun ehangach i ddisgrifio pam bod yr offeiriad penodol hwn yn diogi ar ei daith. Awgrymir wrth natur ddi-hid y datganiad y dylai'r darllenydd un ai dderbyn diogrwydd Catholigion fel ffaith gydnabyddedig

[178] Edwards, *Tro yn Llydaw*, t. 6.
[179] Ibid., t. 60.
[180] Ibid., t. 35.
[181] Ibid., t. 122.
[182] Ibid., t. 34.
[183] Ibid., t. 130.

neu fod yn ymwybodol mai natur felly sydd gan offeiriaid heb gwestiynu. Ni cheir yr un offeiriad Catholig hynaws na chyfeillgar ar y daith ar ei hyd.

Ar adegau, ni cheir gwell darlun o'r plwyfolion ac ymddengys bod cysylltiad rhwng pa mor echblyg yw eu Catholigiaeth a pha mor wrthwynebus yw Edwards i'w presenoldeb. Nodwyd uchod sut ymateb oedd ganddo i'r offeiriaid ac mae pererinion yn addoli yn cael eu disgrifio mewn dull anffafriol tebyg:

> [...] yr oedd ugeiniau o bererinion ar eu gliniau ar y llawr pridd. Yr oedd eu hanadl afiach wedi cymysgu â mwg aroglus y thuser, nes gwneud yr awyr mor glos fel na fedrem ni aros pum munud yno.[184]

Cymharwn hyn gyda'r darlun o Gatholigion, sydd yn trafod crefydd gydag Edwards ac yn closio at Brotestaniaeth neu yn ymddiddori ynddi, sydd yn llawer mwy cadarnhaol; yn wir, mae'n mwynhau bod yn eu cwmni.[185]

Fel y byddai disgwyl, felly, tra gwahanol yw'r darlun o genhadon Protestannaidd y mae Edwards yn eu cyfarfod i hyd yn oed y Catholigion y canmolir fwyaf arnynt. Ymddengys bod yna elfen gynhenid o fewn Protestaniaid sydd yn eu gosod uwchlaw Catholigion, waeth beth yw eu cenedligrwydd yng ngolwg Edwards. Y mae Le Groignec, pregethwr Calfinaidd o Drouarnenez, 'yr un ffunud a phregethwr Methodist Cymreig',[186] a'i wraig yn union fel gwraig pregethwr Cymreig hefyd. Y nodweddion hynny sy'n gosod y ddwy yn yr un cae â'i gilydd yw ei bod 'yn llawen, yn hardd, yn groesawgar'[187] gan awgrymu nad yw Catholigion o'r un brethyn. Disgrifia Edwards sut y mae Le Groignec hefyd yn cael ei barchu ar y strydoedd gyda phobl yn cyffwrdd cantel ei het wrth grwydro heibio iddo tra pwysleisia mai ofn sydd yn sicrhau dilyniant tebyg i'r offeiriaid.[188] Y mae'r Protestant yn well pregethwr hefyd: meddai ar 'lais treiddgar'[189] tra oedd gan offeiriad Catholig mewn gwasanaeth y profodd Edwards ynghynt lais sy'n '[m]wmian fel cacynen mewn bys coch'.[190]

Ymyla'r rhethreg wrth-Gatholig ar fod yn obsesiwn i Edwards. Ar fwy nag un achlysur,[191] aiff i wasanaeth Catholig ar y Sul am fawr mwy o reswm nag i allu cwyno am safon y gwasanaeth hwnnw, neu felly yr ymddengys. Yn ystod y dadansoddiadau hyn, nid bywyd y

---

184 Ibid., t. 77.
185 Ibid., t. 68. Gweler, hefyd, t. 60.
186 Ibid., t. 120.
187 Ibid.
188 Ibid., t. 121.
189 Ibid.
190 Ibid., t. 60.
191 Ibid t. 26. Gweler, hefyd, tt. 59-61.

Llydawyr sydd yn cael ei ddisgrifio, heblaw am ddisgrifiadau arwynebol o'u gwisg,[192] nac ychwaith eu credoau penodol, ond yn hytrach, Gatholigiaeth fel endid ehangach a nodweddion ffaeledig yr Eglwys Gatholig yn ei chrynswth. Er bod pensaernïaeth yr eglwysi yn taro hyd yn oed Edwards fel un drawiadol ar rai achlysuron,[193] nid yw sylwedd gwasanaeth yn llwyddo i'w argyhoeddi yn yr un modd. Ceir awgrym mai rhywbeth arwynebol i blesio'r llygaid yw Catholigiaeth yn unig. Mae canlyniad bod yn rhan o wasanaeth o'r fath yn gadael ei ôl arno a'i gydymaith: 'gwanhau ein meddyliau a wnâi, gwneud i'n heneidiau suddo i ddiogi, a thybied fod y diogi'n addoliad'.[194]

Mae hynny yn hollol wrthwynebus i bwrpas gwir grefydd Brotestannaidd sydd i fod i annog unigolion i chwilio am wirionedd, yn ôl Edwards.[195] Crefydd fas, ddienaid yw Catholigiaeth iddo ac un sydd yn disgyn yn ddarnau o'i dadansoddi.[196] Dadleua fod Anghydffurfiaeth yng Nghymru wedi cadw pob dim o werth o Gatholigiaeth ac wedi ychwanegu at hynny wrth iddi ddatblygu.[197] Rhaid nodi hefyd, yn unol â'i weledigaeth Gymru-ganolog, ei fod yn datgan fod Protestaniaeth Gymreig yn rhagori ar unrhyw un arall gan fod yr emynwyr, Ann Griffiths a William Williams, Pantycelyn, yn rhoddi cyfoeth ychwanegol iddi.[198] Rhywbeth esthetig a disylwedd yw Catholigiaeth iddo,[199] a chred ei fod uwchlaw yr holl sioe a'r rhwysg gan fod yna fwy o ddyfnder i grefydd Cymru.

Mae Cymru a'r Cymry drwy Anghydffurfiaeth yn fwy datblygedig yn grefyddol ac yn foesol na'r Llydawyr, ym marn Edwards. Caiff y Llydawyr eu hynafoli drwy eu hymlyniaeth wrth hen grefydd sydd, ym marn Edwards, wedi ei disodli gan grefydd well, fwy modern ar salw cyfri. Gwêl y Llydawyr fel pobl sydd ar ei hôl hi, ond nid o ran crefydd yn unig y ceir darlun braidd yn henffasiwn os nad cyntefig o'r Llydawyr ganddo, gan mai pobl hynafol at ei gilydd yw'r Llydawyr a ddisgrifir ganddo.

Un modd yr awgrymir elfen gyntefig yw'r drafodaeth ar lendid y Llydawyr a safon eu tai sydd ymhell o fod mor safonol â rhai Cymru. Er mwyn cael darlun eglurach o obsesiwn Edwards â glanweithdra, byddai'n fuddiol cyfeirio at gyfrol gynharach, *Cartrefi Cymru*, a gyhoeddwyd yn 1896.[200] Er ei bod yn gyfrol sydd yn dynodi taith o fath rhwng adeiladau enwog Cymru, nid yw o reidrwydd yn llyfr taith. Eithr nid dyna pam y cyfeirir ati ond yn

[192] Ibid, t. 60.
[193] Ibid., t. 24
[194] Ibid.
[195] Ibid.
[196] Ibid.
[197] Ibid., t. 65
[198] Ibid.
[199] Ibid., t. 64.
[200] O. M. Edwards, *Cartrefi Cymru* (Wrexham: 1896).

hytrach am ei bod yn ymgorffori agwedd Edwards at rinwedd cartref ‘cywir’, Protestaniaeth a Chymru. Dyma wrthbwynt diddorol wrth ystyried ei bortread o gartrefi Catholig yn Llydaw. Yn y gyfrol honno, caiff glendid y tai y mae Edwards yn ymweld â nhw sylw amlwg. Un o’r rhinweddau amlycaf sydd ganddynt, a’u preswylwyr, yn ei farn ef, yw’r ffaith eu bod yn daclus a glân. Noda Hazel Walford Davies fod y gyfrol yn cynnwys ‘darluniau hynod ramantus o lendid’,[201] ac mae’r mawrygu hwn ar y tai perffaith hyn yn adleisio ei ddarlun idylaiddd o’r Pentref Gwyn. Noda am Gerddi Bluog, er enghraifft: ‘Yr oedd y llawr yn lân, fel yr aur, ac yr oedd golwg clyd ryfeddol ar y gegin.’[202] Dyna Ddolwar Fechan wedyn eto’n cael ei ganmol am ei fod yn lân a chysurus: ‘Y mae’r ty'n [*sic*] newydd, a golwg lân a chysurus arno ynghanol ei erddi blodau ar lethr y bryn.’[203] Ceir awgrym pendant fod y ddeubeth yn dibynnu ar ei gilydd, yn enwedig felly o gofio’r disgrifiad o Dŷ Coch nad yw ond yn ‘eithaf clyd a glân, er mai bechan iawn yw ei ffenestr a phur anwastad ei lawr’.[204] Pan na cheir y safon hylendid priodol, gall Edwards droi at ansoddeiriau eraill i ganmol tai Cymru. Meddai, wrth ddisgrifio adeilad cyfagos i Bantycelyn nad yw mor lân â’r fan honno: ‘[...] ac yr oedd golwg urddasol arno, er gwaethaf ei henaint a’i dlodi’.[205]

Mae budreddi a diffyg glanweithdra yr un fath â diffyg datblygiad ym marn Edwards. Yn ninas St Malo caiff y strydoedd a’u cyflwr sylw manwl ganddo a hynny am nad ydynt yn gweddu i safonau datblygedig ei famwlad. Mae’r darlun yn debycach i un canoloesol nag un modern, gyda’r strydoedd culion yn llawn ysbwriel a daflwyd o’r tai uwchben a hwnnw’n aros yno nes y bydd y glaw, yn ôl Edwards, yn ei sgubo ymaith.[206] Strydoedd budron yw rhai Llydaw bron yn ddieithriad,[207] ac ar fwy nag un achlysur, caiff trefi eu disgrifio fel rhai drewllyd. Wrth roi ystyriaeth i lanweithdra, y mae’n datgan yn awdurdodol: ‘Cyn belled ag y mae a fynno carthffosydd â gwareiddiad, y mae Llydaw gan mlynedd ar ôl’.[208]

Yng ngolwg Edwards nid o ran carthffosiaeth yn unig y mae Llydaw heb ddatblygu’n ddigonol ac mae’r cysylltiad rhwng natur annatblygedig o ran glanweithdra a chrefydd — rhwng y budreddi daearol ac ysbrydol — yn rhywbeth sydd yn cael sylw ganddo. Wedi iddo deithio drwy St Malo a’i chael yn ddinas ddrewllyd er ei thlysni arwynebol, dyweda ‘fel Pabyddiaeth, o bell mae St Malo dlysaf’.[209] Mwy echblyg yw ei gyfeiriad anffafriol at

---

[201] Davies, *O. M.*, t. 481.
[202] Edwards, *Cartrefi Cymru*, t. 44.
[203] Ibid., t. 16.
[204] Ibid., t. 26.
[205] Ibid., t. 54.
[206] Edwards, *Tro yn Llydaw,* t. 23.
[207] Ibid., t. 35.
[208] Ibid.
[209] Ibid., t. 26.

offeiriad sydd yn gwmni iddo ar daith o Kemper i Rosporden: gŵr 'budur ei grys, budr ei lyfr'.[210] Disgrifia 'haid' arall o offeiriaid fel rhai 'heb eillio ers pedwar diwrnod ac heb olchi eu hwynebau ers pedwar mis'.[211] Fe'u darlunnir yn anifeilaidd fel 'haid' di-rifedi a cheir adlais o ddisgrifiadau gwrth-Semitaidd ganddo mewn gweithiau eraill: 'Y mae yma nifer anferth o Iuddewon. Y maent hwy yn cynyddu tra mae'r bobl eraill yn lleihau'.[212] Dyma ystrydeb wrth-Semitaidd gyfarwydd a defnyddia Edwards eraill hefyd megis rhai am bryd a gwedd Iddewon.[213] Yn ei chofiant iddo, cymhara Davies ragfarn wrth-Semitaidd a gwrth-Gatholig Edwards gan nodi iddo ddefnyddio yr un 'angerdd a'r un rhagfarnau yn ei ymosodiadau yn erbyn Catholigiaeth' ag a wnaeth yr erbyn Iddewon.[214] Cysyllta Edwards y cysyniad o liaws dirifedi â budreddi a boddir strydoedd Llydaw gan heidiau o offeiriaid fel y bu i strydoedd Geneva gael eu llenwi ag Iddewon. Mae'r naill fudreddi'n gysylltiedig â'r llall ym meddwl Edwards, gyda diffyg moesau crefyddol yn arwain at ddirywiad diriaethol a daw'r sylw cyson hwn i fudreddi yn rhan amlwg o'i ganfyddiad o Gatholigion, a thrwy hynny, drigolion Llydaw.

Mae'r aelwydydd Catholig, fel y strydoedd a rhai o'r bobl, yn rhai sydd yn peri gofid i iddo. Er bod rhai tai yn brydferth yn yr ystyr eu bod yn hen iawn[215] — arwydd arall o hynafoli'r wlad — eithriadau yw'r rhain ymysg enghreifftiau lluosog o dai annymunol. Un enghraifft ymhlith nifer yw La Claret a ddisgrifir fel 'pentre tlawd o dai gwael'.[216] Dadleua Edwards mai 'pobl dlodion a diog'[217] yn unig sydd yn byw mewn tai fel 'tai amaethwyr deallgar Cymru'[218] yn Llydaw, hynny yw, tai tlodaidd. Digon tlodaidd yw'r darlun ar y cyfan, gan awgrymu mai un ai pobl dlawd neu bobl ddiog yw'r trwch o bobl y daw Edwards ar eu traws yn yr ardaloedd gwledig.

Nid cyflwr allanol y tai yn unig sydd yn destun beirniadaeth ychwaith. Yn Dournarnenez, edrycha Edwards i mewn i dai a'u cael 'oll yn fudron ffiaidd',[219] ac mae'r pentref ei hun yn cael ei ddarlunio fel man annymunol hefyd. Yr unig obaith i Edwards am achubiaeth yw chwilio am gartref Protestant, ond mae hyd yn oed y daith at y man hwnnw yn un llawn

[210] Ibid., t. 122.
[211] Ibid., t. 127.
[212] Edwards, *O'r Bala i Geneva*, t. 51.
[213] Ibid., t. 52.
[214] Davies, *O. M.*, t. 399.
[215] Edwards, *Tro yn Llydaw*, t. 30.
[216] Ibid., t. 82.
[217] Ibid., t. 35.
[218] Ibid.
[219] Ibid., t. 119.

budreddi — ‘esgynasom risiau, yr oeddynt yn fudron a lleidiog iawn’.[220] Yma, wrth iddo chwilio am gartref cenhadwr Protestannaidd, y daw’r rhagfarn grefyddol sydd yn gyfrifol am y fath ymdriniaeth yn fwy echblyg, os nad oedd yn ddigon echblyg yn barod. Pwysleisir gan Edwards yma y gymhariaeth rhwng ensyniadau annatblygedig Catholigiaeth a budreddi, a diffyg datblygiad norm o lanweithdra a fodola yng Nghymru.

Cymhara Edwards esgyn i fflat Protestannaidd fel esgyn i’r nefoedd o’r ddaear wrth iddo adael y nodweddion amhur hynny y tu cefn iddo a dringo i fan glanach a phurach. Nid arferion cymdeithasol neu wahaniaeth o ran statws neu stad economaidd sydd yn gyfrifol am ddiffyg glanweithdra yn Llydaw, ond yn hytrach, eu hymlyniad wrth grefydd heblaw Protestaniaeth:

> Beth bynnag arall y mae Protestaniaeth yn wneud, y mae’n dysgu pobl i olchi eu hwynebau ac i lanhau eu tai, ac y mae hyn yn sicr o fod yn rhan bwysig o grefydd Iesu Grist.[221]

Nid yn unig y mae tŷ Protestannaidd yn lân ond y mae atyniad arall i Edwards hefyd, sef apêl y cyfarwydd: caiff hyd yn oed baned o de yno, lle na chafwyd dim ond coffi drwy weddill Llydaw. Wedi iddo adael Cymru gan feddwl dod o hyd i wlad debyg os nad unfath, ymddengys bod cysur mewn ‘llenni gwynion’[222] a ‘dodrefn cyn laned a’r [*sic*] aur’,[223] hynny yw, y nodweddion Calfinaidd, cartrefol hynny sydd yn nodweddu ysbryd crefyddol mwy chwaethus. Manyla Edwards ar bethau domestig gan bwysleisio eu gwynder, er enghraifft, y llenni a’r lliain bwrdd oedd ‘cyn wyned a’r [*sic*] eira’,[224] pethau cyfarwydd dilychwin sydd o ran eu lliw a’u cysylltiad â syniadaeth grefyddol gyfarwydd yn symboleiddio purdeb.

Y mae plant y tŷ hwn hefyd yn cael eu disgrifio fel rhai sydd yn dlws ac yn iach gan awgrymu nad felly mo blant trigolion Catholig Llydaw. Wrth gyfosod fflat Protestaniaid glân a phlant tlws gyda’r fflatiau Catholig eraill, mae Edwards yn cyfosod dau fyd. Y byd Protestannaidd, modern a glân a’r byd Catholig hynafol, sydd heb ddatblygu’n ddigonol i gadw tŷ hyd yn oed. Aiff Edwards i weld ystafell genhadol yn dilyn ei ymweliad â’r bastiwn hwn o Brotestaniaeth ac mae’r gwahaniaeth rhwng y ddau le yn nodedig. Dichon fod Edwards yn llwyr ymwybodol o ba mor drawiadol fyddai cyfosod y ddau brofiad mor agos at ei gilydd:

---

[220] Ibid.
[221] Ibid.
[222] Ibid.
[223] Ibid.
[224] Ibid.

> Rhan o dŷ coed ydyw, ystafell isel, dywell, mewn lle budr [...] ac y mae'r arogl ymgyfyd o'r tomennau gerllaw yn annioddefol bob amser. Perigl parhaus oedd syrthio ar draws plant, creaduriaid bach budron hanner noethion a oedd yn chwarae yn y llwch a'r tomennydd.[225]

'Creaduriaid' yw plant Catholig, a cheir ymdeimlad fod disgrifiadau o'r fath o fudreddi trigolion Catholig yn eu dad-ddynoli. Fe'u portreadir fel trueiniaid heb ddillad, yn fudr ac yn ymdrybaeddu mewn llwch ac ysbwriel. Maent yn llythrennol hefyd o dan draed ac yn rhan o'r budreddi cyffredinol sy'n nodweddu eu hamgylchfyd. Dyma ddarlun byw a thruenus gan ŵr a fu mor bleidiol dros blant Cymru.

Bron nad yw'r anallu i gadw tŷ, ac i lanhau, yn dabŵ mewn cyd-destun Cymreig yn y cyfnod hwn. Mae'r cysylltiad rhwng glanweithdra a normalrwydd, os nad duwioldeb, yn rhywbeth y cyfeirir ato'n ehangach yng Nghymru na chan Edwards yn unig. Yn y gyfrol boblogaidd *Llyfr Pawb ar Bob-peth: sef y ffordd oreu i gyflawni holl ddeledswyddau, ac i gyfarfod a holl amgylchiadau bywyd cyffredin* ceir pwyslais ar lanweithdra, er enghraifft. Dyma gyfeirlyfr a oedd yn llawn cyngor ar amryfal agweddau o fywyd Cymru'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ac mae'n cynnig cip ar agweddau a moesau'r cyfnod yn sgil hynny. Nodir yn y rhagymadrodd, er enghraifft, 'glanhau' fel un o'r sgiliau hanfodol i ferch ieuanc[226] a 'chadw tŷ mewn trefn'[227] fel un y dylai'r pâr priod ei meithrin. Nodir taclusrwydd fel un o'r 'Rheolau teuluaidd' hefyd[228] a cheir amryw gynghorion megis; 'Mae ffenestri budron yn dweyd wrth y rhai fo'nt yn myn'd heibio mai gwraig afler sy'n byw yn y tŷ hwnw[*sic*]'.[229] Dyma ddyfyniad sydd yn adlewyrchu barn ehangach o fewn y gyfrol am bwysigrwydd glanweithdra a'r cysylltiad rhwng bod yn lân a moesoldeb. Adlewyrchir ynddi hefyd yr amser a roddid i lanhau gyda'r adran 'Awgrymiadau i Forwyn ty [*sic*]' yn nodi bod rhyw lun ar waith glanhau i ddigwydd chwe niwrnod yr wythnos, a'r seithfed wrth gwrs wedi ei neilltuo at orffwys.[230]

Un enghraifft lenyddol sy'n profi hirhoedledd y syniad hwn yn ddiweddarach yn yr ugeinfed ganrif yw gwaith Kate Roberts yn ei thrafodaeth am fywyd Anghydffurfiol, gwerinol yr ugeinfed ganrif. Yn ei stori fer 'Y Chwiorydd', er enghraifft, mae cadw tŷ yn

---

[225] Ibid., t. 120.
[226] Thomas Thomas, *Llyfr Pawb ar Bob-peth: sef y ffordd oreu i gyflawni holl ddeledswyddau, ac i gyfarfod a holl amgylchiadau bwywyd cyffredin* (Wrexham: 1880), t. v.
[227] Ibid.
[228] Ibid., t. 130.
[229] Ibid., t. 133.
[230] Ibid., t. 136.

rhan ganolog o fywyd ac o fyw yn 'iawn'.[231] Glendid a threfn yw canolbwynt y stori honno gyda dirywiad un chwaer yn cael ei nodweddu gan ei thŷ yn mynd â'i ben iddo wedi iddi ddechrau diffygio, ac ymgais y chwaer arall i'w chadw'n lân, a thrwy hynny, ei hachub rhag dirywio ymhellach. Cymaint yw pwysigrwydd glanweithdra nes i linell glo'r stori fer fanylu ar hynny. Cysur mawr Sara yw iddi lwyddo i sicrhau glanweithdra Meri ei chwaer hyd y diwedd: 'Mi gafodd Meri farw fel y buo hi fyw - yn lân.'[232]

Tabŵ, efallai, neu'n sicr rywbeth annerbyniol yw byw mewn tŷ a hwnnw'n fudr yng nghyd-destun Cymru Anghydffurfiol yr ugeinfed ganrif. Yn ôl Thompson, mae manylu ar nodweddion sydd yn dabŵ yn rhan o ysgrifennu teithio mewn rhai cyd-destunau:

> practices that one culture deems taboo will often function as powerful markers of cultural difference, which can be projected on to other cultures so as to emphasise their perceived barbarism and moral inferiority.[233]

Daw natur fudr Catholigion Llydaw yn arf pwysig i Edwards yn ei ddadl dros achub ei thrigolion. Gwêl ymlyniad Llydaw wrth Gatholigiaeth yn nodweddiadol o foesoldeb israddol a gellid dadlau bod yr elfen hon yn ymylu ar farbariaeth yn ei bortread hefyd. Nid barbariaeth yn ystyr creulondeb ond yn ystyr diffyg gwarineb a natur hynafol, gyntefig ac annatblygedig.

Cyniga Protestaniaeth achubiaeth i fywyd o'r fath a dyna un o gymhellion Edwards dros gynnig portread mor anffafriol neu druenus o bobl Llydaw. Fel sawl un sydd yn ei weld ei hun mewn sefyllfa freintiedig mewn gwlad ymddangosiadol annatblygedig mae Edwards yn teimlo ysfa i gynnig cymorth i'r rheiny sydd, yn ei farn ef, yn llai ffodus. Bron nad yw safle Cymru uwchlaw Llydaw o ran crefydd a natur ddatblygedig yn rhoi syniad o ddyletswydd i Edwards. Bron hefyd nad oes yma olygwedd cenhadwr Cristnogol yn dod i oleuo y mannau 'tywyll' hynny sydd angen achubiaeth.

Ar adegau, mae ei naratif yn ymylu ar bropaganda ac nid oes amheuaeth yn nhyb Catrin Puw Morgan mai llyfr at ei ddibenion ei hun oedd *Tro yn Llydaw*: 'Llyfr cenhadol yw **Tro yn Llydaw** [...] nid teithlyfr.'[234] Gobaith Edwards yw y bydd Cymru yn gallu arwain Llydaw at y wir grefydd[235] a'i hachub rhag Catholigiaeth drwy ei chodi i'r un lefel â Chymru. Caiff y cenhadon a drafodir ganddo eu portreadu fel arwyr a noda fod galw am fwy ohonynt mewn

---

[231] Kate Roberts, 'Chwiorydd' , *Rhigolau Bywyd a Storïau Eraill* (Aberystwyth: 1929,), tt. 49-58. Pwysleisir ei glendid ar t. 49. a'r dirywiad yn sgil salwch ar t. 51., er enghraifft.
[232] Ibid., t. 58.
[233] Thompson, *Travel Writing*, t. 137.
[234] Morgan, 'Yr Athro ar Daith', t. 11.
[235] Edwards, *Tro yn Llydaw*, t. 66.

ardaloedd fel Kemper.[236] Defnyddia ddelweddau o frwydro Beiblaidd i atgyfnerthu'r ddelfryd arwrol wrth drafod cenhadu gan adleisio brwydr Jericho ar un achlysur: 'Y mae'r muriau yn crynu yn Llydaw meddent, un ymosodiad dewr rydd y wlad yn eiddo Crist'.[237]

Nid apelio at y syniad o arwriaeth yn unig a wna Edwards wrth iddo geisio annog mwy o genhadu yn Llydaw ond apelio at dosturi'r darllenwr hefyd. Wrth drafod y plant yn yr ystafell genhadol y soniwyd amdanynt uchod, apêl ar sail emosiwn sydd gan Edwards:

> Os hoffech gryfhau'ch sêl dros y genhadaeth yn Llydaw, ewch yno a grandewch ar y plant yn chwarae;  cewch deimlo, mewn graddau anfeidrol lai, deimladau Tad Nefol wrth glywed pechaduriaid, ym mangre pechod a dioddef, eto'n siarad rhywbeth tebig i hen iaith y wlad well.[238]

Dyna ddychwelyd at y tebygrwydd ieithyddol ac yn y tebygrwydd hwn y mae'r gobaith i Edwards. Er bod y Llydawyr yn anfoesol,[239] ar ei hôl hi, ac yn Gatholigion, mae eto obaith am achubiaeth gan 'wlad well' ac mae cyfrifoldeb yn hynny hefyd wrth i un diwylliant mwy datblygedig geisio achub un cyntefig.

Mae naratif o'r fath yn ymdebygu mewn rhai agweddau i un Arnoldaidd ar brydiau; daw sawl cyfatebiaeth i'r golwg rhwng sut y bu i Matthew Arnold ymdrin â gwledydd Celtaidd, a Chymru'n benodol, yn null Edwards o drafod Llydaw. Fel Cymru yn llygaid Arnold, cilfach yw Llydaw, man nad yw'r byd mawr, modern wedi ei lawn gyrraedd a lle cafodd y bobl eu gadael ar ôl wrth i lif amser fynd o'u cwmpas. Dywed Edwards i'r Llydawyr gael eu 'gadael yng nghornel eu hen wlad',[240] ar yr ymyl Geltaidd — pobl y cyrion ydynt hyd yn oed o safbwynt Cymro.

Yn ei ragymadrodd, y mae Edwards yn crisialu'r agwedd hynafiaethol hon gan ddatgan yn blaen nad yw Llydaw eto wedi datblygu i'r un graddau â Chymru:

> Cymru wedi sefyll tua dechre'r ddeunawfed ganrif ydyw Llydaw, - mewn crefydd, mewn moesoldeb, mewn gwybodaeth. Wrth fynd i Lydaw, y mae'r Cymro'n mynd ymhellach na thros fôr, y mae'n mynd ddwy ganrif yn ôl.[241]

---

[236] Ibid., t. 107.
[237] Ibid.
[238] Ibid., t. 120.
[239] Ibid., t. v.
[240] Ibid., t. 27.
[241] Ibid., t. v.

Y mae popeth, nid eu crefydd yn unig, yn gyntefig yng ngolwg Edwards ac fel yn achos Arnold, er bod yr ymlyniad wrth y gorffennol yn broblematig, mae yna elfennau sydd yn apelgar hefyd.

Gwlad yr hen bethau yw Llydaw, yn ofergoelion, cerrig hynafol a gwisgoedd traddodiadol drwyddi. Gwyddom eisoes iddi gael ei disgrifio fel gwlad ar y cyrion a golyga hynny fod gweddill y byd, gan gynnwys Cymru, wedi ei gadael ar ôl i raddau. Mae'r tirlun ei hun yn ategu'r darlun o ryw arallfyd cyntefig:

> Wrth ymlwybro rhwng y cerrig bron na feddyliem mai pennau cawrfilod, penglogau hen anifeiliaid y cynfyd oeddynt, y gwylltfilod y byddis yn breuddwydio am danynt, wedi eu troi'n garreg.[242]

Tebyg iawn yw darlun Edwards yn yr achos hwn i un enwog Arnold o Gymru:

> Wales, where the past still lives, where every place has its tradition, every name its poetry, and where the people, the genuine people, still knows this past, this tradition, this poetry, and lives with it, and clings to it.[243]

Fel Cymru Matthew Arnold — y wlad gyda'i thirwedd 'mystic',[244] gwlad yr 'eternal softness and mild light'[245] — mae Llydaw i Edwards yn wlad a'i thirwedd yn adlewyrchu ei chyntefigrwydd a chyntefigrwydd ei phobl. Fel Arnold a fynnai ddianc rhag Philistiaeth ei oes, mae'r wedd gyntefig hon ar adegau yn cynnig dihangfa i Edwards o Gymru sydd yn prysur newid. Cadwyd yr hen ffordd o fyw yno ac wrth wylio Llydawyr mewn cyd-destun amaethyddol, mae Edwards yn nodi: 'Byddaf yn ofni'n aml yr effeithia llwyddiant masnachol Cymru arni er drwg, yr hegrir ei bywyd moesol fel yr hegrir ei daear gan byllau glo a chwarelydd.'[246]

Mae'r bywyd bugeiliol traddodiadol yn cael ei fygwth gan ddiwydiannu ac ariangarwch, pethau sydd, yn Llydaw gyntefig Edwards, heb fagu grym. Er bod cyntefigrwydd crefyddol a moesol yn creu anhawster iddo, dichon fod yna obaith mewn rhai elfennau o'r ymlyniad hwn wrth y gorffennol hefyd, fel rhyw dempled i Gymru fynd yn ei hôl at ei gwir gyflwr. Mae nostalgia yn rhan o'r rhamantu hwn sydd, ar adegau, yn ddigon cryf i bylu unrhyw atgasedd sydd gan Edwards at Gatholigiaeth. Mae byw fel yr amaethwyr Llydawaidd yn ddull a ffafria

---

[242] Ibid., t. 83.
[243] Mathew Arnold, *On The Study of Celtic Literature: Popular Edition* (London: 1912), t. 2.
[244] Ibid.
[245] Ibid.
[246] Edwards, *Tro yn Llydaw,* t. 100.

Edwards a hynny hyd yn oed os oes raid mynd i'r eglwys. Dyna sut y mae dychwelyd at fywyd symlach yn nes at y pridd ac at y Gymru go iawn:

> Mil gwell gan i'r Llydawr, - er na fedd ond cae tatws ar ei elw, - yr hwn fedr addoli yn ei eglwys a chanu caneuon ei wlad ar ei aelwyd dlawd, na'r Cymro sydd wedi crebychu ei enaid wrth wneud arian, ac yn dirmygu ei hen iaith pan wedi cael palas i fyw ynddo.[247]

Fel pob Rhamantydd, mae'r bywyd bugeiliol yn apelgar yng ngolwg Edwards. Nid yw datblygiad y Cymry o flaen y Llydawyr yn fêl i gyd. Tra mae datblygiad moesol a chrefyddol yn rhywbeth i'w ganmol, arweinia datblygiad diwydiannol at ddinistr ac at danseilio'r union foesau hynny. Fel yng Nghymru, y werin dlawd, amaethyddol sydd yn cadw eu hiaith,[248] yn llygaid Edwards, a pheth peryglus fyddai colli'r natur honno.

Symptom arall o'r meddylfryd hwn sydd yn blaenoriaethu'r hynafol yw bod y traddodiadol a'r hen yn haeddu canmoliaeth a sylw arbennig, ond nid oedd ganddo ddim i'w ddweud wrth wisg fodern a ffasiwn newydd Ffrainc.[249] Sylwa ar Lydawyr yn aros i gael eu cyflogi i gynaeafu ŷd tua diwedd ei daith yn ninas Vannes.[250] Mae'r dref yn cael ei disgrifio fel un hynafol eto fyth gyda chysylltiad ag Iŵl Cesar eto'n fyw, ac mae'r bobl hefyd fel adleisiau o'r oes o'r blaen. Gwisgant ddillad traddodiadol a'r hynaf yn eu mysg, 'hen ŵr hirwallt',[251] yw'r un sydd yn rhagori ar y lleill a hynny, mae'n debyg, gan mai ef yw'r agosaf at y gorffennol, un o'r 'genuine people',[252] chwedl Arnold. Mae eu taclau ffermio hefyd yn rhai a fyddai'n fwy na thebyg wedi hen ddechrau colli'u plwyf yng Nghymru erbyn i Edwards gyrraedd Llydaw.[253] Ni chrybwyllir unwaith unrhyw ddulliau o fecaneiddio amaeth drwy gydol hanes taith Edwards.

Y mae gweddill y darlun o Vannes, gyda'r trigolion oll yn eu dillad traddodiadol a'r merched yn dod â nwyddau fel caws a llaeth i'r farchnad, yn creu darlun henaidd o'r trigolion. Y mae darlun o'r fath hefyd yn rhamantu'r hyn sydd yn ddim mwy na bywyd o ddydd i ddydd iddynt. Ceir darlun o lawnder rhamantaidd wrth ddisgrifio cynnyrch y farchnad, bwyd a ddeilliai o fywyd amaethyddol traddodiadol. Difyr yw nodi hefyd y bu i

---

[247] Ibid.
[248] Ibid., t. 114.
[249] Ibid., t. 28.
[250] Ibid., t. 128.
[251] Ibid.
[252] Arnold, *On The Study of Celtic Literature*, t. 2.
[253] Cyfweliad gyda Mr Ellis Jones, Llain, Llaniestyn, ffermwr a aned yn 1930, Mehefin 2019. Gweler hefyd E. J. T. Collins, 'Harvest Technology and Labour Supply in Britain, 1790-1870' *The Economic History Review*, 22/3 (1969), tt. 453–73., erthygl a drafoda ddatblygiad y pladur fel y prif ddull cynaeafu yng Nghymru yn hytrach na'r cryman cyn yr ugeinfed ganrif.

Edwards ddewis cymharu maint y torthau i feini hirion sydd yn adleisio rhyw orffennol Celtaidd annelwig.

Er y canmol a'r delfrydu rhamantaidd, nawddoglyd yw'r darlun hwn ac un sydd yn cydweddu â rhai agweddau o ysgrifennu teithio mewn cyd-destun ehangach. Noda Thompson sut y ceir adleisiau o ysgrifennu imperialaidd wrth i unigolion addysgedig fel Edwards ymdrin â chymunedau difreintiedig:

> In this branch of the genre, metropolitan travellers and their audiences often apply much the same imagery to rural or supposedly 'traditional' communities as they do to 'noble savages' in more distant regions of the world. [254]

A thrwy hynny, ychwanega, ceir goblygiadau tebyg gyda'r rhesymau dros yr amgylchiadau hynny yn y cymunedau, boed hynny'n bwysau economaidd neu wleidyddol, yn cael eu tangynrychioli. Gwneir rhywbeth tebyg gyda'r prosesau moderneiddio y mae'r cymunedau'n mynd trwyddynt hefyd a'r drafodaeth ynghylch hynny yn cynnig darlun ystumiedig a delfrydoledig ohonynt.

Gallai Llydawyr Edwards fod yn anwariaid nobl, pobl gyda'u harferion anfoesol ond sydd eto'n cael eu gwaredu gan eu bywyd syml, cyntefig. Fel anwariaid nobl, eu hagosrwydd at y gorffennol yw cyfraniad mwyaf y Llydawyr, yn nhyb Edwards. Yn eu cyntefigrwydd a'u hymlyniad wrth y gorffennol y mae cyfraniad y Cymry yng ngolwg Arnold; ni all y Celtiaid fyw mewn byd modern ond gallant gyfrannu yn yr un modd. Fel anwariaid nobl diamser sydd yn nes at ddelfryd naturiol dynoliaeth yn unol â syniadaeth Rousseau, mae ganddynt gysylltiad uniongyrchol â'u cyndeidiau Celtaidd. O uno gyda phobloedd mwy datblygedig, gallant ddod ag ychydig o fanteision y cyntefigrwydd hwnnw gyda hwy. Er bod Edwards yn difrïo cyntefigrwydd y Llydawyr y mae eto'n gweld gobaith ynddo i ddod â Chymru'n ôl at ei gwreiddiau amaethyddol, gwerinol. Yn hynny o beth, y mae'n debyg i Arnold a gynigiodd ddarlun nawddoglyd o Gymru tra'n annog ei gydwladwyr ar yr un pryd i ddilyn esiampl y gwledydd Celtaidd i leihau'r elfen Philistaidd a welai'n meddiannu'i gymdeithas.

Nid o ran ymdriniaeth o'r fath yn unig y mae elfennau tebyg rhwng Edwards ac Arnold. Fel y gwelodd Arnold 'Y Celtiaid' fel endid diwylliannol y mae Edwards yntau'n trafod cysylltiad rhwng y Cymry a'r Llydawiaid ac yn gweld elfennau creiddiol tebyg rhyngddynt. Trafodwyd eisoes ei theorïau am agosrwydd y Llydawiaid i'r Cymry, ond nid cysylltiad ieithyddol yn unig a wêl Edwards ond cysylltiad o ran eu meddylfryd hefyd: 'Mae meddwl

---

[254] Thompson, *Travel Writing*, t. 161.

Llydaw'n debig iawn i feddwl Cymru, - yr un hoffter o dlysni, yr un cariad at yr ysbrydol, yr un pruddglwyf, yr un naws grefyddol.'[255] Dyma adleisio'r syniad Arnoldaidd o Gelt breuddwydiol sy'n effro i ymdeimlad o bethau cain y byd ac yn sensitif i natur.

Ymhellach, mae Edwards yn priodoli'r un swyddogaeth i'r Llydawyr mewn perthynas â'r Ffrancwyr ag a oedd rhwng y Celt a'r Tiwton yng ngolwg Arnold. Credai Arnold y gallai'r Celt ysbrydol gynnig yn ôl i'r Tiwton Philistaidd ddealltwriaeth o rywbeth a gollwyd ganddo wrth foderneiddio a 'datblygu'. Yn yr un modd, dysgu 'gwirioneddau'r ysbryd i'r Ffrancwyr arwynebol, gwamal'[256] yw pwrpas y Llydawyr fel y bu i'r Cymry 'ddysgu'r Sais oer digydymdeimlad'.[257] Gallant wneud hynny gan eu bod yn nes at y gorffennol ac yn fwy sensitif i bethau'r ysbryd a chelfyddyd. Fel y trafodwyd uchod, gwêl Edwards nad i'r Ffrancwyr yn unig y mae ganddynt rywbeth i'w gynnig.

Yn yr un modd ag y mae cysgodion Arnold i'w gweld yn *Tro yn Llydaw*, mae dylanwad gwaith Renan hefyd ar sawl agwedd o ymagweddiad Edwards at y wlad. Gellir gweld adleisiau o'i ysgrifennu yn nisgrifiadau Edward o natur bruddglwyfus y Llydawyr i'r hynafiaeth sydd yn hydreiddio pob agwedd ar fywyd yno yn ei feddwl ef. Noda Davies sut y bu i Edwards ddarllen gwaith Renan[258] a sut roedd eu barn yn ymdebygu i'w gilydd o ran eu diffiniadau o'r hyn a ddiffiniai genedl.[259] Bu i Edwards obeithio cyfarfod a chodi sgwrs gydag Ernest Renan tra oedd ar ei daith;[260] gallwn felly gasglu fod yr hyn a ddarllenodd wedi apelio ato a chreu argraff arno. Rhaid bod syniad Arnold o Gelt ac ymdriniaeth ramantaidd Renan â'i bobl wedi siapio darlun Edwards o Lydaw cyn iddo fynd yno. Bu iddo hefyd, yn ôl Davies, gael dylanwad ar ei ganfyddiad o Ffrancwyr yn ogystal. Nodwyd eisoes fod Edwards yn llym iawn ei dafod amdanynt a dadleua fod cyfrol Renan, *La Réforme intellectuelle et moralle,* wedi bod yn rhan o'i ymateb eithafol yn eu herbyn.[261]

Roedd Llydaw yn wlad a oedd ar ffiniau dealltwriaeth bersonol Edwards, un a oedd yn analog i Gymru yn ei feddwl gan mai'r un bobl oedd y Celtiaid yn y bôn. Gwelodd hi fel gwlad y medrai ei hachub, a thrwy hynny, achub rhyw wedd ar Gymru. Os oedd y Cymry gyda'u natur Geltaidd ymylol, eu cadwraeth o ysbryd creadigol y gorffennol ac agosrwydd at ryw gyfrinedd annelwig yn cynnig gobaith i Arnold, dichon fod y Llydawyr yn cyflawni swyddogaeth debyg i Edwards. Fel y Cymry ym meddwl Arnold, roedd yn rhaid i'r

---

[255] Edwards, *Tro yn Llydaw*, t. 27.
[256] Ibid.
[257] Ibid.
[258] Davies, *O. M.*, t. 401.
[259] Ibid.
[260] Ibid., t. 115.
[261] Ibid., t. 401.

Llydawyr, yng ngolwg Edwards, newid er mwyn budd iddynt hwy eu hunain. Er mwyn bod yn drigolion y byd mwy datblygedig, rhaid gadael elfen fwy annatblygedig ar ôl ac yn achos y Cymry, eu hiaith oedd y peth hwnnw. Yn achos Edwards a'r Llydawyr roedd yn rhaid iddynt gael tröedigaeth a mabwysiadu crefydd fwy 'datblygedig' cyn y gallent gael eu hintegreiddio a'u hachub. Gallent gadw eu hiaith a'u diwylliant; yn wir, roedd anogaeth iddynt wneud hynny, er nad oedd ei ganfyddiad o'r iaith honno yn gwneud tegwch â hi fel iaith ar ei phen ei hun. Yma, ceir gwahaniaeth rhyngddo ac Arnold ond yr un yw'r bydolwg tadolaidd a natur amodol 'achubiaeth'.

Perthynas gymhleth oedd gan Edwards â Llydaw. Fel Arnold, gwirionodd ar hynafiaeth gwlad yr oedd ganddo ddelwedd ramantaidd ohoni, ond fe'i siomwyd hefyd. Er ei fod yn bleidiol i achos y Llydawyr mewn sawl cyd-destun, gan gynnwys un gwrth-drefedigaethol, ac yn eu gweld fel rhan o deulu Celtaidd ehangach, roedd ganddo'i ragfarnau hefyd. Ceir darlun gwrthgyferbyniol ar sawl gwedd yn y gyfrol a hynny am i'r rhagfarn wrth-Gatholig ynghyd â'r siom o daro ar wlad gyda'i chredoau a'i syniadau ei hun yn hytrach na Chymru fach draw dros y don blethu gyda'r elfennau hynny a oedd o blaid y wlad. O feintoli *Tro yn Llydaw* yn ei gyfanrwydd, darlun cymysg o Lydaw a gaiff y darllenydd ac un sydd ymhell o fod mor bleidiol â rhai llyfrau teithio diweddarach. 'Braidd yn ysgafn',[262] oedd barn Edwards ei hun am *Tro yn Llydaw*, ond nid yw 'ysgafn' yn ansoddair priodol eithr lle gallai 'rhagfarnllyd' neu 'niweidiol' fod yn well. Ni ddylid tanbwysleisio'r effaith a allai llyfr o'r math hwn ei gael ar ganfyddiad y Cymry o Lydaw a'i phobl.

Cafwyd derbyniad da i'r gyfrol a chyhoeddusrwydd a fyddai'n siŵr o dynnu sylw cynulleidfa ati, ac mae'r ffaith i'r gyfrol gael ei hailgyhoeddi yn cadarnhau ei phoblogrwydd. Bu peth sylw i *Tro yn Llydaw* yn y wasg a chafwyd adolygiadau canmoladwy mewn sawl cyfnodolyn. 'Nid oes eisieu ond ei wneyd yn hyspys na fydd yn sicr o fyned yn hynod boblogaidd',[263] yw proffwydoliaeth *Seren Gomer* a hynny am fod y pwnc o ddiddordeb mawr i unrhyw ddarllenydd ym marn yr adolygydd. Noda adolygiad *Cymru Fydd* y dylai'r gyfres y mae *Tro yn Llydaw* yn rhan ohoni, sef Cyfres y Werin, gael ei chyhoeddi'n eang drwy Gymru[264] ac y dylai'r darllenydd 'fynu [*sic*] gweled y llyfr ei hun'.[265] Cafwyd anogaeth eang

[262] Davies, *O. M.*, dyfynnir o lythyr gan Edwards a ysgrifennwyd ar y 25 o Ionawr 1890 sydd ymysg ei bapurau ond heb ei gatalogio, t. 401.
[263] ''Crybwyllion Llenyddol – Tro yn Llydaw' *Seren Gomer neu, gyfrwng gwybodaeth cyffredinol*, XI/47 (1890), t. 142.
[264] 'Llyfrau'r Mis - "Tro yn Llydaw"', *Cymru Fydd Cylchgrawn y Blaid Genedlaethol Gymreig,* 3/4 (1890), t. 242.
[265] Ibid., t. 243.

i bobl fynd ati i ddarllen y llyfr, nid yn unig o ran ei natur adloniannol, ond hefyd am ei fod yn cynnig gwybodaeth honedig werthfawr am Lydaw.

Noda'r un adolygiad nad yw Llydaw yr un mor ddiddorol â'r Eidal (gwlad a drafodwyd gan Edwards mewn llyfr cynharach, *Tro yn yr Eidal*) ond bod y bobl o ddiddordeb mwy i'r Cymry a hynny o achos eu cysylltiad agos.[266] Nodwedd gryfaf y gyfrol, ym marn yr adolygydd, yw'r darluniau 'o hen Gymry Llydaw',[267] gan gyfeirio at ei thrigolion. Dyma derm a ddefnyddiwyd y tu draw i'r adolygiad hwn gan adlewyrchu'r gred mai pobl o'r un anian oedd y Cymry a'r Llydawyr, a chredir bod y darlun yn un teg a chywir.

Rhaid bod gan allu Edwards i atgyfnerthu rhagfarnau'r oes ran ym mhoblogrwydd y gyfrol — mae adolygydd *Cymru Fydd* yn nodi bod trafodaeth Edwards ar ragoriaethau Ymneilltuaeth Cymru ar Babyddiaeth yn elfen y cafodd flas arni: 'Mawr hoffwn yr elfeniad dilynol o deithi addoliad Ymneillduol Cymru'.[268] Yn yr un modd, mae adolygiad *Y Lladmerydd* yn canmol y gyfrol, nid yn unig am gyflwyno gwybodaeth mewn modd darllenadwy,[269] ond hefyd am ddangos yr anfantais y mae'r Llydawiaid yn dioddef ohoni yn eu ffydd bresennol: 'Dangosir yma yr anfanteision y maent ynddynt, dylanwad y Babaeth arnynt, a'r anhawsder i'w hennill at Brotestaniaeth'.[270] Ceir canmoliaeth hefyd i'r modd honedig anuniongyrchol y bu i dystiolaeth Edwards gryfhau'r ddadl dros barhau gyda'r achos cenhadol yn Llydaw er bod y propaganda yn bur amlwg i lygaid cyfoes. [271] Noda'r adolygydd dienw fod y Cymry at ei gilydd 'yn bur gynefin â'r enw Llydaw, ac yn gwybod mai perthynasau agos i ni o ran cenedl yw y trigolion'[272] gan gyfeirio at ymwybyddiaeth o Geltigrwydd a'r cysyniad o berthynas o ran hil rhwng y Cymry a'r Llydawyr.

Serch hynny, dadleua mai ychydig iawn y tu draw i hynny a ŵyr darllenwyr *Y Lladmerydd* mewn manylder am Lydaw gan gynnwys 'ansawdd y wlad [...] nodweddion y trigolion [...] y tebygrwydd neu yr annhebygrwydd sydd rhyngom ni a hwythau'.[273] Y gyfrol hon yw'r moddion i gywiro hynny: 'Ond pwy bynnag a ddarlleno y llyfr hwn, bydd yn gwybod cryn lawer am y wlad ac am y bobl.'[274] Dyma ddatganiadau nodedig: nid yn unig felly bod diffyg ymwybyddiaeth am realiti bywyd yn Llydaw y tu draw i gysyniad annelwig o gysylltiad drwy

[266] Ibid., tt. 243-4.
[267] Ibid., t. 244.
[268] Ibid.
[269] 'Nodiadau ar Lyfrau – "Tro yn Llydaw", *Y Lladmerydd*, *Cylchgrawn Misol at Wasanaeth yr Ysgol Sabbothol ac Addysg Grefyddol,* 6/64 (1890), t. 127.
[270] Ibid.
[271] Ibid.
[272] Ibid.
[273] Ibid.
[274] Ibid.

waed yng Nghymru, ond nodir mai hon yw'r gyfrol i ddatrys hynny. Mae'n ddigamsyniol, felly, bod y gyfrol hon wedi dylanwadu ar ganfyddiad ei darllenwyr o Lydaw a'i phobl a bod adroddiad rhagfarnllyd Edwards yn cael ei dderbyn fel cofnod ffeithiol, safonol.

Nodir hefyd mai peth dymunol fyddai gweld gwerin Cymru yn darllen 'llyfrau fel hyn'[275] gan gyfeirio at lyfrau sydd yn dadlau dros oruchafiaeth Anghydffurfiaeth a'r angen dros genhadu yn Llydaw yn hytrach na llyfrau taith. Roedd cyfrol fel hon yn cyd-fynd ag agenda ehangach ac nid cyd-ddigwyddiad oedd i Esgob Llanelwy ddatgan mewn pregeth fod y gyfrol yn rhagori ar *Tro yn yr Eidal.*[276]

Noda adolygydd *Seren Gomer* y byddai poblogrwydd y gyfrol yn deillio o'r ffaith ei bod yn trafod pwnc sydd 'o ddyddordeb byw i ni, y Cymry'.[277] Roedd diddordeb amlwg yn Llydaw, felly, a'r elfen grefyddol yn benodol. Gwelir y gyfrol hon yn alwad i'r gad gan yr adolygydd hwn wrth i ganmoliaeth Edwards o'r cenhadwr Mr Jenkins a'i ysgogiad dros achub y wlad gael effaith ddofn arnynt. Apelia disgrifiadau Edwards o grefydd y wlad at adolygydd *Seren Gomer* yn ogystal, ac mae'n cloi ei adolygiad gyda sylw sydd yn cyfeirio at 'wyriad' y Llydawyr a'u perthynas dybiedig agos â'r Cymry: 'Cofiwn am ein cefndryd yn y wlad ofergoelus hon.'[278]

Yn ôl tystiolaeth yr adolygiadau hyn, derbyniwyd naratif Edwards heb ei gwestiynu a hynny yn rhannol am ei fod yn bodoli yn barod. Cadarnhad oedd yr elfennau gwrth-Gatholig o ragfarnau a fodolai eisoes, ac nid yw'n syndod fod yr adolygiadau mewn cyfnodolion Anghydffurfiol wedi bod yn ganmoliaethus. Yr elfen arall o blaid Edwards oedd ei safle fel arbenigwr a gŵr addysgedig gan iddo gael ei alw yn 'un o'r ysgrifenwyr mwyaf athrylithgar'[279] yng Nghymru gan adolygydd *Seren Gomer*. Dyma agwedd y dylid ei phwysleisio: roedd statws Edwards fel doethur ac addysgwr a ffigwr a oedd yn ennyn edmygedd yn ychwanegu at awdurdod a dylanwad y gyfrol.

Cawsai *Tro yn Llydaw* ei hanelu at gynulleidfa ifanc yn ogystal. Fe'i hadolygwyd yn *Y Lladmerydd* fel y crybwyllwyd uchod, misolyn at wasanaeth yr ysgol Sul ac un a ymrôi i '[dd]yrchafu a choethi chwaeth ieuenctid Cymru'.[280] Cyflwynir y gyfrol fel un awdurdodol y dylid troi ati os am gael gwybod 'cryn lawer am y wlad ac am y bobl', fel y crybwyllwyd eisoes.[281] Fe'i hadolygwyd yn *Trysorfa y Plant* yn ogystal fel llyfr syml a phoblogaidd yn

---

275 Ibid.
276 Davies, *O. M.*, t. 404.
277 Crybwyllion Llenyddol – Tro yn Llydaw' *Seren Gomer,* XI/47 (1890), t. 142.
278 Ibid.
279 Ibid.
280 'At ein Darllenwyr', *Y Lladmerydd*, I (1885), t. i.
281 'Nodiadau ar Lyfrau - "Tro yn Llydaw", *Y Lladmerydd*, 6/64 (1890), t. 127.

llawn gwybodaeth a fyddai o ddiddordeb penodol i'r Cymry, ac un y gallai'r werin ei darllen a hynny gyda blas.[282] Cynigiwyd copi o'r gyfrol fel gwobr yn *Cymru'r Plant* hefyd[283] a hynny, mae'n debyg, am mai Edwards oedd golygydd y misolyn ar y pryd. Gall dylanwad pellgyrhaeddol gael ei feithrin wrth dargedu cenhedlaeth ifanc o ddarllenwyr. Dylid nodi hefyd na chafodd Edwards roi copïau o *Tro y Llydaw* am ddim i ysgolion gan y Bwrdd Addysg am i'r gyfrol gael ei gweld fel un 'rhy boliticaidd'.[284]

Mae'n debyg, serch hynny, na werthodd gystal â rhai o lyfrau taith eraill Edwards. Noda Davies mai *O'r Bala i Geneva* a *Tro yn yr Eidal* oedd y mwyaf poblogaidd ymysg ei lyfrau taith yn y cyfnod rhwng 1889 a 1890.[285] Ni nodir yn benodol faint o gyfrolau *Tro yn Llydaw* oedd ar ôl heb eu gwerthu erbyn 1907, y flwyddyn y penodwyd Edwards yn Arolygydd Addysg yng Nghymru.[286] Serch hynny nodir bod pob copi o *O'r Bala i'r Geneva* wedi eu gwerthu erbyn hynny a bod 130 o gopïau oedd heb eu gwerthu o *Tro yn yr Eidal* wedi eu prynu gan Edwards er mwyn eu rhoi yn rhodd i blant ysgol Cymru. Bwriadwyd, fel y crybwyllwyd uchod, wneud yr un peth gyda *Tro yn Llydaw*.[287] Gellir datgan gyda sicrwydd, felly, bod nifer o gopïau o'r gyfrol hon heb eu gwerthu hefyd. Roedd hon yn gyfrol ddylanwadol, serch hynny, ac yn un a siapiodd ddarlun y Cymry o Lydaw i'r fath raddau nes bod John Dyfnallt Owen ac W. Ambrose Bebb yn ddiweddarach wedi adweithio yn erbyn y darlun a gynigiwyd ganddi.

Yn anad neb arall, efallai, siapiodd O. M. Edwards ganfyddiadau cenedlaethau o'u gwlad, eu crefydd a'u hanes, a dichon ei fod, drwy ei lyfrau teithio, wedi siapio barn unigolion o wledydd eraill hefyd. Câi ei weld fel rhywun gwybodus, deallusol ac yn ddi-os, roedd ei gynulleidfa yn ymddiried ynddo ac roedd safle o'r fath yn un dylanwadol. O ychwanegu at hynny mai cadarnhau rhagfarnau a fodolai eisoes ymysg y Cymry a wnâi *Tro yn Llydaw*, boed hynny'n rhagfarn wrth-Gatholig neu ddirwestol, nid yw'n syndod fod rhai yn boenus am yr effaith y gallai camliwio o'r fath ei chael ar ganfyddiad y Cymry o Lydaw.[288]

---

282 'Llyfrau Newyddion - "Tro yn Llydaw", *Trysorfa y Plant, Cyhoeddiad Misol i Ieuenctyd*, XXIX/341 (1890), t. 129.
283 'Y Gongl Gystadleuol', *Cymru'r Plant*, IV/44 (1895), t. 234.
284 Davies, *O.M.*, t. 405.
285 Ibid.
286 Ibid., t. 472.
287 Ibid., t. 405.
288 Edwards, *Tro yn Llydaw*, t. vi.

*O Ben Tir Llydaw*

*John Dyfnallt Owen.*

Mewn cofiant iddo, noda Geraint Elfyn Jones fod John Dyfnallt Owen (1873-1956) yn 'un o ffigyrau mwyaf amryddawn a dylanwadol ei ddydd'.[289] Fel prifardd, gweinidog, llenor, gohebydd a golygydd, gwnaeth gyfraniad eang i fywyd cyhoeddus Cymru drwy gydol ei oes. Noda Jones mai fel gohebydd, ond yn enwedig felly fel golygydd, y bu iddo gyfrannu 'fwyaf o ffrwyth ei ddoniau a'i lafur i'w Enwad ac i'w genedl'.[290] Yr oedd hefyd yn Geltophil pybyr a daeth yn rhan weithgar o'r mudiad Pan-Geltaidd wedi iddo ymuno â'r Gyngres Geltaidd yn 1908,[291] er iddo fagu diddordeb yn y gwledydd Celtaidd cyn hynny. Mae gan Dyfnallt safle defnyddiol ar gyfer yr astudiaeth hon, nid yn unig fel un a oedd ynghanol materion a oedd yn ymwneud â gwledydd Celtaidd, ond un a welodd hefyd rychwant eang o Geltigrwydd. Profodd ramantiaeth y bedwaredd ganrif ar bymtheg hyd at weithredu gwleidyddol yr ugeinfed a chymryd rhan weithredol yn y mudiadau hynny a hybai Geltigrwydd.

Yn dilyn taith o amgylch Llydaw yn 1928, adroddodd Dyfnallt ei hanes mewn cyfres o ysgrifau yn *Y Tyst*, papur enwadol yr Annibynwyr a olygid ganddo. Dechreuodd ar ei waith fel golygydd yn 1927 a rhoddwyd sylw cyson i faterion yn ymwneud â Cheltigrwydd a Llydaw yn benodol ganddo drwy gydol ei gyfnod wrth y llyw.[292] Yn dilyn eu cyhoeddi fel ysgrifau, casglwyd y cofnodion ynghyd ac fe'u cyhoeddwyd fel cyfrol o'r enw *O Ben Tir Llydaw* yn 1934. Rai blynyddoedd yn ddiweddarach, yn 1937, ailargraffwyd y gyfrol unwaith eto. Ymddangosodd yr ysgrifau gwreiddiol dros ddegawd wedi marwolaeth O. M. Edwards ac roedd materion Celtaidd, erbyn hynny, yn derbyn peth sylw yn y wasg ac wedi magu mwy o ymwybyddiaeth ym meddwl y Cymry. Roedd Cyngres Geltiadd 1904 a gynhaliwyd yng Nghaernarfon, er enghraifft, wedi ennyn sylw mewn nifer o bapurau newydd fel y *Western Mail,* yr *Irish Times* a'r *North Wales Observer* a hwnnw, at ei gilydd, yn sylw cadarnhaol.[293] Bu Dyfnallt yn rhannol gyfrifol am yr ymchwydd hwn mewn diddordeb hyd yn oed cyn cyhoeddi ei lyfr taith gan ei fod yn trafod materion Celtaidd a Llydaw yn benodol yn aml yn *Y Tyst*.[294]

---

[289] Geraint Elfyn Jones, *Bywyd a Gwaith John Dyfnallt Owen* (Abertawe: 1976), t. 11.
[290] Ibid., t. 132.
[291] Ibid., t. 66.
[292] Ibid.
[293] Marion Löffler, *A Book of Mad Celts* (Llandysul: 2000), t. 29.
[294] Jones, *Bywyd a Gwaith John Dyfnallt Owen*, t. 66.

Ar sawl gwedd, roedd Dyfnallt yn awdur llyfr teithio am Lydaw llawer mwy addas nag Edwards a hynny am ei fod yn un a oedd yn ymwneud mwy â'r wlad honno. Wedi ymaelodi â'r Gyngres Geltaidd yn 1908, datblygodd, fel y noda Geraint Elfyn Jones, gyfeillgarwch â nifer o drigolion Llydaw megis y siaradwr Cymraeg Pierre Mocaer a'r bardd a'r cenedlaetholwr Taldir.[295] Yn hwyrach, agorodd ei aelwyd i Lydawyr, gan gynnwys yr Abbé Perrot a fu'n aros am dridiau yn 1934,[296] a hefyd ferch ifanc o'r enw Blanche a fu'n gweini yn y cartref yn ogystal â chynnig cymorth i'r teulu wella eu Llydaweg.[297] Dyma weithred debyg i awgrym a wnaethpwyd yn *Adroddiad y Ddirprwyaeth o'r Cyngor a Ymwelodd â Llydaw yn Ebrill, 1947* i bobl ifanc gyfnewid ar waith *au pair*.[298] Ymhlith gwesteion eraill, roedd ffoaduriaid a oedd yn cael eu herlid gan Lywodraeth Ffrainc wedi'r Ail Ryfel Byd.[299]

Bu'r pwnc hwn yn un a feddiannodd Dyfnallt yn ystod y cyfnod yn dilyn y rhyfel a chafodd effaith nodedig ar ei waith newyddiadurol a'i fywyd. Er mai *O Ben Tir Llydaw* yw'r gyfrol y canolbwyntir arni yn bennaf yn y bennod hon, byddai'n talu i oedi gydag un o'r gweithiau hynny y bu Dyfallt ynghlwm ag ef yn ystod y cyfnod hwn. Er bod degawd union rhwng cyhoeddi *O Ben Tir Llydaw* ac *Adroddiad y Ddirprwyaeth o'r Cyngor a Ymwelodd â Llydaw yn Ebrill, 1947* neu *Adroddiad y Ddirprwyaeth i Lydaw*, mae gan yr adroddiad hwnnw a'i hanes y gallu i daflu goleuni newydd ar berthynas Dyfnallt â Llydaw. Ceir hefyd wybodaeth am sut y dewisai Dyfnallt ei phortreadu ac effaith ei gysylltiad emosiynol â'r wlad a'i phobl arno ef a'i waith. Yn bennaf oll, enghreifftir sut yr oedd Celtigrwydd ar adegau yn gysyniad problemus i Dyfnallt ac yn un a greodd ddilema gwirioneddol iddo. Yn yr is-adran hon, bwrir bod ymwybyddiaeth o'r adroddiad a'r hyn a ddarfu wrth ei ysgrifennu yn cyfoethogi'r ddealltwriaeth o bortread Dyfnallt o Lydaw a hynny cyn mynd ati i drafod *O Ben Tir Llydaw* o ddifrif.

Roedd hwn yn gyfnod tywyll i nifer o Lydawyr a'u cefnogwyr wedi i lywodraeth Ffrainc erlid sawl ffigwr diwylliannol blaenllaw gan eu cyhuddo o gydweithio gyda'r Natsïaid yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Mae'n fater tra dadleuol i ba raddau roedd cenedlaetholwyr Llydewig yn cydweithio â'r Natsïaid ac fel y nododd D. Tecwyn Lloyd, mae'n annhebygol a gaiff y gwirionedd i gyd fyth ei ddatgelu.[300] **S**erch hynny yn ei thraethawd *Ymateb Llenorion Llydaw*

---

[295] Jones *Bywyd a Gwaith John Dyfnallt Owen*, t. 66.
[296] Ibid.
[297] Ibid., t. 66.
[298] Ibid.
[299] Jones, *Bywyd a Gwaith John Dyfnallt Owen*, t. 67. Gweler hefyd ddyddiaduron Dyfnallt gyda chofnodion fel y canlynol: 'Bu tri Llydawr yma'r wythnos hon', Dyddiadur 17 Awst 1947, Papurau John Dyfnallt Owen, GB 0210 JDYFWEN, Bocs 2/Dyddiadur 27, Llyfrgell Genedlaethol Cymru.
[300] D. Tecwyn Lloyd, 'Taldir a Bebb', *Y Genhinen*, 24 (1975), t. 204.

*i Ddigwyddiadau 1940-1944* gosoda Gwenfrewi Nonn Sven-Myer gyd-destun buddiol i'r honiadau hynny.[301] Nodir ganddi'n eglur er bod ymchwydd mewn gwaith llenyddol wedi bod yn ystod cyfnod y meddiannu yn Llydaw 'nad Natsi neu gyd-weithiwr oedd pob llenor a fu'n ddiwyd yn ystod y cyfnod cythryblus hwn'.[302] Serch hynny cydnabyddir ganddi bod cyd-weithio wedi digwydd. Noda bod peth cefnogaeth anuniongyrchol o'r drefn Natsiaidd wedi bod ymysg arweinwyr diwylliannol ac unigolion ar lawr gwlad[303] ac y bu cydweithio gweithredol mewn rhai achosion ymysg cylchoedd diwylliannol.[304] Esbonia hefyd fod apêl bendant i Geltigrwydd yn ystod y cyfnod hwn[305] ond na ddefnyddiwyd y cysyniad i ddadlau o blaid nac yn erbyn yr Almaenwyr gan lenorion Llydaw.[306] Casgla Sven-Myer mai canran fechan o boblogaeth y wlad a ymatebodd yn weithredol i'r Feddiannaeth y naill ffordd neu'r llall[307] gan esbonio, er enghraifft, nad oedd gwahaniaeth rhwng canrannau'r rhai a ymunodd â'r Résistance yn Llydaw a'r rhai wnaeth yn Ffrainc i gyd ar gyfartaledd.[308]

Ni chanolbwyntir ganddi ar yr erlid wedi'r Rhyfel ond gellid casglu o'i dadleuon nad oedd pawb a gyhuddwyd o gamagweddau yn ystod y cyfnod hwnnw mor euog ac y honnai'r farn gyhoeddus ar y pryd. Mae bwrw ai cyfiawn neu anghyfiawn yr erlid hwnnw y tu draw i'r astudiaeth hon, felly a thrafodir yn hytrach ymateb Dyfnallt iddo. Yr hyn sydd yn bennaf perthnasol yw bod Dyfnallt yn grediniol fod y Llydawyr yn ddiniwed a bod ymgyrch faleisus yn cael ei gweithredu gan lywodraeth Ffrainc yn eu herbyn.

Ef, yn anad neb, a dynnodd sylw cyhoedd Cymru at yr hyn a oedd yn digwydd yn Llydaw wedi'r Rhyfel, gydag adroddiadau cyson a damniol yn *Y Tyst*.[309] Llythyrai'n aml gydag unigolion o Lydaw[310] a'r wasg i drafod y mater,[311] ac mae ei ymateb i ddigwyddiadau yno megis yr erlyn honedig yn dilyn yr Ail Ryfel Byd[312] a llofruddiaeth yr Abbè Jean-Marie

[301] Gwenfrewi Nonn Sven-Myer, *Ymateb Llenorion Llydaw i Ddigwyddiadau 1940-1944* (Traethawd PhD heb ei gyhoeddi, Prifysgol Aberystwyth, Aberystwyth, 2003)
[302] Ibid., t. 3.
[303] Ibid., t. 4.
[304] Ibid., t. 76.
[305] Ibid., t. 213.
[306] Ibid., t. 246.
[307] Ibid., t. 77.
[308] Ibid., t. 69.
[309] Jones, *Bywyd a Gwaith John Dyfnallt Owen*, t. 67.
[310] John Dyfnallt Owen, Papurau John Dyfnallt Owen, GB 0210 MSJDYFNBRITT. Gweler yn benodol NLW MS 23880E sydd yn cynnwys ystod eang o lythyrau.
[311] 'Brittany's Plight', *Western Mail*, 28 Tachwedd 1943, t. 3.
[312] Gweler, er enghraifft: John Dyfnallt Owen yn *Baner ac Amserau Cymru,* 'Ing Llydaw', 2 Ionawr 1946, t. 4. ; 'Yr Erlid yn Llydaw', 2 Ionawr 1946, t. 8. ; 'Achos Ropaz Hermon', 30 Ionawr 1946, t. 4. ; 'Dau Lythyr o Lydaw', 30 Ionawr 1946, t. 5. ; 'Dau Lythyr Arall o Lydaw', 13 Mawrth 1946, t. 5. ; 'Ateb i Llydawr III', 24 Ebrill 1946, t.3. ; 'Prawf Ropaz Hermon', 29 Mai 1946, t. 5. ; 'Achos Llydaw a'r Parchedig J. Gerlan Williams', 19 Mehefin 1946, t. 4. ; 'Diolch Hermon', 26 Mehefin 1946, t. 5. ; 'Lladd Offeiriad Dewr', 25 Rhagfyr 1946, t. 1.

Perrot[313] yn gyhoeddus ac ymysg ei bapurau personol (er enghraifft, mewn cofnod yn ei ddyddiadur ar 7 Awst 1948, mae'n nodi 'bod y Llydawyr ar ffo').[314] Ymysg ei bapurau, ceir hefyd restr o Lydawyr ac ym mha garchar yr oeddent.[315]

Mae hyn yn amlygu nid yn unig ddealltwriaeth o'r wlad ond cydymdeimlad mawr â'i thrigolion yn ogystal. Arweiniodd ei ymgyrchu a'r diddordeb a godwyd yn ei sgil ymysg y cyhoedd ac unigolion blaenllaw ym myd diwylliannol Cymru at ddirprwyaeth Eisteddfodol a fu'n ymweld â'r wlad i wiro'r honiadau o erlid. Derbyniodd Cyngor yr Eisteddfod wahoddiad swyddogol gan Lysgennad Ffrainc i ymweld â Llydaw mewn llythyr yn ddyddiedig 10 Ionawr 1947.[316] Wedi'r ymweliad, cyhoeddwyd nifer o gasgliadau yn Gymraeg a Ffrangeg yn dilyn y daith honno mewn llyfryn o dan y teitl *Adroddiad y Ddirprwyaeth o'r Cyngor a Ymwelodd â Llydaw yn Ebrill, 1947*.[317]

Bu trafod cyn ymweld serch hynny os dylid mynd o gwbl. Serch hynny cytunwyd mewn cyfarfod ym Mhwyllgor Gwaith Cyngor yr Eisteddfod ym mis Chwefror y dylid ymweld â Llydaw ond dim ond pe byddai dwy amod yn cael eu gwireddu:

> a) Bod inni lwyr ryddid i ymholi i safle iaith a llenyddiaeth Llydaw yn ei chyfundrefn addysg.
> b) Bod cennad inni ymweld yn ddirwystr a chael trafodaeth rydd ag arweinwyr Llydaw y mae eu henwau yn adnabyddus yng Nghymru.[318]

Sicrhawyd y pwyllgor y byddai hynny'n gwbl dderbyniol a hynny mewn ysbryd 'chwalu'r anneallltwriaeth a grëwyd'.[319] Doedd pawb, serch hynny, ddim yn unfrydol o blaid derbyn y gwahoddiad gyda rhai aelodau o'r pwyllgor gwaith yn chwyrn yn erbyn gwneud hynny.[320] Ni nodir yn eglur pam bod gwrthwynebiad o'r fath ond nodir bod rhai o'r farn mai cymhelliad llywodraeth Ffrainc i gynnig yr ymweliad oedd ei ddefnyddio fel propaganda i dawelu'r dyfroedd yn Llydaw a Chymru.[321] Serch y gwrthwynebiad, derbyn a fu, a hynny am y rhesymau canlynol:

---

[313] John Dyfnallt Owen, 'Lladd Offeiriad Dewr', *Baner ac Amserau Cymru*, 25 Rhagfyr 1946, t. 1.
[314] John Dyfnallt Owen, Dyddiadur 7 Awst 1948, Papurau John Dyfnallt Owen, GB 0210 JDYFWEN, Bocs 2/Dyddiadur 28, Llyfrgell Genedlaethol Cymru.
[315] John Dyfnallt Owen, Papurau John Dyfnallt Owen, GB 0210 MSJDYFNBRITT, NLW MS 23881E, f. 31.
[316] Ibid., t. 3.
[317] Morgan Watkin, *Adroddiad y Ddirprwyaeth o'r Cyngor a Ymwelodd â Llydaw yn Ebrill, 1947* (Caerdydd: 1947)
[318] Watkin, *Adroddiad y Ddirprwyaeth i Lydaw*, t. 3.
[319] Ibid.
[320] Ibid., t. 4.
[321] Ibid.

a) Diddordeb diwylliannol, fel ceraint i bobl Llydaw, yn ffyniant iaith sydd yn berthynas mor agos i'r Gymraeg, ac sydd fel y Gymraeg hithau wedi llwyddo i oroesi anfanteision ac esgeulustod canrifoedd, a'n dymuniad naturiol, fel rhai a enillodd hawliau y Gymraeg oddi ar Weinyddiaeth Addysg Prydain, i wneud yr un peth i helpu'r Llydaweg i gael yr un chwarae teg a'r un cyfle i ddatblygu ;
b) Ein hawydd, hyd y gallem farnu oddi wrth argraffiadau ychydig ddyddiau, i ddarganfod y gwir ynghylch y cyhuddiadau bod gweithio tros iaith a diwylliant Llydaw a thros fwy o lywodraeth leol yn beryglus, a bod erlid a charcharu ar Lydawiaid am hynny'n unig.
c) Ein gobaith y gallai ein hymweliad nid yn unig ddwyn gwell dealltwriaeth rhwng Cymru a Ffrainc, ond hefyd well dealltwriaeth rhwng Ffrainc a Llydaw.[322]

Ceir newidiadau rhwng y drafft terfynol hwn a'r un cyntaf; yn bennaf, mae'r drafft cyntaf yn fwy cryno, ond difyr yw nodi hefyd (er nad oes modd cadarnhau pam yn union) y ceir yn y cymal cyntaf gyfeiriad at y Cymry fel 'cyd-Geltiaid' yn hytrach nag fel 'ceraint i bobl Llydaw' yn y drafft cynnar hwnnw.[323]

Diau fod pwysau uniongyrchol gan Dyfnallt wedi bod yn rhan o'r symbyliad i fynd i Lydaw ynghyd â phwysau cyhoeddus, gan iddo nodi fod 'gwylltineb y Cymry'[324] yn rhan o'r disgẃrs cyhoeddus yn dilyn yr adroddiadau am y cam-drin. Heb os, roedd hwn yn gyfle pwysig i Dyfnallt nid yn unig gadarnhau yr hyn y bu'n adrodd amdano yn y wasg ac yn gweithredu yn ei erbyn yn ei fywyd cyhoeddus, ond hefyd i wneud argymhellion pendant i lywodraeth Ffrainc er mwyn gwella'r sefyllfa. Anodd yw mesur union ddylanwad Dyfnallt ar y penderfyniad i fynd i Lydaw a phenderfyniad llywodraeth Ffrainc i gynnig yr ymweliad yn y lle cyntaf, ond mae'n amlwg fod Dyfnallt wedi bod yn rhan weithredol iawn yn yr ymgyrch i dynnu sylw Cymry at yr adroddiadau a dderbyniai o Lydaw.

Roedd wyth aelod gwreiddiol o'r ddirprwyaeth: W. J. Gruffydd, Crwys Williams, W. Emyr Williams, D. R. Hughes, A. E. Jones (Cynan), Morgan Watkin, William Evans (Wil

---

322 Ibid.
323 Ernest Roberts ym mhapurau Frank Price Jones, GB 0210 FRANJON, 'Ffeil Ernest Roberts o adroddiadau'r ddirprwyaeth i Lydaw, 1947, ynghyd â'i adroddiad ar gyfarfod ym Mangor yn 1951 i drafod y drafft terfynol', 'Drafft 1 Ymweliad Â Llydaw Adroddiad y Ddirprwyaeth, Copi W. J. Gruffudd "Cywiriadau yn ei lawysgrifen ef ei hun- E. R"', ff. 110. Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Sylwer: nodwyd ar y ddogfen honno mai yn 1951 y cynhaliwyd y cyfarfod i drafod y drafft terfynol ond bwrir mai anghywir yw'r dyddiad hwnnw am sawl rheswm heblaw bod pum mlynedd rhwng ymweld â Llydaw a chwblhau'r adroddiad yn afresymol. Yn gyntaf nid yw dyddiadau'r cyfarfod yn glanio ar ddydd Gwener a Sadwrn yn 1951 fel y nodwyd yn y cofnodion er eu bod yn 1947. Yn ail, noda Dyfnallt yn ei ddyddiadur 1947, iddo fynychu'r cyfarfodydd hynny ar y dyddiadau a nodwyd. Yn drydydd, ymddengys mai mewn llaw arall y nodwyd y flwyddyn anghywir rywdro wedi i'r cofnod gwreiddiol gael ei wneud yn 1947; y mae'r '5', er enghraifft, yn wahanol a thrwch yr ysgrifen yn wahanol hefyd. Diolch i Robert Phillips o Lyfrgell Genedlaethol Cymru am ei gymorth i ddatrys y dirgelwch hwn a hynny o dan amodau heriol pandemig Covid-19.
324 'Petition to the French Goverment for a Gereral Amnesty in Favour of Breton Patriots', Papurau John Dyfnallt Owen, NLW MS 23881E, f. 65.

Ifan) a Dyfnallt.[325] Erbyn cyhoeddi'r adroddiad, fodd bynnag, nodwyd enw Maurice Jones yn hytrach na William Evans.[326] Bwriad yr ymweliad oedd ymchwilio i'r honiadau a wnaed yn y wasg a hefyd y sefyllfa yn ehangach yn Llydaw, yn ddiwylliannol ac yn ieithyddol, a chynnig argymhellion i lywodraeth Ffrainc a hefyd i fudiadau yng Nghymru, a gwnaethpwyd hynny maes o law.[327]

Cyrhaeddodd y ddirprwyaeth Baris ar 21 Ebrill 1947 ac yna teithio tua Llydaw'r diwrnod canlynol[328] gan adael wedi iddynt gwblhau eu gwaith ar Galan Mai.[329] Yn ystod y cyfnod hwn, teithiwyd i Rennes, Morlaix, Vannes, St. Brieg, Painpol, Kemper, Pont Aven a Josselin gan holi unigolion amrywiol a cheisio dod at wraidd yr hyn a ddigwyddai yn Llydaw.[330] Nodwyd yn bendant iddynt gael 'perffaith ryddid'[331] i siarad gyda phwy bynnag y dymunet ac i ymweld ag unrhyw le yn ogystal, er bod ganddynt arweinydd Ffrengig.[332]

Gellid casglu bod y ddirprwyaeth wedi cael rhwydd hynt i gael ystyriaeth lawn o'r sefyllfa cyn belled ag y bo modd gwneud hynny mewn cyfnod byr ac ni cheir yn yr adroddiad unrhyw awgrym i'r gwrthwyneb. Y mae Dyfnallt, fodd bynnag, yn cynnig darlun gwahanol. Mewn erthygl yn *Y Tyst* a gyhoeddwyd wedi'r daith, y mae'n trafod sgwrs a gafodd gyda Llydawr yn ystod ei ymweliad a'r ffaith iddi beidio â bod yn sgwrs agored:

> 'A welsoch chi blismyn?' meddai.
> 'Plismyn?' Meddwn, 'Prin y mae'r un "gendarme" yn y golwg yn unman.'
> Meddwn, 'Beth sydd wedi digwydd?'
> 'O,' meddai, 'Y maent o gwmpas mewn diwyg arall.'
> 'O,' meddwn, 'Arwydd o barch i ni.'
> 'Hwyrach,' meddai, dan wenu'n awgrymiadol gan edrych i gyfeiriad neilltuol.[333]

Awgrymir yn eglur fod heddlu cudd ar droed a'u bod drwy'u presenoldeb yn tanseilio gwaith y ddirprwyaeth am nad oedd modd i Lydawyr siarad yn agored rhag ofn iddynt hwythau gael eu herlid. Mae naws *film noir* i'r cyfarfyddiad, yn enwedig, felly, am i Dyfnallt nodi, 'Ni allwn roi ei enw ar hyn o bryd',[334] a hynny fel modd o'i amddiffyn rhag dialedd yr

---

325 'Rhestr y Ddirprwyaeth', Papurau John Dyfnallt Owen, NLW MS 23881E, f. 87, Llyfrgell Genedlaethol Cymru.
326 Watkin, *Adroddiad y Ddirprwyaeth i Lydaw*, t. 4.
327 Ibid., tt. 17-18.
328 Ibid., t. 5.
329 'Yr ymweliad â Paris a Llydaw', Papurau John Dyfnallt Owen, NLW MS 23881E, f. 91.
330 Watkin, *Adroddiad y Ddirprwyaeth i Lydaw*, t. 5.
331 Ibid., t. 5.
332 Ibid., t. 18.
333 John Dyfnallt Owen, 'Crwydro Llydaw', *Y Tyst*, 29 Mai 1947, t. 5.
334 Ibid.

awdurdodau. Ni chafwyd unrhyw dystiolaeth o ymddygiad o'r fath na chrybwyll unrhyw ymyrraeth yn nrafftiau'r adroddiad swyddogol.

Nid syndod efallai i Dyfnallt bwyso ar naratif fel hwn — sef nad oedd yr adroddiad mewn difri yn bwrw golwg teg ar y sefyllfa gan nad yw'r adroddiad swyddogol yn un hynod ddamniol nac eglur o ran y math o erlid a fu. Dogfen sy'n mynd ati'n ofalus i gadw'r ddysgl yn wastad yw *Adroddiad y Ddirprwyaeth i Lydaw*, a hynny rhwng cynnig darlun a fyddai'n bleidiol i'r Llydawyr a pheidio ag ymosod yn ormodol ar lywodraeth Ffrainc. Ceir ieithwedd niwtral, led-braich ei naws, er enghraifft:

> Am yr erlyn cyfreithiol a fu ar lawer o'r Llydawiaid, mae'n amhosibl i ni draethu barn derfynol yn wyneb yr amryfal ddatganiadau croes a wnaed ger ein bron. Arbenigwyr cyfreithiol yn unig a allai roi barn safadwy ar hyn wedi iddynt gael amser digonol i holi a chroesholi tystion ac i archwilio'n drwyadl ddogfennau'r achosion a fu o flaen y llys yn Ffrainc.[335]

Ni ddywedir yn ddiamwys fod erlid wedi bod i'r graddau yr haerid gan Dyfnallt, er bod yr adroddiad yn nodi, 'credwn fod arweinwyr diwylliannol pur nad oeddynt wedi ymyrryd â gwleidyddiaeth wedi eu cymryd i'r ddalfa yn yr anhrefn cyntaf a ddilynodd y Rhyddhad'.[336] Ni cheir ychwaith ateb pendant ynghylch a fu cydweithio rhwng Llydawyr a'r Gestapo ond yn hytrach dystiolaeth o'r ddwy ochr a'r naill yn gogwyddo'r ystyriaeth at y llall.[337]

Aethpwyd ati hefyd i drafod mwy am elfennau diwylliannol ac ieithyddol yn hytrach na'r erlid gwleidyddol. Honnwyd yn yr adroddiad fod 'ystyriaethau gwleidyddol ac ystyriaethau diwylliannol wedi eu croes-wau yn annatrys',[338] a rhoddwyd, yn sgil hynny, gymaint os nad mwy o sylw i faterion addysg, iaith a diwylliant, a sefyllfa annheg Llydawyr o dan reolaeth llywodraeth Ffrainc. Rhoddir mwy o sylw i hynny yn yr awgrymiadau ar ddiwedd yr adroddiad ac i bolisi addysg yn anad dim arall hefyd.[339] Nodwyd bod galwad am amnesti wedi ei gwneud yn barod i'r Llydawyr hynny a gondemniwyd ac yna, ceir pum pwynt gweithredu wedi eu seilio ar addysg yn unig.[340] Mae'r awgrymiadau gan y ddirprwyaeth i Gymry helpu'r achos yn Llydaw hefyd yn canolbwyntio ar ddiwylliant ac addysg yn hytrach na dim arall, gyda chyfeiriadau at yr Eisteddfod a chynllun cyfnewid.[341] Ni cheir unrhyw

---

335 Watkin, *Adroddiad y Ddirprwyaeth i Lydaw*, t. 6.
336 Ibid.
337 Watkin, *Adroddiad y Ddirprwyaeth i Lydaw*, tt. 6-7.
338 Ibid., t. 5.
339 Ibid., tt. 17-18.
340 Ibid., t. 17.
341 Ibid., t. 18.

gyfeiriad at weithio dros sicrhau rhyddid i garcharorion na chodi arian i gynorthwyo'u teuluoedd fel y bu i Dyfnallt ei wneud yn flaenorol.

Mae union ystyr yr 'achos' yn annelwig yn ogystal, yn enwedig gan fod un pwynt yn ymwneud â gofyn i'r BBC ddysgu Cymraeg yn Llydaw a threfnu gwersi yn yr ysgolion, ac un arall yn awgrymu y dylid gyrru llyfrau Cymraeg yno.[342] Mae yma adlais o'r disgẃrs cenhadol ac mae'n syndod fod Dyfnallt wedi cytuno i awgrymiadau o'r fath heblaw eu bod yn cael eu hawgrymu fel modd o ddatblygu cyfeillgarwch rhwng y gwledydd yn hytrach na modd o 'achub' Llydaw.

Gallasai natur ddof yr adroddiad ddeillio o ysfa i gadw'r Llydawyr a'u cefnogwyr yn hapus ar y naill llaw a pheidio ag ymosod yn ormodol ar lywodraeth Ffrainc ar y llall. Nid oes amheuaeth i'r adroddiad gael ei eirio'n ofalus ac ni cheir datganiadau mor ymfflamychol â'r rhai a gafwyd yn y wasg am y pwnc. Serch hynny, ymddengys fod rheswm arall dros eirio gofalus yr adroddiad: nid yn unig yr oedd rhaid cadw buddiannau gwrthwynebus allanol mewn cof wrth ddrafftio ond hefyd wrthwynebiad o fewn y pwyllgor ei hun.

Yn ei ddyddiadur ar ddydd Sadwrn, 21 Mehefin 1947, mae Dyfnallt yn nodi iddo ddychwelyd o gyfarfod yn trafod drafft terfynol yr adroddiad. '[T]eimlais yn boenus anfoddhaol ar dri neu bedwar pwynt',[343] noda, ac mae'n amlwg nad oedd cynnwys gwreiddiol yr adroddiad wrth ei fodd. Roedd Morgan Watkin yn cytuno gyda Dyfnallt[344] a chynigiodd y ddau wrthwynebiad effeithiol i weddill y ddirprwyaeth fel y nodir isod. Aeth Dyfnallt ymhellach: 'Dywedais yn bendant na allwn roi f'enw wrth adroddiad yn cynnwys gosodiadau annheg ac anghywir',[345] ac ymddengys iddo lwyddo yn ei safiad gan iddo nodi'n ddiweddarach: 'Y diwedd fu, symud y cymalau crydcymalog yn yr Adroddiad'.[346] Mae'n amlwg o ddarllen y cofnod fod Dyfnallt yn danbaid dros wneud y newidiadau ac nid yw hynny'n syndod o gofio ei deyrngarwch i Lydaw, efallai, ond roedd rheswm arall hefyd, un a nododd ei hun sef na fyddai y 'Llydawiaid teyrngar' fyth yn maddau iddo pe cyhoeddid drafft blaenorol yr adroddiad.[347]

Rhaid troi at bapurau Ernest Roberts i gael darlun llawnach o'r hyn a ddigwyddodd yn ystod y cyfarfodydd a gynhaliwyd dros ddau ddiwrnod ym Mangor.[348] Darlun o gyfarfodydd

---

[342] Ibid.
[343] John Dyfnallt Owen, Dyddiadur 21 Mehefin 1947, Papurau John Dyfnallt Owen, GB 0210 JDYFWEN, Bocs 2/Dyddiadur 27, Llyfrgell Genedlaethol Cymru.
[344] Ibid.
[345] Ibid.
[346] Ibid.
[347] Ibid.
[348] Roberts, Papurau Frank Price Jones, GB 0210 FRANJON, f. 110, Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

afrywiog a geir gyda phegynau amlwg rhwng dwy garfan a nifer o unigolion yn y canol. Safai Morgan Watkin a Dyfnallt mewn un gongl, o blaid y Llydawyr ac yn erbyn llywodraeth Ffrainc a'u gweithgarwch honedig, tra oedd Maurice Jones yn chwyrn yn erbyn y Llydawyr yn y gongl arall. Anghytunai'r ddau â nifer o'r sylwadau yn y drafft cyntaf a thra oedd W. J. Gruffydd ac Emyr Williams o blaid cyhoeddi'r 'holl wir',[349] ni allai Watkin a Dyfnallt gytuno am eu bod, yn rhannol, yn ofni y byddai hynny'n symbyliad i lywodraeth Ffrainc 'dynhau'r llyffetheiriau ar Lydaw'.[350] Yn ôl Roberts, '"A oes angen dweud hynny?" oedd cwestiwn mynych Dyfnallt',[351] a cheir yr argraff o ddarllen y ffeil drwyddi nad oedd Roberts yn gwerthfawrogi ei agwedd ef nac un Watkin, er iddo gadw at dôn niwtral at ei gilydd. Er nad oedd Cynan yn bresennol, gyrrwyd sylwadau ysgrifenedig ganddo a geisiai gadw'r ddysgl yn wastad yn anad dim arall. Penderfynwyd, erbyn nos Wener, gyhoeddi 'Minority' a 'Majority' report er nad oes unrhyw awgrym i hynny ddigwydd yn y pen draw gan mai'r adroddiad a drafodwyd eisoes yn unig a gyhoeddwyd.[352]

Parhaodd y sefyllfa'n debyg fore Sadwrn, er bod D. R. Hughes yn bleidiol i geisio llywio llwybr canol rhwng y safbwyntiau eithafol. Ni fynnai Gruffydd a Williams gyfaddawdu, serch hynny, a nodir gan Roberts eu bod yn 'dra chyndyn o newid i blesio Dyfnallt a Morgan Watkin'.[353] Gruffydd biau'r datganiadau mwyaf damniol a dadlennol yn y ddogfen wrth iddo nodi'n blaen: 'Does gennym ni ddim help nad ydi hyn yn ffitio i lithoedd Dyfnallt a Morgan Watkin cyn iddynt weld sut oedd pethau yn Llydaw.'[354]

Dyma gondemniad ysgytwol fod Dyfnallt, nid yn unig yn euog o geisio pwyso i gyhoeddi adroddiad a oedd yn sylfaenol anghywir neu'n plygu'r gwir, ond iddo, yn yr erthyglau, llythyrau a deisebau lawer, roi camargraff o sut oedd y sefyllfa yn Llydaw. Nododd Gruffydd ymhellach mai'r hyn a gafwyd yn y pen draw oedd adroddiad a wnaethpwyd i 'ffitio syniadau Dyfnallt'.[355]

Ar y dydd Sadwrn hwnnw, cafodd Roberts, Williams a Hughes ginio gyda'i gilydd a cheir mwy o fanylion ynghylch pam y bu i Gruffydd ildio i ddymuniadau Dyfnallt yn y pen draw.[356] Soniodd Gruffydd fel y bu i'r ddau drafod y mater hyd oriau mân y bore a nododd y byddai Dyfnallt yn torri ei galon pe profid gan yr adroddiad iddo gamliwio pethau yn *Y*

---

349 Ibid.
350 Ibid.
351 Ibid.
352 Ibid.
353 Ibid.
354 Ibid.
355 Ibid.
356 Ibid.

*Tyst*.[357] Ymddengys mai graddau ymateb Dyfnallt i'r bygythiad hwn a pharch Gruffydd ato, ynghyd â'r cyfeillgarwch rhwng y ddau, a berswadiodd Gruffydd yn y pen draw gan iddo nodi na hidiai ddim am Watkin.

Mae tystiolaeth Roberts yn taflu goleuni ar sawl ystyriaeth bwysig ar gyfer yr astudiaeth hon: yn gyntaf, fod yr adroddiad a gyhoeddwyd yn un gwallus, ac yn ail, bod rhai ymysg y ddirprwyaeth yn credu fod Dyfnallt wedi cyflwyno darlun anghywir o'r hyn ddigwyddodd yn Llydaw. Bu iddo'n sgil y gwrthwynebiad fynd ati'n fwriadol i geisio cadw tystiolaeth a beryglai'r portread hwnnw rhag gweld golau dydd. Pam bu iddo osod embargo ar rai o'i bapurau yn y Llyfrgell Genedlaethol a oedd yn ymwneud â Llydaw a'i Gorsedd tan ddiwedd yr ugeinfed ganrif, sef bron i hanner canrif wedi ei farwolaeth? I geisio cadw'r anghydfod hwn dan gêl? Neu yn hytrach, efallai, i geisio amddiffyn y Llydawyr hynny a oedd wedi eu henwi ynddynt rhag dial pellach?[358] Ni fedrid datgan gyda sicrwydd y naill ffordd neu'r llall, ond mae'r ffaith fod rhai'n dadlau bod Dyfnallt wedi cynnig darlun afrealistig o Lydaw yn yr achos hwn, a bod ganddynt brawf o hynny yn berthnasol iawn.

Ceir agweddau eraill sydd yn taflu amheuaeth ar bortread Dyfnallt a Morgan Watkin, yn bennaf, y modd yr eir ati i gynnig atebion annelwig i gwestiynau'r adroddiad. Pan holwyd a oedd prawf pendant o erlid, nododd Crwys Williams fod llawer o groes-ddweud ymysg y Llydawyr tra mynnai Cynan mai dim ond arbenigwyr cyfreithiol a allai nodi y naill ffordd neu'r llall.[359] Credai Dyfnallt yn danbaid, fodd bynnag, fod yr erlid wedi digwydd ond nad oedd modd profi hynny: 'Nid oes ronyn o amheuaeth yn fy meddwl ar sail dogfennau sydd yn fy llaw fod erlid cudd wedi bod.'[360] Roedd gan Watkin yntau 'ysgrif' yn ei feddiant a awgrymai erlid.[361] Nid oes cofnod ymysg y papurau hyn i'r dystiolaeth honedig honno gael ei dangos i aelodau'r ddirprwyaeth. Unwaith eto gallai'r ysfa i amddiffyn ffynonellau gwybodaeth ac unigolion ar ffo fod wrth wraidd hynny. Mae ieithwedd Dyfnallt hefyd wrth drafod llywodraeth Ffrainc yn dangos rhagfarn wrthwynebus a dyfnder ei gysylltiad emosiynol â'r pwnc. Pan drafodwyd a oedd yr ymweliad wedi ei ddefnyddio fel arf propaganda gan y llywodraeth, nododd ei fod yn sicr o hynny gan ddatgan mai 'dyma amcan Judasaidd i niweidio ein gwaith'.[362] Dyma ddatganiad cryf, Beiblaidd ei naws, sydd yn bradychu rhagfarn gref yn erbyn llywodraeth Ffrainc. Nid yw hynny'n syndod o gofio mor bleidiol oedd Dyfnallt i achos y Llydawyr.

---

[357] Ibid.
[358] Jones, *Bywyd a Gwaith John Dyfnallt Owen,* t. 69.
[359] Roberts, Papurau Frank Price Jones, GB 0210 FRANJON, f. 110, Llyfrgell Genedlaethol Cymru.
[360] Ibid.
[361] Ibid.
[362] Ibid.

Rhaid nodi nad oes achos i gredu fod Dyfnallt yn camarwain ei ddarllenwyr yn fwriadol a bod unrhyw gymhelliad maleisus yn ei adroddiadau am yr erlid yn Llydaw. Yn wir, ymysg ei bapurau mae ystod eang o lythyrau gan Lydawyr yn disgrifio erchyllterau erledigaeth a sawl apêl am gymorth ac erthyglau yn disgrifio erlid.[363] Roedd tystiolaeth ganddo o erlid, felly, ynghyd â sawl apêl emosiynol, ac mae'n debygol nad aeth Dyfnallt ati'n fwriadol i gamarwain y cyhoedd. Ymddengys iddo adrodd ar sail y dystiolaeth oedd ganddo yn ei feddiant a'i unig bechod, os oedd yn bechod o gwbl oedd troi mewn cylch penodol o unigolion yr oedd yr erlid yn effeithio'n anghymesur arnynt. Yn wyneb y fath dystiolaeth a'r ffaith fod y cyfnod yn Llydaw a Ffrainc yn un dryslyd, lle bu i nifer gael eu cyhuddo ar gam a lle nad oedd cyfiawnder yn cael ystyriaeth wrth gyhuddo a dedfrydu unigolion, ni ddylid beirniadu Dyfnallt yn hallt. Serch hynny, ni ddylid anghofio iddo, yn wyneb tystiolaeth wrthgyferbyniol, wneud popeth o fewn ei allu i bwyso ar unigolion eraill i lynu at y darlun y credai ef oedd yr un cywir.

Dengys y cyfnod hwn beth ddarfu pan roddwyd daliadau a chredoau Dyfnallt dan brawf ac awgrymir o'i ymateb ei fod yn ffyddlon hyd at eithafion i'w gyfeillion yn Llydaw. Er y byddai modd dadlau mai'r elfen bersonol a ddeilliai o adnabyddiaeth oedd yn bennaf gyfrifol am ei ymlyniad wrth y naratif hwn, roedd gafael y syniad o Geltigrwydd arno'n ffactor hefyd gyda'r frawdoliaeth a ddeilliai o hynny yn rhan weithredol o'i ymagweddiad.

Ceir deuoliaeth yma rhwng y dystiolaeth ym meddiant Dyfnallt a Morgan Watkin a'r hyn a welwyd gan y ddirprwyaeth a thrwy hynny yr y gallasent adrodd arno fel rhan o adroddiad swyddogol. Honnir i Dyfnallt gam-liwio'r mater yn y wasg ond o fwrw golwg drwy ei bapurau mae'n amlwg na wnaeth bortreadu'r digwyddiadau'n ddi-sail. A oedd Dyfnallt mewn difri yn euog o gam-liwio neu gam-bwysleisio? Yn sicr ni chredai ef ei fod ar unrhyw gyfri. Teg nodi nad oedd yr ymweliad gan y ddirprwyaeth yn un fforensig, holl gynhwysol ond nid oedd Dyfnallt ychwaith yn gwbl ddi-duedd. Noder fod un mater y mae Dyfnallt yn ymddangosiadol ddall iddo yn ogystal sef os oedd yr erlid ym mhob achos yn annheg. Ni cheir cydnabyddiaeth ganddo bod cyd-weithio wedi bod rhwng rhai unigolion a'r Natsïaid ond yn hytrach canolbwyntir ar ddioddefaint y rhai y honnir iddynt gael eu herlid ar gam a hynny, efallai, ar draul darlun mwy cynnil.

---

[363] Gweler, er enghraifft: Papurau John Dyfnallt Owen, GB 0210 MSJDYFNBRITT, NLW MS 23881E sydd yn cynnwys llythyr yn trafod marwolaeth annhymig yr Abbé Perrot (f.1.), erthyglau yn trafod erlid o ffynonellau heblaw Dyfnallt ei hun (f. 6, f. 18, f. 19, f. 21, f. 22.), rhestr o garcharorion ac ym mha garchar yr oeddynt (f. 31), llythyr gan Lydawr mewn carchar (f. 48), llythyrau gan Lydawyr alltud yn Sbaen a'r Eidal (f. 49, f. 50) ac yn sobreiddiol, ffotograff o orchymyn dienyddiad (f. 63.).

Gwelir, felly, er bod gan Dyfnallt agweddau a allai fwrw amheuaeth o ran pa mor gywir yw ei bortread o Lydaw, fod ganddo wybodaeth ddigamsyniol amdani ac adnabyddiaeth o'r wlad, ei phobl a'i phroblemau. Roedd gwybodaeth Dyfnallt hefyd yn ehangach na rhai o selogion eraill y maes Pan-Geltiadd. Mewn teyrnged i Dyfnallt noda J. Gwyn Griffiths:

> Nid bob amser y cyd-gyferfydd brwdfrydedd a gwybodaeth, a pherygl arbennig y selogion Pan-Geltaidd yw rhamanteiddio a chodi stêm heb ymdrechu i wybod dim am ddiwylliant y cenhedloedd Celtaidd eraill. Iechyd, wrth wynebu'r perygl hwn, oedd gwrando ar ddoethineb Dyfnallt. Y mae ganddo stôr o wybodaeth am y Celtiaid i gyd.[364]

Er bod dyfnder y wybodaeth gyffredinol hon eisoes yn gosod Dyfnallt mewn safle mwy ffafriol, noda Griffiths fod ganddo wybodaeth ddofn am Lydaw yn benodol hefyd:

> Am Lydaw a'i hiaith y mae ganddo wybodaeth arbenigol. Cofiaf ei draethu manwl ar brofiadau trist y Llydawiaid yn ystod y rhyfel. Gallai hefyd awgrymu cynlluniau pendant i gyfarfod â'r gofynion presennol.[365]

Nid yn unig fod Dyfnallt mewn gwell safle o ran ei wybodaeth ond hefyd o ran ei ymagweddiad. Er nad oedd Dyfnallt yn rhydd o afael rhamant yn gyfan gwbl, mae dadansoddiad Griffiths ohono yn un dilys ac roedd Llydaw yn agos iawn at ei galon. Roedd ganddo hefyd brofiad o deithio ac ysgrifennu ymatebion i'w brofiadau gan iddo ysgrifennu cerddi a chadw dyddiadur yn ystod ei gyfnod fel caplan yn y Rhyfel Byd Cyntaf. [366] Cyhoeddwyd cyfrol o gerddi am yn ail â chofnodion dyddiadur yn ymateb i'r cyfnod hwnnw, *Myfyrion a Chaneuon Maes y Tân,* yn 1917.[367] Mae i'r gyfrol hon arwyddocâd hanesyddol: wedi ei seilio ar y cyfnod byr a dreuliodd Dyfnallt yn Ffrainc yn haf 1916, dyma'r gyfrol greadigol gyhoeddedig gyntaf yn y Gymraeg i ddeillio o brofiad aelod o'r lluoedd arfog yn y Rhyfel.[368] Nodedig o gofio cyd-destun yr astudiaeth hon ydi i Gerwyn Wiliams ddatgan i Dyfnallt fynd i Ffrainc 'â'i syniadau a'i ragfarnau pendant ynglŷn â'r Rhyfel efo fo'.[369] Diau fod ganddo'i syniadau am Geltigrwydd a Llydaw hefyd a bydd trafod arnynt isod.

O gofio safle dilyniannol *O Ben Tir Llydaw* i *Tro yn Llydaw*, nid yw'n syndod fod modd gweld dylanwad cyfrol gynharach O. M. Edwards arni. O wybod am hoffter Dyfnallt o

[364] J. Gwyn Griffiths, 'Teyrnged i Olygydd- ysgrifau Dyfnallt', *Y Dysgedydd*, 133/10 (1953), t. 225.
[365] Ibid.
[366] Jones, *Bywyd a Gwaith John Dyfnallt Owen,* tt. 86-92.
[367] John Dyfnallt Owen, *Myfyrion a Chaneuon Maes y Tân (*Caerfyrddin: 1917).
[368] Gerwyn Williams, *Y Rhwyg: Arolwg o Farddoniaeth Gymraeg ynghylch y Rhyfel Byd Cyntaf* (Llandysul: 1993), tt. 114-5.
[369] Ibid., t. 116.

Lydaw a'i phobl ac o ystyried natur ddamniol *Tro yn Llydaw* ar brydiau, nid yw'n anodd gweld mai'r argraff a geir o ddarllen *O Ben Tir Llydaw* yw nad oedd Dyfnallt yn cytuno gyda dehongliad Edwards o Lydaw a'i phobl. Serch hynny, ni cheir ymosodiad uniongyrchol ar y gyfrol nac ar Edwards yn bersonol. Ni cheir ychwaith drafodaeth agored ar natur niweidiol naratif Edwards yn *O Ben Tir Llydaw*. Drwy gynnig golwg gwahanol ar Lydaw, ac atgoffa darllenydd o daith Edwards yr un pryd, mae'r ymateb yn fwy cynnil.

Yn *O Ben Tir Llydaw*, ceir gan Dyfnallt ymgais i gywiro neu liniaru'r hyn a ysgrifennwyd ynghynt a thrwy gynnig darlun ffafriol o Lydaw, llwyddir heb fod yn oramlwg i danseilio profiad Edwards o'r wlad. Aiff ati yn gymodlon bron wrth ymateb, heb fentro ymosodiad uniongyrchol. Dechreua drwy esbonio na chafodd Edwards daith drwy'r wir Lydaw:[370]

> Trwy Sant Malo yr aeth Syr Owen M. Edwards yn ei "Tro yn Llydaw," a threulio mesur da o'i amser yno yn Nhrégor, a chymryd gwib gyda'r trên i'r De. Ni bu ym mharthau gwyllt Llydaw — y mynyddoedd Arrée a'r Mynyddoedd Duon, na chwaith ar yr arfordir o Roscoff i Ouessant, ac o Bontarenes i Douarnenez. Dylai'r teithiwr grwydro'r parthau hyn yn anad dim, o myn weled bywyd hen Lydaw yn ei rym.[371]

Mae yma ymgais i gywiro Edwards yn gynnil. Yn ôl Dyfnallt, y llefydd y tu draw i'r ardaloedd poblogaidd, ardaloedd y mae ef yn bwriadu mynd iddynt, yw'r mannau y dylai teithiwr o'r iawn ryw ymweld â hwy os am gael syniad o Lydaw a'i phobl. Dylid hefyd gymryd pwyll wrth deithio. Nid ar frys, mae ei phrofi, ac mae defnydd Dyfnallt o'r ferf 'gwib' yn gwneud i siwrnai Edwards swnio fel un ddi-hid a brysiog. Cyfuna'r ddwy elfen uchod yn hwyrach gan ddatgan: 'Pe dibynnid ar ffyrdd haearn Llydaw, byddai'n anobeithiol gweled dim gwerth sôn amdano mewn tair wythnos [...]'[372] Nid cyd-ddigwyddiad mai mewn trên y teithiodd Edwards am ran helaeth o'i daith ac mai cymharol fyr fu ei gyfnod yn Llydaw. Methiant arall ar ran Edwards ym marn Dyfnallt oedd ei ymlyniad at ardaloedd penodol am y rhan helaethaf ei daith, ardaloedd y trên gan amlaf a chan fod y rheiny wedi eu datblygu a'u haddasu at chwaeth ymwelwyr, yr oedd felly'n amhosibl iddo gael argraff lawn o Lydaw.[373]

Nodyn cyson yn nadansoddiad Dyfnallt o gyfraniad Edwards i'r drafodaeth ar Lydaw yw'r ffaith iddo fod yn rhy arwynebol yn ei ddadansoddiad. Dyma un sylw nodweddiadol ganddo:

---

[370] John Dyfnallt Owen, *O Ben Tir Llydaw* (Dinbych: 1937), t. 9.
[371] Ibid.
[372] Ibid., t. 93.
[373] Ibid., t. 114.

'Ni chafodd Syr O. M. Edwards hamdden, y mae'n amlwg, i gerdded [yr ardal] hon a dal y rhyfeddodau a berthyn i Sant Thégonnec, Guimiliau a Lampaul-Guimiliau.'[374]

Eto, dyma ddychwelyd at y cysyniad o wibio heibio a pheidio â chael y cyfle i ennyn gwerthfawrogiad llawn o'r wlad o'r herwydd. Pellhawyd y feirniadaeth wrth osod y bai ar y cyfnod o amser yn hytrach nag ar Edwards ei hun, ond achubir cam yr ardaloedd hyn er hynny. Drwy gerdded ac oedi a chrwydro oddi ar y llwybrau poblogaidd mae dod i adnabod gwlad yn ôl Dyfnallt. Cynigia diffyg Edwards, ei frys a'i gulni daearyddol, esgus i Dyfnallt gynnig naratif gwahanol heb orfod mynd i'r afael â gwallau ffeithiol penodol, a thrwy hynny beidio â mynd benben â choffadwriaeth un o gewri'r Gymru fodern.

Noda hefyd nad oedd taith Edwards o Lydaw yn un lawn o ran ei phrofiadau gan drafod rhai pethau hanfodol y bu iddo'u hepgor. Wrth deithio drwy Sant Brieuc, aiff Dyfnallt i weld yr ieithydd a'r cenedlaetholwr, F. Vallée, a thestun syndod gwerth ei drafod yw na fu Edwards yno hefyd:

> Byddwn yn synnu na buasai'r diweddar Syr Owen M. Edwards wedi ei gyfarfod pan fu ar ei daith yn Llydaw, canys ni ddylai'r un Cymro fynd yno heb ddal ar y cyfle i dalu gwrogaeth i *Sbherve, drouiz Llydaw*, canys felly yr hoffa ei gyfenwi ei hun.[375]

Mae elfen o siarad gyda thafod yn y foch yma a thôn gyfeillgar Dyfnallt yn gwyro'n beryglus o agos at fod yn ymosodiad uniongyrchol, yn enwedig felly, am iddo nodi na fyddai'r un Cymro o'r iawn ryw yn methu ymweliad â Monsieur Vallée. Amddifadwyd Edwards a'i ddarllenwyr o brofiad hanfodol felly, ac mae'r ffaith fod Dyfnallt yn 'synnu' na chafwyd trafodaeth ar F. Vallée yn dangos bod methiant o'r fath yn un nodedig. Yr awgrym eglur yw na wyddai Edwards am fodolaeth y gŵr hwn a bod Dyfnallt yn well tywysydd o'r herwydd.

O dderbyn diffygion *Tro yn Llydaw* o safbwynt Dyfnallt, caiff ei phwrpas fel cyfrol ei gwestiynu. Os na theithiodd Edwards i'r mannau cywir, a gweld Llydaw fel y dylai fod, yna at ba bwrpas y gellid arddel *Tro yn Llydaw* fel llyfr taith dibynadwy o gwbl? Collai sylwadau Edwards eu dilysrwydd, ac o gofio bod *Tro yn Llydaw* wedi cael ei bortreadu fel llyfr taith llawn gwybodaeth ddefnyddiol yn y wasg,[376] mae bwriad Dyfnallt i'w sefydlu ei hun fel arbenigwr cymhwysach nag Edwards yn bwysig. Cawsai Edwards ei weld fel gŵr hyddysg

---

[374] Ibid., t. 15.
[375] Ibid., t. 123.
[376] Nodiadau ar Lyfrau – "Tro yn Llydaw", *Y Lladmerydd*, *Cylchgrawn Misol at Wasanaeth yr Ysgol Sabbothol ac Addysg Grefyddol,* 6/64 (1890), t. 127.

ond gosododd Dyfnallt ei hun fel awdurdod ar faterion Celtaidd eisoes gan ysgrifennu erthyglau niferus yn y wasg ar gyfer *Y Tyst* a *The Welsh Outlook*.[377]

Cofnod aflwyddiannus oedd *Tro yn Llydaw* yng ngolwg Dyfnallt, un a oedd ar ei orau yn anymarferol i'r sawl a fynnai brofi Llydaw, ac un afrealistig ar ei waethaf. Mae effaith, os nad bwriad, ei sylwadau yn amlwg: tanseilio gwerth *Tro yn Llydaw* fel llyfr teithio a dangos yn anad dim fod gan Dyfnallt fwy o arbenigedd nag Edwards gan osod ei argraffiadau yn *O Ben Tir Llydaw* mewn cyd-destun mwy ffafriol.

Rhydd yr arbenigedd honno, ynghyd â'i adnabyddiaeth, ddarlun llawn dyfnach o Lydaw, ac fel ei wybodaeth a drodd yn awgrymiadau ymarferol ar weithredu yn Llydaw (fel y crybwyllwyd uchod), daw'r wybodaeth hon yn rhan ganolog o'r ysbryd ymarferol sydd yn hydreiddio'r testun. Mae hyn yn ei dro yn troi'r gyfrol yn enghraifft lawer mwy dilys o ysgrifennu teithio na *Tro yn Llydaw*. Canlyniad hynny yw nad cofnod o argraffiadau personol yn unig yw *O Ben Tir Llydaw*, ond yn hytrach, gyfrol sy'n cynnig cyngor ac anogaeth i deithwyr. Gwna hynny mewn mwy o ysbryd i 'gymeryd mwy o ddiddordeb yn ein gilydd'[378] nag a fu yn *Tro yn Llydaw* erioed. Noda Thompson fod cyngor o'r fath yn anhepgor fel rhan o ysgrifennu teithio gan mai cywain gwybodaeth ymarferol yw'r peth pwysicaf oll mewn llyfr taith, yn hytrach nag argraffiadau neu brofiadau personol yn unig.[379] Noda hefyd fod llinach anrhydeddus o gynghori teithwyr yn y *genre* ers llawlyfrau'r pererinion yn yr Oesoedd Canol.[380]

Ceir gwybodaeth am amrywiaeth o agweddau ar y daith gan Dyfnallt. Noda ar ddechrau'r bennod gyntaf mai cynnig cyngor yw bwriad pennaf y gyfrol a hynny am fod rhai yn holi amdano: '"Rhowch gyfarwyddyd modd y gallwn fynd yn ddidrafferth," ebe cyfeillion. Dyna a wnawn yn bennaf.'[381] Drwy gynnig gwybodaeth ymarferol y medrir gweithredu arni, hwylusa Dyfnallt y broses o ymweld â Llydaw ac mae'r ysbryd hwnnw i'w weld yn eglur wrth agor y gyfrol hyd yn oed gan fod ganddo fap ymysg ei thudalennau blaen. Y cyngor cyntaf, a'r pwysicaf, efallai, o ran ei fydolwg, yw y dylai'r teithiwr fynd i'r mannau gwylltion hynny sydd heb eu troi'n ganolfannau twristaidd, mannau 'bywyd hen Lydaw yn ei rym',[382] fel y trafodwyd eisoes. Bydd trafodaeth ar natur broblematig agwedd o'r fath i'w chael isod.

[377] John Dyfnallt Owen, 'Wales and the Celtic Movement', *The Welsh Outlook,* ix (1922), t. 37
[378] Edwards, *Tro yn Llydaw*, t. vi.
[379] Thompson, *Travel Writing: the New Critical Idiom*, t. 15.
[380] Ibid, t. 38.
[381] Dyfnallt, *O Ben Tir Llydaw,* t. 9.
[382] Ibid.

Yn y bennod agoriadol, 'Parth â Llydaw',[383] fframia'r naratif mewn dull realistig gan gynnig tair wythnos fel ffrâm amseryddol benodol i daith, dair gwaith hyd taith Edwards a fu yno am wythnos yn unig.[384] Yna, rhydd arolwg bras o'r gwahanol ddulliau y medrir teithio Llydaw cyn troi at brif naratif y gyfrol sydd yn cynnig darlun mwy personol. Amrywia'r cyngor o'r cyffredinol — pa ardaloedd i'w gweld neu ba ffyrdd i'w defnyddio i deithio[385] — i'r mwy penodol a lleol — pa fynydd i ddringo i'w gopa i gael yr olygfa orau,[386] er enghraifft. Enwa amgueddfeydd,[387] llyfrwerthwr,[388] mannau a gaiff eu trafod mewn chwedloniaeth,[389] neu weithgarwch diwylliannol megis pardwn.[390] Bwriad Dyfnallt yw rhoi'r profiad gorau posib i ymwelydd a thrwy hynny roi'r argraff orau iddo o'r wlad. Dangosa hefyd ei fod yn ymwybodol o'i gynulleidfa wrth nodi lle y gallai ymwelwyr o Gymru fynd i gapel Bedyddwyr[391] a chyfarfod y Parch. J. Jenkins y cenhadwr.[392]

Yn hytrach na chofnod o ddigwyddiadau fel a gafwyd gan Edwards, y mae natur ymarferol naratif Dyfnallt yn rhoi argraff o fwriad ehangach. Nid arsylwi'n oddefol a wna Dyfnallt; rhydd fanylion cyffredinol a cheir awgrym mai rhannu yn ogystal â chofnodi oedd ei fwriad. Y mae ei arddull wedi ei hanelu fwy at y math hwn o ysgrifennu gyda defnydd cyson o frawddegau amhersonol, niwtral eu naws megis 'Oddi yma gellir troi ar y chwith tua thueddau'r môr'[393] neu 'Dewiser tri chanolfan i fwrw allan ohonynt i holl barthau Llydaw'.[394] Mae cofnod o'i weithgarwch personol yn rhan fawr o'r llyfr yn ogystal ond yn llawer llai o ran na'r hyn a geir gan Edwards. Rhydd fwy o sylw i hanes Llydaw, boed gyd-destun gwleidyddol,[395] cefndir ardal benodol,[396] neu hyd yn oed eglwysi arbennig[397] fel modd o gyfoethogi'r darlun o'r wlad. Tyn sylw hefyd at chwedlau niferus[398] sydd, nid yn unig yn ychwanegu at ei safle arbenigol, ond yn ychwanegu lliw lleol at y naratif ac yn fodd o gynorthwyo gyda'r dieithrio.

---

383 Ibid.
384 Davies*, O. M*, t. 388.
385 Dyfnallt, *O Ben Tir Llydaw*, t. 52.
386 Ibid., t. 25.
387 Ibid., tt.71-2.
388 Ibid.,, t. 75.
389 Ibid., t. 88.
390 Ibid., t. 99.
391 Ibid., t. 114.
392 Ibid.
393 Ibid,
394 Ibid., t. 21.
395 Ibid., t. 43.
396 Ibid., t. 52.
397 Ibid, t. 90. Gweler hefyd t. 108.
398 Ibid., t. 14. Gweler hefyd t. 27. , t. 48. , t. 71., t. 88. , tt. 98-9. , t. 103. , t. 109. , t. 110. , t. 119.

Afraid dweud bod y darlun o Lydaw a Llydawyr yn llawer mwy ystyrlon a chanmoladwy gan Dyfnallt. Y gwahaniaeth amlycaf yw diffyg neu o leiaf raddau llai o ragfarn wrth-Gatholig yn y naratif. Er ei fod yn weinidog,[399] nid yw natur Gatholig trwch poblogaeth Llydaw yn peri'r un anhawster a chymhlethdod iddo ag a wnâi i Edwards. Rhy niferus i'w rhestru'n unigol yw'r achlysuron lle y gwirionodd ar bensaernïaeth eglwysig gwahanol ardaloedd ac, ar un achlysur, aiff ati i bregethu o bulpud eglwys ar gais rhai o'i gyfeillion.[400] Aiff i wasanaeth Catholig a chael mwynhad yn ogystal heb feirniadu.[401] Pwysleisia Dyfnallt fod y Llydawyr yn bobl dduwiol a pharchus yn enwedig pan fo pardwn yn cael ei gynnal: 'Nid oes dim rhialtwch yn y pardwn — diwrnod o feddwl difrifol, sobr ydyw — act o dduwioldeb a gwrogaeth i santeiddrwydd buchedd y Sant.'[402] Cymharwn hyn gyda darlun Edwards o achlysur addoliad y Santes Ann:

> y plant wedi gadael allor y santes, ac yn sefyll, gyda'r defosiwn ar eu hwynebau, o flaen y stondin fferins; y dynion yn pigo ar eu crymanau, a rhai ohonynt yn sefyll yn bur ansefydlog wrth wneud hynny ac yn gwenu gwên lydan fel adlewyrchiad cwpanaid o win coch [...][403]

Yng ngolau'r sylw uchod ac agwedd gyffredinol Edwards, daw disgrifiad Dyfnallt yn amddiffyniad. Yn sicr, ceir ymdrech ymwybodol i gynnig darlun pleidiol o Lydaw a Llydawyr yn *O Ben Tir Llydaw* a hynny am amrywiol resymau. Elfen o ymateb uniongyrchol sydd yn gyfrifol am y darlun ffafriol hwn ond, fel Edwards, mae rhagfarnau Dyfnallt yn siapio ei naratif yntau hefyd.

Daw ei wybodaeth ieithyddol yn ddefnyddiol hefyd gan gynnig dyfnder mawr o gymharu â haeriadau symlach Edwards. Ychwanega hyn, yn ei dro, at yr elfen o ddieithrio honno sydd yn hanfodol mewn ysgrifennu taith, fel y crybwyllwyd eisoes, a dyma fan o newid mawr o gymharu â naratif Edwards. Trafoda natur broblematig Llydaweg yng nghyd-destun diffyg iaith safonol yn Llydaw a hynny mewn dull sydd yn dangos adnabyddiaeth fanwl:

> "Llydawr?" ebe Floc'h yn iaith Léon: ond mud yr hen ŵr fel pysgodyn chwedl y Llydawiaid. Gwelsom am unwaith bod Llydaweg Bro Wened yn gwbl ddieithr i Lydaweg Coronouaille a'r Gogledd — a dyna un o broblemau difrifol yr iaith yn Llydaw, ac un o'r rhwystrau mwyaf i undeb cenedlaethol. Y mae yn Llydaw dair

[399] Jones, *Bywyd a Gwaith John Dyfnallt Owen*, t. 55.
[400] Dyfnallt, *O Ben Tir Llydaw,* t. 87.
[401] Ibid., t. 78.
[402] Ibid.
[403] Edwards, *Tro yn Llydaw*, t. 73.

> tafodiaith, a'r gwahaniaeth yn aruthrol fwy rhwng Gogledd a De nag yng Nghymru.[404]

Dyma fanylu na chafwyd awgrym ohono gan Edwards gan na byddai gwahaniaeth ieithyddol o fewn Llydaw yn gwneud dim i atgyfnerthu ei ddadl dros debygrwydd cyffredinol Llydaweg a'r Gymraeg. Trafoda Dyfnallt elfennau penodol ar ramadeg ac iaith yn ogystal:

> Dyma'r unig fan y gwelsom ddefnyddio'r ffurf *ty* am *ti.* Yn y gymdogaeth gwelsom Tŷ Menhir, Tŷ Glaz, Tŷ Koz. Hwyrach mai balchder yn fwy na dim a roes y ffurf *ty* i'r gair. *Ker* yw gair y Llydawr am dŷ am ei ben ei hun, a *ti* yn fwy na dim am dŷ mewn pentref.[405]

Yn hytrach na defnyddio elfen debyg 'ty' a 'ti' mewn Llydaweg i 'tŷ' yn y Gymraeg fel modd o ddadlau fod y ddwy iaith yn debyg neu'n unfath, aiff ati i drafod amrywiadau tafodieithol y Llydaweg. Unwaith eto, amlygir yr elfen o wahaniaeth rhwng Cymraeg a Llydaweg, ond ceir hefyd, yn sicr, olwg ar arbenigedd a dealltwriaeth yr awdur yn ychwanegol at hynny.

Er hyn, trafoda natur debyg rhai geiriau: 'Ar gongl y stryd y mae Llydawr yn falch mai Cymry ydym, ac yn wên i gyd wrth y geiriau tebyg yn y ddwy iaith.'[406] Ond elfen o ddiddanwch yw hi yn hytrach na sail i ddadl ehangach, a phrin yw'r cyfeiriadau eraill at debygrwydd iaith. Nodir bod Eglwys Lanedern yn werth ymweld â hi am fod iddi enw Cymreig,[407] ond tebygrwydd daearyddol yw'r un amlycaf rhwng Llydaw a Chymru gyda'r dirwedd yn debyg i Gymru,[408] ac ni thrafodir hynny'n helaeth hyd yn oed. Pwysleisir mwy ar y syniad o berthynas neu gysylltiad nag elfennau unfath, ac yng nghyd-destun gweddill y llyfr, nid yw'r trafod o debygrwydd rhai geiriau yn fawr mwy na nodyn difyr wrth fynd heibio.

Yn sicr, ni cheir unrhyw awgrym fod y Gymraeg a'r Llydaweg yn ieithoedd unfath. Yn hytrach, rhywbeth i ddieithrio ac i atgoffa'r darllenydd fod Llydaw yn wlad wahanol yw'r Llydaweg. Rhydd Llydaweg flas lleol i naratif Dyfnallt ar adegau —'Wedi "kousk mad," ys dywed y Llydawyr'[409] — ac ar adegau eraill, y mae natur wahanol a dieithr y Llydaweg yn cael ei hamlygu gan ddyfyniadau helaeth ac yna gyfieithiad i'r Gymraeg:

---

404 Dyfnallt, *O Ben Tir* Llydaw, t. 36.
405 Ibid, t. 107.
406 Dyfnallt, *O Ben Tir Llydaw*, t. 27.
407 Ibid.
408 Ibid.*,* t. 30. Gweler hefyd t. 32.
409 Ibid., t. 10.

> '*Eris ema va tro, var c'honi o'chim. O pet truez onzign, O pet truez onzign, da c'honi o'chim. O pet va mignonet.*' ('Heddiw fy nhro i yw hi, yfory yr eiddoch chwi. O trugarhewch wrthyf, O trugarhewch wrthyf, fy nghyfeillion.')[410]

Pe na byddai'r Llydaweg ei hun yn ddigon dieithr o gymharu â Llydaweg Edwards, mae gosod y testun wedi ei italeiddio a chynnig cyfieithiad yn newid cyd-destun yr iaith. Nid rhywbeth hawdd i'w deall a chyfarwydd mohoni ym mhortread Dyfnallt, ond, yn hytrach, gosoda'r cyfieithiad Llydaweg ar wahân fel iaith yn ei hawl ei hun, nid rhyw gysgod i'r Gymraeg. Nodweddiadol hefyd, efallai, yw'r ffaith iddo beidio â chyfieithu'r Ffrangeg[411] ar fwy nag un achlysur.[412] Rhaid, felly, fod y Llydaweg, ym marn Dyfnallt, yn fwy dieithr na Ffrangeg, er ei hagosrwydd ieithyddol cymharol, ac yn anos i ddarllenydd o Gymru ei deall.

Gellir ar un wedd briodoli'r manylu hwn i ymwybyddiaeth ar ran Dyfnallt fod dieithrio yn hanfodol mewn llyfr taith neu ddymuniad ganddo i roi darlun ieithyddol cywirach na'r un a gynigiwyd gan Edwards. Elfen arall a allai fod yn rhan o'r gwahaniaethu hwn fyddai'r ysfa i ddangos fod Llydaw yn wlad yn ei hawl ei hun. Gwledydd â phobl a oedd yn perthyn yn hytrach nag yn unfath oedd yn cael eu disgrifio mewn dull o'r fath, ac er bod elfennau tebyg i Gymru yn bodoli yn Llydaw, roedd ganddi hawl i fodoli yn annibynnol. Dyma agwedd fwy realistig o ran iaith nag un Edwards, heb os, un sydd heb fod ofn crybwyll fod rhai geiriau tebyg ond heb droi hynny'n fodd o ddiffinio'r Llydaweg.

Er bod darlun Dyfnallt yn un cadarnhaol ac o safbwynt un sydd yn gefnogwr brwd o achos Llydaw a Phan-Geltigiaeth, mae gan ei Lydaw ef debygrwydd i un Edwards mewn rhai ystyron ac yma y ceir cysgod Celtigrwydd yn amlwg ar y naratif. Yr amlycaf yw'r Llydaw hynafol ac, fel Edwards, mae Dyfnallt yn gwirioni ar yr elfen hon gyda'i werthfawrogiad ohoni yn hydreiddio'r testun. Cymaint yw'r canmol a'r arsylwi nes bod y gwerthfawrogiad yn troi'n rhamantu. Niferus unwaith eto yw'r cyfeiriadau at hynafiaeth y wlad a hyd yn oed yn nannedd datblygiad, ni ellir llwyr ddinistrio natur hynafol y wlad yn gyfan gwbl, fel y tystia Dyfnallt wrth ymweld â Morlaix:

> Gwir i lawer tòn [*sic*] o newid ddyfod dros y dref yng nghorff y blynyddoedd diwethaf, eithr erys yr hen strydoedd, yr hen dai didrefn, a dieithrwch y Canol Oesoedd i lygadrythu arnom o lawer congl, cilfach ffenestr a grisiau.[413]

---

[410] Ibid., t. 107.
[411] Ibid., t. 48.
[412] Ibid., t. 65.
[413] Ibid., t. 15.

Unwaith eto, gwlad sydd yn llawn elfennau hynafol yw Llydaw a hynny er bod gweddill y byd yn datblygu ac yn newid. Mae rhywbeth parhaus am yr hynafiaeth hon yn Morlaix ac mae nodi bod elfen ganoloesol i'r dref yn enghreifftio sut fath o wlad yw'r Llydaw wreiddiol yng ngolwg Dyfnallt. Cawn ein hatgoffa o ddefnydd Arnold o'r gorffennol sydd yn crafangu i ddal ei afael yng Nghymru.

Darlun o wlad sydd yn llawn o dai a nodweddion hynafol a geir[414] ac nid yw hynny'n amlycach nag wrth i Dyfnallt deithio o gwmpas 'Bro y Meini Hirion'.[415] Byddai disgwyl i drafodaeth ar nodweddion cynhanesyddol o'r fath gynnwys cyfeiriadaeth at y gorffennol, ond mae dull Dyfnallt o fynd ati i fframio'r naratif yn gwneud iddynt ymddangos fel bod eu dylanwad i'w deimlo o hyd. Adleisir naws hudolus gyda chyfeiriadau at 'ddewiniaeth'[416] ac, yn ôl Dyfnallt, 'etifeddiaeth dderwyddol'[417] yw'r meini yn hytrach nag olion o'r Neolithig. Dyma'r math o fytholi'r cysyniad o gysylltiad Celtaidd gyda henebion o Oes y Cerrig a drafodwyd uchod. Yn anad neb arall, ym marn Dyfnallt, perthyn i'r Celtiaid mae'r hen olion hyn. Pwysleisir natur baganaidd a chwedlonol yr ardal ymhellach wrth i'r meini gael eu cymharu â darnau o 'hen dduw'.[418] Profiad ymron yn ysbrydol yw bod yng nghysgod y meini i Dyfnallt; dyma nodweddion sydd yn 'ddarnau o Natur',[419] a theimla Dyfnallt barch mawr atynt. Nid olion y gorffennol yw'r creiriau hyn yn unig, ond cysylltiad uniongyrchol a olygai fod y gorffennol hwnnw'n fyw o hyd yno.

Fel y cerrig, y mae'r bobl yn ymlynu wrth yr hynafol:

> Ni welson ddim ar ein taith yn fwy primitif na thir yr hen frawd hwn, a'i ddull o nithio ac o wisgo. Yr oedd yn perthyn, yn sicr, i'r hen deulu a wladychai erwau'r Meini yn yr oesoedd cyn-hanes.[420]

Defnyddir yr ansoddair 'primitif' heb unrhyw falais nac ychwaith ymwybyddiaeth o sut y gallai portread o'r fath fod yn sarhaus. Olrheinir llinach y gŵr hwn yn ôl yn uniongyrchol at drigolion a arferai fyw yn yr ardal rai miloedd o flynyddoedd ynghynt. Ategir y cysyniadau cyfarwydd hynny o linach hynafol a chysylltiad trwy waed â Cheltiaid hanesyddol. Yna, ceir disgrifiad anthropolegol bron o'r gŵr hwn: 'hen Lydawr troednoeth oedd yn dyrnu ei

---

[414] Ibid., t. 11.
[415] Ibid., t. 47.
[416] Ibid.
[417] Ibid., t. 45.
[418] Ibid., t. 43.
[419] Ibid., t. 44.
[420] Ibid., t. 51.

ysgubau gwenith â dau bren, tebyg i ryw raddau i'r hen ffust.'[421] Fe'i darlunnir ymhellach fel adlais o'r gorffennol yma gan ganolbwyntio ar y ffaith ei fod yn droednoeth ac yn gyntefig ei ffordd. Mewn brawddeg gymharol fer, ceir dwy enghraifft o'r ansoddair 'hen' hefyd. Darlunia Dyfnallt bresennol Llydaw drwy gyfeirio at orffennol Cymru 'ddatblygedig' hefyd. Hyd yn oed yn 1937, roedd y ffust wedi hen golli ei blwyf a dulliau mecanyddol o brosesu grawn fel y dyrnwr wedi eu mabwysiadu yng Nghymru, gan i'w hoes ddod i ben erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg.[422]

Nodweddiadol yw bod Dyfnallt a'i gyd-deithwyr yn eiddigeddu wrth y gŵr troednoeth hwn.[423] Eiddigedd sy'n deillio o natur gyntefig y ffermwr a'i ardal yw eiddigedd Dyfnallt, ac yma, y mae'r bobl a'r wlad ar eu mwyaf hynafol ac apelgar. Cymaint yw'r hynafiaeth yng nghyfansoddiad y ffermwr nes bod Dyfnallt yn sicr ei fod yn perthyn i hen linach gynhanesyddol a oedd yn byw ymysg y meini, mewn ardal a enwyd ganddo fel un Geltaidd ychydig baragraffau ynghynt.[424] Dyma ymgorfforiad modern o'r Celt rhamantaidd ac ymgorfforiad o ddelfryd Dyfnallt o Lydaw: yr ynysig, yr hynafol a'r cyntefig, a hynny mewn ardal brydferth sydd ei hun yn amlwg yn ei hynafiaeth. Caiff ei fywyd amaethyddol henffasiwn a fyddai'n galed, heb os, ei ramantu a daw'n llun o anwar nobl, rhywun sydd, er ei dlodi, yn ymgorfforiad o fywyd delfrydol, sy'n nes at natur a'r gorffennol.

Mae eglwysi hefyd ar unwaith yn ymgorfforiad o'r gorffennol yn y presennol. Dyma adeiladau hynafol sydd yn meddu ar geinder, nid yn unig o safbwynt celfyddydol, ond hefyd o safbwynt eu hoed. Nid yw adeiladau mwy modern yn tynnu cymaint ar lygaid Dyfnallt ac enghraifft amlwg yw ei farn am Eglwys Gadeiriol Rennes: 'Diweddar yw oed yr Eglwys Gadeiriol, ac nid oes ynddi fawr ddim i swyno'r teithiwr.'[425] Yn 1867 y gorffennwyd yr holl waith ar yr adeilad hwnnw wedi dymchwel yr hen adeilad,[426] a chymaint gwell yw Eglwys Sant Germain a godwyd yn 1612[427] a hithau'n llawn 'creiriau a gwaith crefft a chelfyddyd.'[428] Yn ei hynafiaeth y mae gwerth Llydaw, ar un wedd i Dyfnallt, ac nid yw'r modern yn atyniad iddo.

---

[421] Ibid.
[422] Twm Elias ac Emlyn Richards, *Y Dyrnwr Mawr* (Llanrwst: 2017), t. 36.
[423] Dyfnallt, *O Ben Tir Llydaw*, t. 51.
[424] Ibid.
[425] Ibid., t. 11.
[426]'Cathédrale Saint-Pierre', *POP : la plateforme ouverte du patrimoine* <https://www.pop.culture.gouv.fr/notice/merimee/PA00090675> cyrchwyd 9 Gorffennaf 2021.
[427] 'Église Saint-Germain', *Le site de la Paroisse Saint-Germain de Rennes* <https://saint-germain-rennes.fr/eglise-saint-germain/>; cyrchwyd 9 Gorffennaf 2021.
[428] Dyfnallt,*O Ben Tir Llydaw*, t. 11.

Nid nodweddion tirwedd neu bensaernïol yn unig sydd yn cyfrannu at y darlun hynafol hwn ond hefyd nodweddion o fywyd beunyddiol y Llydawyr. Er nad yw agwedd Dyfnallt at y Llydawyr mor nawddoglyd ag un Edwards, nid yw'n gwbl rydd o feddylfryd o'r fath, a cheir awgrym fod pobl Llydaw yn gyndyn o adael y gorffennol. Tra mae Cymru, bid siŵr, wedi datblygu, y mae'r Llydawyr o hyd yn arddel hen goelion gwrachod a noda Dyfnallt mai 'Araf iawn yw ofergoelion yn marw yn Llydaw'.[429] Fe'n hatgoffir gan sylw felly o adolygiad *Seren Gomer* o *Tro yn Llydaw* yn annog y Cymry i gofio am eu cefndryd yn Llydaw ofergoelus.[430] Mae ganddynt ymlyniad wrth yr hen fyd o hyd felly, a hynny yn nannedd moderneiddio. Wrth drafod olwyn a chloch y '*roue de fortune à carillon*'[431] a chred unigolion lleol fod yr olwyn honno'n gallu gwella plant mud, pwysleisia Dyfnallt mai'r werin leol ac nid yr offeiriaid addysgedig sydd yn parhau gyda'r gred hon.[432]

Canlyniad eu disgrifio yn y fath fodd yw eu hynafoli ac er nad yw Dyfnallt mor ddiystyriol ag Edwards,[433] effaith debyg a geir ar un wedd. Ymhellach ar ei daith, noda Dyfnallt unwaith eto mewn modd yr un mor gyffredinol natur ofergoelus ardal arall: 'Eglwys gymharol newydd sydd yma, ond erys y ffynnon yn y *crypt* yn llawn chwedl a dewiniaeth a meddyginiaeth i'r brodorion'.[434] Y mae gwrthgyferbyniad rhwng yr eglwys a'r hen ffynnon yn y gladdgell, yn gyntaf o ran oed, gyda'r naill yn newydd a'r llall yn hen, ond hefyd o ran crefydd gyda'r Cristnogol yn gwrthdaro â'r Paganaidd. Os yw'r eglwys Gatholig, eglwys yr hen grefydd ym meddwl sawl Protestant o Gymro, yn newydd o gymharu â ffynhonnell coelion y trigolion, yna mae'r rheiny'n hynafol dros ben. Yn wir, noda Dyfnallt fod y 'ddaeargell' wedi ei hadeiladu yn y chweched ganrif. Caiff y Llydawyr hefyd eu cyfosod gyda dewiniaeth a chwedl ac fel trigolion bro'r meini hirion, mae rhyw naws ffantasïol i'r adrodd.

Nid ofergoeliaeth yn unig sydd yn nyfroedd y ffynnon hon eithr meddyginiaeth werin, chwedl a dewiniaeth — pethau na fyddai disgwyl i unigolyn modern, addysgedig ymwneud â nhw. Mae'r pentref ei hun hefyd yn un a berthynai i'r gorffennol — 'hen bentref llwyd ei olwg ac wedi gweled ei ddyddiau gorau'[435] — ac fe grybwylla Dyfnallt gysylltiad gyda'r Celtiaid hanesyddol hefyd: 'Dyma Kerfeunteun y Celtiaid.'[436] Unwaith eto, fe gysylltir y

[429] Ibid., t. 81.
[430] 'Crybwyllion Llenyddol – Tro yn Llydaw', *Seren Gomer neu, gyfrwng gwybodaeth cyffredinol*, XI/47 (1890), t. 142.
[431] Dyfnallt, *O Ben Tir Llydaw,* t. 80.
[432] Ibid., t. 81.
[433] Edwards, *Tro yn Llydaw,* t. v.
[434] Dyfnallt, *O Ben Tir Llydaw*, t. 114.
[435] Ibid.
[436] Ibid.

cyfoes gyda'r cynhanesyddol a'r chwedlonol gyda'r diriaethol. Er bod yr eglwys yn newydd, mae hi wedi ei chodi ar hen olion ac ar dir Celtiaid y gorffennol, a dyna drosiad am Lydaw Dyfnallt ar ei hyd: ni waeth faint y datblygu, erys y ffaith mai ar ben neu ar draws yr hynafol y gwnaed hynny.

Mewn pentref arall ac iddo gysylltiad â'r cynfyd gan i'r eglwys gael ei chysegru i 'hen feudwy Celtaidd'[437] — sydd ar un waith yn cysylltu'r ardal gyda'r hynafol drachefn — ceir enghraifft arall o natur ofergoelus y Llydawyr. Yno, mae hen wraig yn gwerthu goriadau sydd yn meddu ar rym goruwchnaturiol i gadw'r sawl sydd yn eu perchen rhag niwed ar dir a môr ac i wella rhywun a frathwyd gan gi cynddeiriog. Cyfeirir ati fel 'dewines' gan Dyfnallt, cyfeiriad echblyg at ryw natur swynol, baganaidd yng nghyd-destun arferion ofergoelus, trigolion Llydaw. Ceir elfen o ddirmyg yn yr enwi hwn yn ogystal, nid cymaint am ei natur ofergoelus ond am iddi fynd ati i geisio gwerthu trugareddau o'r fath. Noda Dyfnallt mai eithafiaeth hynafol nad yw ond yn bodoli mewn cilfachau diarffordd yw cred o'r fath: 'Ni cheir ofergoel o'r math yma ond mewn parthau neilltuedig a phell fel Saint-Tugen.'[438] Mae'r rhain yn gilfachau pur hynafol eu naws sydd wedi eu hynysu rhag llif amser a datblygiad. Dyma ddychwelyd unwaith eto at y syniad fod rhai cilfachau o Lydaw, y rhai mwyaf henffasiwn a gwledig, yn rhyw gapsiwl amser lle nad oes llawer wedi newid ers canrifoedd. Unwaith eto, felly, mae Dyfnallt yn cynnig cyfochredd gydag Edwards o ran ei ganfyddiad o natur amseryddol Llydaw. Nid yn unig y mae hyn yn gosod pentref Saint-Tugen fel congl annatblygedig, ond o gofio sylw Dyfnallt mai'r conglau a'r ardaloedd diarffordd hyn yw'r mannau sydd yn dangos sut le yw'r wir Lydaw, y mae hefyd yn datgelu ei ganfyddiad o'r wlad yn ehangach.

Y mae sawl ardal yn cyniwair y teimlad hwn yn Dyfnallt, o fod yn rhan o fyd sydd yn prysur ddiflannu ym mhobman ond Llydaw. Yn ardal Carnac, a'i holion yn amlycach nag mewn sawl ardal arall, dyweder: 'Yr hen fyd sydd o flaen dyn, ar ei sawdl, wrth ei ochr, yn ei glyw lle bynnag yr â yn y gororau hyn [...]'[439] I Dyfnallt, hefyd, mae teithio i Lydaw yn gyfystyr â theithio am yn ôl drwy amser gyda rhai mannau yn fwy cyntefig na'i gilydd ac yn hynny o beth, adleisir naratif Edwards a gredai rywbeth tebyg.[440]

Daw'n amlwg hefyd fod yr iaith ynghlwm â'r elfen hynafol, ynysig hon. Yn Locmariaquer, er bod twristiaid yn siarad Ffrangeg y tu allan i'r gwesty, y tu draw i'w furiau, mae 'pobl y pentre yn hen ddiwyg gynefin y fro' yn parhau i siarad Llydaweg a thrin y tir fel

---

[437] Ibid., t. 84.
[438] Ibid.
[439] Ibid, t. 47.
[440] Edwards, *Tro yn Llydaw*, t. 23.

eu cyndeidiau.[441] Y mae Corncarneau hefyd yn debyg gyda newydd-deb yr ymwelwyr yn cael ei wrthgyferbynnu â hynafiaeth y Llydaweg.[442] Mewn mannau eraill, fel Quiberon sydd wedi datblygu'n ganolfannau i ymwelwyr o Ffrainc, ni chlywir ond Ffrangeg ar y strydoedd,[443] ac mae hyd yn oed olwg y lle a'r bobl wedi troi yn debycach i Baris na Llydaw. Ym marn Dyfnallt, fel Edwards i raddau, mae datblygu yn mynd law yn llaw â cholled, un ieithyddol yn yr achos hwn. Cadwyd yr iaith a'r hen ffordd o fyw yn yr ardaloedd gwledig yn llawer gwell na'r rhai trefol.

Wrth ddisgrifio dau faledwr sydd yn ymddangos megis o niwloedd amser mewn bwyty i achub Dyfnallt rhag Parisiaid uchel eu cloch, y mae'n crisialu'r agwedd hon tuag at y wlad a'i phobl: 'Rhamantus a chyntefig yw'r olwg ar y ddau.'[444] Y mae rhamant a chyntefigrwydd yn mynd law yn llaw yn ei feddwl ef, ac mae'r atyniad yn eglur gan mai yn y cyntefig yn unig y ceir golwg ar Lydaw fel y dylai fod. Ymyla'r disgrifiad o'r ddau bibydd ar un chwedlonol. Yn gyntaf oll, mae'r ddau yn ymddangos heb rybudd ond maent hefyd yn cael eu disgrifio fel dau a berthynai 'yn sicr i ryw lwyth o Iberiaid cynnar'.[445] Yn y ddau gerddor yma, y mae hen linach gynhanesyddol yn parhau yn ddi-dor wedi'i gwisgo mewn dillad traddodiadol. Yn eironig ddigon, efallai mai rhyw sioe o henffasiwn oedd y ddau gerddor, wedi eu gwisgo i wirioni twristiaid Ffrengig a throi eu traddodiad yn ddiddanwch, a bod Dyfnallt yn ei ysfa i ddarganfod yr hen a'r gwirioneddol wedi ei ddal fel y twristiaid yr oedd ganddo gyn lleied o feddwl ohonynt.

Chwilia Dyfnallt am y rhamantaidd a'r cyntefig, ac ni nodir o fewn y naratif ei fod yn tynnu lluniau nemor neb heblaw eu bod mewn dillad traddodiadol. Er enghraifft, y gwragedd pysgod hynny yn eu gwisg a oedd yn ddigon i 'swyno dyn'[446] ac a oedd, oherwydd eu cyndynrwydd cychwynnol i gael eu hunain mewn llun, yn amlwg wedi syrffedu ar ymwelwyr a'u camerâu. Caiff gwisgoedd traddodiadol merched eraill yn Le Faouët yn eu dillad gorau eu dal hefyd er eu bod hwythau'n gyndyn.[447] Bryd arall, mae'r gweithgareddau sydd yn haeddu llun yn rhai traddodiadol a bugeiliol fel y ffermwr o fro'r meini hirion a drafodwyd uchod. Hynny yw, fel gweddill trigolion Llydaw, a'r wlad, rhywbeth i'w gofnodi a'i feddiannu yw'r ffermwr. Dotia Dyfnallt ei fod yn ei osod ei hun a'r llwyth grawn mewn man lle y gellir cael

[441] Dyfnallt, *O Ben Tir Llydaw*, t. 47.
[442] Ibid., t. 34.
[443] Ibid., t. 53.
[444] Ibid., t. 104.
[445] Ibid.
[446] Ibid., t. 65.
[447] Ibid., t. 33.

llun ardderchog ohono.[448] Caiff yr olygfa ei gosod gyda'r ffermwr yn oedi rhwng y cerrig gyda llwyth o ŷd; 'gosododd ei hun a'i lwyth mewn man cyfleus i gael llun',[449] ac mae'r weithred wneuthuredig bantomeimaidd hon yn adlewyrchiad o agwedd ehangach at wlad a thrigolion. Rhaid gosod y llun bob amser. Er nad yw Dyfnallt mor ddiystyriol neu mor wrthwynebus i'r Llydawyr ag y bu Edwards, mae ei ddarlun yntau'n broblematig felly.

Nid yw'n syndod fod peth rhamantu a hynny ar yr un gogwydd ag Edwards ar adegau, yn enwedig wrth drafod y bobl. Gwerin arwrol, henffasiwn, yw trigolion sawl ardal o Lydaw yng ngolwg Dyfnallt, pobl sydd yn crafu bywoliaeth a thrwy hynny'n ennyn rhywbeth mwy gwerthfawr nag arian:

> Tafellodd dwylo caled y preswylwyr ddigon o dir amaeth rhwng y pentir cerrig i gadw buwch neu ddwy, a dyna ddigon i gynnal y prin eu tamaid. Onid oes aur gan y bobl, yr oedd digon o liw melyn ar faes i borthi blys y mwyaf gwancus.[450]

Dyma ddarlun nawddoglyd a syndod o gibddall sydd drwy ramantu'n anwybyddu cyni a chaledi bywyd o'r fath.

Er nad yw Dyfnallt yr un mor rhagfarnllyd a hallt ei feirniadaeth ag Edwards, nid yw hynny'n golygu nad yw'n feirniadol o Lydaw a'i phobl ar adegau. Un agwedd ar y feirniadaeth hon yw natur ymddangosiadol ddi-hid y Llydawyr at eu gwlad a'i thrysorau. Deillio o'r rhamantu a'r delfrydu ar y gorffennol y mae'r agwedd hon a byddai disgwyl i feirniadaeth o'r fath greu deuoliaeth ym meddwl Dyfnallt. Ond nid felly y mae'n ymddangos: daw'r drwg wrth foderneiddio yn aml a dylanwad allanol yw hwnnw yn ei hanfod.[451] Os mai'r Llydawyr eu hunain sy'n gyfrifol yna maent un ai wedi ymfoderneiddio ac felly wedi colli eu ffordd, neu'n parhau i fod yn gyntefig a thrwy hynny'n rhy ddiniwed i sylweddoli'r drwg y maent yn ei gyflawni. Amharch at yr hynafol yw'r drwg yn aml iawn, a'r brodorion heb weld gwerth eu hanes eu hunain.

Niferus yw'r cyfeiriadau at Lydawyr heb wir werthfawrogiad o'r hyn sydd yn eu gwlad. Dyma Dyfnallt yn cael ei siomi ar ôl iddo wirioni ar risiau coed hynafol yn Rennes:

> Ond dyma allan i stryd lle mae hen eglwys wedi ei throi'n fasnachdy neu, yn wir, yn stordy. Uwchben y drws ffrynt y mae cerfddelwau hen, hen iawn: ac O ! mor wrthun gweld pen ceffyl yn y drws, a'i berchennog yn rhuo wrth lanw llwyth.[452]

---

448 Ibid., t. 51.
449 Ibid.
450 Ibid., t. 45.
451 Ibid., t. 63.
452 Ibid., t. 11.

Er bod y bywyd bugeiliol amaethyddol yn cael ei ramantu, nid yw'r bywyd hwnnw'n taro deuddeg pan fo'n gwrthdaro â rhywbeth hyd yn oed yn fwy hynafol, yn enwedig os mai masnachwyr neu ddiwydianwyr sydd wrthi. Ceir yma dyndra rhwng y pwyslais hynafol a rydd Dyfnallt ar y bobl a'u gweithgarwch ymarferol yng ngolau realiti'r sefyllfa yn hytrach na delfryd ramantaidd.

Wrth ymweld ag Eglwys Sant Herbot, y mae diofalwch y trigolion brodorol unwaith eto yn achosi loes i Dyfnallt wrth iddo weld bod tai a thŷ fferm wedi eu hadeiladu o gwmpas yr eglwys, a hynny heb hidio dim am ei gwerth fel enghraifft o hen bensaernïaeth a chrair o'r oes a fu. Mae'r hyn y mae'n ei weld yn ddigon i'w wylltio:

> Braidd na chyll dyn ei dymer wrth weled y fath ddiofalwch yn ymyl patrwm o gelfyddyd. Meddylier am domen o dail yn cyrraedd hyd at un o byrth yr Eglwys ymron.[453]

Mae'n eglur fod gan Dyfnallt syniad pendant o sut y dylai adeiladau a chreiriau Llydaw gael eu diogelu a bod y syniad hwnnw'n rhagori ar ymagweddiad y trigolion lleol ar adegau. Diffyg parch at grefft a chelfyddyd yw'r ateb i gwestiynu Dyfnallt ynghylch pam y caniateid y fath beth ac, fel yr eglura ei gyfaill,[454] er mai'r trigolion lleol sydd yn tomennu'r tail ac yn cadw'r da byw, nid eu bai nhw yn unig yw'r difrodi hwn.

Wrth weld 'ôl blerwch a diofalwch'[455] ar ffynhonnau yn Eglwys Sant Nicodeme, yr awdurdodau sy'n cael eu beio, er eu bod bellach yn ymgymryd â gwaith atgyweirio. Er mai'r trigolion lleol sydd ar fai, wrth Eglwys Sant Herbot y mae Dyfnallt yn holi pam na fyddai'r llywodraeth yn amddiffyn yr hen greiriau a'r ateb yw nad yw'r llywodraeth Ffrengig yn hidio dim am gelfyddyd Llydaw.[456]

Eto i gyd, ymddengys fel petai Dyfnallt yn ei wrth-ddweud ei hun gan ei fod yn datgan bod parch at hen bethau, yn greiriau a cherfluniau yn gynhenid bron i bobl a phlant Llydaw: 'y mae parch y bobl a'r plant i'r hen bethau yn gysegredig. Anaml yr anefir hen grair.'[457] Yma ceir paradocs gyda natur y Llydawyr, yn ôl Dyfnallt, yn adlewyrchu un peth a rhai o'i arsylwadau yn adlewyrchu realiti wahanol. Yn gymharol gynnar yn y naratif y gwnaed y sylw hwn a dichon ei fod yn gynnyrch rhamantu'r bobl a'r wlad a bod y darlun yn siŵr o

---

[453] Ibid., t. 28.
[454] Ibid.
[455] Ibid., t. 39.
[456] Ibid., t. 28.
[457] Ibid., t. 17.

newid wrth i Dyfnallt deithio. Mae'r ganran o greiriau ac adeiladau a ddisgrifiwyd fel rhai heb eu hamharu yn sylweddol uwch na'r rhai a ddifrodwyd neu a amharchwyd, a chaiff nifer fawr o olion hynafol eu gadael neu eu cadw'n rhan o fywyd beunyddiol.

Serch hynny, mae modd parchu heb ddeall, ac fel yr iaith sy'n hynafol ac yn parhau yn y conglau pellennig, gwneud defnydd heb werthfawrogi. Ymyla Dyfnallt ar fod yn nawddoglyd ar brydiau wrth iddo gymryd arno werthfawrogi pensaernïaeth ac iaith Llydaw yn fwy na'r trigolion lleol, ac fel Edwards, daw'r wlad yn fath o grair amgueddfaol iddo. Mewn materion diwylliannol, caiff y Llydawyr eu beirniadu yn ogystal; trafoda Dyfnallt ddiffyg darllenwyr Llydaweg gan ddatgan yn eithafol, 'Nid yw'r Llydawyr yn darllen.'[458] Diffyg addysg sydd yn gyfrifol am hynny ac unwaith eto, nid yw'r bai i gyd yn cael ei osod ar y Llydawyr gan mai'r system addysg o dan law llywodraeth Ffrainc yw'r drwg pennaf. Yma, gwelwn agwedd dadolaidd y teithiwr addysgedig ar ei gwaethaf wrth iddo ei osod ef ei hun a'i ddealltwriaeth o werth hynafiaeth y wlad yn uwch na neb arall.

Er bod Dyfnallt felly'n rhoi darlun tecach o Lydaw a'i thrigolion ac yn ymdrechu i gywiro cam Edwards, gwelwn nad yw'n rhydd o ragfarnau a chanfyddiadau ei oes. Cafodd Celtigrwydd effaith ddeublyg ar ei bortread. Roedd y gyntaf yn dra ffafriol wrth i'w ddealltwriaeth o Lydaw, a ddeilliodd o'i ymhél â materion Celtaidd a'i ddiddordeb yn y maes, gynnig llawnach a chywirach darlun o'r wlad. Cawsai hefyd gyfle i ddarlunio ei gyfeillgarwch â'i thrigolion a rhoi darlun cadarnhaol o'r wlad o'r herwydd. Darluniodd gyfeillgarwch ehangach hefyd, un rhwng 'cefndryd Celtaidd', gan fanteisio ar y cysyniad hwnnw, nid i annog cenhadu neu i fwrw golwg dosturiol ar y wlad, ond i annog cryfhau cysylltiadau a dealltwriaeth rhwng y gwledydd. Nododd Edwards fod Llydawyr yn 'gefndryd' er bod cyd-destun y cyfeiriad hwnnw yn adlewyrchu ei agwedd tuag atynt: 'Y mae gwaseidd-dra, offeiriadaeth, anwybodaeth, a meddwdod ein cefndryd Llydewig yn prysur ddiflannu'.[459] Nid Dyfnallt oedd y cyntaf i ddefnyddio terminoleg o'r fath nac ychwaith i geisio hybu Pan-Geltigrwydd yng Nghymru, ond roedd ei ymgais i ennyn cyfeillgarwch a chlosrwydd o safbwynt parch a dealltwriaeth yn nodedig, a rhoddodd ei oes i'r gwaith. Roedd ganddo obeithio gwleidyddol i Lydaw hefyd ac yn wahanol i Edwards fe'i portreadodd fel gwlad yn ei hawl ei hun yn hytrach na fel chwaer dlawd i Gymru.

Gwelwyd agweddau llawer mwy negyddol hefyd a'r rheiny'n deillio'n uniongyrchol o'r symudiad rhamantaidd ehangach a fu'n bur ddylanwadol ar Geltigrwydd cynnar yr ugeinfed ganrif. Rhamantwyd y trigolion ac fe'u gosodwyd fel esiamplau o gynrychiolwyr oes a oedd

---

458 Ibid., t. 75.
459 Edwards, *Tro yn Llydaw,* t. 133.

wedi diflannu o Gymru mewn modd tebyg i'r hyn a wnaeth Arnold wrth gymharu Lloegr â Chymru. Fe'u delfrydwyd fel gwarcheidwaid y gorffennol a'u condemnio pan nad oeddynt yn cyd-fynd â'r syniad hwnnw. Parhawyd gyda'r haeriad mai'r bobl ar y cyrion, y rhai nad oeddynt wedi ymfoderneiddio a 'datblygu', oedd y 'genuine people',[460] gan adleisio naratifau imperialaidd o deithio i'r mannau gwyllt anghyfannedd i ddarganfod llwythau coll oedd yn parhau gyda'r 'hen ffyrdd'. Er cymaint ei gyfeillgarwch â'r wlad, er cymaint ei wybodaeth amdani ac am faterion Celtaidd yn gyffredinol, a'r ffaith nad oedd, yn ôl Griffiths, yn un am ramanteiddio o'i gymharu ag eraill,[461] syrthiodd Dyfnallt i'r un fagl â sawl un o'i flaen. Bytholodd yr ystrydebau cyfarwydd hynny am y Celtiaid drwy ei bortread o Lydaw gan eu hailbobi ar gyfer cenhedlaeth newydd o Gymry. Gwelwn, felly, pa mor ddwfn y treiddiodd yr ystrydebau hynny i isymwybod hyd yn oed arbenigwr ar y maes ac fel y bu iddo eu hadrodd heb oedi i'w dadansoddi.

[460] Arnold, *On The Study of Celtic Literature*, t. 2.
[461] Griffiths, 'Teyrnged i Olygydd - ysgrifau Dyfnallt', *Y Dysgedydd*, 133/10 (1953), t. 225.

*Pererindodau.*

*Ambrose Bebb*

Un arall a chanddo adnabyddiaeth o Lydaw, ei phobl a'i bywyd diwylliannol oedd W. Ambrose Bebb. Dyma'r trydydd o'i lyfrau am Lydaw i'w gyhoeddi a hynny yn 1941 gan ddilyn *Llydaw* a *Dydd-lyfr Pythefnos, neu y Ddawns Angau*.[462] Cafodd *Pererindodau* ei ysgrifennu o bwt i bwt dros gyfnod amseryddol hir a hynny'n golygu bod y llyfr wedi ei orffen i bob pwrpas cyn i'r dyddlyfr gael ei gyhoeddi.[463]

Rhydd yr agwedd bytiog hon dro diddorol ar y naratif gan wthio'r cofnod i dir gwahanol i lyfrau teithio arferol. Nid hanes un daith nac un cyfnod a geir, ond yn hytrach, sawl 'pererindod' yn gorgyffwrdd. Cymherir trafodaeth ar ardal neu ddigwyddiad penodol gyda rhai blaenorol sydd yn gosod popeth mewn cyd-destun amseryddol llawer ehangach na chyfrolau eraill Bebb a'r rhai a astudiwyd yn barod. O gofio pwysigrwydd arbenigedd fel un o gonglfeini ysgrifennu teithio, dyma ddull o ychwanegu at ganfyddiad y darllenydd ohono gan fod profiad sawl taith yn cael ei amlygu'n echblyg yn y naratif yn hytrach na'i awgrymu fel y gwnaethpwyd yn achos John Dyfnallt Owen. Ceir datrysiad i'r perygl hwnnw o fod yn orgyfarwydd wrth ysgrifennu yn y modd hwn hefyd gan y gall Bebb ar y naill law fanteisio ar ymwybyddiaeth gyfarwydd o'r wlad a'r arbenigedd a ddaw yn sgil hynny, ond hefyd adrodd am ganfyddiad cyntaf o ardal pan oedd hi'n ddieithr iddo.

Dengys y llyfr hwn — yr un diweddaraf o'r tri y canolbwyntiwyd arnynt yn y bennod hon — fod perthynas Cymru â Llydaw yn newid yn ogystal. Barn bendant Bebb yw bod y Cymry erbyn cyfnod yr Ail Ryfel Byd wedi colli diddordeb yn Llydaw a'u bod yn bur ddi-hid ohoni: 'Yn ei dallineb a'i balchter pen-chwiban, y mae'n dda ganddi ddiystyru Llydaw, a'i chyfrif megis tom.'[464] Dengys ei ymateb emosiynol mor bleidiol yw Bebb i Lydaw a'i phobl a'i phwysigrwydd iddo yn ystod y cyfnod hwn yn ei fywyd. Mae ei gariad at y wlad yn amlwg a'i atyniad ati yn cael ei amlygu dro ar ôl tro yn y gyfrol i'r fath raddau nes ei fod yn nodi 'Myfi a Llydaw, un ydym'.[465]

Er gwaethaf ei ganfyddiad o farn y Cymry amdani, parhaodd Bebb i gyhoeddi am y wlad ac mae'n werth nodi fel y trafodwyd uchod fod sylw cyson wedi ei roi i Lydaw yn dilyn yr Ail Ryfel Byd, a hynny'n dilyn ymgyrch Dyfnallt ac eraill i dynnu sylw at yr erlid a fu ar

---

[462] W. Ambrose Bebb, *Llydaw* (Llundain: 1929); W. Ambrose Bebb, *Dydd-lyfr Pythefnos neu Y Ddawns Angau* (Bangor: 1939).
[463] W. Ambrose Bebb, *Pererindodau* (Dinbych: 1941), t. ix.
[464] Ibid., t. xi.
[465] Ibid., t. x

Lydawyr. Efallai, felly, fod ymateb a haeriad Bebb ychydig yn eithafol ond diau fod ymateb y Cymry i'r wlad yn newid. Er bod Bebb a Dyfnallt ill dau wedi ceisio gwyrdroi naratif O. M. Edwards am Lydaw, y mae'n amlwg fod elfennau ohoni yn parhau a bod ymdrech nid yn unig i gadw'r wlad yn ymwybyddiaeth y Cymry, ond hefyd i gyflwyno darlun newydd ohoni. Collwyd peth o'r apêl ramantus a oedd gan Lydaw fel gwlad wrth iddi ddod yn fwy cyfarwydd ac, yn sgil hynny, roedd yn rhaid bod yn fwy gofalus wrth ei phortreadu. Ni fyddai naratif camarweiniol fel un Edwards yn dderbyniol yng ngolau unigolion fel Dyfnallt a Bebb a feddai ar berthynas glòs â'r wlad.

Rhydd y gyfrol hon rychwant eang o brofiadau ac argraffiadau o'r wlad a hynny wrth i berthynas Bebb ddatblygu â hi. Roedd hi'n berthynas hir a ddeilliai'n ôl i'w ymweliad cyntaf yn 1920 fel gŵr ifanc â'i fryd ar astudio Hanes Cymru ym Mhrifysgol Rennes.[466] Er hynny, digon di-fflach oedd yr ymweliad hwnnw gyda helbulon llety wrth gyrraedd,[467] a'r diwrnodau olaf cyn mynd i'r Sorbonne ym Mharis yn rhai diflas.[468] Rhaid bod y wlad wedi gadael argraff ddofn arno, serch hynny, gan iddo, erbyn 1929, ddysgu Llydaweg. Roedd yn hyderus yn ei allu i siarad yr iaith lenyddol yn dilyn gwersi ym Mharis a dilyn *La Langue Breton en 40 Leçons* gan Francois Vallée.[469] Noda Robin Chapman i'w agweddau newid hefyd: bu ei gyfnod ym Mharis yn agoriad llygad ac yn fodd i ehangu gorwelion ei fagwraeth wledig; daeth yn sgil hyn yn fwy pleidiol i Gatholigiaeth,[470] cam arwyddocaol o gofio pwysigrwydd y grefydd mewn naratifau blaenorol a drafodai'r wlad. Wrth i'r bennod hon fynd rhagddi, gwelir bod rhyddfrydiaeth Bebb ynglŷn â rhai materion yn Llydaw yn ei osod ar wahân i'r awduron eraill.

Cafodd lyfryn o gyngor ymarferol gan gyfaill iddo[471] a fradychai, yn ôl T. Robin Chapman, 'ddiniweidrwydd gwaelodol y teithiwr talog'.[472] Gan hynny, roedd cyngor ar beth i'w fwyta a sut i ymddwyn yn enwedig, felly, o gwmpas offeiriaid, pregethwyr crwydrol, 'ffyliaid' a'r werin bobl.[473] Dengys y cyngor hwn ynghyd â'r ffaith i Bebb lynu'n agos ato[474] pa mor ddibrofiad yr oedd cyn yr ymweliad hwn a pha mor ddieithr oedd Llydaw a'i phobl iddo, deupeth nad arhosodd yn hir.

466 T. Robin Chapman, *W. Ambrose Bebb* (Caerdydd: 1997), t. 31.
467 Ibid., t. 30.
468 Ibid., t. 31.
469 Ibid., t. 41.
470 Ibid.
471 Ibid.
472 Ibid.
473 Ibid., tt. 41-2.
474 Ibid., t. 41.

'Trobwynt'[475] oedd yr ymweliad hwn, ym meddwl Chapman, ac mae hynny, heb os, yn wir. Yn y cyfnod cynnar hwn, sylwodd Bebb ar y gwaith a wnâi'r Eglwys Gatholig i amddiffyn y Llydaweg a gwelodd Lydaw fel gwlad ffrwythlon, ir.[476] Bu iddo wirioni arni a'i phobl, a'i gasgliad wedi'r ymweliad hwn oedd y gallai Cymru ddysgu gwersi pwysig ganddi,[477] rhywbeth y byddai'n credu ynddo drwy gydol ei drafodaethau ar Lydaw. Hawdd gweld hefyd oddi wrth y canfyddiad cynnar pleidiol hwn sut y gallai delfryd o wlad fagu gafael yn Bebb a sut y gallai hynny yn ei dro arwain at ddelfrydu afrealistig ar y naill llaw a dadrithiad ar y llall, mater a drafodir isod.

Fel un a garai'r wlad, portreada Bebb ei hun fel amddiffynnwr Llydaw ac un a feddai ar arbenigedd ac adnabyddiaeth glòs ohoni. Ei fwriad oedd cynnig darlun amgen o Lydaw, un tecach nag un Edwards, ac er mwyn gallu gwneud hynny, rhaid iddo bwysleisio ei deilyngdod i wneud hynny. Yn gynnar yn y gyfrol, noda wrth drafod trigolion y wlad:

> Fel pob tyner, y mae gan y Llydawr ei ddihangfa, ac iddi hi y ffŷ pan ddaw estron ar ei draws. Ei reddf gyntaf ydyw ei gwisgo amdano fel cragen, a chloddio am dano'i hun ynddi. Nid cyn ei fodloni fod y gŵr dieithr yn gyfaill yn wir, yr egyr y gragen, ac y daw'r Llydawr allan ohoni [...][478]

Dyma fodd nid yn unig i ddangos arbenigedd am natur Llydawyr ac adnabyddiaeth fanwl Bebb ohonynt, ond hefyd o bwysleisio bod angen gwir arbenigedd ac adnabyddiaeth cyn gallu cynnig darlun cywir o drigolion Llydaw. Awgrymir hefyd na chafwyd cyfle gan awduron na fagasant y cyfeillgarwch hwn i gael golwg y tu draw i'r gragen honno. Ym meddwl Bebb, mantais yw'r cyfeillgarwch agos â'r wlad ac mae ei adnabyddiaeth yn atgyfnerthu'i bortread ohoni. Porteadir ei arbenigedd mewn amryfal ffyrdd o'i dôn awdurdodol os nad mymryn yn nawddoglyd gyda'r cyfeiriad at ymgorfforiad o drigolion Llydaw fel 'tyner'. Arddengys ei wybodaeth yn gyson gyda chyfeiriadau ymddangosiadol ffwrdd-â-hi fel yr un yn disgrifio delw benodol o Grist ar y Groes mewn eglwys fel un enghraifft o dair yn unig drwy Lydaw.[479] Ceir ganddo hefyd ddigon o wybodaeth hanesyddol fel ei ddisgrifiad o hanes pensaernïol eglwysi Guimiliau a St Thégonnec,[480] sydd yn cadarnhau sylfaen gwybodaeth eang am y wlad.

---

[475] Ibid., t. 42.
[476] Ibid.
[477] Ibid.
[478] Bebb, *Pererindodau*, t. 37.
[479] Ibid., t. 88.
[480] Ibid., t. 45.

Roedd gan Bebb brofiad blaenorol o dywys Cymry o gwmpas Llydaw yn llythrennol cyn ysgrifennu'r gyfrol hefyd, nid drwy gyfrwng ysgrifenedig yn unig. Yn haf 1924, ymunodd D. J. Williams â Bebb am daith o gwmpas Llydaw ac mae patrwm awdur cyfrolau taith am y wlad i'w weld yn eglur yn nisgrifiadau Williams o'i gyfnod yn ei gwmni.[481] Dyma'r sgwrsiwr parod a drafodai'r hyn a'r llall gyda gweithwyr yn y caeau neu'r tafarndai, neu'n wir gydag unrhyw un a fedrai Lydaweg, y Protestant a wyrai'n nes at ganmol na chondemnio Catholigiaeth, a'r crwydrwr a roddai fryd ar lonydd bychain cefn gwlad.[482] Cafodd Bebb brofiad tebyg o arwain Cymry o gwmpas Llydaw a Ffrainc yn 1927 hefyd, ac erbyn hynny, roedd ei arbenigedd a'i wybodaeth yn ddigamsyniol.[483] Noda Chapman fod yn Bebb 'reddf yr addysgwr'[484] a bod hynny i'w weld yn eglur yn y modd y tywysodd Williams o gwmpas y wlad, a dichon fod yr un peth yn wir am ei lyfrau taith.

Mae Bebb yn barod i ddangos ei arbenigedd ieithyddol yn ogystal, ac mae'n llawer mwy ymwybodol o natur Llydaweg fel iaith nag Edwards**.** Cafodd sylfaen ramadegol fel rhan o'i gwrs gradd yn Aberystwyth gan iddo ddilyn cwrs gramadeg gymharol Cernyweg, Llydaweg a Hen Wyddeleg yno.[485] Gan ei fod yn rhugl yn yr iaith, drwy ei naratif, crybwyllir sgyrsiau gyda Llydawyr a hynny mewn modd digon ffwrdd-â-hi sydd, nid yn unig yn dangos cymhwysedd ieithyddol, ond hefyd yn gosod Bebb, fel Dyfnallt, mewn cyd-destun ieithyddol sicrach o lawer nag Edwards. Mae Bebb, fel Dyfnallt, yn trafod natur amrywiol tafodiaith Lydewig[486] ac yn cynnig safbwynt Llydewig ar y pwnc wrth drafod barn trigolion Carnac am 'iaith Léon' Bebb.[487]

Aiff ymhellach drwy ddadansoddi'r gwahaniaeth ieithyddol hwn gan awgrymu bod Llydaw yn blwyfol, o ran ei hiaith a'i hymagweddiad: 'Y mae gan bob ardal ei gwisg ei hun, ei harferion, a'i choelion ei hun, ie, a hyd yn oed ei hiaith ei hun.'[488] Ceir dadansoddiad ieithyddol manwl ganddo gan nodi, er bod yr un sylfaen yn ddealladwy i bob ardal bron, fod gwahaniaethau rhwng tafodieithoedd. Aiff i fanylder pellach mewn rhai ardaloedd: noda, er enghraifft, fod Llydaweg ardal Bro Wenned, ar wahân wrth deithio drwyddi.[489] Mae naws y drafodaeth yn un academaidd: 'Nid yw'r acen ar y sillaf olaf ond un, fel yn y lleill, ond ar yr

---

[481] Chapman, *W. Ambrose Bebb*, t. 69.
[482] Bebb, *Pererindodau*, t. 45.
[483] Chapman, *W. Ambrose Bebb*, t. 84.
[484] Ibid., t. 69.
[485] Ibid, t. 19.
[486] Bebb, *Pererindodau*, t. 19.
[487] Ibid., t. 153.
[488] Ibid., t. 154.
[489] Ibid.

olaf — yr un fath ag yn Ffrangeg.'[490] Dengys y manylder hwn nid yn unig wybodaeth fanwl am dafodiaith ardal arbennig ond hefyd wybodaeth eang wrth gymharu'r ynganu yn ehangach.

Drwy bwysleisio'r gwahaniaeth ieithyddol cenedlaethol a lleol hwn, caiff haeriad Edwards fod Llydaweg a Chymraeg yn ddwy iaith ymron yn unfath ei danseilio ymhellach. Trafoda Bebb y syniad hwnnw, serch hynny, gan grybwyll chwedl brwydr Saint-Cast: yn ôl yr hanes, gwrthododd y Cymry ym myddin y Saeson a'r Llydawyr ym myddin y Ffrancwyr ymosod ar ei gilydd gan iddynt ddeall peth o iaith ei gilydd, a thrwy hynny, sylweddoli eu bod yn 'frodyr'.[491] Nid yw Bebb yn trin yr hanes fel un ffeithiol fodd bynnag : 'Pa unai gwir ai peidio y chwedl hon, nid oes amheuaeth nad oedd hi wrth fodd calon ei gynulleidfa.'[492] Mae Bebb yn ymwybodol o rym mawr y syniad hwn o agosrwydd ieithyddol, sef ei fod yn brawf honedig o gysylltiad ehangach a hynny yn aml ymysg unigolion sydd heb ddarlun manwl o un o'r ddwy iaith. Cysylltiadau ehangach sydd gan Dyfnallt a Bebb, yn ddiwylliannol a gwleidyddol, heb roi pwyslais gormodol ar un agwedd.

Yn hytrach na defnyddio'r Llydaweg at ei ddibenion ei hun fel y gwnaethpwyd gan Edwards a'i throi yn gysgod o'r Gymraeg, rhydd Bebb ei annibyniaeth iddi ac mae'n ymddiddori yn ei pharhad a'i hiechyd. Mae ei goroesiad ar y gororau rhwng Llydaw a Ffrainc yn destun llawenydd iddo[493] ac mae'n lled-obeithiol am ei hiechyd yn yr hir dymor hefyd. Nid yw hyn yn golygu nad yw'n gyfarwydd â'r anawsterau, serch hynny: mae ei bryderon am addysg y wlad yn niferus[494] a phwysleisia fod yn rhaid wrth addysg gyfrwng Llydaweg hefyd.[495]

Noda Bebb rai geiriau cyfarwydd i ddarllenydd o Gymro: 'Gwelwn ef gan amlaf yn chwalu'r pridd a garai, yn chwynnu—*c'hwennad,* ys dywedai ef yn ei iaith ei hun.'[496] Drwy gyfosod 'chwynnu' a 'c'hwennad', amlygir bod tebygrwydd rhwng y ddau air, ond ni wneir sylw o'r ffaith amlwg honno ac mae'r italeiddio fel yn *O Ben Tir Llydaw* yn pwysleisio mai iaith wahanol yw Llydaweg. Fel Dyfnallt, mae Bebb yn dewis italeiddio'r Llydaweg a'r Ffrangeg fel ei gilydd ac un ai'n cyfieithu'n uniongyrchol neu'n cynnig crynodeb bras o'r hyn a ysgrifennwyd. Ceir hefyd gyfeiriad arall at enw a all swnio'n gyfarwydd: 'Bro-Wéned,

---

490 Ibid.
491 Ibid., t. 136.
492 Ibid.
493 Ibid., t. 161.
494 Ibid., t. 12
495 Ibid., t. 179.
496 Ibid., t. 12.

Bro Wynedd yn ein geiriau ni.'[497] Ni wneir, serch hynny, unrhyw ymgais i ddefnyddio'r tebygrwydd yma fel dadl dros glosrwydd ieithyddol neilltuol. Cadarnheir ei arbenigedd ieithyddol ymhellach wrth i eraill yn y naratif — fel y cenhadwr Jenkyn Jones — arddel Bebb fel arbenigwr: 'a mawr oedd ei fryd, druan, i gael gwybod beth a feddyliwn i am y cyfieithiadau hyn.'[498] Dyma ŵr a dreuliodd flynyddoedd lawer yn Llydaw yn siarad yr iaith yn gofyn i Bebb am ei farn ar emynau a gyfieithodd i'r Llydaweg. Cawn fel darllenwyr gadarnhad o arbenigedd Bebb gan unigolyn allanol ac un a allai gael ei alw'n arbenigwr ei hun.

Bwriad Bebb wrth amlygu ei ddealltwriaeth a'i agosrwydd at Lydaw oedd cadarnhau ei hun fel arbenigwr ac un a allai gynnig darlun cywir o'r wlad. Daw hyn yn dilyn ymdrechion cynharach Dyfnallt i gynnig darlun llawnach o Lydaw na'r un elfennol a gafwyd ynghynt. Yn 1922, bu i Bebb gyfarfod Dyfnallt am y tro cyntaf, yn Eisteddfod Rhydaman.[499] Ar y pryd, roedd Dyfnallt heb ymweld â Llydaw a chafodd y ddau sgwrs am y wlad a'i sefyllfa bresennol; roedd gan Dyfnallt ddiddordeb byw yn yr hyn yr adroddodd Bebb wrtho am y wlad, ei phobl ac amryfal bynciau eraill.[500] Rhannai'r ddau ddiddordeb a chariad at Lydaw ac afraid dweud bod perthynas Bebb â Dyfnallt a'i waith yn well na'r un rhyngddo ac Edwards.

Yn *Pererindodau*, ceir yr ymateb mwyaf echblyg i naratif Edwards, gyda'i bortread o Lydaw yn gocyn hitio cyson ac mae'n amlwg i'w ddarlun dirmygus gael effaith ar Bebb. Y mae'n ymwybodol o natur ymfflamychol ei ddatganiad wrth iddo nodi, gan ddyfynnu adnod a rhoi ei dro unigryw ei hun arni: 'Nid oes arnaf gywilydd... o Lydaw... Ond y mae arnaf gywilydd... o'r llun ohoni a dynnodd ... Syr O. M. Edwards'[501] Gwelwn drwodd a thro yn y gyfrol nad yw Bebb yn ofni anghytuno ag Edwards; yn wir, aiff o'i ffordd i danseilio ei bortread droeon.

Yn fuan wedi iddo ddychwelyd o Lydaw yn 1922, darllenodd Bebb *Tro yn Llydaw* am yr eilwaith a chyda'i bersbectif newydd ar y wlad a'i phobl, roedd ei ymateb i'r gyfrol a'i hawdur yn llai ffafriol na'r darlleniad cyntaf.[502] Ymhellach, fel un a dreuliodd gyfnod hapus yn Ffrainc, roedd portread Edwards o Ffrancwyr yn ei farn ef hefyd yn 'greulon',[503] ac nid yw hynny'n syndod gan eu bod yn ymylu ar fod yn wawdluniau. Gwelodd nad oedd *Tro yn Llydaw* yn llawlyfr dibynadwy ac na ellid dibynnu ar ei awdur i gynnig darlun diragfarn.

---

[497] Ibid., t. 148.
[498] Ibid., t. 96.
[499] Chapman, *W. Ambrose Bebb*, t. 42.
[500] Ibid.
[501] Bebb, *Pererindodau*, t. xi.
[502] Chapman, *W. Ambrose Bebb*, t. 42.
[503] Ibid.

Ymhellach, casglodd fod culni ymneilltuol Edwards yn lliwio'i bortread.[504] Dyma gam pwysig yn nhaith Bebb at ei ymagweddiad diweddarach a welir yn *Pererindodau*, lle y gwneir ymgais fwriadol i gywiro portread Edwards.

Ceir cyfeiriad at y sylweddoliad hwn yn fuan yn y gyfrol wrth i Bebb drafod siop lyfrau Ti Breiz yn Morlaix ac mae'n amlwg fod ymweld â'r fangre y tro cyntaf wedi bod yn agoriad llygad iddo:

> Yno, caech ymdrin yn rhydd ac agored â'r agweddau hynny ar fywyd Llydaw a ymddangosai yn anghyson â'i gilydd, yn anodd eu deall, neu'n groes i'r hyn a ddysgodd llyfrau am y wlad.[505]

Yn gyfleus ddigon at ddibenion Bebb, mae'r datganiad hwn yn tanseilio'r hyn a gyflwynwyd gan Edwards a hefyd yn cadarnhau ei arbenigedd. Gan iddo sylweddoli beth oedd diffygion y teithlyfrau blaenorol cyn mynd ati i ysgrifennu ei gyfrol yntau, dengys hefyd ei fod yn gyfarwydd â'r agweddau anghyson hynny ac yn dra chymwys i'w trafod.

Cynnil ddigon yw'r cyfeiriad dilornus gan Bebb at Edwards wrth ddefnyddio enw pennod a ddefnyddiwyd yn flaenorol ganddo yn y gyfrol *Tro yn Llydaw* hefyd, sef 'Gyda'r Cenhadwr'. Noda ei reswm dros ddefnyddio'r un teitl gyda thafod yn ei foch: 'Gan fod arnaf innau eisiau sôn am yr un gŵr, efallai y maddeuir imi oherwydd lladrata cymaint â hyn.'[506] Awgrymir mai teitl yn unig a ladrateir ganddo ac mae hynny'n wir i raddau helaeth wrth i'r darlun a geir o'r cenhadwr, Jenkyn Jones, a Llydaw fel gwlad, fod yn wahanol iawn i'r un a gynigiwyd gan Edwards. Ceir trafodaeth lawnach ar ymagweddiad Bebb tuag at Gatholigiaeth isod ond afraid dweud nad yw mor rhagfarnllyd ag Edwards.

Ymddengys bod Bebb yn gwrthgyferbynnu ag Edwards yn ei ryddfrydiaeth ynghylch materion fel alcohol hefyd. O wybod fod Bebb wedi darllen *Tro yn Llydaw* gellir yn hawdd feddwl bod cyfeiriad at agwedd biwritanaidd Edwards at alcohol mewn datganiad fel hwn: 'Yr oedd gwin neu seidr ar gyfer pawb, ac nid oedd cymaint ag un dirwestwr yno. Nac oedd; na'r un meddwyn ychwaith'.[507] Cyfeirir droeon at alcohol gan Bebb; mewn pardwn, er enghraifft, gyda phethau diniwed fel cacennau a chawl,[508] ac oddi wrth y cyd-destun, mae'n amlwg nad yw Bebb o'r farn fod gwin a seidr yn waeth na'r rheiny. Mewn rhai achlysuron, megis cinio gyda Taldir, y llenor a'r arweinydd diwylliannol, mae'r seidr yn hwyluso'r

---

504 Ibid.
505 Bebb, *Pererindodau*, t. 30.
506 Ibid., t. 92.
507 Ibid., t. 84.
508 Ibid., t. 201.

sgwrsio ac yn beth manteisiol.[509] Hyd yn oed wrth gyfeirio at feddwdod, nid yw Bebb fel arfer yn ddamniol, gan nodi, er enghraifft, wrth drafod rhai yn y pardwn a grybwyllwyd uchod ‘a chyfeddach meibion a anghofia eu gwyleidd-dra arferol mewn gormod diod’.[510] Cyfleir hynny fel rhan o hwyl a rhialtwch digon diniwed yr ŵyl yn hytrach nag fel unrhyw fethiant moesol ar ran y Llydawyr.

Un cyfeiriad negyddol yn unig a geir at feddwyn yn y gyfrol a hynny wrth deithio gyda Jenkyn Jones. Daw ‘meddw-ganu llaes gan balff o lymeitiwr’[511] wrth i’r cenhadon bregethu, ac mae’r darlun ohono’n baglu ar hyd y ffordd yn un truenus. Fe’i gelwir yn ‘bechadur’[512] gan Bebb ac mae ei ymddangosiad yn ddigon i chwalu’r criw o genhadon a gwrandawyr sydd wedi ymgynnull. Tybed a oedd y cyd-destun wedi effeithio ar ganfyddiad Bebb o’r unigolyn hwn? Yn sicr ddigon, dyma’r agosaf a ddaw at ddarlun piwritanaidd fel un Edwards.

Mae’n amlwg fod Bebb yn gweld cyfnod Edwards fel un sydd wedi mynd heibio a bod cyfle i gynnig darlun amgen bellach. Portreadir Jenkyn Jones fel crair ganddo a hynny’n rhannol am ei gysylltiadau â mawrion y gorffennol fel Edwards.[513] Darlun o rywun gyda’i waith wedi dyddio yw’r un a gyflwynwyd gan Bebb o Edwards a hynny yn ychwanegol at y ffaith ei fod yn anghywir. Nid yw’r hyn sydd gan Edwards i’w ddweud am y wlad bellach yn berthnasol ym marn Bebb, ond gan ei fod yn ymwybodol o’i ddylanwad, fe geir ganddo sylwadau drwy gydol y gyfrol sy’n trafod Edwards yn uniongyrchol a hynny mewn ymgais i bwysleisio pa mor anghywir oedd y darlun blaenorol o Lydaw.

Mae’r canolbwyntio cyson ar lendid yn y gyfrol hefyd yn awgrymu ymateb i ddarlun Edwards o Lydaw fel gwlad fudr. Wrth deithio ac oedi, gwna Bebb aml sylw am lendid cartrefi’r Llydawyr; mewn ffermdy hynafol ei naws lle bwyteid uwd yn y dull traddodiadol, caiff Bebb y bwrdd yn un ‘go fawr, a’i wyneb yn wyn ac yn lân fel y camrig’.[514] Dyma gartref gwerinol, arferol, ond sydd eto gyda safonau hylendid uchel ac nid oes gan Bebb unrhyw bryder ynghylch bwyta’r uwd o bowlen a rennir gan holl aelodau’r teulu a’r gweision. Noder fod gwelâu ffermdy yn ardal St Pol de Léon ‘gyn laned ag y gallai gwely fod’[515] hefyd, yn fwriadol felly, wrth nodi nad dyna’r rheswm pam nad arhosodd Bebb yno rhag ofn i’r darllenydd gamddeall. Mewn modd tebyg, caiff tai gwerinol ardal arall ar wasgar yng nghefn gwlad eu disgrifio fel ‘rhibiniau o dai a heolydd ar wasgar, a’r cwbl i gyd yn

[509] Ibid., t. 71.
[510] Ibid., t. 201.
[511] Ibid., t. 101.
[512] Ibid., t. 102.
[513] Ibid., t. 94.
[514] Ibid., t. 36.
[515] Ibid., t. 17.

wynion eu lliw, ac yn hynod o lân'.[516] Pwylsesia'r 'hynod' fod y tai hyn y tu hwnt i lendid arferol. Ceir hefyd yn nisgrifiadau Bebb o fywyd beunyddiol Llydaw gyfeiriadau at bobl yn glanhau, fel y criw o ferched oedrannus a oedd yn golchi dillad mewn llyn yn Rosco.[517] Nodir fod yr olygfa hon 'gydag un o'r rhai mwyaf cyffredin yn Llydaw'.[518] Ymhell o fod yn wlad fudr, felly, dyma un, yng ngolwg Bebb, sydd yn rhoi pwys ar lendid.

Yng nghartref Taldir, gwna Bebb sylw o'r moethusrwydd sydd o'i gwmpas, ond hefyd o'r ffaith ei fod yn ciniawa mewn 'ystafell loyw'.[519] Cydnabydda fod yr amgylchfyd hwn yn wahanol i'r tai arferol y bu'n ymweld â nhw yn flaenorol gan mai tai'r 'werin bobl'[520] oedd y rheiny; eto i gyd, noda Bebb fod y cartref hwn, sydd gyda'r pwysicaf yn y wlad, yn cynrychioli tai Llydewig hefyd er gwaetha'i foethau. Wrth adael, mae Bebb yn galw'r tŷ yn un 'glanwaidd'[521] gan bwysleisio ei daclusrwydd a'i lendid unwaith eto.

Nid yw Llydaw Bebb yn gwbl rydd o'i budreddi ychwaith a gwneir sylw yn achlysurol o aroglau amhleserus rhai ardaloedd. Awgrymir fod gan Kemper, er enghraifft, ei naws ddrygsawrus ei hun: 'a'm ffroenau wedi synhwyro trochion ei harogleuon hyd yr eithaf, bron. Nid oes berygl iddynt gael eu camgymryd am arogleuon unrhyw dref arall yn y byd.'[522] Ni chollfernir y dref am hynny ac mae'r darlun yn un pryfoclyd, ysgafn, yn hytrach na damniol. Mae'n amlwg fod Bebb wedi ei swyno gan y dref ac wedi cymryd ati'n arw, er gwaetha'i harogleuon.[523] Noda iddo hefyd fynd 'ar ffrwst dihangol rhag aroglau sardîns'[524] yn Douarnenez ond ni wneir sylw pellach na hynny am y drewdod disgwyliedig ac ni chyfrir canlyniadau'r diwydiant pysgota fel trosiad ehangach o ffaeleddau moesol y wlad.

Mae dillad trigolion Guilvinic hefyd 'braidd yn fudron'[525] ond gwrando ar y cenhadwyr mae'r trigolion hyn fel rhai 'di-raen eu golwg'[526] Lesconil. Dyma ddarlun cyferbyniol i un Edwards wrth i'r Protestaniaid fod yn rhai di-lun a'r Catholigion yn fwy trwsiadus o'r hanner. Gwneir sylw o Gatholigion 'pur' eu natur a gwerth eu gweld, yn enwedig yn eu dillad traddodiadol, yn aml gan Bebb a thrafodir oblygiadau hynny isod. Prin fel arall yw'r drafodaeth ar lendid ac ni chyrhaeddir lefelau obsesiynol Edwards. Yr unig dro y gwna sylw o ddiffyg glanweithdra yn effeithio ar ei daith yw pan fo'n brecwasta mewn gwesty a daw

---

[516] Ibid., t. 101.
[517] Ibid., t. 28.
[518] Ibid.
[519] Ibid., t. 70.
[520] Ibid.
[521] Ibid., t. 71.
[522] Ibid., t. 84.
[523] Ibid.
[524] Ibid., t. 118.
[525] Ibid., t. 101.
[526] Ibid., t. 100.

'cawod o glêr adeiniog o'r awyr a disgyn yn hyf ar y bwrdd a'i gynnwys'.[527] Difethwyd y pryd gan y pryfed hynny ond, eto i gyd, hanesyn ysgafn yw'r digwyddiad yn hytrach na chondemniad o safonau'r gwesty.

Drwy law Anatole Le Braz, y bardd a'r casglwr llên gwerin, ceir y disgrifiad agosaf at berson 'budr' yn y gyfrol. Wrth drafod gwraig oedrannus a fu'n stôr o wybodaeth am draddodiadau a gorffennol Llydaw gyda Bebb, noda: 'Un gwendid yn unig a berthynai iddi, sef bod ei dwylo'n drwch o faw bob amser — baw glân os mynnwch, ond baw er hynny.'[528] Serch hynny, darlun annwyl ydyw sydd wedi ei adrodd i ddiddanu Bebb a cheir rhamant ynghlwm â'r hen wreigen fudr a'r ffaith ei bod yn perthyn i oes ddiflanedig, a'i bod hi ei hun, fel eraill yn naratif Bebb, yn ymgorfforiad o fywyd hynafol, gwell.

Yn wir, testun pryder i Bebb yw bod Cymru a'r Cymry yn dod yn rhy lân a bod y wlad ar ei cholled o'r herwydd:

> Yr ydym wedi mynd yn genedl "lân" iawn yn ein golwg ein hunain, ac os na ofalwn byddwn toc yn rhy "lân" i fyw mewn byd o bridd a baw. Nid ein ffyrdd ni yw ffyrdd Llydaw.[529]

Gallai Bebb fod yn cyfeirio at sawl peth yma gan gynnwys y cysyniadau o'r 'pentref gwyn' a 'gwlad y menig gwynion', a'r modd yr eid ati i ddarlunio Cymru fel gwlad barchus, lân ac, yn bennaf oll, moesol. Wrth newid a datblygu, mae Cymru wedi colli rhywbeth ym meddwl Bebb, ac wedi pellhau oddi wrth ei natur agos at y pridd, ond mae Llydaw yn dal gafael ynddo. Yma, ceir adlais o ymdriniaeth Matthew Arnold â Chymru wrth i'r wlad hynafol, annatblygedig gynnig rhywbeth i wlad sydd wedi colli ei henaid wrth foderneiddio.

Fel y nodwyd eisoes, un mater y mae Bebb yn hynod wrthwynebus i Edwards ac yn llawer mwy rhyddfrydol na Dyfnallt ar ei gownt y Catholigiaeth. Er bod rhai cyfeiriadau yn ei ddyddiaduron at 'ddŵr swyn'[530] a 'phaganiaeth',[531] yn nhraddodiad gwatwarus Anghydffurfiaeth Gymraeg, mae'r darlun yn y gyfrol yn un cadarnhaol. Ceir ganddo olwg positif ac edmygus yn aml ar Gatholigiaeth. Noda Chapman fod Bebb yn werthfawrogwr o esthetig Catholigiaeth[532] ac mae'n amlwg o ddarllen *Pererindodau* ei fod yn fwy na goddefol tuag ati, gan iddo wneud datganiadau o'i phlaid yn gyson. Gwyddai am gyfraniad yr Eglwys

---

[527] Ibid., t. 208.
[528] Ibid., tt. 189-190.
[529] Ibid., t. 17.
[530] Robin Humphreys (gol.), *Lloffion o Ddyddiaduron Ambrose Bebb 1920-1926* (Caerdydd: 1996), t. 202.
[531] Ibid.
[532] Bebb, *Pererindodau*, t. 69.

Gatholig at addysg gyfrwng Llydaweg fel y nodwyd eisoes[533] a daw un offeiriad y bu'n sgwrsio gydag ef yn ymgorfforiad o'r daioni hwnnw fel y gwelodd Bebb ef. Yn St Pol, bu i Bebb ei gyfarfod ac mae'r darlun ohono'n glodforus:

> Gweithai'n ymdrechgar gyda'r bywyd Llydewig; astudiai'r iaith yn ofalus, a dysgai hi yn y Coleg yn ymyl... ef oedd offeiriad, tad cyffes, athro a bugail ei braidd a'i bobl gan lenwi lle urddasol, cyfrifol, ac arweiniol yn y ddinas a'r cylch.[534]

Dyma bortread tra gwahanol i'r 'darlun o erlidiwr'[535] a gafwyd gan Edwards, ac yn wir, y darlun cadarnhaol ond mwy niwtral a gyflwynwyd gan Dyfnallt. Yn hytrach na 'heidiau duon fel brain'[536] sy'n bla ar eu hardal, dyma ŵr hynaws sydd yn cyfrannu'n helaeth, nid yn unig at fywyd ysbrydol ei ardal, ond at ei diwylliant hefyd. Clo Bebb ei ddisgrifiad gyda chwestiwn pryfoclyd: 'pa sawl gweinidog yng Nghymru a wnâi gyfryw wasanaeth yn ei ardal yntau — ie, yn rhad ac am ddim?'[537] Ceir yma nid yn unig fawrygu offeiriad ond hefyd gymhariaeth anffafriol ar ffurf cwestiwn rhethregol gyda phregethwyr Cymru, cwestiwn nodedig o gofio'r duedd Brotestannaidd i bortreadu offeiriaid fel pobl ariangar a chyfosod tlodi eu praidd gyda mawredd eu heglwysi a chrandrwydd eu gwisg.

Aeth Bebb ati i wrthbrofi'r ystrydeb fod y Llydawyr yn ofni yn hytrach na pharchu offeiriaid yn ogystal. Yn Guimiliau, caiff trigolion yr ardal eu hannog i fynd i ymweld â'r rheithor lleol[538] ac mae'r darlun ohono'n wahanol i'r un ystrydebol. Fe'i canmolir i'r cymylau ganddynt, fel y noda Bebb: 'gan bwysleisio mor dyner ydoedd, mor annwyl ac mor dduwiol'.[539] Mae'n amlwg fod gan Bebb ymwybyddiaeth o'r ystrydeb hon o ofni offeiriaid gan iddo ei thrafod yn uniongyrchol o fewn y naratif: 'Parchent eu hoffeiriaid yn fawr iawn, ac ni chefais rithyn o sail i gredu mai rhag eu hofn y gwnaent hynny.'[540] Cymherir hyn gyda phortread Edwards o offeiriaid lle na ddengys barch iddynt o gwbl a lle nodir mai ofn sydd yn cadw'u grym dros drigolion Kemper a Rosporden.[541] Mae argraff gyntaf Bebb o'r rheithor hefyd yn un ffafriol: dyma ŵr mwyn a thawel yr olwg ac un sydd yn byw mewn ystafell noeth wedi ei nodweddu gan lymder asetig.[542] Tanseilir yr ystrydeb o offeiriad yn byw yn fras gan ddisgrifiad o'r fath ac er y ceir trafod ar annhegwch economaidd a chanfyddiad Bebb

533 Chapman, *W. Ambrose Bebb*, t. 42.
534 Bebb, *Pererindodau*, t. 14.
535 Edwards, *Tro yn Llydaw*, t. 34.
536 Ibid., t. 122.
537 Bebb, *Pererindodau*, t. 14.
538 Ibid., t. 38.
539 Ibid.
540 Ibid.
541 Edwards, *Tro yn Llydaw*, t. 121.
542 Bebb, *Pererindodau*, t. 38.

fod y cyfoethog yn cael gwell gwasanaeth gan yr Eglwys Gatholig yn ddiweddarach,[543] rhoddir cyfle i'r reithor esbonio ei safbwynt a cheisio cyfiawnhau'r drefn.

Pwysleisir goddefgarwch y rheithor a'i barodrwydd i drafod materion crefyddol yn agored heb ragfarn tuag at Bebb fel Protestant.[544] Ceir sgwrs agored gyda'r naill yn trafod gwendidau crefydd y llall, ac wrth i Bebb feirniadu Catholigiaeth, ymateba'r rheithor fel sawl offeiriad a rheithor arall ar ei daith gyda 'gwên ar eu hwyneb'.[545] Daw'n amlwg fod y sgwrs wedi gadael argraff gref ar Bebb a noda mai profiad gostyngedig oedd ymddiddan â'r rheithor a darganfod, yn groes i ragfarn isymwybodol, efallai, ei fod yn ŵr hynaws.[546] Aiff ati i bentyrru canmoliaeth ar y rheithor gan nodi 'ei fod yn llawer gwell Cristion na mi'.[547]

Profir barn y bobl am eu harweinwyr crefyddol ymhellach mewn sgwrs yn Kemper. Cyfeiria Bebb yn echblyg at yr ystrydeb — neu'r 'honiad',[548] fel y'i gelwid ganddo — o bobl yn ofni offeiriaid gan holi'n benodol amdano yn hytrach na bod y pwnc yn codi'n naturiol mewn sgwrs. Mae ganddo ffynhonnell ddibynadwy ac un na fyddai'n canmol yn ddiangen gan mai arwerthwr Beiblau ar ran y Protestaniaid sydd yn datgan yn ddiymdroi nad yw'r trigolion lleol yn ofni offeiriaid: 'Dim o'r gronyn lleiaf, dim mymryn!'[549] Awgrymir bod hynny wedi digwydd yn y gorffennol ond bod pethau bellach wedi hen newid, ac mae'r arwerthwr (sy'n nodi ei fod yn cystadlu yn erbyn yr offeiriaid am eneidiau trigolion y dref) yn datgan nad oes ganddo air drwg i'w ddweud amdanynt, cam ymlaen o naratifau cenhadol y gorffennol.[550] Ni cheir unrhyw awgrym o ddiffyg diffuantrwydd yn natganiad ysgubol Bebb: 'ni wn yn fy nydd am ddosbarth gwell o ddynion a'u cymryd at ei gilydd, nag offeiriaid Llydaw. "Chwi ydyw goleuni y byd."'[551] Er bod y datganiad yn cyd-fynd ag arddull flodeuog gweddill y gyfrol ar brydiau, y mae'r bwriad yn eglur: cywiro camargraffiadau'r gorffennol drwy gynnig darlun ffafriol o offeiriaid.

Noder nad yn ysgrifenedig yn unig y bu Bebb yn cadw rhan Catholigaeth, gan y bu'n ddigon parod i drafod ei manteision ar lafar hefyd. Ar un achlysur, pan ymwelodd D. J. Williams â Llydaw, fe aeth yn ddadl rhyngddynt ar sawl achlysur gyda Bebb o blaid Catholigiaeth a Williams yn llwyr yn erbyn.[552] Aiff Chapman mor bell â nodi bod yr

---

[543] Ibid., t. 39.
[544] Ibid., t. 38.
[545] Ibid., t. 40.
[546] Ibid.
[547] Ibid., t. 40.
[548] Ibid., t. 113.
[549] Ibid., t. 113.
[550] Ibid.
[551] Ibid., t. 41.
[552] Chapman, *W. Ambrose Bebb*, t. 69.

anghydfod hwn rhwng y ddau wedi bod yn wythïen o straen drwy gydol ymweliad Williams yn haf 1924,[553] ac arweiniodd y dadlau cyson at y naill yn mynd yn fwyfwy pleidiol i'w gongl ei hun. Ar y pryd, roedd Bebb 'bron a bod yn Gatholig o ran argyhoeddiad',[554] yn ôl Williams, sydd yn taflu golwg ddiddorol ar ei agweddau ffafriol at Gatholigiaeth yn y gyfrol.

Ar ei daith cyfarfu Bebb â Phrotestaniaid eraill a cheir ganddynt adleisiau o naratifau'r gorffennol, rhai nad ydyw'n cytuno â hwy. Caiff gynnig pàs gan un yn ardal Huelgoat ac ni cheir argraff orffafriol ohono.[555] Pan ddaw'r bachgen heibio gyda'i gert a'i geffyl, mae Bebb wrthi'n mwynhau tawelwch cefn gwlad mewn profiad sydd ymron yn ysbrydol a chaiff ei darfu ganddo.[556] Gan mai un lleol ydyw hefyd nid yw'r coed a'r wlad o'i gwmpas yn ei blesio ychwaith, a chaiff Bebb ef yn gwmni 'rhyddieithol'. [557] Digon nawddoglyd yw Bebb wrth ei ddisgrifio a'i ddaliadau crefyddol gan nodi ei fod 'fel pob newydd-ddyfodiad, yn selog dros ei broffes',[558] ac awgrymir fod ganddo fwy o frwdfrydedd na dim arall. Ceir darlun canmoliaethus iawn ganddo o'r cenhadwr, 'Mr Jenkins', a'r dadleuon cyfarwydd yn erbyn Catholigiaeth, gan gynnwys bod yr offeren mewn Lladin annealladwy a rhedeg ar yr offeiriaid.[559] Mae Bebb yn ddigon amheus o'i honiadau: 'pe buaswn yn ddigon diniwed i'w goelio i gyd, credaswn mai Protestaniaid yn unig oedd trigolion yr holl ardaloedd cyfagos'.[560] Yn wyneb llithoedd cenhadol y llanc, ymateb digon ysmala sydd gan Bebb gan nodi 'fod ganddo ei wala o ddychymyg, a gweddill dros ben'.[561] Dyma Bebb, nid yn unig yn profi fod ganddo amheuon ynghylch ffyniant honedig Protestaniaeth yn Llydaw, ond ei fod hefyd yn hen gynefin â'r sefyllfa fel ag y mae hi ar lawr gwlad.

Serch hynny, fel yr awduron blaenorol, caiff y genhadaeth Brotestannaidd sylw trylwyr gan Bebb a phennod gyfan o dan y teitl, 'Gyda'r Cenhadwr', yn cael ei gosod o'r neilltu i drafod sawl ymweliad â Jenkyn Jones fel y crybwyllwyd eisoes.[562] Gwna hynny mewn modd ymwybodol o'r canon blaenorol gan gyfeirio yn echblyg at Edwards wrth agor y bennod ac yn ei theitl.[563] Serch hynny, nid yr un yw'r portread o'r cenhadwr. Mae'r ffaith i Bebb deithio at gartref Jones o gwbl ac iddo ymweld droeon yn dangos fod y naratif cenhadol o ddiddordeb personol iddo. Yn ddi-os, mae'r naratif hefyd yn cael ei weld fel un haeddiannol

---

553 Ibid.
554 W. Ambrose Bebb, *Yr Argyfwng* (Llandybie: 1956), t. 10.
555 Bebb, *Pererindodau*, t. 53.
556 Ibid, tt. 52-3.
557 Ibid., t. 53.
558 Ibid.
559 Ibid.
560 Ibid.
561 Ibid.
562 Ibid., tt. 92–107.
563 Edwards, *Tro yn Llydaw*, t. 103.

o gael ei grybwyll fel rhan o'r gyfrol, a hynny am fod trafod Jones yn nodedig o apelgar i gynulleidfa Gymreig.

Er cymaint ei hoffter o Gatholigiaeth, mae'n cyd-dynnu'n dda gyda Jones[564] a rhydd bortread ffafriol ohono o ran ei bryd a'i wedd. Canmolir ei daclusrwydd a'r ffaith ei fod yn heini er gwaetha'i oed ac yntau, erbyn hynny, yn ddeg a thrigain; yn ddisgwyliedig hefyd, efallai, crybwyllir ei ddawn i bregethu gan gynnig darlun o bregethwr effeithiol.[565] Ceir disgrifiad arall ohono sy'n cadarnhau ei fod yn bregethwr wrth reddf a'i feistrolaeth ar y grefft yn Pont Croix; y mae'n 'nes at ei bobl'[566] na'r pregethwyr eraill a dywed Bebb fod pawb o'r gynulleidfa yn 'rhyfeddu at bryd a gwedd yr hynafgwr golygus [...] ac at liw ei lais tyner'.[567] Sonia Bebb sut y mae rhodd o gopi personol Jones o lyfr emynau Llydewig, *Telen ar C'hristen*, ymysg ei drysorau pennaf,[568] sydd eto'n awgrymu perthynas glòs rhwng y ddau. Noda Bebb hefyd wrth drafod gwaith y dosbarthwr llyfrau Protestannaidd yn Tremel, fod ei waith yn un 'pwysig',[569] sydd yn awgrymu peth cydymdeimlad os nad cefnogaeth gyda'r ymgyrch genhadol.

Er cymaint ei gyfeillgarwch a'i ganmoliaeth o Jones a'r canmol o waith y dosbarthwr llyfrau, nid yw'r darlun a geir o'r genhadaeth yn Llydaw yn un hynod ffafriol. Ar yr un wedd, wrth deithio gyda Jones am wythnos, mae Bebb yn cynnig portread ffafriol ond, ar y llall, fe geir darlun truenus ar adegau o'r hyn y bu iddo dreulio ei oes yn ceisio'i sefydlu ac o bwrpas Jones yn Llydaw. Wrth ddisgrifio'r cynulleidfaoedd a ddaw i wrando ar Jones yn pregethu, er enghraifft, mae Bebb yn aml yn cyfleu eu natur ddi-raen a thruenus, yn enwedig o gymharu â phoblogaeth Gatholig y wlad. Cyfeiria at gynulleidfa arferol Jones fel un 'fechan, dlodaidd',[570] er enghraifft, gan gyfleu nid yn unig natur yr unigolion ynddi ond hefyd apêl gyfyng Jones fel cenhadwr. Yn Lesconil, digon siomedig yw'r niferoedd a disgrifir y criw a ymgasglodd fel a ganlyn: 'Yr oedd tua dau ddwsin ynghyd, morwyr lled oedrannus, a di-raen eu golwg gan mwyaf, ambell lefnyn o grwt segur, amryw blant, a rhyw ddwy neu dair o hen wragedd.'[571] Unwaith eto, mae'r niferoedd yn isel a'r unigolion yn eu mysg yn rhai truenus yr olwg. Ymddengys bod gan Brotestaniaeth apêl ymysg morwyr gan i Bebb nodi wrth drafod y pentrefi lle'r honnai Jones iddo gael y mwyaf o lwyddiant: 'pentrefi bach o forwyr

---

564 Bebb, *Pererindodau*, t. 93.
565 Ibid, t. 94.
566 Ibid., t. 103.
567 Ibid.
568 Ibid., t.95.
569 Ibid., t. 112.
570 Ibid., t. 95.
571 Ibid., t. 100.

bob un, a'r morwyr hynny'n aml heb fawr o grap ar grefydd o fath yn y byd. Ac yn rhai ohonynt, o leiaf, ni ddigwyddai fod offeiriad o gwbl.'[572] Eto, unigolion ymylol yw'r rhain ac nid ymddengys bod 'camp' Jones yn llawer o gamp o gwbl, yn enwedig, felly, am nad oedd presenoldeb Catholig yn y mannau hyn. Ceir yr argraff gan Bebb mai pobl yr ymylon sy'n byw mewn llefydd ymylol yw'r rhai y llwyddwyd i'w 'hachub' i gyd.

Mae'n werth cymharu'r portreadau hyn o bobl a fyddai'n nes at ymylon cymdeithas nag fel arall gyda'r rhai o Lydawyr yn addoli Catholigiaeth o fewn y gyfrol. Mewn pardwn, er enghraifft, disgrifir y merched fel rhai 'bonheddig'[573] ac yna, wedi disgrifio dillad lliwgar a godidog y bechgyn, noda Bebb eu bod 'hwythau fel penaethiaid a thywysogion, a bron mor urddasol â'u chwiorydd unbenesaidd'.[574] Dyma ddarlun canmoliaethus, urddasol o addolwyr sy'n dra gwahanol i'r giwed flêr o forwyr a hen wragedd sydd yn gwrando ar y cenhadwyr. Gwyrdroir darlun Edwards, a'r un fyddai'n gyfarwydd i'r Cymry, gyda'r Catholigion yn ymddangos yn llawn bywyd a brwdfrydedd a'r Protestaniaid yn ddi-lun a budron.

Fel ei braidd, ffigwr ymylol yw Jones, yn ôl Bebb, a hynny mewn sawl ystyr. Yn gyntaf oll, yn llythrennol, o ran y mannau y byddai'n ymweld â hwy, fel y crybwyllwyd eisoes, ond noda Bebb ei fod yn ynysig fel arall hefyd:

> Un o bobl yr ymylon ydoedd, yn cyffwrdd yn unig â'r hyn oedd yn eithriadol ym mywyd Llydaw a Ffrainc, â'r hyn oedd yn ddieithr ac yn groes i hanes ac i draddodiad y ddwy.[575]

Mae crefydd Jones, a'i ymlyniad ati ym mhob dim a wnâi, yn ei osod ar ymyl cymdeithas Llydaw sydd, fel y gwyddai Bebb yn iawn, yn Gatholig drwyddi draw. Un caeedig ei feddwl yw Jones hefyd, yn ôl Bebb, a'i geilw'n 'Biwritan'[576] ac un 'na fedrai ddygymod â nemor ddim a ysgrifennir yn Llydaweg, nac yn Ffrangeg ychwaith'.[577] Gan mai dim ond awduron Protestannaidd a ddarllenai, nid oedd ganddo felly ddealltwriaeth o lenyddiaeth y wlad yr oedd yn byw ynddi. Fe'i portreadir yma gan Bebb fel unigolyn cibddall a noda nad yw'n gallu hyd yn oed werthfawrogi gwerth celfyddydol eglwysi gan gymaint ei ymlyniad at ei ffydd.[578]

---

[572] Ibid., t. 104.
[573] Ibid., t. 211.
[574] Ibid.
[575] Ibid., t. 98.
[576] Ibid.
[577] Ibid.
[578] Ibid.

Yn yr un modd, troi ymysg cylch bychan o bobl a wna Jones, yn ôl Bebb, ac nid oes ganddo, yn wahanol i'r awdur, werthfawrogiad o'r wlad:

> Ond ychydig iawn o'i phobl a garai'n angerddol, dim ond yr ynysoedd bach, bach o Brotestainiaid oedd yno i'w cael mewn pentrefi bychain— ar lannau'r môr yn bennaf— y dychweledigion at yr Arglwydd oddi wrth dywyllwch yr Eglwys Gatholig — tua tri chant o aelodau, y rhai a achubwyd ganddo ef oddi ar fflamau'r tân.[579]

Pwysleisir natur gul apêl Jones wrth ailadrodd yr ansoddair 'bach' a cheir awgrym fod tafod Bebb yn ei foch wrth iddo ddisgrifio, ar y naill llaw, ymgyrch chwedlonol ei naws i achub pobl rhag fflamau uffern a thywyllwch Catholigiaeth, a'r nifer isel o bobl a achubwyd ar y llall. Awgrymir elfen o ragrith yma hefyd wrth i Bebb nodi mai dim ond y rhai sy'n dilyn ei gred ef y mae'n eu caru, yn hytrach na thrigolion Llydaw i gyd a'r rhai sydd eto i'w 'hachub'.

Fel crair y mae Bebb yn gweld Jones, rhyw adlais o oes flaenorol a gynhwysai, ymysg eraill, Edwards a'i ganfyddiadau anghywir, henffasiwn am Lydaw. Cyfaddefa Bebb iddo ei holi'n dwll am ddynion mawr y gorffennol, Syr Henry Jones a T. C. Edwards yn eu plith,[580] ac mae diddordeb Bebb yn Jones yn rhannol fel dolen gyswllt â'r gorffennol. Noda'n echblyg: 'I mi darn o orffennol pell Hanes Cymru ydoedd Mr. Jones'.[581] Adlais yw o oes wahanol yn parhau gyda'i hymgyrch er bod gweddill y byd wedi symud ymlaen. Ni cheir ym mhortread Bebb ohono a'i waith unrhyw obaith am ddyfodol lle byddai Llydaw yn dyfod yn wlad Brotestannaidd, fel a gafwyd gan Edwards,[582] ac er cyn ddifyrred yw Jones i Bebb, nid yw'n symbol o ddim mwy na hyfdra crefyddol iddo.

Rhydd natur amseryddol eang y gyfrol y cyfle i Bebb gynnig adlewyrchiad ar fywyd Jones a thrwy hynny yr ymdrech genhadol yn ehangach drwy Lydaw. Yn ei sgwrs olaf ag ef yn y gyfrol, aiff Bebb ati i'w holi a yw Jones o'r farn fod gwaith ei oes wedi bod yn werth ei wneud.[583] Cyfaddefa Bebb nad wrth rifau ac ystadegau y mae mesur llwyddiant ymgyrch genhadol o reidrwydd, ond mae'n cydnabod bod rhifau'n gallu cynnig tystiolaeth llwyddiant neu fethiant. Yr awgrym a geir yw ei fod wedi mesur ymgyrch Jones a'i chael yn eisiau. Dim ond tri o Brotestaniaid yn ychwanegol a gafwyd yn Kemper at y rhif gwreiddiol pan gyrhaeddodd Jones yno ddeugain mlynedd ynghynt,[584] rhif sy'n sobreiddiol o isel. Ceir esgusodion lu gan Jones yn hynny o beth ac mae'n nodi iddo gael llwyddiant mewn mannau

---

579 Ibid.
580 Ibid., t. 95.
581 Ibid., t. 94. .
582 Edwards, *Tro yn Llydaw*, t. 107.
583 Bebb, *Pererindodau*, t. 104.
584 Ibid.

eraill, ond mae Bebb hefyd yn ddigon swta yn ei ymateb gan nodi mai 'yno yr oedd y gwaith yn hawddaf i'w wneud'.[585] O'i gymharu â phortread canmoliaethus Edwards ac un positif Dyfnallt, mae un Bebb yn ddeifiol.

Bum mis wedi ei ymweliad olaf ag ef bu Jones farw,[586] ac wrth i Bebb ddychwelyd i ymweld â'i weddw a'i fedd, ceir canfyddiad eironig ganddo wrth ymweld â'i fyfyrgell: 'Gwelais fod y cwbl a berthynai iddo wedi ei droi yn grair santaidd.'[587] Ynddi, y mae lluniau ohono a blodau o dan bob un a'r fyfyrgell yn ymdebygu i deml. Nid yw rhagrith, os nad tristwch, y sefyllfa yn dianc rhag sylw Bebb: 'yr oedd y Brotestannes hon wedi gwneud o'i gŵr marw yr union beth y cyhuddai hi a Mr. Jones y Llydawiaid [...] o fod yn euog o'i wneud gyda'r seintiau'.[588] Treuliodd Jones ei oes yn gweithio'n ddiflino tuag at Brotestaneiddio Llydaw a'i hachub, ond wedi ei farw, trodd ei deulu ei hun at yr union ymddygiad y bu mor ffyrnig yn ei erbyn.

Digon anobeithiol yw'r sefyllfa pan ymwêl Bebb yn hwyrach hefyd gyda'r nifer helaeth o'r tiroedd a enillwyd gan Jones bellach yn ddifancoll, a chapeli un ai wedi darfod â bod neu wedi colli cyfran sylweddol o'u haelodau.[589] Gwastraff yw'r genhadaeth ym meddwl Bebb, gwastraff amser ac ymdrech gan na lwyddwyd yn y pen draw i gyflawni nemor ddim. Arweiniodd agwedd o'r fath at ffraeo tanbaid gyda'r Parchedig Gerlan Williams, cenhadwr arall a chyfaill i Jones, wrth i Bebb ddadlau mai 'gwagedd o wagedd'[590] oedd ceisio Protestaneiddio Llydaw. Rhydd restr o gwestiynau rhethregol iddo yn dadlau na ddaw dim da o ymgyrch o'r fath a dichon bod y paragraff clo yn y bennod am Jones yn cynnig crynodeb o'r dadleuon hynny:

> Pa hyd, pa hyd yn wir, y deil yr enwadau yng Nghymru i ymgydynnu yn erbyn Pabyddiaeth Llydaw, ac i wastraffu amser ac adnoddau ar yr hyn na bara na bywyd, na gwirionedd na goleuni i'r Llydawiaid? Arall yw crefydd Llydaw, ac arall ydyw crefydd Cymru, a pha lesâd ydyw ceisio gorfodi'r naill grefydd ar y llall?[591]

Y sylw damniol uchod sydd yn cloi hanes y 'Cenhadwr' ac yn crynhoi barn Bebb am yr ymgyrch. Er ei fod ar adegau'n ei brolio ac yn cydymdeimlo â hi, yn nhudalennau olaf y bennod ceir beirniadaeth mor hallt fel na fedrir derbyn fod ganddo fawr o barch na gobaith

[585] Ibid.
[586] Ibid.
[587] Ibid., t. 105.
[588] Ibid., t. 106.
[589] Ibid.
[590] Ibid., t. 115.
[591] Ibid., t. 107.

iddi. Ymddengys hyn yn wrthgyferbyniol i'w ganmoliaeth gynnar o Jones, ond o gofio i'r gyfrol gael ei hysgrifennu dros ystod eang o amser, efallai nad ydyw'n syndod. Ar ôl addewid y genhadaeth yn *Tro yn Llydaw* ac arolygon ffafriol o'i pharhad yn *O Ben Tir Llydaw*, cawn weld yn *Pererindodau* ei diwedd, a hynny gyda disgrifiad o fyfyrgell a bedd Jones sydd hefyd yn disgrifio bedd y genhadaeth yn Llydaw.

Er cymaint annibyniaeth barn Bebb ar sawl mater yn ymwneud â Llydaw, y mae hefyd yn euog o ddisgyn i'r baglau arferol a drafodwyd eisoes yng ngwaith awduron eraill. Nid syndod o gofio ei gariad at y wlad yn gynnar yn ei yrfa a phan gyhoeddwyd y gyfrol ei fod yn ei rhamantu droeon. Rhamantir yn arbennig hynafiaeth y wlad a'i phobl ganddo. Nodwyd eisoes hoffter Bebb o Huelgoat, a dyma ardal sydd gyda'r 'briffordd ei hun mor rhamantus â'i morynion'.[592] Ymddengys ei bod fel Cymru ond yn well gyda Bebb yn cymharu ei daith drwy'r ardal fel mynd drwy Nant y Garth, ond ei bod yn 'feithach, helaethach, ddistawach'[593] ac mae'r profiad yn rhagori ar grwydro drwy Gymru:

> [roedd] y profiad yn ddwysach fyth oherwydd ei gael mewn gwlad ddieithr, dan wybrennau cyfrwys-gyfriniol a dirgel-drist, rhwng plygion o fryniau yn dianc o flaen y llygaid bob yn ail ag ail-ymddangos mewn hudoliaeth mwy cyfrin, o hyd ac o hyd.[594]

Dyma ddisgrifiad rhamantus iawn o fyd natur a'r profiad o fod ar droed yn Llydaw ac nid yw'n annhebyg i un Arnold o ardal Llandudno a'r olygfa oddi yno o'r 'eternal softness and the mild light of the west',[595] a'r mynyddoedd yn diflannu: 'fading away, hill behind hill, in an aërial haze'.[596] Ceir darluniau rhamantus a blodeuog fel hyn gan Bebb droeon a thrwyddynt, cyflëir y ddelwedd eithafol o gadarnhaol sydd ganddo o Lydaw.

Ceir delweddu tebyg ganddo wrth ddisgrifio taith ar droed yn gynharach yn y gyfrol:

> A dyma fi wedi treulio oriau a dyddiau lawer yn y dyffrynnoedd a'r mân wastadeddau, gan godi llygad hiraethus beunydd a byth at lesni gwyryf a ffurfafennau niwlog y bryniau agos-bell.[597]

Dyma ddelweddu rhamantaidd cyfarwydd wrth i'r bryniau ymddangos o'r niwl a hwythau wedi eu gorchuddio gan lesni newydd heb ei ddifetha. Mae'r hiraethu hwn am y bryniau

[592] Ibid., t. 58.
[593] Ibid.
[594] Ibid.
[595] Arnold, *On The Study of Celtic Literature*, t. 2.
[596] Ibid.
[597] Bebb, *Pererindodau*, t. 48.

hefyd yn nodweddiadol ramantaidd, yn enwedig felly wrth feddwl am nodweddion o fyd natur.

Nodweddir disgrifiadau o'r fath gan ormodiaith gyda disgrifiad o olygfa yn nhref Carcassonne, er enghraifft, yn nodi fod muriau'r dref yn cynnig golygfa heb ei hail: 'Gellwch eistedd i lawr yno, a phorthi'ch llygaid ar un o'r gwleddoedd cyfoethocaf a baratôdd dyn a natur erioed.'[598] Drwy hynny, gellir cael profiad sy'n 'orffwysol dangnefeddus'[599] ac nid yw'n unigryw yn ei hynodrwydd yn hynny o beth. Ceir, er enghraifft, ddisgrifiad o'r dref nesaf, Pont Aven, yn y paragraff dilynol fel tref sy'n 'baradwys ddaearol'.[600] Ceir drwy iaith flodeuog ac aruchel o'r fath nid yn unig naws ramantaidd ond hefyd argraff eglur o ganfyddiad Bebb o'r wlad — bron nad yw mewn gorfoledd ysbrydol wrth ymweld â rhannau ohoni.

Rhamantir trigolion Llydaw hefyd a hynny fel yn achos Dyfnallt ac Edwards yn aml o ran yr hyn a wisgent. Ymddengys bod y dull traddodiadol o wisgo unwaith eto yn rhywbeth i'w ganmol a bod y dull traddodiadol yn gweddu i'r Llydawyr, yn anad dim arall. Meddai Bebb; 'Diamau gennyf na weddai'r dillad hyn i bawb. Ond i ferched gosgeiddig o'r wlad, a lliw gwridog haul a diniweidrwydd ar eu hwynebau, ni all dim fod yn harddach.'[601] Mae rhinwedd gynhenid yn rhan o'r apêl hon ac nid nodi bod y merched yn dlws yn unig a wna Bebb ond, yn hytrach, eu bod yn 'dlysion yn eu gwisg Lydewig'.[602] Rhaid, felly, fod y wisg yn rhan hanfodol o'r mwynhad esthetig.

Mae cysylltiad agos rhwng pa mor Llydewig yw unigolyn a'i wisg hefyd. Nodir fod gwraig Taldir yn esiampl berffaith o Lydawes ganddo a chwaraea'i gwisg ran yn hynny: 'Y mae hi'n batrwm o Lydawes, addfwyn a bonheddig, ac ni welais eto yr un wraig arall a ddwg amdani y wisg Lydewig gyda chyffelyb harddwch cyfrwys-urddasol.'[603] Ymddengys hefyd fod yr elfen ddarostyngol, wladaidd hon yn rhan o ddarlun Bebb o ferch Lydewig ac mae'r wisg draddodiadol henffasiwn yn rhan o'r ddelwedd honno. Wrth ddisgrifio merched yn Roscoff, noda iddo weld: 'un ferch ieuanc, a gwisg go dda amdani, heb ddim i ddangos mai Llydawes ydyw [...] a gwraig ganol oed [...] Llydawes yn sicr o ran ei gwedd a'i gwisg.'[604]

Dim ond drwy wisgo'n briodol y gellir cadarnhau fod unigolyn yn un o drigolion Llydaw o'r iawn ryw ac awgrymir gan Bebb fod y wisg draddodiadol yn adlewyrchiad o foesoldeb y

598 Ibid., t. 121.
599 Ibid.
600 Ibid.
601 Ibid., t. 147.
602 Ibid.
603 Ibid., t. 71.
604 Ibid., t. 25.

sawl a'i gwisgai hefyd, gan fod y wraig ganol oed sydd wedi gwisgo'n draddodiadol yn 'annwyl ei golwg a defosiynol iawn'.[605] Yn ddiweddarach, gelwir y naill yn 'ferch ieuanc' ganddo tra cyfeirir at y llall fel 'Llydawes',[606] gan atgyfnerthu'r canfyddiad fod yn rhaid gwisgo mewn modd penodol er mwyn bod yn Llydewig.

Disgrifir criw o'r 'rhianedd' mewn gorymdaith gan Bebb hefyd ac mae defnyddio'r term barddonol, henffasiwn uchod ynddo'i hun yn cyfleu agwedd ramantaidd tuag atynt:

> Gwelwch eu talcennau gwyryfddwys, eu golygon hirben, eu rhodiad gosgeiddig, eu cyrff cyflunaidd, a'u gwisgoedd bonheddig. Y fath gyfuniad o degwch cnawd a gwyleidd-dra ysbryd![607]

Ymysg y disgrifiad o bryd a gwedd, noder fod y wisg yn rhan nodedig o'r atyniad. Dyma ddarlun sydd unwaith eto'n gosod y merched hynny sydd yn gwisgo'r wisg draddodiadol ar dir uwch os nad 'purach' nag eraill. Mae'r ddeuoliaeth honedig hon rhwng gwyleidd-dra neu ddiymhongarwch a phrydferthwch corfforol yn rhywbeth y cyfeirir ato fwy nag unwaith yn nisgrifiadau Bebb o ferched yn gwisgo'r wisg draddodiadol, ac awgrymir bod y wisg honno yn adlewyrchu gwerthoedd ac ymagweddiad traddodiadol. Mae hyn, wrth gwrs, yn rhan o'r apêl.

Serch hynny, nid yw'r wisg draddodiadol yn apelio bob amser wrth i Bebb nodi am wisg merched ardal Pont l'Abbé: 'Ni charaf na gwisg na gwedd merched yr ardaloedd hyn',[608] ond noda'n hwyrach ei fod yn edmygu eu diwydrwydd.[609] Drwy hynny, fe awgrymir nad ydynt yn ddiwerth gan eu bod, er gwaethaf eu hymddangosiad, yn cyfrannu i'r gymdeithas ehangach drwy weithio — agwedd sy'n broblematig a dweud y lleiaf. Cyffredinolir yma, ac er bod yr ymateb i'r wisg yn wahanol, fe ddaw o fan tebyg, sef arferiad o gyffredinoli gan ddiffinio unigolion ardal gyfan o ran eu gwisg. Ceir gan Bebb elfen o ffetisheiddio merched Llydaw a'r rheiny a wisgai wisg draddodiadol yn benodol, ac yn yr un modd ag y ffetisheiddir y gwisgoedd, fe droir nodweddion hynafol a thraddodiadol y wlad yn ddelwau i'w canmol.

Atgyfnerthir atyniad yr hynafol a'r traddodiadol i Bebb yn ei ddisgrifiad o ferched mewn caeau wrth fynd heibio ar y trên: 'caeau lle y mae merched yn gwau hosanau a

---

605 Ibid.
606 Ibid., t. 26.
607 Ibid., t. 218.
608 Ibid., t. 117.
609 Ibid.

hudoliaethau'.[610] Mae'r darlun hwn o lafur traddodiadol merched, a hynny yng nghwmni plant, yn un sy'n hudolus ym meddwl Bebb. Ymddengys bod peth o atyniad Llydaw i Bebb yn ei gallu i ymddangos fel gwlad sydd yn cadw traddodiadau'n fyw, ac nid rhai gwerinol neu ddiwylliannol yn unig, ond yn hytrach rhai rolau rhywedd a phatriarchiaeth hefyd. Ni ddylid edrych ymhellach na'r dyfyniad isod wrth drafod Americanwyr os am gadarnhad fod agwedd Bebb yn un rywiaethol iawn ar adegau:

> Yr oedd yr holl ystafelliad o ymwelwyr yn galw eu hunain yn *Artistes.* Yn eu plith yr oedd nid ychydig o Saesnesi, wedi ymsychu yn eu bronnau a'u hysbryd wrth nesu at y deg-ar-hugain oed, a mynd heibio iddo mewn braw. Eu cysur bellach ydoedd cymryd arnynt eu bod wedi rhoddi eu gwyryfdod . . . A'u hathrylith, wrth gwrs, gan na ddychmygai'r un o'r bodau annioddefol hyn ei bod yn ddi-athrylith — at wasanaeth celfyddyd.[611]

Nid anodd gweld pam bod merched ymddangosiadol draddodiadol a gwylaidd yn eu gwisgoedd henffasiwn yn apelio at yr awdur yn hytrach felly na rhai modern gyda 'thafodau pigog'.[612]

Caiff trigolion Llydaw eu rhamantu mewn dulliau eraill hefyd. Fel y merched uchod yn gwau hudoliaeth a hosanau, ceir elfen hudolus a swynol yn rhan o gyfansoddiad Llydawyr ym meddwl Bebb. Gelwir y bardd, Anatole Le Braz, yn 'swynwr'[613] ganddo, er enghraifft, a hynny ym mhob ystyr y gair. Ceir darlun etheraidd o griw o blant hefyd wrth i Bebb ymweld â chasgliad o feini hirion.[614] Cyfeiria atynt fel 'chwi, blant y gwlith a'r glaw',[615] ac mae hynny a'r disgrifiad ohonynt fel plant troednoeth sy'n ymddangos o'r caeau yn rhoi argraff eu bod yn greaduriaid sy'n nes at natur na dynoliaeth. Mae'r plant yn gwybod am hanes y meini ac yn ei rannu gyda Bebb, sydd unwaith eto'n awgrymu cysylltiad rhyngddynt a hynafiaeth eu bro. Wrth iddynt ffarwelio â Bebb, noda, 'Telais ychydig iddynt, a diflanasant fel tylwyth teg dros y glaswellt a rhwng y meini, yn ôl i'r gwlith.'[616] Dyma gadarnhau a phwysleisio naws hudolus a chwedlonol y plant gan eu cymharu â thylwyth teg, ac mae'r ffaith eu bod yn diflannu'n ôl i'r gwlith wedi eu hymddangosiad disymwth yn atgyfnerthu hynny unwaith eto.

Mae swyn a hudoliaeth amlwg i Lydaw ym meddwl Bebb, ac aml i dro, cyfeirir at wrthrychau neu leoliadau gan gadw at naws hudolus. Mae swyngyfaredd yn llenwi Kemper,

[610] Ibid., t. 193.
[611] Ibid., t. 208.
[612] Ibid.
[613] Ibid., t. 176.
[614] Ibid., t. 154.
[615] Ibid.
[616] Ibid., t. 155.

er enghraifft,[617] tra bo Carnac yn swynol,[618] a Pont Aven yn bentref 'mwyaf swynol' Llydaw.[619] Nodir fod ffyrdd Huelgoat 'bob amser yn gyforiog o swyn a dirgelwch'[620] hefyd, a rhai enghreifftiau yn unig o blith amryw yw'r uchod. Cyfeirir droeon at hud neu hudoliaeth ardal hefyd fel yn achos La Faouet,[621] a disgrifir cwch ar afon Quimperlé fel un sydd 'yn llithro'n dawel ar ddewinol hud'.[622] Ceir argraff gan Bebb, er cymaint ei weithgarwch ym myd gwleidyddol y wlad a'i ymwybyddiaeth ohoni, fod Llydaw yn wlad sy'n gorgyffwrdd â'r ffantasiol a'r chwedlonol. Er ei fod, felly, am gynnig darlun gwahanol ohoni i Gymry Cymraeg, mae ei un yntau'n ddibynnol ar rai ystrydebau cyfarwydd.

Y mae'r rhamantu hwn wedi ei gysylltu'n anorfod gyda hoffter Bebb o'r hynafol, gyda'r naill yn mynd law yn llaw â'r llall. Gwelwyd uchod fod naws hynafiaethol i rai o'r dyfyniadau ac mae Bebb yn mawrygu'r hynafol yn gyson wrth deithio. Nid yw Llydaw yn unigryw yn hynny o beth gan iddo ddisgyn i'r un fagl wrth drafod Ffrainc hefyd, ac fel y noda D. Tecwyn Lloyd, nid y Ffrainc gyfoes a ddarlunia yn ei waith ond, yn hytrach, un hŷn: 'Ffrainc y pentrefi gwin a'r bensaernïaeth ganol oesol, nid Ffrainc anialwch diwydiannol ffatrïoedd Creusot a Renault a'u tebyg.'[623] Nid syndod bod Bebb, fel yr awduron eraill, yn hynafoli Llydaw a bod rhan o'i hapêl yn ei natur henffasiwn. Fel Dyfnallt, mae rhai mannau yn fwy cynrychioliadol o'r wir Lydaw ym meddwl Bebb a'r rheiny y tu draw i'r ardaloedd arfordirol, twristaidd.[624] Mae naws hynafol i'w ddatganiad mai gwell troi oddi wrth y mannau hynny:

> Gydag ymylon y môr y teithiaswn fwyaf hyd yn hyn [...] lle y mae ymwelwyr haf yn heigio wrth y cannoedd [...] heb roddi nemor sylw i'r wlad a'r werin, ac i'r awyrgylch o ddiwylliant a chelfyddyd a adeiladodd y ddau mewn cydweithrediad oesol â'i gilydd.[625]

Y tu draw i'r cyrchfannau poblogaidd, modern y mae'r 'oesol' a'r hynafol ym meddwl Bebb fel yr awduron eraill o'i flaen. Yma y ceir cenedl Llydaw, yn ôl Bebb, yn y 'berfeddwlad',[626] yn y mannau hynny sydd yn 'fwyaf di-sathr',[627] a dim ond wrth fynd yno y gall brofi gwirionedd Llydaw a dysgu unrhyw beth amdani. Adleisir, unwaith eto, naratif

617 Ibid., t. 86.
618 Ibid., t. 152.
619 Ibid., t. 121.
620 Ibid., t. 63.
621 Ibid., t. 127.
622 Ibid., t. 131.
623 Lloyd, 'Taldir a Bebb', tt. 202-3.
624 Bebb, *Pererindodau*, t. 47.
625 Ibid.
626 Ibid., t. 47.
627 Ibid.

Arnoldaidd y 'geniuine people'[628] wrth i Bebb wahaniaethu rhwng ardaloedd a thrigolion Llydaw mewn ymgais i ddod at gilfachau 'purach' na'i gilydd.

Ar ei ffordd yno, trafoda Bebb ei obeithion am y daith a'r ffaith ei fod yn disgwyl ymgysylltu gyda hynafiaeth mewn dull rhamantaidd eithriadol:

> Yno y disgwyliwn brofi o lesmair cyntefigrwydd pur, megis y dyddiau cyn cyd-ganu o sêr y bore cyntaf, fel y profodd y Brythoniaid ef pan gyraeddasant yma yn y chweched ganrif o Gymru, o Gernyw, ac o ddeheubarth Prydain.[629]

Ceir yn y berfeddwlad, felly, gysylltiad uniongyrchol ag oes gynhanesyddol sydd heb newid na datblygu, a disgwylia Bebb weld fod yr ardal wedi ei chadw mewn rhyw fath o stasis ers dros fil o flynyddoedd. Bradycha hyn ei fydolwg a'i syniad o sut wlad yw Llydaw pan fo hi agosaf at ei gwir gyflwr — un hynafol, statig. Yn wir, cyfaddefa Bebb ei hun fod Llydaw yn fath o amgueddfa iddo wrth ddisgrifio yr hyn a wêl mewn pardwn: 'Yno, yn y pardynau hyn, y ceir y cyfle gorau i astudio gyda'i gilydd, megis mewn amgueddfa awyr agored, arferion, gwisgoedd, coel ac ofergoel y Llydawiaid.'[630] Ni ddewiswyd gair na fyddai'n lleoli y trigolion yn amseryddol megis 'arddangosfa', ond yn hytrach, 'amgueddfa', sydd yn cadarnhau'r ystrydeb fod Llydaw yn wlad wedi ei chloi yn y gorffennol a bod modd ymweld â hi fel ymweld â pharc antur er mwyn profi amser sydd wedi hen ddarfod yng Nghymru.

O gofio pryderon Bebb am Gymru, wrth iddi newid a datblygu a dod yn wlad rhy 'lân', fel y trafodwyd uchod, mae ei ddisgrifiad o Morlaix yn nodedig: 'a myllni'n hidlo o awyrgylch canol-oesaidd yr heolydd, a chysgodion tai canrifoedd oed yn damsang yn haenen ar haenen a'u harogleuon yn gawod ar gawod.'[631] Yma, cyfunir yr hynafol a'r blêr a'r budr gyda'i gilydd i greu 'awyrgylch canol-oesaidd', nodwedd gyfarwydd yn y disgrifiadau o Lydaw gan awduron o Gymru. Lleolir Morlaix mewn cyfnod amseryddol penodol rai canrifoedd yn ôl gan Bebb, ac er nad yw'r gair 'myllni' yn awgrymu portread hynod bositif, nid yw Bebb yn cynnig portread negyddol o'r dref er gwaethaf 'llethdod'[632] yr haf ynddi.

Nid dyna'r unig dref a chanddi apêl hynafol i Bebb: un arall yw Kemper, y 'dref orau gennyf i yn Llydaw oll'.[633] Mae sawl rheswm ymarferol dros ei ddewis gan gynnwys amgueddfeydd da (sydd ohonynt eu hunain yn ymgorfforiadau o orffennol) a bywyd

[628] Arnold, *On The Study of Celtic Literature*, t. 2.
[629] Bebb, *Pererindodau*, t. 48.
[630] Ibid., t. 191.
[631] Ibid., t. 31.
[632] Ibid.
[633] Ibid., t. 86.

cymdeithasol bywiog.[634] Eithr y prif reswm yw awyrgylch y dref a rhyw 'swyngyfaredd'[635] a ddeillia o'i hoed a'i hynafiaeth:

> Teimlir yno atgofus hidl yn disgyn yn ddafnau o ganrifoedd pell, a'r hudoliaeth annffiniol, anghyffwrdd a berthyn yn unig i ddinasoedd hen. Y mae'r tai hynafol a'r Eglwys odidog, gweddillion rhagfuriau a'r Eglwys Rufeinaidd, yn datgan presenoldeb y canrifoedd amhresennol.[636]

Nid yw'r atyniadau eraill yn ddim o'u cymharu â'r cysylltiad amlwg sydd rhwng y dref a'i hanes a'r ffaith fod yr hanes hwnnw'n fyw ynddi o hyd. Yn wir, mae'r boblogaeth bresennol yn bobl dda a difyr, yn 'galonnog',[637] ac yn 'frawdol siaradus',[638] a hynny, ym meddwl Bebb, fel 'pe bai preswylwyr y gorffennol yn gwastadol wylio drostynt'.[639] Yn drosiadol, felly, ym marn Bebb, mae'r gorffennol i'w deimlo ym mhresenoldeb cenedlaethau a fu hyd heddiw, a dyna'r rheswm dros hynodrwydd pobl Kemper a'u hynawsrwydd wrth godi sgwrs yn hytrach nag unrhyw beth o fewn eu rheolaeth nhw fel unigolion.

Mewn modd tebyg, honna Bebb fod darn o dref arall Concarneau — la Ville Close — yn 'Hen ddinas gyfan o'r Oesoedd Canol'.[640] Fe'i cymherir â threfi eraill fel Mont St Michel am 'y modd y tywys y trefi hyn chwi i'r Oesoedd canol, a'ch plannu megis yn eu canrifoedd'.[641] Er bod Mont St Michel yn Normandi nid nepell oddi wrth Lydaw, dyma awgrymu nad yw'r gallu i gyfleu naws hynafol a chanoloesol yn unigryw i Lydaw o reidrwydd. Serch hynny, Llydaw a'i hynafiaeth hi yw'r hyn y canolbwyntia arni yn y gyfrol hon.

Rhan arall o hynafiaeth Llydaw yw ei bod yn benodol ar ei hôl hi neu heb ddatblygu i'r un graddau â Chymru o ran ei harferion a'i choelion. Wrth drafod yr arferiad o offrymu i Sant Cornély mewn eglwys wledig a'r arferiad o ddod ag anifeiliaid yno i gael eu bendithio, fe'i disgrifir fel 'hen arfer a ddaeth i lawr o ddyfnderoedd oesoedd y bore, ac a Gristioneiddir mor gyflym ag y gedy arafgarwch y Llydawyr iddo ddigwydd'.[642] Dyma nid yn unig ddarlunio arferiad fel un hynafol, paganaidd ei naws, ond hefyd bortreadu'r Llydawyr fel rhai araf i newid a datblygu wrth i'r broses o Gristoneiddio fod yn un araf. Ymhellach at hynny, pwysleisir yr hynafoliaeth unwaith eto wrth gymharu â Chymru. Nodir bod arferiad tebyg i'w

---

[634] Ibid.
[635] Ibid.
[636] Ibid.
[637] Ibid.
[638] Ibid., t. 87.
[639] Ibid.
[640] Ibid., t. 120.
[641] Ibid.
[642] Ibid., t. 153.

gael ym mhentref Llandderfel ger y Bala ond iddo ddod i ben yn 1538,[643] a bod Llydaw, felly, yn cadw arferion a ddiflannodd o'r tir yng Nghymru ers canrifoedd.

Unwaith eto hefyd, gwelir bod amaethu Llydaw yn hynafol o'i gymharu â Chymru. Wrth ymyl Capel Saint Fierce, gwêl Bebb griw yn defnyddio ffust i nithio grawn, gweithred na fu'n dyst iddi erioed ei hun cyn hynny er gwaethaf ei gefndir amaethyddol.[644] Clywodd droeon hanesion am fynd ati i ffustio gan unigolion hŷn nag ef, ond roedd oes y gwaith hwnnw wedi darfod yng Nghymru erbyn hynny ac mae hynny'n amlwg o glywed ymateb Bebb i'r rhai sydd wrthi yn Llydaw. Bron nad yw'r weithred yn afreal: 'Ymddangosai imi megis darn o gyntefigrwydd pur, yn glynu ymlaen mewn canrif nad oedd ganddi le o gwbl iddo.'[645] Gwlad lle mae'r hynafol yn 'glynu ymlaen' yw Llydaw ym meddwl Bebb, a hynny'n ystyfnig yn erbyn llif amser ar brydiau fel yn yr achos hwn. Adleisir unwaith eto farn Arnold am Gymru fel gwlad 'where the people, the genuine people, still knows this past, this tradition, this poetry, and lives with it, and clings to it'.[646]

Fel yn achos Dyfnallt, rhywbeth i'w glodfori a chwilota amdano yw'r hynafol yn Llydaw i Bebb, a rhagoriaeth sawl eglwys ac ardal yw eu bod yn hen iawn ac yn dal rhywbeth o ysbryd oes hŷn. Mae meddylfryd Bebb wedi ei drwytho yn y syniad hwn i'r fath raddau nes ei fod yn ymddiheuro nad 'henaint a hanes'[647] Carhaix sydd yn ei ddenu ati fel tref, a hynny 'yn ddigywilydd efallai',[648] yn ei farn ef, ond yn hytrach, y ffaith fod yr arweinydd diwylliannol, Taldir, yn byw yno.

Un o'r mannau sy'n rhagori o ran ei hynafiaeth yw coedwig Huelgoat, man sydd yn cael ei ramantu a'i ddisgrifio fel man eithriadol hynafol ac un y mae Bebb yn gwirioni arno. O gofio ysfa Bebb i gyrraedd y berfeddwlad er mwyn dod o hyd i'r cilfachau hynny sy'n ansathredig, mae apêl coedwig sydd heb ei 'lled-ddofi gan gryman a bwyall a chaib',[649] ond sydd, yn hytrach, 'wedi ei gadael ers canrifoedd i dyfu yn ôl ei bodd a'i mympwy',[650] yn amlwg. Mae naws ramantaidd y disgrifiadau yn amlygu hoffter amlwg Bebb o'r goedwig a phuprir y disgrifiad gan gyfeiriadaeth at 'hudoliaeth' a 'lledrith' y coed gan ei throi yn fan hudolus, goruwchnaturiol. Amlygir yr elfen hon ymhellach wrth i Bebb bwysleisio ei bod yn anfesuradwy o hynafol gan iddi feddu ar 'hynafiaeth Taliesin a Myrddin Fardd'.[651] Fe

---

[643] Ibid.
[644] Ibid., t. 128.
[645] Ibid.
[646] Arnold, *On The Study of Celtic* Literature, t. 2.
[647] Bebb, *Pererindodau*, t. 67.
[648] Ibid.
[649] Ibid., t. 59.
[650] Ibid.
[651] Ibid.

atgyfnerthir elfen hudolus y goedwig gan ei chysylltiad gyda'r unigolion hyn sydd yn gysylltiedig â hynafiaeth a chwedloniaeth eu hunain.

Caiff y goedwig effaith gorfforol ar Bebb yn ogystal ag un ysbrydol ac mae effaith hudol y coed yn taro ar unwaith: 'Pan gerddwch y cam cyntaf i'r tu mewn i'r coed a erys, disgyn yn ddisymwth gawod o gyntefigrwydd dau-ddyblig arnoch, ac rydych yn hidliad eneiniedig.'[652] Meddai'r coed ar allu adferol i buro, felly, sydd unwaith eto'n cadarnhau rhyw naws sanctaidd, arbennig. Daw'r goedwig yn ynys o fath wedi ei chau i ffwrdd oddi wrth y byd modern a'i broblemau yn ogystal:

> Dyfnderoedd o unigedd a distawrwydd llethol ydyw eich byd yma. Teimlwch fod milltiroedd a milltiroedd rhyngoch a'r briffordd, a chanrifoedd a chanrifoedd rhyngoch a'r dynion welsoch ddiwethaf.[653]

Dyma ymgorfforiad o'r 'ynys baradwys bell'[654] honno ac un sydd wedi ei gwahanu oddi wrth weddill y byd, nid yn unig gan bellter daearyddol, ond un amseryddol hefyd. Y mae'r darn hwn o Lydaw ganrifoedd lawer ar wahân i weddill y byd ac yn hynny y mae rhan o'i ragoriaeth. Fel Edwards a Dyfnallt o'i flaen ymddengys bod Llydaw yn beiriant amser i Bebb.

Mae purdeb yn hynafiaeth naturiol y 'cynfyd pell'[655] hwn ac wrth ddisgrifio cerrig o dan raeadr, mae Bebb yn nodi eu bod yn 'anllygradwy'[656] mewn awyrgylch 'mynachaidd bur',[657] gan atgyfnerthu'r darlun o le heddychlon dilychwin. Yn wir, mae'r ardal yn ehangach yn un sydd wedi cadw'r hynafol yn fyw a meddai ar 'swyn a dirgelwch'[658] fel ei gilydd. Trafoda Bebb sgwrs a gafodd gyda Llydawyr mewn gwesty yn Huelgoat a sut y bu iddi droi at Lydaw'r gorffennol. Trafodir dau frawd a oedd 'ymysg y frawdoliaeth gyntefig honno [...] yn gynteficach na neb arall'.[659] Ceir hanes a bortreadir fel un hwyliog am y ddau yn torri gwalltiau ac eillio pobl a'r ffaith fod un yn poeri ar y brwsh cyn eillio rhywun tra byddai'r llall, yn unol ag 'ergyd' hanes o'r fath, yn poeri ar wyneb rhywun a defnyddio'r brwsh wedyn.[660] Darlun llawn hiwmor yw hwn, ond mae'n enghreifftio agwedd Bebb tuag at

---

[652] Ibid.
[653] Ibid.
[654] Alun Llywelyn-Williams, *Y Nos, y Niwl a'r Ynys: Agweddau ar y Profiad Rhamantaidd yng Nghymru 1890-1914* (Caerdydd: 1960), t. 108.
[655] Bebb, *Pererindodau*, t. 60.
[656] Ibid.
[657] Ibid.
[658] Ibid., t. 63.
[659] Ibid.
[660] Ibid., tt. 63-4.

Lydaw a'i thrigolion, sef yn bennaf, y syniad bod rhai mannau a rhai unigolion yn fwy 'cyntefig' na'i gilydd ac mai byw mewn cilfachau sydd yn gyfrifol am hynny. Nid yn annisgwyl, efallai, 'yn y berfeddwlad ddyfnaf'[661] roedd y ddau frawd cynteficaf oll hyn yn byw.

Ceir portread tebyg o Bro-Wéned fel gwarchodfa yr hen fywyd a hynafiaeth, a'i natur ddiarffordd yw'r rheswm am hynny:

> Bro bellennig, gan hynny, noddfa Seintiau a beirdd a chredoau a choelion hen, yn chwilio am ddihangfa rhag eu herlidwyr o ganrif i ganrif. Gyda'i choed a'i mân fforestydd, ei chyrrau eithinog a'i llennyrch banadlog, ei cherrig y drudion, a'i meini hirion, paham na chuddiai hi drysorau o'r cynfyd, a'i atgofion am filoedd o flynyddoedd? [662]

Mae'r ffaith fod yr ardal hon o'r neilltu yn rhoi natur warchodol iddi ym meddwl Bebb, a chyflwyna'r ddadl fel y dylid cymryd hynny'n ganiataol bron. Ynddi, fel yn yr holl fannau diarffordd hynny yn y berfeddwlad, mae'r gorffennol a'i hynodrwydd eto'n fyw ym meddwl Bebb.

Drwy gydol y disgrifiadau hyn, adleisir gwaith un arall a feddai ar ddaliadau rhamantaidd am Geltigrwydd, sef T. Gwynn Jones. Mae'r dyfyniad uchod, er enghraifft, fel fersiwn rhyddiaith o un o'i gerddi chwedlonol, 'Argoed', dyweder.[663] Yn wir, mae ardal Huelgoat, yn enwedig yn ei natur gilfachaidd, hynafol, yn adleisio 'Argoed, Argoed y mannau dirgel [...]'[664] tra mae'r trafod ar 'hynafiaeth Taliesin a Myrddin Fardd'[665] yn adleisio disgrifiadau a geir yn 'Broseliawnd'[666] gan yr un bardd. Bron nad yw Bebb yn ymweld â'r 'fforest ddychymyg'[667] honno y carcharwyd Myrddin ynddi yn y gerdd honno. Gellir hefyd, o gofio'r meini hynny o dan y rhaeadr a oedd yn 'anllygradwy'[668] mewn awyrgylch 'mynachaidd bur',[669] gofio am 'grisial lendid'[670] y fforest hudol. Wrth drafod y gerdd, noda Derec Llwyd Morgan fod bodolaeth Broseliawnd yn 'ateb i chwant seicolegol am greadigaeth berffaith hardd y gall [Myrddin] ymhyfrydu ynddi er ei mwyn ei hun'.[671] Dichon fod Bebb yn ei ffordd

---

[661] Ibid., t. 63.
[662] Ibid., t. 148.
[663] T. Gwynn Jones, *Caniadau* (Abertawe: 1978), tt. 105-13.
[664] Ibid, t. 105.
[665] Bebb, *Pererindodau*, t. 59.
[666] Jones, *Caniadau*, t. 75.
[667] Ibid.
[668] Bebb, Pererindodau, t. 60.
[669] Ibid.
[670] Jones, *Caniadau*, t. 78.
[671] Derec Llwyd Morgan 'Broseliawnd', yn Branwen Jarvis (gol.) *Trafod Cerddi* (Caerdydd: 1985), t. 42.

ei hun yn mynd ati mewn modd tebyg, nid yn unig drwy ddelfrydu'r goedwig hynafol ond Llydaw ar ei hyd.

Nid yw Llydaw yn wlad hynafol drwyddi draw, serch hynny, a chyfeirir mwy nag unwaith at ddatblygiad yn y wlad, a hynny'n aml ar ffurf gwaith adeiladu. Dafliad carreg o ardal hynafol ac oesol Huelgoat, ceir pentref ac ynddo 'adeiladu diweddar wedi bod',[672] ac er cymaint ei hoffter o'r hynafol a'r ansathredig, mae Bebb yn cymryd at y tai newydd:

> Gwelwn grynswth o dai newydd yn ymestyn o'r pentref i'm cyfarfod, os nad i'm croesawu. Yr oedd wynebau gwyngalchog ganddynt a'u safiad godiad tir yn annibynnol a balch. 'Dyma le bach pert a hoffus,' meddent wrthyf yn un côr, heb imi brin ymglywed â'r lle.[673]

Cawsai Bebb argraff gyntaf dra ffafriol ohonynt ac ni cheir unrhyw awgrym fod y tai newydd hyn yn difetha awyrgylch yr ardal neu ddim yn gweddu iddi. Ymddengys, felly, fod lle i'r newydd yn Llydaw Bebb, hyd yn oed ochr yn ochr â'r hynafol, er mai bychan ydyw o'i gymharu. Mae tai ardal Carantec yn newydd hefyd, a'r rheiny 'yn daclus fel pin mewn papur'[674] tra mae rhai ar y ffordd i Roscoff yn 'hanner plasau bach digon o ryfeddod'.[675] Er mai eithriadau yw'r cyfeiriadau hyn, maent yn rhoi darlun mwy amrywiol o Lydaw na disgrifiad ohoni fel gwlad hynafol yn unig. Nid oes sicrwydd pam yr aeth Bebb ati i'w disgrifio ond dichon bod natur ganmoliaethus y disgrifiadau yn awgrymu mai cynnig golwg ffafriol o Lydaw, waeth fodern neu hynafol, oedd yn rhannol gyfrifol am hyn.

Yn y rhamantu hynafoliaeth a chanmol modernrwydd yma, ceir un o agweddau mwyaf diddorol y gyfrol gan ei bod, fel Bebb ei hun, yn llawn deuoliaethau. Cyfrol o ddeuoliaethau yw *Pererindodau.* Ceir y rheiny'n fynych ynddi, boed hynny o ran modernrwydd a hynafiaeth, yr ymdriniaeth â chrefydd a chenhadu, neu le Llydaw yn y byd. Er bod y safbwyntiau hyn, ac yn wir, y portread o Lydaw ei hun yn ymddangos yn wrthgyferbyniol ar brydiau, daw'n haws gwerthfawrogi'r deuoliaethau hyn wrth gofio'r rhychwant amser a geir yn y gyfrol. Ceir ynddi, am iddi gael ei chasglu ynghyd dros flynyddoedd, le i farn addasu a newid ac i ddealltwriaeth ddatblygu, ac nid asiwyd pob agwedd wrth olygu a chyhoeddi. Nid gwrth-ddweud a wna Bebb ynddi o reidrwydd, felly, ond cynnig rhychwant eang o farn a ddatblygodd wrth i'w safbwyntiau newid ac wrth iddo yntau ddatblygu fel unigolyn. Ceir,

[672] Ibid., t. 61.
[673] Ibid.
[674] Ibid., t. 5.
[675] Ibid., t. 21.

felly, gofnodion gan y 'teithiwr ifanc, rhamantaidd, llawn sgwrs a rhyfeddod',[676] chwedl Lloyd, a chan un sydd wedi aeddfedu rhyw gymaint.

Mae rhai anghysonderau eraill fel ei gariad at Lydaw a'i weithredu gwleidyddol a'i Ffrancoffilia yn anos i'w hesbonio gan y rhychwant amser hwn, yn enwedig gan i Taldir gwestiynu y safbwynt ymddangosiadol wrthgyferbyniol hwnnw wedi iddo ymweld ag ef.[677] Y dryswch hwn a'r ffaith na allai Taldir a'r Llydawyr eraill 'ddeall safbwynt Bebb o gwbl'[678] a barodd iddo gyhuddo Bebb o weithredu ar ran llywodraeth Ffrainc i geisio cywain gwybodaeth am fudiadau cenedlaetholgar Llydaw, fel ysbïwr i bob pwrpas.[679] Ni welai Bebb ei hun ddim yn wrthgyferbyniol rhwng mynnu rhyddid i Lydaw ar y naill llaw a chanmol Ffrainc ar y llall.[680] Yn ogystal â chyhuddiad Taldir, fe'i cyhuddwyd mewn modd tebyg gan Olier Mordel (cenedlaetholwr Llydewig a gydweithiodd gyda'r Natsïaid) mewn erthygl yng nghylchgrawn *Dépêche* wedi cyhoeddi *Dyddlyfr Pythefnos.*[681] Credir i'r gyfrol gael ei defnyddio yn hwyrach fel tystiolaeth yn erbyn unigolion fel yr athro Joachim Darsel yn ystod y cyfnod o erlid wedi'r rhyfel,[682] y cyfnod hwnnw y bu Dyfnallt mor llafar yn ei gylch. Ymddengys, serch hynny, mai naïfrwydd ar ran Bebb oedd yn gyfrifol am y cyhuddiadau hyn yn hytrach nag unrhyw weithredu bwriadol ar ran llywodraeth Ffrainc,[683] ac nad oedd wedi llawn ystyried oblygiadau cyhoeddi enwau unigolion a'u cysylltiadau gydag amryfal fudiadau cenedlaetholgar yng nghyd-destun amheuaeth ac erlidgarwch y blynyddoedd wedi'r rhyfel.

Er cymaint ei arbenigedd ymddangosiadol, felly, ymddengys mai ffigwr ar y tu allan oedd Bebb ym meddwl rhai o ffigyrau mwyaf blaenllaw Llydaw. Gwelwyd hefyd iddo, fel yr awduron blaenorol, gael ei dynnu at ramantu a chamddehongli a chyffredinoli er gwaethaf ei agosrwydd ati fel gwlad a'i phobl a'i wybodaeth drylwyr o'i hiaith. Mae Chapman yn crisialu ei agwedd fel a ganlyn:

> Mae'r syniad o fod yn deithiwr mewn amser yn ogystal ag mewn lle, o fod yn fath o ofodwr anthropolegol, yn allwedd i ddeall tyndra rhwng edmygedd ac eironi sy'n lliwio agwedd Bebb tuag at y wlad. Drych o Gymru ei obeithion a'i ofnau yw Llydaw. Gweld gorffennol Cymru ynddi y mae pe cadwasai ei chrefydd gysefin, a'i dyfodol os na hidiai am ei hiaith.[684]

[676] Lloyd, 'Taldir a Bebb', t. 203.
[677] Ibid., t. 205.
[678] Ibid.
[679] Ibid., t. 205.
[680] Chapman, *W. Ambrose Bebb*, t. 91.
[681] Ibid., t. 153.
[682] Ibid., t. 154.
[683] Ibid., t. 152.
[684] Ibid., t. 90.

Eironig ddigon yw i Bebb bellhau oddi wrth Lydaw yn ddiweddarach yn ei oes, am nad oedd modd iddi foddhau'r darlun a greodd ohoni mewn modd tebyg i Edwards, er cymaint ei wrthwynebiad i ymdriniaeth Edwards ohoni. Noda Chapman mai 'diffyg amynedd â gwlad na fynnai ymdebygu i'r delfryd ohoni a goleddai'[685] a fu'n gyfrifol am gefnu arni. Erbyn 1947, yn dilyn anghydfod y rhyfel ac erlid rhai o'i gyfeillion gan gyfeillion eraill a chymhlethdod hynny, mennwyd ar y darlun paradwysaidd o'r wlad a goleddai Bebb. 'Ni fodolai Llydaw *Pererindodau* bellach',[686] yn ôl Chapman. Eithr a fodolai o gwbl? Ynteu ai gwlad wneud oedd Llydaw Bebb er gwaethaf ei wybodaeth amdani a'i adnabyddiaeth ohoni? Fe'i rhamantwyd ganddo, cyffredinolwyd ei thrigolion, a defnyddiwyd ystrydebau Celtaidd cyfarwydd i'w disgrifio. Gosododd ei hun yn arbenigwr arni ac yn dywysydd, er nad oedd, yn ôl un o'i thrigolion blaenllaw, gyda'i glust mor agos at y ddaear ag yr honnai. Er bod ei ddarlun yn fwy pleidiol nag un Edwards ac yn cynnig rhychwant ehangach o brofiad nag un Dyfnallt, y mae'n un sydd wedi ei siapio gan ei awdur fel eu cyfrolau hwythau.

At hynny, a fodolai Llydaw *Tro yn Llydaw* ac *O Ben Tir Llydaw* mewn unrhyw le heblaw rhwng cloriau'r dywededig gyfrolau? Y mae'r tri awdur yn euog i wahanol raddau o ddarlunio'r wlad yn eu delw eu hunain gan ganolbwyntio ar yr hyn sydd yn mynd â'u bryd. Er mai Edwards yw'r mwyaf echblyg yn hynny o beth, ni ddylid anghofio bod Dyfnallt a Bebb hefyd wedi mynd ati mewn modd tebyg. Darlun allanol wedi ei fwydo gan gefndir diwylliannol Cymreig a syniadau Arnoldaidd o Geltigrwydd a geir yn y portreadau oll, dim ond fod rhai yn gleniach na'i gilydd. Darlun anghyflawn a bortreadwyd ganddynt, ond mae hynny'n rhannol am mai darlun anghyflawn a gawsant i ddechrau arni fel y twristiaid hynny yn y nofel *O'r Harbwr Gwag i'r Cefnfor Gwyn* a drafodwyd ar ddechrau'r thesis hwn. Wrth i'r ganrif fynd rhagddi ac wrth i'r astudiaeth hon droi ei golygon at Iwerddon, gwelwn fod hwn yn dueddiad a fydd yn dal ei afael.

[685] Ibid., t. 156.
[686] Ibid.

# PENNOD 3

## Iwerddon

*Tro yn Iwerddon*

*Myfi Williams*

Cyflwyno Iwerddon fel gwlad ddieithr a wneir yn *Tro yn Iwerddon*, a gyhoeddwyd yn 1964. Cymer Myfi Williams mai bychan yw dealltwriaeth ei darllenwyr o'r wlad a'i hanes gan iddi hithau hefyd fod yn anghyfarwydd â'r wlad. Serch hynny, cafwyd diddordeb nodedig a thrafod cyson am Iwerddon yn ystod yr ugeinfed ganrif yng Nghymru. Yn wir, bu cymaint o drafod arni fel nad oedd rhaid i unigolion tebyg i John Dyfnallt Owen neu W. Ambrose Bebb fwrw iddi'n benodol i dynnu sylw'r cyhoedd ati fel yn achos Llydaw, ac er nad oedd Iwerddon yn cynnig yr un atyniad rhamantaidd ag oedd gan Lydaw, roedd ganddi ei hapêl. Un rheswm am leihad yr apêl oedd bod agosrwydd daearyddol Iwerddon yn ddigon i leihau'r elfen led-gyfriniol oedd yn nodweddu'r disgẃrs am Lydaw. At ei gilydd, roedd y sylw i'r wlad yn fwy difrifol o gofio sefyllfa wleidyddol Iwerddon gyda thrafodaeth gyson am hanes y gwrthryfel yn negawdau cynnar y ganrif (nad oes gofod i'w harchwilio yn yr astudiaeth bresennol). Crybwyllwyd eisoes fod bri ar sefyllfa wleidyddol Iwerddon mewn trafodaethau yng Nghymru a'r wlad yn cael ei gweld fel ceffyl blaen. Y ddadl fawr oedd sut y byddai'r modd gorau i efelychu llwyddiant y Gwyddelod, ac a oedd gan y Cymry, yn eu hanfod, yr un anian wrthryfelgar. Fel y gwelir yn y bennod hon, treiddiodd ystrydebau o'r fath i'r naratif ysgrifennu taith wrth i natur 'wyllt' y Gwyddel a natur 'oddefol' y Cymro ennyn trafodaeth, yn enwedig mewn cyd-destun gwleidyddol gan Williams ac eraill.

Cafodd syniadau o'r fath ddylanwad pellach na hynny hefyd wrth gwrs. Bu'r sefyllfa wleidyddol yn Iwerddon yn ddylanwadol ar wleidyddiaeth Cymru hefyd ac yn benodol felly yn achos sefydlu y Blaid Genedlaethol yng Nghymru. Roedd Evan Alwyn Owen, un a ellir ei ystyried yn sylfaenydd Plaid Genedlaethol Cymru yn anad neb arall yn ôl Richard Wyn Jones,[687] yn nodi y gallai'r mudiad ddysgu llawer gan y Gwyddelod a Sinn Féinn yn benodol, er enghraifft.[688] Yr oedd H. R. Jones, unigolyn blaenllaw arall, yntau'n bleidiol a gwelodd genedlaetholdeb fwy milwriaethus y genhedlaeth newydd yng Nghymru a 'Sinn Féinn-iaeth' o'r fath yn 'ddeunydd crai tan gamp ar gyfer y Blaid Genedlaethol.'[689]

Fel gwlad roedd gan Iwerddon, felly, le amlycach yn ymwybyddiaeth y Cymry eisoes. Cafodd Iwerddon fwy o sylw na Llydaw yn y wasg,[690] ac nid yw'n syndod fod gwlad y gellir

---

[687] Richard Wyn Jones, *Rhoi Cymru'n Gyntaf: Syniadaeth Plaid Cymru* (Caerdydd: 2007), t. 58.
[688] Ibid., t. 60.
[689] Ibid., tt. 61-2.
[690] Crybwyllir Iwerddon yn amlach mewn papurau newydd na Llydaw, er enghraifft. Gan ddefnyddio enw'r ddwy wlad fel chwilotair ar wefan *Papurau Newydd Cymru* <https://papuraunewydd.llyfrgell.cymru/home>,

ei gweld o Gymru ar ddiwrnod clir yn un a oedd yn fwy cyfarwydd i'w thrigolion. Bu hir ymwneud erioed rhwng y Gwyddelod a'r Cymry, ac oherwydd agosrwydd daearyddol a llwybrau teithio datblygedig dros fôr roedd yn llawn haws teithio o Gymru i Iwerddon nag i Lydaw. Yn ddiweddarach, gyda thwf cenedlaetholdeb diwylliannol modern yn ail hanner yr ugeinfed ganrif, daw'r cysylltiad daearyddol agos hwn yn fodd i anwylo'r ynys yn ei hawl ei hun (gyda chyfrol megis un Ioan Roberts yn meddu'r teitl cartrefol, *Pobol Drws Nesa*[691]). Mae hon yn wedd arall ar y cyfeillgarwch Celtaidd, gydag agosrwydd daearyddol yn hytrach nag un ethnig tybiedig yn magu cysylltiad.

Yng ngoleuni natur llenyddiaeth teithio a'r galw am gyflwyno'r dieithr,[692] byddai modd dadlau, felly, fod deuoliaeth wrth gyflwyno gwlad fwy cyfarwydd fel Iwerddon i'r Cymry. Er hynny, fel y noda Thompson yn y bennod gyntaf, nid oes dim sy'n gwbl ddieithr. Felly, mae lle i ymgodymu rhwng y cyfarwydd a'r anghyfarwydd ym mhob enghraifft o ysgrifennu taith, a cheir enghreifftiau niferus o deithwyr yn ysgrifennu am eu gwlad eu hunain. Dyna a wneir gan Williams wrth iddi gyflwyno gwlad sydd yn ddieithr iddi a'i theulu ond mae ganddi hefyd stôr o ymchwil amdani. Fel y gwelwyd eisoes yn y traethawd hwn, gall ysgrifennwr taith gyflwyno darlun gwahanol i'r un derbyniedig neu danseilio'r consensws cyhoeddus a gwneud ymgais i ddod o hyd i'r profiad a'r bobl 'go iawn' — y werin a'r llefydd diarffordd hynny na ŵyr y darllenydd ddim yn eu cylch. Os trafodwyd y wleidyddiaeth yn y wasg, gallai'r teithiwr drafod y bobl ac effaith y wleidyddiaeth honno. Os trafodwyd mannau penodol eisoes, yna gellid eu darganfod o'r newydd neu fynd i gilfachau dieithrach. Gwelwyd mai ysfa debyg a lywiodd beth o'r ysgrifennu teithio am Lydaw, er ei dieithrwch, gyda Bebb a Dyfnallt yn mynd i'r mannau diarffordd hynny er mwyn darganfod 'gwirionedd' Llydaw a'i thrigolion. Fel Llydaw, roedd gan Iwerddon ei hiaith a'i diwylliant ei hun. Meddai ar hunaniaeth bendant. A pharhaodd ei hatyniadau i'r Cymry er gwaethaf ei hagosrwydd. Gwyddai Williams, yn sicr, am yr atyniad hwnnw, ac yn wir, fe'i profodd ei hun.

Daeth y gyfrol hon yn agos at y brig yng nghystadleuaeth y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Llandudno a'r Cylch yn 1963.[693] Rhoddwyd y wobr y flwyddyn honno am lyfr taith, a chafwyd wyth ymgais. Er mai cymharol siomedig oedd y beirniaid â'r safon at ei gilydd, mae'n amlwg o ddarllen eu beirniadaeth fod yna ymwybyddiaeth newydd o'r *genre* yng

---

cafwyd nifer uwch o ganlyniadau am 'Iwerddon' na 'Llydaw' — *Y Darian* (1914-1919) 379/75; *Y Cymro* (1890-1919) 961/169; *Yr Herald Cymraeg* (1897-1919) 771/154, cyrchwyd 12 Awst 2020.

691 Ioan Roberts, *Pobol Drws Nesa [:] Taith Fusneslyd Drwy Iwerddon* (Llanrwst: 2008).

692 Carl Thompson, *Travel Writing: the New Critical Idiom* (Abingdon: 2011), t. 9.

693 William Morris (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Llandudno a'r Cylch 1963* (Llandysul, 1963), t 109-118.

Nghymru a pheth parodrwydd ymysg awduron i fentro iddo. Nodwyd gan T. Ifor Rees, er enghraifft, ei bod yn 'gystadleuaeth dda [...] ceir yma o leiaf bedwar o lyfrau y byddai'n dda gweld eu cyhoeddi'.[694]

Er bod y beirniaid yn ymwybodol o ofynion y *genre*,[695] nododd un ohonynt, T. I. Ellis, ei fod yn ansicr beth fyddai'n gwahaniaethu llyfr taith a llyfr crwydro.[696] Cyfeiriodd at waith O. M. Edwards ac R. T. Jenkins gan benderfynu mai cyfrol Jenkins, *Casglu Ffyrdd*, fyddai ei batrwm wrth feirniadu. Cyfrol gymharol ysgafn yw honno, casgliad o ysgrifau a myfyrdodau'r awdur a gyhoeddwyd neu a ddarlledwyd ganddo rhwng 1932 a 1955.[697] Teithio o gwmpas Cymru a wnaed a hynny ar droed neu mewn modur ac, wrth deithio, rhanna Jenkins straeon a hanesion lleol. Mae ei ysgrifennu'n cynnwys rhamantu achlysurol ynghyd â hoffter o'r hynafol wrth gymharu â'r modern. Dyma briodoleddau sydd yn nodweddu'r *genre* at ei gilydd yn Nghymru ac nid cyd-ddigwyddiad yw i Jenkins nodi bod teithlyfrau O. M. Edwards wedi bod yn ddylanwad arno wrth fynd ati i lunio'r ysgrifau a geir yn *Casglu Ffyrdd* a chyfrolau eraill o'i eiddo. Dywed, er enghraifft, iddo ddarllen *Tro trwy'r Gogledd* ddengwaith a'i fod yn gwneud hynny mewn 'edmygedd anobeithiol'.[698] Ei ddymuniad, noda, yw gallu ysgrifennu gyda'r un 'cyffyrddiad hudolus'[699] ag a oedd gan Edwards. Gwelir, felly, bod gan O. M. Edwards, trwy waith R. T. Jenkins, ddylanwad anuniongyrchol ar y *genre* ysgrifennu taith drwy gyfrwng y Gymraeg hyd at y 1960au.

Nodir gan Ellis fod cynnig Williams i'r gystadleuaeth (o dan y ffugenw Una) yn torri tir newydd.[700] Er nad ydyw'n ymhelaethu'n benodol ar y rhesymau dros ddatgan hynny gellid casglu oddi wrth weddill ei feirniadaeth, ac o ddarllen *Tro yn Iwerddon*, nad o ran ei ffurf na'i diwyg yr oedd hynny. Canmola Ellis geisiadau a fentrai i wledydd anghyfarwydd drwy gyfrwng y Gymraeg — dywed, wrth drafod teithlyfr am Wlad Pwyl: 'Gwych o beth fyddai cael llyfrau yn Gymraeg ar wahanol wledydd Ewrop'.[701] Cesglir mai'r pwnc a'r ymdriniaeth oedd yn newydd yn ei olwg ef; chwilio am newydd-deb testun yr oedd Ellis, felly, ac fe'i cafodd yng nghofnod Williams — gwlad yr oedd diffyg trafod arni i bob golwg ar ffurf teithlyfr.

---

[694] T. Ifor Rees, 'Beirniadaeth Cystadleuaeth y Fedal Ryddiaith', yn Morris (gol.) *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Llandudno a'r Cylch 1963*, t. 118.
[695] T. I. Ellis 'Beirniadaeth Cystadleuaeth y Fedal Ryddiaith', yn Morris (gol.) *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Llandudno a'r Cylch* 1963, t. 109.
[696] Ibid.
[697] R. T. Jenkins, *Casglu Ffyrdd* (Wrecsam: 1956).
[698] Ibid., t. 10.
[699] Ibid.
[700] Ellis yn Morris (gol.) *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Llandudno a'r Cylch 1963* t. 111.
[701] Ibid.

Casglwyd gan Frank Price Jones y dylid cyhoeddi'r gyfrol,[702] a galwodd Williams yn 'llenores o gryn fedr',[703] am iddi lwyddo i gadw'r cydbwysedd rhwng hanes y teulu a hanes y daith a'r wlad. Un feirniadaeth a nododd yw'r arferiad sydd gan Williams o gynnwys hanesion neu esboniad mewn sgwrs: '[...] y mae tuedd, ambell dro, i'w defnydd o sgwrs rhyngddi hi neu ei gŵr, a'r plant, er mwyn trosglwyddo gwybodaeth i'r darllenydd, swnio'n debyg i rai o "raglenni ysgolion" salaf y BBC'.[704] Ceir enghreifftiau niferus o'r arferiad hwn yn y gyfrol yn sicr. Dyma un sydd yn dilyn y patrwm arferol wrth i'r teulu drafod Sant Enna:

> 'Fe fu Ffinian yn un o ddisgyblion Enna ar yr ynys hon,' meddai fy ngŵr.
> 'Hwnnw welsom ni ddoe?' gofynnodd Arwel, fel petaem wedi bod yn sgwrsio ag ef.
> 'Tutor of Ireland's saints,' meddai Gwynn.
> 'Ie, hwnnw,' ebe eu tad, 'hwyrach yn wir mai Enna ddylai gael y teitl. Fe fu ugeiniau o "seintiau" yma'n dysgu a myfyrio tano, a dychwelyd wedyn i'r tir mawr i genhadu a sefydlu mynachlogydd. Fel rheol, deuent yn ôl i derfynu eu hoes yn nhangnefedd yr ynys, ac yma y cleddid hwy.'
> ''R un fath ag Ynys Enlli,' meddai Gwynn,
> " Mae yno ugain mil o saint
> Ym mraint y môr a'i genlli."' [705]

Dyfais greadigol yw hon i dorri ar lif y naratif ac i gynnig gwybodaeth mewn ffurf wahanol. Creadigaeth dechnegol yw'r sgyrsiau — ac mae elfennau ffuglennol o'r fath yn gyffredin mewn ysgrifennu taith. Nid yw'r defnydd ohonynt, o ran egwyddor, yn broblematig, er eu bod, yn yr achos hwn, yn fynych fel y nododd Jones. Mae technegau o'r fath yn hanfodol rhag i'r naratif fynd yn undonog ac yn fodd o hwyluso rhannu gwybodaeth â'r darllenydd.

Cynigodd Fussell fod naratif pob llyfr taith o'i hanfod yn ffuglenoli:

> The ancient geographer Strabo was convinced that anyone telling about his travels must be a liar, and in a sense he was right, for if a traveller doesn't visit his narrative with the spirit and techniques of fiction, no one will want to hear it.[706]

Serch hynny, yn ei feirniadaeth eisteddfodol ar gyfrol Myfi Williams, mae Ellis yn nodi — gyda pheth dilysrwydd — bod *Tro yn Iwerddon* yn ymbellhau oddi wrth hanfod llyfr taith ar brydiau: 'Weithiau y mae'r gwaith yn tueddu i fynd yn llyfr hanes yn hytrach na llyfr

---

[702] Frank Price Jones, 'Beirniadaeth Cystadleuaeth y Fedal Ryddiaith', yn Morris (gol.) *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Llandudno a'r Cylch* 1963, t. 116.
[703] Ibid., t. 115.
[704] Ibid., t. 116.
[705] Myfi Williams, *Tro yn Iwerddon* (Caernarfon: 1964), t. 62.
[706] Paul Fussell, *The Norton Book of Travel* (Ontario: 1987), t. 16.

taith.'[707] Noda mai gwell yw peidio â beichio'r darllenydd gyda gormod o fanylion hanesyddol. Mae rhannu hanes ardal a gwlad yn rhan hanfodol bwysig o lyfr taith ond mae angen i'r gwaith fod yn haelaethach na hynny, a hyd yn oed wedi i'r gyfrol hon dderbyn beirniadaeth yn yr Eisteddfod ac iddi fynd drwy broses olygyddol, mennir ar y cofnod o'r daith gan ysfa Williams i ddangos ei gwaith ymchwil. Yn hytrach na dangos sut y gallai'r cyd-destun hanesyddol fod wedi effeithio ar ganfyddiad y teulu o ardal, a thrwy hynny, newid eu profiad, caiff profiad ei ddefnyddio fel sylfaen i druth hanesyddol.

Serch hynny, fel y nododd Ellis, nid oes perygl camgymryd *Tro yn Iwerddon* am ddim ond llyfr taith o'i ystyried yn ei grynswth. Trewir unwaith eto ar y ddeuoliaeth a drafodwyd mewn pennod flaenorol, gyda'r awdur yn brwydro i ddangos arbenigedd gwlad a thrwy hynny ddilysrwydd ei naratif, ond hefyd ei dilysrwydd fel teithiwr a newydd-ddyfodiad i'r wlad honno. Yn yr achos hwn, newydd-ddyfodiad addysgedig yw'r awdur, rhywun sy'n ddieithr i'r wlad ac eto wedi ymchwilio'n fanwl iddi cyn ei chyrraedd. Rhydd hyn gydbwysedd i Williams wrth iddi allu traethu am nodweddion Iwerddon o safbwynt deallusol, ond gan ddangos ei bod yn eu profi am y tro cyntaf hefyd.

Drwy adleisio teitlau cyfrolau enwog O. M. Edwards ('Tro yn ...'), mae Williams yn ymwybodol o'i lle yn nghanon ysgrifennu teithio Cymraeg ac yn ei gosod ei hun ynddo yn hyderus. O dan y teitl hwn y cyflwynwyd y gwaith i gystadleuaeth y Fedal Ryddiaith yn 1963,[708] sy'n dangos bod bwriad o'r cychwyn cyntaf i efelychu Edwards ac nad o dan awgrym golygydd neu wasg y gwnaethpwyd hynny. Er nad yw Williams yn cyfeirio'n uniongyrchol at Edwards fel dylanwad neu ysbrydoliaeth, wrth bennu ei theitl, mae'n dangos ymwybyddiaeth ohono a'i ddylanwad ar y *genre* yng Nghymru. Yn ei dro, bwyda hyn ddisgwyliadau penodol ym meddwl darpar ddarllenwyr — yn llinach anrhydeddus ysgrifennwr taith safonol a gododd gwr y llen ar wledydd dieithr ddegawdau ynghynt.

Un o'r disgwyliadau hynny fyddai trafodaeth ar grefydd. Fel Llydaw, gwlad Gatholig oedd Iwerddon ac i Gymry'r 1960au, byddai'r elfen hon wedi parhau yn elfen gymharol ddieithriol. Teg nodi y cyhoeddwyd *Tro yn Iwerddon* gan Lyfrfa'r Methodistiaid Calfinaidd ac mae un o'r teithwyr yn y naratif, gŵr Williams, yn weinidog. Ychwanega hyn oll at y modd yr ymagweddir at grefydd yn y gyfrol. Cynnyrch Protestannaidd ydyw, ac fel *Tro yn Llydaw*, mae cefndir Methodistaidd cryf iddi. Mae'n anochel fod cefndir crefyddol a diwylliannol Williams yn effeithio ar ei chanfyddiad a'i phortread o Iwerddon, ac mae'n

---

[707] Ellis yn Morris (gol.) *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Llandudno a'r Cylch 1963*, t. 111.
[708] Jones yn Morris (gol.) *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Llandudno a'r Cylch* 1963, t. 115.

crybwyll a thrafod crefydd y Gwyddelod yn aml er nad yw ei hagwedd at Gatholigiaeth a Chatholigion mor eithafol ag un Edwards yn Llydaw. Ceir portread llawer mwy amlhaenog gyda natur Gatholig Iwerddon yn cael ei derbyn fel ffaith yn hytrach nag fel nodwedd y gellid, ac y dylid, ei newid.

Ar brydiau, mae'r ymdriniaeth un yn ysgafn a hynny, yn rhannol, am mai drwy lygaid y plant ar y daith y gwneir arsylwadau am yr 'arall' Catholig. Mae'r arferiad Catholig o gyfeirio at offeiriad fel 'Father' yn destun dryswch iddynt, er enghraifft, ac mae peth hiwmor yn codi o hynny. Mewn gorsaf betrol, mae dyn mewn oed yn codi tanwydd i offeiriad ifanc a'r plant yn gwrando ar eu sgwrs: 'Ew, lle rhyfedd ydi 'Werddon 'ma. Hen ddyn yn dweud "Father" wrth ddyn ifanc!' Rhyfedd yn ddiau i hogyn nawmlwydd o Fethodist Calfiniadd o Gymru.[709]

Amlygir y gagendor crefyddol rhwng y ddwy wlad yma ac mae'r hiwmor yn fodd i nodi'r gwahaniaeth hwnnw a'r dieithrwch diwylliannol a gyfyd yn sgil hynny, ond heb ei feirniadu a'i ddilorni. Er bod y dieithrwch yn amlwg i'r plant ac i'r darllenydd, a bod ei drafod yn y fath fodd yn ei amlygu, mae nodi mai plant sy'n gweld yr arferiad yn rhyfedd yn fodd i Williams fod yn fwy agored i'r aralledd hwn ac yn fwy goddefgar ohono.

At ei gilydd, mae goddefgarwch tebyg yn nodweddu trafodaeth Williams o enghreifftiau eraill o barch Gwyddelod Catholig tuag at offeiriaid; lle byddai Edwards yn ddamniol o'u gwaseidd-dra, mae Williams yn derbyn y sefyllfa heb feirniadu. Profa'r teulu sawl enghraifft o'r parch hwn gan fod coler gron gŵr Williams yn ddigon i gamarwain y Gwyddelod a gwneud iddynt feddwl ei fod yntau'n offeiriad: 'Cawsom ddigon o enghreifftiau yn ystod ein taith o barch y Gwyddyl i offeiriaid'.[710] Caiff ei bortreadu un ai mewn dull ysgafn unwaith eto neu heb feirniadaeth. Daw'r ffafriaeth yn dra defnyddiol wrth fynd heibio swyddogion tollau yn rhwydd:

> Pan welodd un o swyddogion y tollau goler gron fy ngŵr, gofynnodd pa nifer ohonom a berthynai i "barti'r Tad". Codasom ninnau ein llaw, y pump ohonom, a chyn pen dim yr oeddym oll yn ei gwneud hi am y trên[...][711]

Ceir profiad tebyg wrth i'r teulu gael tanwydd i'r car yn ddidrafferth pan fo'r orsaf yn brysur wrth i un o'r staff yno frysio i helpu: '"Dad parchedig" ebe hithau'n fwyn,

[709] Ibid., t. 14.
[710] Ibid.
[711] Ibid., t. 10.

"'fuaswn i byth yn eich cadw **chi** [pwyslais yr awdur] i aros."'[712] Daw arwydd o fethiant moesol yng ngolwg awduron fel Edwards yn nodwedd fanteisiol i Williams ac nid yw'n ei gondemnio.

Serch hynny, gwelir elfen o rwystredigaeth yn Williams a hynny wrth i drigolion tlotach yr ynys ofyn ar lafar am gardod droeon ganddynt. Wrth drafod y ceisiadau hynny, noda Williams:

> Fe'i clywsom yn Galway, ar Inis Mor, yn Castlebar a Sligo a Carrick-on-Shannon—ym mhobman, yn ddrych o grefyddolder y Gwyddel a'i barch cynhenid i'r Eglwys. Y drwg oedd fod cais calonrwygol am elusen yn dod weithiau yn ei sgîl, yn enwedig tua'r gorllewin. "Ceiniog neu ddwy i brynu bara," bob tro'r un fath. [713]

Er bod yr ansoddair 'calonrwygol' yn dangos empathi Williams ac yn lleihau unrhyw wedd feirniadol ar yr agwedd hon ar ymddygiad y Gwyddelod Catholig, mae'n amlwg fod y cardota'n flinderus iddi. Cawn ein hatgoffa o naratif Edwards am y Catholigion difreintiedig, tlodaidd a oedd angen cymorth allanol, Protestannaidd. Unwaith eto, portreadir y Cymry Anghydffurfiol fel achubwyr, neu'n hytrach, fel rhai sydd â'r gallu i achub trigolion difreintiedig, Catholig. Mae'n werth nodi, serch hynny, mai apelio at unigolion sydd, yn eu tyb hwy, yn Gatholigion, a wna'r cardotwyr hefyd. Mae'r ffaith y nodir bod yr unigolion hyn yn gofyn am gardod gan rywun sydd yn ymddangosiadol yn offeiriad yn awgrymu nad yw Williams yn dehongli hyn yn nhermau Catholigiaeth yn erbyn Protestaniaeth.

Cyflwyna Williams y cardota hwn fel rhywbeth cyffredin, a cheir pwyslais yn hyn o beth ar y gorllewin, yn enwedig, gan gyflwyno'r tlodi fel un sydd yn gynrychioliadol o ardal eang. Ond yn sicr, cydymdeimlo, nid condemnio, a wneir, ac ni cheir disgrifiadau helaeth o dlodi yn y gyfrol. Deillio o ymateb personol, wedi ei seilio ar brofiad, yn hytrach nag un moesol, wedi ei seilio ar ragfarn, y mae argraffiadau anffafriol Williams, ac nid yw'r wedd syniadaethol yn peri ymateb gwrthwynebus fel yn achos Edwards.

Er bod ymdriniaeth Williams â chrefydd yn fwy cytbwys nag eiddo'r rhagflaenydd, felly, mae'r arallu ar y Catholigion yn dal yn bresennol yn y gyfrol hon. Ymddengys bod y parch at yr Eglwys ac at grefydd fel rhan gynhenid o gyfansoddiad Catholigion, yn rhan o'i naratif hefyd yn sicr. Adleisir naratif ysgrifenwyr taith yn Llydaw o briodoleddau cynhenid Lydewig neu Gatholig. Gellid dadlau y deillia hyn o'r gred fod rhai nodweddion yn gynhenid i

---

[712] Ibid., t. 85.
[713] Ibid., t. 14.

bobloedd benodol, ymdriniaeth sydd dan gysgod imperialaeth ac un sy'n ein hatgoffa o'r cysyniad Arnoldaidd o nodweddion yr 'hil Geltaidd', fel y trafodwyd eisoes. Defnyddir y gair 'cynhenid', er enghraifft, yn y dyfyniad uchod; nid rhywbeth a ddatblygir gan gefndir ac amgylchfyd penodol yw'r parch at yr Eglwys, felly. Mae naratif o'r fath yn atgyfnerthu ystrydebau ac yn gosod gwlad o bobl ar silff yn llawn rhy daclus. Er nad yw Catholigion Iwerddon o dan law Williams yn 'bechaduriaid' neu'n ffaeledig fel rhai Edwards yn Llydaw, mae cyneddfau elfennol yn rhan o'u gwneuthuriad o hyd a'r rheiny wedi eu seilio ar ffydd wahanol i eiddo'r Cymry.

Aiff y cyffredinoli hwn ymhellach yn naratif Williams; wrth ddarllen, gwelir nad nodweddion pobl fel unigolion sydd yn gyfrifol am eu hymddygiad, ond yn hytrach mai rhai'r 'hil' neu'r boblogaeth ehangach ydynt. Mewn un achos, wedi i'r teulu gael sgwrs hir gyda gweithiwr mewn gwesty, noda Williams: 'ond sut bynnag, pobl hamddenol braf a siaradus yw'r Gwyddelod at ei gilydd.'[714] Nid personoliaeth y gweithiwr hwn sydd yn gyfrifol am ei natur siaradus, ond yn hytrach, deillia o nodwedd gynhenid Wyddelig, un y mae'n rhannu gyda'i 'bobl' ym meddwl Williams. Mae hi hefyd yn ymddangosiadol ddall i effaith ei swydd a'r berthynas economaidd rhyngddo a'r teulu ar ei ymddygiad. Er bod nodi 'at ei gilydd' yn lleihau peth o'r pendantrwydd, y mae'r ystrydeb o'r Gwyddel siaradus, hawddgar, yn fyw ac yn iach o fewn y gyfrol ac yn cael ei defnyddio ganddi.

Yn yr un modd, daw trigolion ardal Rathowen yn symbolau, gyda nodweddion unigol yn cael eu gweld fel rhai cynrychioliadol o'r boblogaeth yn ei chrynswth. Myn y plant gael tynnu eu llun gyda hen ŵr a oedd, yn eu barn hwy, yn '"rêl Gwyddel"'.[715] Yn ôl Williams, yr hyn oedd yn nodweddiadol ynddo er mwyn ennyn y teitl hwnnw oedd ei ymddangosiad blêr a budr: 'Efallai am ei fod yn salw ei wisg, a dieithr i ddŵr a sebon.'[716] Yng ngolwg y plant, rhywun blêr, hen a budr a ymgorfforai rywun o Iwerddon, ac er y noda Williams mai annheg fyddai tybio bod pob Gwyddel yn cyd-fynd â'r ystrydeb hon: 'Eithr cam â'r Gwyddelod, wrth gwrs, yw tybio mai rhai felly ydynt at ei gilydd.'[717] Gellir dadlau bod ymdriniaeth fel hon yn gymhleth o safbwynt persbectifau gwahanol aelodau'r teulu, ond mae ymwybyddiaeth o ystrydebau'n amlwg ymysg y plant yma, ystyrydebau sy'n parhau i ddal ei gafael. Dewisa Williams eu cynnwys yn y gyfrol a thrwy hynny fe'u hamlygir unwaith eto. Nid yw'r gyfrol yn adweithio'n ddigon ffyrnig yn eu herbyn i'w tanseilio o ddifri.

---

[714] Ibid., t.28.
[715] Ibid., t. 131.
[716] Ibid.
[717] Ibid.

Er bod ganddi ymwybyddiaeth o annhegwch cyffredinol, a sut y gallai rhagdybiaethau liwio barn darllenydd am Iwerddon a'i phobl, nid yw Williams yn llwyddo i oresgyn y demtasiwn i ildio iddynt bob tro. Fel y gwelwyd eisoes, defnyddir ystrydebau cyfarwydd wrth drafod y Gwyddelod, ac yn wir, ar adegau, cyffredinolir ynghylch y Cymry yn ogystal. Tra bo'r Cymry yn wasaidd ac yn cadw at y drefn, meddir, mae'r Gwyddelod yn dreisgar ac yn fwy pendant a phoeth eu gwaed: 'Ynddynt hwy ni cheid yr un anghysonderau sydd ym meirdd Cymru na chostiodd eu gwladgarwch y dim lleiaf iddynt erioed.'[718] Ceisio codi cywilydd ar y darllenydd o Gymro wrth ddefnyddio'r Gwyddelod fel esiampl y mae Williams yma gan obeithio sbarduno newid. Mae'r Gwyddelod hanesyddol yn ffigyrau arwrol iddi, tra bo'r Cymry, heb yr un gwytnwch. Er budd y Cymry mae hi'n hybu'r cysyniad hwn o'r Gwyddel dewr, ond wrth wneud hynny, bythola hen ystrydebau drwy eu hailbwrpasu i genhedlaeth newydd. Ar un wedd, mae cyfosod y Cymry â'r Gwyddelod mewn modd gwrthwynebus fel hyn yn anghyson â gweddill y naratif lle mae hi'n pwysleisio agosrwydd y cefndryd Celtaidd. Serch hynny, gweld y Gwyddelod fel delfryd a wneir, un y gallai y Cymry fel cyd-Geltiaid agosáu ati.

Dadleua Williams fod y Gwyddelod yn wylltach na'r Cymry yn hanesyddol gan gyfeirio'n benodol at ffyrnigrwydd tylwythau Connacht o'i gymharu â dofdra trigolion ardal Conwy wrth ymateb i reolaeth Normanaidd.[719] Tra oedd trigolion Connacht yn rhyfela yn erbyn y Normaniaid, roedd y Cymry yn 'hydrin a dof'.[720] Ni chrybwyllir ganddi wrthryfela'r tywysogion ond yn hytrach at 'frodorion cylchoedd Conwy'[721] yn unig gan ddefnyddio un digwyddiad hanesyddol i gynnig darlun penodol yn hytrach na chydnabod hanes ehangach o wrthryfela. Defnyddir enghraifft hanesyddol arall i ddangos bod y Gwyddelod yn ffyrnicach pobl na'r Cymry wrth i Williams drafod yr anghydfod a fu yn y ddwy wlad yn 1888 yn sgil terfysgoedd y Degwm yng Nghymru a phrotestiadau yn Iwerddon yn erbyn grym tirfeddianwyr. Yn Iwerddon y cafwyd yr ymateb ffyrnicaf, yn ei barn hi: 'Eithr yr oedd pethau'n waeth fyth yn Iwerddon, am fod mwy o gythraul, debyg, yn y Gwyddyl'.[722] Awgrymir gan y defnydd o 'debyg' fod canfyddiad o'r fath yn gwbl ddisgwyliedig ac y dylid cymryd yn ganiataol fod Gwyddelod yn fwy tebygol o frwydro a thywallt gwaed na'r Cymry. Mae'n werth nodi y defnydd o'r sillafiad hynafol 'Gwyddyl' hefyd. Mae'n rhoi gwedd

[718] Ibid., t. 24.
[719] Ibid., t. 75.
[720] Ibid.
[721] Ibid.
[722] Ibid., t. 40.

hynafiaethol sy'n cyd-fynd â chyd-destun amseryddol y dyfyniad, ond mae'r arlliw hynafol hwn hefyd yn atgoffa'r darllenydd o darddiad y gair Gwyddel, sef 'gwyllt'.

Aiff y cyffredinoli am natur wrthryfelgar y Gwyddelod o'i chymharu ag un wasaidd y Cymry ymhellach wrth iddi ddatgan, 'Mae'r wers i ni'r Cymry yn amlwg ddigon [...] yr ydym yn bobl rhy neis o lawer iawn. Rhy neis i fyw yn hir eto, mae'n ofnus.'[723] Anoga Williams weithredu ar ran y Cymry gan ddefnyddio'r Gwyddelod fel esiampl. Yng ngolwg Williams, mae Iwerddon ar y blaen, a throdd ei phrofiad o Iwerddon, a'i hargyhoeddiad fod pethau'n well yno nag yn ei gwlad ei hun, yn anogaeth. Wrth drafod beirdd Iwerddon a'u cymharu gyda rhai Cymru, er enghraifft, dadleuir nad yw beirdd Cymru wedi gorfod dioddef o achos eu gwladgarwch:

> Awen ddelicet yw'r un Gymreig, sy'n dychryn rhag gwn ac ymgroesi rhag dioddefaint. **Amazon** [*sic*] yw awen y Gwyddyl, yn sbarduno'i deiliaid i fyw eu canu. Am hynny y mae Iwerddon yn wlad rydd.[724]

Os mai 'Awen' a fyn ymguddio rhag trais yw un y Cymry, yna mae awen y Gwyddelod, un a bersonolwyd fel 'Amazon', un o'r benywod mytholegol rhyfelgar hynny, yn llwyr wahanol. Mae'r sillafiad hynafol unwaith eto'n ddewis bwriadol ac yma'n cyd-fynd â gwedd chwedlonol y disgrifiad ohonynt, gan fod yr agwedd danllyd hon yn rhan o'u cyfansoddiad erioed ym mhortread Williams. Nodwyd ym meirniadaeth Frank Price Jones ar y gyfrol fod ei thrafodaeth aml ar natur daeog y Cymry ac un wrthryfelgar y Gwyddelod yn tueddu at ormodiaith:

> Cefais hefyd, ei dwrdio rhy-fynych ar y Cymry oherwydd eu tuedd i ymddwyn yn heddychlon, o'u cymharu â'r Gwyddelod y mae'n debyg, braidd yn feichus, a theimlaf y dylai hi ail-feddwl am y cwestiwn hwn [...][725]

Mae Jones yn gywir wrth iddo nodi bod y condemniadau hyn yn digwydd yn ddigon aml i darfu ar lif y cofnod o'r daith ac, ar adegau, daw'n wedd bregethwrol yn y naratif (eto gall ei feirniadaeth ddeillio o'r ffaith nad yw'n cytuno â safbwynt Williams). Yn sicr, pwysleisir dro ar ôl tro mai mantais i Iwerddon oedd natur benboeth ei thrigolion tra bwrir sen ar y Cymry am nad ydynt o'r un feddylfryd. Golwg gyffredinol iawn ar hanes a geir gan Williams a cheir ganddi hefyd grynhoad o Geltigrwydd rhamantaidd gyda'r Celt gwrthryfelgar, gwyllt, a'r un

[723] Ibid., t. 79.
[724] Ibid., t. 24.
[725] Jones yn Morris (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Llandudno a'r Cylch 1963*, t. 116.

breuddwydiol yn cael eu cynrychioli gan y naill wlad a'r llall. Yn ddi-os, mae'r naratif Arnoldaidd a rhamantaidd hon o 'nodweddion Celtaidd' wedi ymdreiddio i naratif Williams ac nid yw hynny'n syndod gan ei bod yn nodweddu'r disgẃrs yn ehangach. Disgynna i'r fagl hon droeon wrth i gysyniadau ystrydebol ynghylch Celtigrwydd ddylanwadu ar ei chanfyddiad o Iwerddon yn ogystal â'i gwlad ei hun.

Troedir y ffin rhwng bytholi a thanseilio ystrydebau yn gyson gan Williams wrth iddi, ar y naill law, gynnig darlun cyfarwydd, ystrydebol o Iwerddon a'i thrigolion, a'i danseilio ar y llaw arall. Efallai mai disgrifiad Williams o ddulliau amaethu ffermwyr Kildare sydd yn crisialu deuoliaeth ei phortread o Iwerddon orau wrth iddi atgyfnerthu'r syniad o'r Celt diamser sydd heb ddatblygu, a'i gyfosod gyda phortread mwy modern. Wrth weld cymysgfa o wahanol ddulliau amaethu, noda fod yma: 'Yr hen a'r newydd bob yn ail.'[726] Mae rhai ffermwyr yn dilyn dulliau amaethu traddodiadol wrth greu teisi neu fydylau gwair, ac eraill wedi mynd ati i wneud byrnau yn y dull modern. Noda fod rhai o ffermwyr Cymru yn parhau gyda'r dulliau henffasiwn hefyd,[727] sydd yn rhoi llai o bellter amseryddol rhwng Iwerddon a Chymru yn yr achos hwn.

Sylwa, ymhellach ar ei thaith, fod fferm yn Kilcock gyda pheth offer ffermio modern hefyd: 'gwelsom 'stordy'n llawn o'r offer ffermio diweddaraf, yn cynnwys dyrnwr-medi; a llond cae o fustych tewion gyda'r noblaf.'[728] Yn yr achos hwn, nid yw Iwerddon mor hynafol i'r fath raddau ag yr oedd Llydaw ym mhortreadau Edwards a Dyfnallt a Bebb er, dylid nodi bod cyfnod yr ymdriniaethau yn wahanol hefyd. Manylir ar y 'newydd' yn Iwerddon ar adegau, gan ei phortreadu fel gwlad gyfwerth neu ar y blaen i Gymru. Gwelir hefyd fod eu da byw yn cymharu'n ffafriol ag eiddo unrhyw wlad, ac nad yw hi, felly, yn dlodaidd arnynt o'r safbwynt hwnnw. Disgrifir 'cerbyd mawr yn cario Uned Pelydr X'[729] yn Loughrea fel un sydd yn 'sgleinio gan fodernedd',[730] gan roi'r argraff fod yr ardal yn ddatblygedig. Serch hynny, unwaith eto, mae Williams yn cyfosod y modern a'r hynafol wrth drafod olion cyn-hanesyddol a ddarganfuwyd ar gyrion llyn cyfagos: 'cafwyd hyd i olion anheddau o'r cynfyd, sef pentrefi ar bolion.'[731] Dyma fodd i atgoffa darllenydd nad yw'r hynafol fyth ymhell yn Iwerddon er gwaetha'r moderneiddio.

Er bod y cyfuno hwn o'r hynafol a'r modern yn fwy realistig na darluniau hynafiaethol a gafwyd o Lydaw yn y bennod flaenorol ceir hefyd hynafiaeth ramantaidd ei naws yn naratif

---

[726] Williams, *Tro yn Iwerddon*, t. 20.
[727] Ibid.
[728] Ibid., t. 21.
[729] Ibid., t. 38.
[730] Ibid.
[731] Ibid.

Williams. Eithriadau yw'r enghreifftiau uchod o nodi yn fwriadol gwrthrychau modern a sylw dadlennol wedi iddi drafod deuoliaeth Kildare a'i amaethu gyda'r hen a'r newydd ysgwydd yn ysgwydd yw: 'Fel yr aem rhagom, caem weld mwy ar yr hen.'[732] Fel yn Llydaw, wrth fynd i'r wlad oddi wrth y mannau poblogaidd a threfol at y bobl 'go iawn' wledig, daw'r hynafol yn amlycach, a'r elfen hon yw'r un ddeniadol fe awgrymir i ddarllenwyr. Unwaith eto, dyma awdur Cymraeg yn nodi bod mynd i ddyfnderoedd gwlad ymhell oddi wrth y llwybr twristaidd yn golygu mynd at y bobl 'go iawn', y 'genuine people'[733] hynny a drafododd Arnold.

Ceir cyfatebiaethau eraill yn naratif Williams wrth i'r darlun gwladaidd, cyntefig gael ei atgyfnerthu gan arsylwadau eraill. Cyfeirir, er enghraifft, fel yn y portreadau cynnar o Lydaw, at blant troednoeth. Mae Williams yn gweld 'dau hogyn-ysgol troednoeth gyda chert â llwyth blêr o wair arni a mul yn ei thynnu.'[734] Dyma ddarlun cyntefig, nid yn unig am fod y plant heb esgidiau, ond am eu bod hefyd yn gwneud gwaith gyda mul a chert. Mae'r cyd-destun ehangach yn rhamantu'r elfen hynafol hon ac yn gweld rhywbeth yn ddymunol ynddi gyda thrafodaeth ar fulod eraill yn 'ufudd drotian'[735] a chyfeiriad at eu sirioldeb, ynghyd â disgrifiad o dai gyda thoeau gwellt yn creu darlun telynegol o'r ardal. Serch hynny, mae dewis Williams o'r ansoddair 'blêr', ynghyd â'r manylu ar natur droednoeth y ddau blentyn yn atgyfnerthu'r darlun truenus o'r cefn gwlad tlodaidd.

Yn Oranmore, cyferfydd Williams ymhellach â dau o blant 'tua deg oed ac yn droednoeth, yn gyrru buches.'[736] Ceisia godi sgwrs â hwy, ond nid ateba'r plant, a hynny am eu bod un ai'n swil neu heb afael ar y Saesneg. Plant tlodaidd, difreintiedig ydynt a'u budreddi yn eu hanharddu yng ngolwg Williams: 'Petaent yn lân, fe fyddent yn dlysion iawn.'[737] Er mai ceisio ennyn cydymdeimlad tuag at y plant y mae Williams, mae sylw o'r fath hefyd yn taro'n nawddoglyd ac yn adleisio naratifau cenhadol. Cânt eu disgrifio fel diniweidion: 'Codasant eu llaw'n annwyl arnom, a gwenu, wrth inni ffarwelio â hwy.'[738] Cyferbynnir eu purdeb mewnol â'u golwg allanol, a bron nad oes naws genhadol i'r portread wrth ffarwelio hefyd. Gwelwyd eisoes fod glanweithdra, fel crefydd, yn ddull effeithiol o arallu mewn cyd-destun Cymraeg Anghydffurfiol, ac er cymaint y trafod ar fodernrwydd y cyfeiriwyd ato

---

[732] Ibid, t. 20.
[733] Mathew Arnold, *On The Study of Celtic Literature: Popular Edition* (London: 1912), t. 2.
[734] Williams, *Tro yn Iwerddon*, t. 132.
[735] Ibid.
[736] Ibid., t. 43.
[737] Ibid., t. 44.
[738] Ibid.

uchod, mae disgrifiadau o blant gan ddefnyddio ystrydebau cyfarwydd yn y modd hwn yn tanseilio hynny.

Ceir darlun bugeilgerddol pellach o blant a fu'n hel madarch a cheisio'u gwerthu ar ochr y ffordd, gyda'u natur ddifreintiedig yn ennyn chwilfrydedd a chydymdeimlad. Gwna Williams yn siŵr ei bod yn nodi bod 'rhai ohonynt yn droednoeth',[739] ac maent yn destun chwilfrydedd iddi a'i phlant. Gan eu bod hefyd yn ceisio annog Williams i oedi i brynu'r madarch, gwelir eu bod yn dlawd. Maent hefyd yn cael eu portreadu fel plant anwaraidd gan iddynt dynnu tafod ar y teulu wedi iddynt beidio ag oedi i brynu eu cynnyrch.[740] I bob golwg, nodyn hwyliog yw hwn gan Williams yn hytrach nag un beirniadol, gyda'r camfihafio yn ddoniol yng ngolwg y teulu. Eto i gyd, cawn ein hatgoffa nad yw'r plant hyn yn ymddwyn mewn modd priodol. Maent yn ymddwyn yn groes i blant yr awdur, a thrwy hynny fe'u harallir.

Ymhellach ar y daith, fel y crybwyllwyd uchod, ac yn unol â'r darlun ehangach o wledydd Celtaidd gan awduron o Gymru, sonnir am gilfachau sydd heb ddatblygu, a rhai ohonynt yn ymddangos yn bur hynafol i ddarllenydd Cymraeg yn y 1960au. Yn ardal Rathowen, nodir bod y tai yn fythynnod to gwellt ac mae'r ardal, at ei gilydd, yn cael ei gweld yn un amaethyddol, delynegol gyda da byw yn pori'r cloddiau.[741] Nodir bod y darlun amaethyddol, delfrydol hwn yn un sy'n gyfarwydd i'r teithwyr: 'a'r golygfeydd a oedd bellach yn gyfarwydd inni; y bythynnod to gwellt, pob un â'i das fawn wrth ei dalcen; y mulod yn ufudd drotian wrth dynnu'r certi, ac ambell un yn pori glaswellt min y ffordd.'[742] Hydreiddir y disgrifiad hwn gan naws idylaidd, ramantaidd, ac wrth ei bortreadu yn un cyfarwydd, fe'i gwelir fel un cynrychioliadol. Drwy hynny, portreadir Iwerddon fel gwlad wledig, henffasiwn.

Mae un tŷ cyfagos yn cael ei ddisgrifio fel 'bwthyn uncorn hynafol, tebyg i dŷ-unnos'.[743] Hynafiaeth y tŷ hwn yw ei hynodrwydd, ac mae apêl ramantaidd iddo a'r tai eraill. Crisielir, wrth drafod y tŷ hwn, natur ddeuol naratif Williams. Ar y naill law, mae'n rhamanteiddio'r tŷ: 'Yr oedd rhamant hir o dan bob un o'r toeau gwellt, petaem ond yn ei wybod'.[744] Ond ar y llaw arall, mae'n cydnabod natur ddynol, realistig lle o'r fath wrth drafod bod cenedlaethau o hanes teuluoedd wedi ei wau yn anorfod iddynt a hynny'n cynnwys adegau da a drwg:[745] er

[739] Ibid., t. 98.
[740] Ibid.
[741] Ibid., t. 132.
[742] Ibid.
[743] Ibid.
[744] Ibid.
[745] Ibid.

mai digon arwynebol yw'r ymgais hon at gydbwysedd wrth grybwyll 'gofid a gwynfyd'[746] a 't[h]roeon trwstan a thristwch'[747] y trigolion, mae'n gam tuag at gynnig darlun llawnach o wlad a'i phobl.

Dro ar ôl tro, daw'r ddeuoliaeth gyfarwydd-anghyfarwydd i'r fei wrth i'r awdur o Gymraes bortreadu Iwerddon. Er bod Iwerddon yn wlad ddieithr, mae iddi ei nodweddion cyfarwydd hefyd, nid yn unig o ran ei chymharu â Chymru (cymharu Llandudno i Dun Laoghaire o ran ei hanes a'i datblygiad, er enghraifft),[748] ond hefyd yn y cysylltiad sy'n bodoli rhwng y trigolion, a hynny ar sail ieithyddol a thrwy 'waed'. Portreada Williams y cysylltiad hwn fel rhywbeth dwyochrog, gyda'r Gwyddelod, hwythau, yn ei arddel hefyd. Creda'n gryf yn y cysyniad o berthynas 'Geltaidd' a bod natur Geltaidd y Cymry a'r Gwyddelod yn newid canfyddiad y Gwyddelod ohoni hi a'i theulu, a cheir enghreifftiau niferus o hyn yn y naratif.

Noda Williams, er enghraifft, fod y teulu yn derbyn ffafriaeth am eu bod yn Gymry, a hynny am fod y trigolion lleol yn ymwybodol o ryw gysylltiad Celtaidd; dyma naratif cyfarwydd wrth drafod ymateb Cymry i wledydd Celtaidd eraill. Mae'r ffafriaeth hon yn cynnwys bod yn fodlon rhoi amser iddynt, sylw na fyddai twristiaid o wlad arall yn ei gael, ac ymddygiad mwy cyfeillgar yn gyffredinol. Wrth drafod sgwrs a gafwyd gydag un o weithwyr gwesty The Prince of Wales, dywed: 'Cododd wedyn i fynd o gwmpas ei ddyletswyddau. Rhoesai'n wir lawer o'i amser inni. Hwyrach iddo ddeall mai Cymry oeddym [...]'[749] Deall drwy gynneddf efallai. Yn sicr, mae Williams o'r farn fod arddel y cysylltiad Celtaidd yn fyw ac yn iach ymysg cefndryd Celtaidd a bod yr ymwybyddiaeth o gysylltiad yn arwain at agosrwydd ac ymdriniaeth ffafriol. Mewn modd tebyg, mae gwraig sy'n cadw llythyrdy yn cael argraff fwy twymgalon o'r teulu wedi iddi ddysgu eu bod yn Gymry: 'Pan ddywedasom mai Cymry oeddym, a bod ein hiaith yn perthyn yn agos i'r eiddo hithau, cynhesodd yn fwy fyth tuag atom.'[750] Cadarnhaodd Williams y tro hwn fod y sawl mae hi'n ei ddisgrifio yn ymwybodol o gysylltiadau Celtaidd, er y bu'n rhaid i Williams esbonio'r cysylltiad iddi er mwyn cael yr ymateb disgwyliedig. Unwaith eto, fel yn achos y gweinydd, gan yr awdur o Gymraes y daw'r pwys mwyaf ar y cysylltiad, gyda'r Gwyddelod yn ei gadarnhau un ai wedi esboniad neu yn nychymyg yr awdur.

---

[746] Ibid.
[747] Ibid.
[748] Ibid., t. 11.
[749] Ibid., t. 28.
[750] Ibid., t. 61.

Mae'r teulu yn arddel ymdeimlad o gysylltiad wedi ei seilio ar iaith, yn enwedig wrth i Williams drafod sefyllfa'r Wyddeleg a'r Gymraeg fel ieithoedd lleiafrifol, yn ogystal ag ieithoedd o'r un teulu. Wrth drafod ysgol Wyddeleg noda:

> Ysgolion fel hon yn ddiau yw gobaith Iwerddon Wyddelig megis mai'r ysgolion Cymraeg yw gobaith Cymru Gymraeg. Am ein bod yn Gymry teimlem yn gynnes iawn at yr "ysgol ddyddiol yn y wlad" yn Doireglinne.[751]

Am eu bod yn Gymry yn rhannu cysylltiad Celtaidd y teimlant y cynhesrwydd hwn yn ddi-os. Mae tebygrwydd yn sefyllfa'r ddwy iaith fel rhai lleiafrifol, a'r brwydrau tebyg dros yr hawl i addysg yn eu mamiaith, yn rhan bwysig o agwedd gynnes Williams a'i theulu at yr ysgolion hyn hefyd. Ceir yr ymdeimlad o fod yn yr un cwch fel petai, o ran diwylliant ac iaith, yn aml yn naratif Williams, a hynny'n cydblethu â'r ymdeimlad o dras Geltaidd gyffredin, ac anodd ar adegau yw gwahaniaethu rhyngddynt. Yn ddi-os, nid yw'r ffin yn amlwg iddi hithau — os yw'n bodoli o gwbl — a rhaid derbyn bod sefyllfa ddiwylliannol debyg, a syniad niwlog am Geltigrwydd, yn llifo i'w gilydd yn ymatebion Williams i Iwerddon.

Yn sicr, sonnir am y cysylltiad ieithyddol rhwng dwy chwaer iaith yn aml yn y gyfrol. Er bod pwyslais ar ddieithrwch cymharol yr Wyddeleg, mae Williams hefyd yn cyfeirio at agosrwydd ieithyddol tybiedig sydd yn rhoi dealltwriaeth gynhenid o'r Wyddeleg (fel y Llydaweg) i Gymry Cymraeg. Caiff Williams gynnig mapiau Gwyddeleg eu hiaith gan huriwr y modur, a'r rhain a ddefnyddia'r teulu am yr wythnos. Mae'n hyderus na fydd yr iaith yn peri trafferth iddi: 'Rhai Gwyddelig oeddynt, ond yr oeddwn yn gwbl hyderus na wnâi hynny ddim gwahaniaeth. Ac ni wnaeth.'[752] Er mai cyfrwng gweledol yw map, yn fwy nag un ieithyddol, mae sicrwydd Williams yn awgrymu'n gryf i'r darllenydd mai mater bach yw symud rhwng y ddwy iaith Geltaidd hyd yn oed heb allu siarad un ohonynt. Ond teg nodi, pe na byddai'r iaith yn ffactor, na fyddai'n rhaid crybwyll eu bod mewn Gwyddeleg o gwbl.

Yn wir, esbonia Williams: 'Ni ddeallai neb ohonom Wyddeleg, ond gwyddem fymryn i fedru dehongli ystyr rhai o'r enwau lleoedd.'[753] Elfennol, a dweud y lleiaf, yw dealltwriaeth y teulu o'r iaith. Noder, er enghraifft, wrth drafod Leixlip, 'nid oedd aroglau Gwyddelig o gwbl ar hwn'.[754] Mae hynny'n gwbl gywir gan fod yr enw'n deillio o'r Hen Norwyeg.[755] Caiff

[751] Ibid., tt. 83-4.
[752] Ibid., t. 14.
[753] Ibid.
[754] Ibid.

arsylwadau syml o'r fath eu trafod yn aml wrth fynd o un lleoliad i'r llall fel petai i gryfhau'r argraff o fedr y teulu mewn Gwyddeleg. Trafoda Williams arwyddion rhybudd rhag tân yn ardal Foxford hefyd, a oedd yn uniaith Wyddeleg sy'n awgrymu'n gryf fod modd eu darllen yn ddidrafferth: 'Yr oedd llawer o'r tir o boptu'r ffordd dan goedwigaeth. Yn yr iaith Wyddeleg yr oedd rhybuddion rhag tân.'[756] Mae'n bur debyg mai'r cyd-destun oedd yn gyfrifol am allu Williams i ddeall yr arwyddion ond nid yw'r dyfyniad uchod yn datgan hynny. Awgrymir fod yr Wyddeleg yn ddigon hawdd i Gymry Cymraeg ei deall heb unrhyw arbenigedd.

Nid yw'r ffaith fod Williams heb arbenigedd wrth drafod yr Wyddeleg yn ei rhwystro rhag tynnu cysylltiadau. Yn wir, mae'n gaffaeliad! Agosrwydd y ddwy iaith sydd yn gyfrifol am y ddealltwriaeth hon yn yng ngolwg Williams. Ceir meddylfryd tebyg gan Wyddelod yn y gyfrol hefyd gyda rhai yn nodi tebygrwydd y ddwy iaith, gan ei alw'r Gymraeg yn 'chwaer gyfan'[757] a nodi fod yr oslef yn hynod o debyg.[758] Crëir darlun o ddwy iaith agos drwy bupro awgrymiadau o'r fath drwy'r gyfrol.

Er hynny, awgrymir hefyd y gall y cymharu ieithyddol a'r damcaniaethu lleyg fod yn gamarweiniol wrth i Williams ddangos perygl llunio cysylltiadau ieithyddol heb wybodaeth ddigonol ar un achlysur. Yn gymharol fuan yn y daith, daw'r teulu i Chapel-izod:

> 'Y Capel Isod,' ebe Gwynn.
> 'Nage'n wir,' meddwn innau, 'ond "Capel Esyllt".'
> 'Esyllt Trystan?'
> 'Ie, honno.'[759]

Mae camgymeriad Gwynn yn un dealladwy. Cysyniad sydd wedi ymddangos droeon yng nghyd-destun llyfrau taith y Cymry yn y gwledydd Celtaidd a amlygir yma, ond sylwer bod Williams yn nodi peryglon damcaniaethu o'r fath yn yr achos hwn.

Manylir ganddi hefyd ar gysylltiad tafodieithol rhwng y Wyddeleg a'r Gymraeg, a thrwy hynny, awgryma fod peth croesbeillio wedi digwydd rhwng y ddwy iaith. Creda fod y gair 'giansi' a oedd ar lafar ym Môn gan ei nain yn dod o'r gair 'gansey' a arddelwyd gan ferch ar ynys Aran.[760]

---

755 'Leixlip', *Library Ireland*, <https://www.libraryireland.com/IrishPlaceNames/Leixlip.php> Cyrchwyd 11 Rhagfyr 2020.
756 Williams, *Tro yn Iwerddon*, t. 97.
757 Ibid., t. 89.
758 Ibid.
759 Ibid., t. 19.
760 Ibid., tt. 61-2.

> 'Gansey' yw'r enw ar y siersi a wisgai'r dynion. Dyma'r enw ddefnyddiai fy nain hefyd. 'Cofia roi dy giansi,' ebe hi wrthyf yn eneth fach. Mae'n debyg mai o Iwerddon y daeth y gair i Fôn lle y ganed ac y maged fy nain. Ni chlywswn ef oddi ar ei marwolaeth hi, nes i'r ferch hon ei ddefnyddio. Yn ddiweddarach sylwais ar yr enw a'r dilledyn mewn ffenestri siopau yn Galway a threfi eraill.[761]

Fel ei mab, Gwynn, mae ganddi ei rhesymeg: tebygrwydd y ddau air, yr agosrwydd daearyddol rhwng Môn ac Iwerddon a'r tramwyo yn ôl ac ymlaen drwy borthladd Caergybi, a'r ffaith na chlywodd Williams neb arall yn defnyddio'r gair ers marwolaeth ei nain nes iddi ddod i Aran. Mae'r agosrwydd ieithyddol yn chware rhan yn y ddamcaniaeth hefyd. Serch hynny, fel damcaniaeth Gwynn am Chapel-Izod, nid yw'r rhesymeg yn profi'n wir. O'r gair 'guernsey' y daw'r enw hwn ar siwmper, a chofnod o'r tarddiad hwnnw a geir yn *Geiriadur Prifysgol Cymru*.[762] Felly, drwy'r Saesneg, nid y Wyddeleg neu famiaith Geltaidd hynafol y daeth y gair i Fôn. Benthyciad o'r tarddiad Saesneg hwn yw'r gair 'geansaí' Gwyddeleg a droswyd yn 'gansey' mewn Saesneg Gwyddelig.[763] Er mai camsyniad ieithyddol digon dealladwy ar un wedd oedd hwn gan Williams, mae'n dangos ysfa i greu cysylltiadau rhwng y Gymraeg a'r Wyddeleg lle nad oes un.

Nid ar sail iaith yn unig mae'r cysylltiadau rhwng Iwerddon a Chymru, a'r Cymry a'r Gwyddelod, yn bodoli ym meddwl Williams a'i theulu. Maent yn amrywiol ac yn niferus. Ymddengys fod Iwerddon fel rhyw ail gartref, neu aelwyd gyn-hanesyddol, i rai Cymry. Trafoda hanes cyfaill iddi yn mynd i Iwerddon ac ar ôl glanio yn teimlo '"mai i'r lle hwn yr oeddwn i'n perthyn erioed, a bod rhywun yn siŵr yn fy nisgwyl ar y lan! [...]"'[764] Caiff y cyfaill hwn wybod gan ei gefnder a fu yn Iwerddon yn ogystal fod yntau, yn ôl yr hanes, wedi cael profiad tebyg,[765] a'r casgliad oedd bod rhyw waed Gwyddelig yn rhan o'u cyfansoddiad. Er bod Williams yn cyfaddef iddi beidio â theimlo dim o'r fath wrth gyrraedd Dun Laoghaire, dywed:

> Ni wyddwn y pryd hynny y byddwn innau, ym mhen rhyw wythnos ar fy ffordd yn ôl, yn teimlo fel petawn yn gadael aelwyd gysurus a dedwydd. Y tro nesaf yr af yno, mi wn mai dod adref y byddaf innau.[766]

---

[761] Ibid.
[762] 'gansi', *Geiriadur Prifysgol Cymru* (Caerdydd: 1968-1987), t. 1380.
[763] Catherine Amoroso Leslie, *Needlework Through History: An Encyclopedia* (Llundain: 2007), t. 91.
[764] Williams, *Tro yn Iwerddon*, t. 9.
[765] Ibid.
[766] Ibid.

Er bod ymateb Williams wrth gyrraedd Iwerddon yn llai cryf nag eiddo ei chyfaill, mae'r cysyniad o ddod yn ôl adref pan fydd yn cyrraedd yr eildro yn un rhamantaidd. Rhamantaidd hefyd yw profiad y cyfaill a'i gefnder gan iddynt dybio bod eu teulu yn hanu o Iwerddon.[767] Tybiant fod ganddynt 'waed' Gwyddelig, ac mae cof y cysylltiad hwn yn cael ei ddeffro yn y gwaed wrth iddynt groesi i'r wlad. Mae hanes fel hwn yn atgyfnerthu'r naratif ehangach o gysylltiad cynhenid ac annelwig rhwng y ddwy wlad, un sydd yn ddyfnach na dim ond teithio i Iwerddon yn uniongyrchol. Ni waeth beth am deimlad ehangach ymysg y cyhoedd o gysylltiad Celtaidd o hanes dau gefnder, mae'r ffaith fod Williams wedi dewis rhannu'r hanes hwn yn dangos bod amlygu cysylltiad o'r fath yn bwysig iddi. Nid yw'n cynnig bod ganddi dras Wyddelig ei hun ond mae hi'n 'perthyn', serch hynny, drwy'r cysylltiad Celtaidd. Er ei bod yn adweithio yn erbyn y syniad rhamantaidd o gysylltiad wrth gyrraedd Iwerddon, y mae'n cyfaddef ei bod yn teimlo'n llwyr gartrefol erbyn gadael. Mae'n gysylltiad ethno-ddaearyddol Geltaidd. Drwy drafod profiad arall o'r cysylltiad hwn, ei gyflwyno mewn modd diffuant a rhannu ei theimlad hithau o gysylltiad tebyg, mae Myfi Williams yn dewis atgyfnerthu teimlad ehangach o gysylltiad 'Celtaidd' yn ei chyfrol.

Gadawodd rhamantiaeth ei farc ar gofnod Williams heb os. Er hyn, rhaid cydnabod ei bod yn gweithredu o fewn cyd-destun diwylliannol ehangach, a bod y Gwyddelod eu hunain yn hybu delwedd benodol ramantaidd o'u gwlad. Nodwyd yn y feirniadaeth gan Frank Price Jones nad oedd gan Williams ei lluniau ei hun, a bod hyn yn wendid yn ei chyfrol. Yn hytrach, dibynnodd ar luniau a mapiau wedi eu cymryd o ffynonellau eraill.[768] Erbyn cyhoeddi'r gyfrol, cynhwysodd rai lluniau a dynnwyd ganddi neu ei theulu,[769] ond mae nifer helaeth wedi eu hatgynhyrchu drwy ganiatâd Bord Fáilte Éireann[770] (72% a bod yn fanwl gywir). Er bod rhai lluniau yn dangos amgylchfyd dinesig a modern, tri (neu 8%) yn unig sydd yn echblyg felly. Mae'r mwyafrif llethol yn dangos golygfeydd 'rhamantaidd' o gefn gwlad.

Ymysg y delweddau gwledig, ceir rhai o fulod (delweddau 7, 9, 19, 20, 22) sydd yn cynnig gwedd henffasiwn ar y wlad (yn enwedig gan fod rhai o'r mulod hynny yn gwneud gwaith amaethyddol). Yn nelwedd 22, er ei bod mewn man mwy dinesig gyda bws yn y cefndir, mae'r mul a'r drol wedi eu gosod mewn lle amlycach yn y darlun. Amlygir hefyd fenyw a chanddi siôl draddodiadol yr olwg wrth eu hochr. 'DIWRNOD MARCHNAD YNG

---

767 Ibid.

768 Jones yn Morris (gol.) *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Llandudno a'r Cylch 1963*, t. 115.

769 Gweler Atodiad 1.

770 Williams, *Tro yn Iwerddon,* Rhagair.

NGORLLEWIN IWERDDON' yw teitl cyffredinol y llun,[771] sy'n ategu naws dwristaidd gynrychioliadol at y darlun.

Ceir nifer o ddarluniau gwledig eraill eu naws, rhai fel delwedd 13 sydd yn dangos bythynnod to gwellt. Mae'r bwthyn bach gwyngalchog hwn yn adleisio delwedd ramantaidd o fywyd gwledig yng Nghymru gynt ac mae ei leoliad o fewn y darlun gyda dim ond tirwedd anial o'i gwmpas yn pwysleisio natur ynysig a delfrydol y bwthyn. Ceir dau fwthyn bychan yn nelwedd 21, eto'n wyngalchog a chyda thoeau gwellt. Gosodwyd y bythynnod ymhell yn ffrâm y darlun, unwaith eto, mewn man sy'n ymddangos yn ddiarffordd, a rhydd hyn naws anghysbell iddynt. O'u blaen, mae'r waliau cerrig adfeiliedig yn rhoi gwedd gyntefig i'r llun. Yn nelwedd 31, ceir darlun eang o dir amaethyddol a llyn y tu cefn iddo, ac ar y caeau mae nifer o dasau gwair taclus sydd yn rhoi'r argraff o fywyd gwledig, bugeiliol.

Lluniau wedi eu cyfansoddi i roi gwedd gadarnhaol a rhamantaidd o Iwerddon yw'r rhain gan Fwrdd Croeso'r wlad. Cynnig darlun wedi ei ystumio y maent, a hynny er mwyn apelio at dwristiaid a dangos Iwerddon fel gwlad ddeniadol y dylid mynd iddi am wyliau. Dyma Iwerddon wedi ei golygu. Cyflwyno gwlad yn y cyd-destun hwnnw y mae Williams, a dylid cadw hynny mewn cof. Er hynny, bu iddi guradu a dewis y lluniau hyn, a thrwy hynny, mae ei rhagdybiaethau am natur y wlad yn cael eu hamlygu yn ogystal.

Un modd i archwilio'r rhagdybiaeth am hynny yw drwy ddadansoddi'r lluniau gwreiddiol a gynhwyswyd yn y gyfrol.[772] Mae naw o ddarluniau gwreiddiol ymysg y rhai a ddefnyddiwyd, a gwelir bod rhai ohonynt yn ategu'r darlun a gynigir gan y Bwrdd Croeso. Dengys delwedd 7 lun o ful a chert ar ffordd wledig a nodir, 'Golygfa gyffredin yn Iwerddon', oddi tano, gan awgrymu bod delwedd o'r fath yn un gynrychioliadol. Tynnwyd dau lun arall o fulod gan y teulu. Mae delwedd 19 yn dangos dau ful ar dir gwyllt, anghysbell yr olwg, tra mae delwedd 20 yn dangos aelodau'r teulu yn mwytho mul. Cynigia'r naill ddelwedd o wylltni cyntefig, a chyflwyna'r llall syniad mwy cyfeillgar, gan adleisio parc antur neu sŵ.

Mae enghreifftiau eraill yr un mor dwristaidd eu naws er bod rhai (fel delweddau 17, 23 a 28 o gofebau a bedd W. B. Yeats) yn lled-addysgiadol hefyd. Lluniau gwyliau yw'r rhai a geir o fewn y gyfrol a hynny'n ddigon bwriadol efallai, a golyga hynny mai darlun o wlad i dwrist a geir ganddi.

Dangoswyd yn yr ymdriniaeth hon â *Tro yn Iwerddon* gan Myfi Williams fod rhamantu yn parhau'n rhan fawr o ganfyddiad y Cymry o wledydd Celtaidd eraill, a bod hynny'n digwydd

---

[771] Ibid., darluniau rhwng tt. 80-1.
[772] Gweler Atodiad 1.

hyd yn oed wrth drafod gwlad a oedd yn fwy cyfarwydd. Er bod Catholigiaeth yn parhau'n wahaniaethwr, mae agwedd Williams yn fwy goddefgar nag un Edwards. Mae hynny'n rhannol, efallai, am fod rhai degawdau wedi mynd heibio rhwng cyhoeddi'r cyfrolau dan sylw a bod agweddau wedi newid yn y cyfamser. Pwysleisir y cysylltiad a'r cyfeillgarwch rhwng y ddwy wlad a'i phobl, er y defnyddir termau fel 'Y Gwyddel' ac er y cyffredinolir i arallu. Cadwa rhai ystrydebau a syniadau eu gafael, serch hynny, gyda'r portread o ardaloedd yn Iwerddon fel rhai henffasiwn a chyntefig yn rhan amlwg o'r gyfrol. Awgrymwyd yn y naratif ac ymysg y darluniau fod yr elfen hon yn gynrychioliadol o'r wlad yn ei chyfanrwydd hefyd. Yn hytrach na cheisio ennyn dicter neu gydymdeimlad darllenwyr, defnyddir yr agwedd hon i annog pobl i ymweld wrth bwysleisio pa mor ddeniadol yw'r mannau gwledig.

Portread cymhleth a geir gan Williams. Mae *Tro yn Iwerddon* yn waith wedi ei siapio gan ystrydebau ac eto'n ceisio rhoi darlun llawnach. Yn sicr, mae ei chyfrol yn rhoi golwg werthfawr ar ddylanwad pellgyrhaeddol y cysyniad o Geltigrwydd ar ddechrau ail hanner yr ugeinfed ganrif.

*Iwerddon*

*Clive James*

Cyfrol wedi ei hysgrifennu i annog twristiaid i deithio yw *Iwerddon* a gyhoeddwyd yn 1993 gan Clive James. Ynddi, portreadir y wlad fel man hygyrch, diddorol y dylid ymweld ag ef. Yn y rhagair, noda James fod dau brif nod gan y gyfrol, sef 'bod yn ffeithlyfr am Iwerddon, ddoe a heddiw' a 'bod yn deithlyfr er mwyn mwynhau gwyliau yn Iwerddon'.[773] Crybwyllir yn y broliant ysbryd ymarferol tebyg wrth nodi fod y gyfrol yn llawlyfr wedi ei lunio er mwyn rhoi'r argraff orau o Iwerddon i Gymry Cymraeg sydd â'u bryd ar ymweld â'r wlad. Dywedir ei fod wedi ei 'lunio'n arbennig i gynorthwyo Cymry i gael y mwynhad mwyaf wrth ymweld ag Iwerddon'.[774] Cyn bwysiced yw cynnig 'digon o bytiau difyr i'r teithiwr-cadair-freichiau hefyd';[775] gan hynny, cyflwynwyd y gyfrol hon fel un eang ei hapêl. Ar rai gweddau, mae'r gyfrol yn ymdebygu mwy i gyfeirlyfr na llyfr taith a dyma gyfrol sy'n adlewyrchu twf ym mhoblogrwydd Iwerddon ymhlith y Cymry Cymraeg fel gwlad i fynd ar wyliau iddi erbyn degawd olaf yr ugeinfed ganrif.

Cyfrol ffeithiol, led-braich ar sawl ystyr yw *Iwerddon*, yn rhydd o brofiadau personol amlwg a hanesion teithio. Gwna, yn hytrach, ddefnydd mynych o ffigyrau a ffeithiau i gyfleu darlun o'r wlad. Er y byddai galw ei thôn yn oeraidd yn gwneud cam â hi, llais heb fod yn agosatoch a ddefnyddir gan yr awdur, a hynny er mwyn cynnig tôn wrthrychol ac ymarferol.

Bwriad y gyfrol hon, felly, yw cynnig darlun manylach a chywirach o Iwerddon nag a gafwyd yn y gorffennol, gyda phwyslais ar gynnig gwybodaeth gywir ac ymdriniaeth sensitif â hanes, diwylliant ac iaith y wlad, a hynny, o bosibl, mewn ymateb i gyfrolau eraill na fuont mor ofalus. Ar un wedd, mae hyn yn peri anhawster o gymharu â chofnod mwy personol o ran darganfod effeithiau Celtigrwydd ar ragfarnau a delfrydau personol. Eto i gyd, mae cynnwys y llyfr, ynghyd â'i ragdybiaethau am y gynulleidfa, yn ddadlennol, ac ni lwyddodd James i guddio pob arlliw o ragfarn bersonol gyda thôn ymddangosiadol ffeithiol.

Un dull a ddefnyddir i gynnig darlun mwy sensitif yw drwy ddefnyddio enwau Gwyddeleg am leoliadau yn y gyfrol. Mae'n amlwg fod ymwybyddiaeth a sensitifrwydd cynyddol yng Nghymru i faterion ieithyddol Iwerddon erbyn y 1990au, ac enghreifftir hyn yn y gyfrol mewn amryfal ffyrdd. O ganlyniad, ni cheir yn y gyfrol unrhyw enwau wedi eu Seisnigeiddio neu eu Cymreigio am leoliadau yn Iwerddon, namyn un eithriad sef Dulyn, a hynny, yn ôl yr

---

773 Clive James, *Iwerddon,* (Llanrwst: 1993), t. 4.
774 Ibid.
775 Ibid.

awdur, am fod yr enw hwnnw wedi hen ennill ei blwyf yng Nghymru.[776] Serch hynny, defnyddir y teitl Gwyddeleg ar y ddinas honno pan fo'n gyfeiriad 'swyddogol', er enghraifft, fel rhan o gyfeiriad adeilad.

Dyma gyfrol eang ei rhychwant sydd yn cynnwys y nodweddion disgwyliedig hynny mewn llyfr taith ynghyd â gwybodaeth fanwl am y wlad. Trafodir ynddi hanes y wlad o'r cyfnod cyn-hanesyddol, ceir ynddi drafodaethau ar yr Wyddeleg a'r Gaeltacht, a chanllaw ynganu manwl. Cynhwysa fapiau amrywiol o'r wlad a chyngor ar bob agwedd ar y daith yno. Nodweddir y gyfrol hon gan drylwyredd ac ymgais i gynnig pecyn cyflawn i ddarpar ymwelydd.

Nid syndod, o gofio hynny, i'r awdur osod y gyfrol ar wahân i deithlyfrau eraill Cymraeg eu hiaith gan droi oddi wrth y patrwm sefydledig o bwysleisio cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon. Wrth drafod rhanbarthau Iwerddon a'u hatyniadau arbennig noda:

> Ni cheir rhai ohonynt mewn llyfrau teithio eraill gan fod y rheiny'n pwysleisio'r cysylltiad rhwng Cymru ac Iwerddon. Rhan o fwynhad gwyliau yw darganfod pethau gwahanol ac unigryw. Pwrpas y wybodaeth [...] yw ceisio arwain y ffordd heb reoli eich dewis. Mentrwch![777]

Cynigir, felly, ddarlun o wlad fwy anghyfarwydd. Cyhuddir llyfrau eraill o fod yn rhy blwyfol eu natur gan iddynt gynnwys yr hyn sydd un ai gyda naws gyfarwydd neu gyda llinyn cyswllt â Chymru. Bwriad James yw rhoi cyfle i Iwerddon sefyll ar ei thraed ei hun, ac mae'n ffyddiog fod ganddi, fel gwlad, ddigon o'i phlaid heb orfod dibynnu ar gysylltiadau Cymreig neu Gymraeg (er, fel y gwelir isod, nid yw'n rhydd ym mhob agwedd o'r tueddiad Cymreig i lunio cysylltiadau rhwng y ddwy wlad). Unllygeidiog yw'r tueddiad i bwysleisio cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon ar draul unigryweddau, yng ngolwg James. Ceisir rhoi gwedd ehangach ar Iwerddon ganddo ond amhosib yw ei gwahanu'n gyfan gwbl oddi wrth Gymru.

Serch hynny, trafodir cysylltiadau hanesyddol, daearyddol a diwylliannol ganddo ac, yn yr un modd â'r cyfrolau eraill, mae'n cymharu Iwerddon a Chymru o fewn ei naratif. Ymdreiddiodd y naratif hwnnw mor ddwfn i ddisgwyliadau cynulleidfa nes ei bod yn anorfod ei fod yntau'n disgyn i'r un gors er iddo wneud ymdrech fwriadol i ehangu'i olygon. Fel O. M. Edwards yn defnyddio ei fro enedigol, a Chymru'n ehangach, fel cymhariaeth i hwyluso esbonio nodwedd o wlad ddieithr, mae James yn defnyddio'r cyfarwydd i gynnig

---

[776] Ibid.
[777] Ibid., tt. 102-4.

darlun mwy eglur o'r anghyfarwydd. Er mwyn esbonio maint enfawr Loch nEathach, er enghraifft, yn ogystal â chynnig mesuriadau manwl, y mae'n nodi fod y llyn hwnnw 'fel môr o'i gymharu â Llyn Tegid'.[778] Dywed hefyd fod un o barciau cenedlaethol Iwerddon, Páirc Náisiúnta Gleann Bheatha, yn debycach i un o ddyffrynnoedd Eryri nag unman arall,[779] a dadleuir bod hynny'n rhan o'i apêl. Ceir hefyd, er hwylustod ymarferol, gyfeiriad at debygrwydd y drefn o ran rheoliadau gyrru yn y Gogledd,[780] a thrwy hynny, cynigir darlun eglur o ba fath o ffyrdd i'w disgwyl: 'Drwy weddill yr ynys ffyrdd sengl yw'r drefn. Ffyrdd gwledig fel canolbarth Cymru ond heb y mynyddoedd.'[781]

Defnyddir enwau llefydd at bwrpas tebyg gan dynnu'r Wyddeleg a'r Gymraeg yn nes eto. Gelwir Lios Dúin yn 'Llandrindod Iwerddon',[782] er enghraifft, a gelwir Lios Mór yn 'Tyddewi Iwerddon',[783] gan gymharu nid yn unig ardal ddaearyddol ond hefyd hanes a diwylliant y dref. Nid yw'r cymharu yn ffafriol bob tro, gyda natur ddirywiedig stryd Sráid Mhic Churtáin yn cael ei chyfleu wrth ei chymharu â stryd fawr Abertawe:

> Mae Sráid Mhic Churtáin *(MacCurtain Street)* wedi dirywio, fel y Stryd Fawr yn Abertawe, o fod yn stryd lle gynt y gwelid y prif siopau ar y ffordd i'r orsaf reilffordd, i fod yn lleoliad siopau eilradd.[784]

Weithiau, mae rhannau o Iwerddon yn debycach i Gymru na gweddill y wlad wrth i ardal rhwng afonydd An Bhearú ac An tSláine gael eu galw'n debycach i dde Penfro nag unrhyw ardal yn Iwerddon.[785] Portreadir hyn fel mantais a rhywbeth i ddenu darpar ymwelwyr.

Er bod y cymariaethau â Chymru yn llawn mwy niferus nag unrhyw wlad arall, nid Cymru yw'r unig wlad y tynnir arni o ran llunio cymariaethau. Defnyddir gwlad arall os yw hynny'n cyfleu darlun cyfarwydd yn hwylusach; cymherir tŵr yn Kilmacduagh i un Pisa o ran ei ogwydd, er enghraifft,[786] a chymherir Béal Feirste i Lerpwl.[787] Gan y byddai'r darllenwyr, fe dybir, yn gyfarwydd gyda lonydd y canolbarth neu Lerpwl, dyweder, gallent wedyn lenwi'r bylchau disgrifiadol eu hunain. 'Llaw fer' llenyddol yw cymariaethau o'r fath, a modd i ddarlunio agwedd ar Iwerddon mewn dull a fyddai'n gyfarwydd i ddarllenwyr heb orfod

---

778 Ibid., t. 111.
779 Ibid., t. 120.
780 Ibid., t. 81.
781 Ibid.
782 Ibid., t. 134.
783 Ibid., t. 155.
784 Ibid., t. 140.
785 Ibid., t. 152.
786 Ibid., t. 127.
787 Ibid., t. 108.

mynd ati i ddisgrifio'n llafurus. Gwneir yr anghyfarwydd yn fwy cyfarwydd fel hyn, a thrwy hynny, gellir annog teithwyr i ymweld ag ardaloedd penodol, a chyflëir darlun cliriach i'r teithiwr cadair freichiau. Awgrymir, felly, mai dewis cymariaethau o ran pa mor gyfarwydd ydynt i'r darllenydd a wneir, yn hytrach na dadlau bod rhyw elfen debyg gynhenid rhwng Cymru ac Iwerddon.

Nid o ran hwylustod yn unig y cymherir Iwerddon â Chymru gan James, fodd bynnag. Fel mewn enghreifftiau cynharach o'r *genre*, daw Iwerddon yn esiampl i Gymru. Ar adegau, digon ffwrdd-â-hi ac ysgafn yw'r sylwadau, er enghraifft, wrth gymharu Amgueddfa Sain Ffagan i'w chymar yn Iwerddon: 'Mae Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn hoff iawn o frolio'r casgliad gwerin yn Sain Ffagan ond mae'r Ulster Folk Museum yn llawer gwell!'[788] Er mor ysgafn y sylw, mae hyn yn rhan o batrwm ehangach, ac ymddengys fod Iwerddon ar y blaen i Gymru mewn sawl agwedd. Hyd yn oed pan mae Iwerddon heb fod mewn cystal lle â Chymru, o ran sefyllfa mapiau manwl, er enghraifft,[789] mae eto'n rhagori ar wedd arall. Nodir bod gan Iwerddon fap Arolwg Ordnans uniaith Wyddeleg ar raddfa o 1:575,000,[790] tra bo Cymru heb un yn ei hiaith frodorol. Proc i'r darllenydd yw'r sylw, 'Pa bryd y bydd yr Arolwg Ordnans yn Southampton yn cyhoeddi fersiwn Cymraeg o'r map ar raddfa 1:250,000 o Gymru a'r Gororau tybed?'[791] Awgrym o dueddiad ehangach yw'r sylw hwn hefyd, sef bod Iwerddon ar ei hennill o fod yn wlad annibynnol. Trafodir mwy ar hynny isod.

Gwelwyd eisoes fod hyn yn batrwm cyson yn ymdriniaeth Cymry ag Iwerddon. Serch hynny, mae James yn fwy cytbwys na Williams yn hyn o beth, ac er bod Iwerddon yn batrwm yn ei gyfrol, mae'n cydnabod bod Cymru yn arwain mewn rhai agweddau eraill: 'Mewn rhai meysydd mae'r Weriniaeth ar y blaen; mewn meysydd eraill, mae wedi dysgu oddi wrth brofiad Cymru'.[792] Serch hynny, daw Iwerddon James yn esiampl o safbwynt materion ieithyddol mewn modd tebyg i Williams hithau. Mae gan Iwerddon wasg gryfach, er enghraifft, gyda phapur dyddiol Gwyddeleg ar gael i drigolion y wlad.[793] Noda fod cylchrediad papur Sul Gwyddelig *Anois* yn 20,000 copi yr wythnos a bod hynny'n cymharu'n dra ffafriol gyda chylchrediad *Y Cymro*.

Er bod Iwerddon yn cael ei disgrifio fel 'chwaer wlad Geltaidd',[794] nid yw James yn ymdrybaeddu'n ormodol mewn cysyniadau rhamantaidd am Geltigrwydd. Trwy hynny, nid

---

788 Ibid., t. 110.
789 Ibid., t. 95.
790 Ibid.
791 Ibid.
792 Ibid., t. 53.
793 Ibid., t. 43.
794 Ibid., t. 20.

yw'n gorbwysleisio'r cysylltiadau Celtaidd rhwng y ddwy wlad. Pwysleisia, yn hytrach, y cysylltiadau o safbwynt hanes, daearyddiaeth a diwylliant yn hytrach na throi at ystrydebau o glosrwydd Celtaidd. Mae safle daearyddol y ddwy wlad yn destun cymhariaeth hefyd, gyda James yn eu disgrifio fel dwy wlad fechan ar ffiniau Ewrop.[795] Serch hynny, mae gan Iwerddon fel gwlad annibynnol fwy o ddylanwad yn siambrau Brwsel, ac felly, mae lle i'w hedmygu am osod esiampl wleidyddol unwaith yn rhagor.

Mae'n anorfod fod trafodaeth ar y Celtiaid ac ar ddiwylliant ac ieithoedd Celtaidd yn rhan o gyfrol am Iwerddon, ond wrth ymdrin â Cheltigrwydd, mae'r arddull yn ceisio bod yn wrthrychol unwaith yn rhagor. Ceir trafodaeth ar hanes y wlad yn gynnar yn y gyfrol a chynhwysir y Celtiaid yn y synopsis hanesyddol hwnnw. Darlun traddodiadol yw'r un a geir gan James wrth iddo gyfeirio at y theori o fudo Celtaidd: 'Tua 500 C.C., dechreuodd cyfnod yr Oes Haearn yn Iwerddon gyda dyfodiad y Celtiaid.'[796] Cyfeiria at y cysyniad o fudo Celtaidd unwaith yn rhagor wrth iddo roi cefndir datblygiad y Wyddeleg: 'Mae'r Wyddeleg wedi datblygu o iaith y brodorion Celtaidd a symudodd i Iwerddon o gyfandir Ewrop rhwng diwedd yr ail fil o flynyddoedd C.C. a'r 4edd a'r 5ed ganrif C.C.'[797] Yng ngolwg James, mewnfudwyr oedd y Celtiaid ac wrth eu trafod, cyfeiria at orffennol y Gwyddelod yn benodol. Ni chyfeirir at Gymru nac at unrhyw syniad o gymuned Geltaidd ehangach. Cyrraedd Iwerddon o'r cyfandir a wnaeth y Celtiaid, yn ôl James, ac nid yw'n trafod eu dyfodiaid i wledydd Celtaidd eraill: 'Yn y cyfnod rhwng 500 C.C a genedigaeth Crist, gwelwyd y Celtiaid, gyda'u haearn, yn cyrraedd gan ddod â diwylliant Hallstatt a La Tène o'r Cyfandir gyda hwy.'[798]

Cadw at ddatganiadau a gyflwynir fel rhai ffeithiol gywir o safbwynt amser ysgrifennu'r gyfrol a wneir heb droi at ramantu neu gysylltiadau sy'n deillio o 'Geltigiaeth' annelwig. Lladmerydd y cysyniad o fudo Celtaidd yw James, ac nid yw'n syndod efallai o gofio ei ddatganiadau o blaid yr Undeb Ewropeaidd a'r gymuned Ewropeiadd yn ehangach ei fod yn pwysleisio mwy ar y cysylltiad cyfandirol na'r un rhwng Cymru ac Iwerddon yn yr achos hwn. Mewn cyd-destun hanesyddol fel hwn y cyfeirir at 'Geltiaid' gan James amlaf, nid mewn cyd-destun diwylliannol modern wrth drafod gwledydd neu ddiwylliannau. Canolbwyntio ar hynny mae James, yn gyswllt hanesyddol, yn hytrach na defnyddio'r cysyniad o Geltigrwydd i hybu syniad o agosrwydd drwy waed neu gysylltiad ysbrydol. Mae'r berthynas hanesyddol rhwng y ddwy wlad yn rhywbeth diriaethol yng ngolwg James,

---

[795] Ibid., t. 17.
[796] Ibid., t. 21
[797] Ibid., t. 53.
[798] Ibid., t. 198.

un sy'n cynnwys olion y medrid eu gweld, yn hytrach na theimlad neu anian. Try at dystiolaeth archaeolegol cerrig Ogam,[799] gan eu defnyddio i enghreifftio teithio rhwng Iwerddon a Chymru. Noda, er enghraifft, y dylid mynd i Landudoch i 'baratoi'n feddyliol'[800] ar gyfer taith i Iwerddon am fod carreg Ogam yno.

Er bod un enghraifft chwedlonol ymysg yr enghreifftiau o gysylltiadau rhwng y ddwy wlad, sef chwedl Branwen,[801] at ei gilydd, cadwa James at ddatganiadau ffeithiol eu naws. Ymddengys fod datganiadau o'r fath yn trafod ffeithiau hanesyddol, er bod rhai megis yr honiad i Padrig Sant fod yn fyfyriwr yn Llanilltud Fawr, yn nes at chwedloniaeth na ffaith. Nid yw'n rhamantu hanes y ddwy wlad ychwaith a noda y byddai rhyfela'n digwydd rhwng Cymru ac Iwerddon yn rheolaidd. Trafodir hefyd weithgarwch diwydiannol Cymro, Syr Thomas Phillips, yn Iwerddon.[802] Noda'n achlysurol gysylltiadau hanesyddol eraill, fel tebygrwydd castell yn Dún Droma i gastell Penfro, a hynny am fod gan yr Arglwydd Lacy dir yn ne Sir Benfro,[803] ac mae'n pwysleisio bod y cysylltiadau rhwng y ddwy wlad yn parhau'n rhai cryfion.

Fodd bynnag, er cymaint bwriad James i gynnig cyfrol wrthrychol, ffeithiol ei naws, nid oes yr un awdur a all gadw'i lais a'i ragfarnau'n gyfan gwbl o'i waith, boed hwnnw'n ffeithiol neu'n greadigol. Gwelir barn ac agweddau James yn eglur ar un achlysur lle mae cred James yn ddigamsyniol fod Iwerddon yn arwain y ffordd yn ei hannibyniaeth. Nid yw hynny'n syndod o gofio cyd-destun hanesyddol yr ymateb i hynny yng ngwasg a diwylliant Cymru. Serch hynny, ymestynnwyd ar y patrwm hwn gan James a'i foderneiddio gan i Iwerddon y 1990au fod yn rhan o'r Undeb Ewropeaidd. Wrth drafod y ffaith fod yr Wyddeleg bellach yn iaith swyddogol yn y Gymuned Ewropeaidd, hola: 'A yw'r Gymraeg ar ei cholled?'[804] Testun siom iddo hefyd yw bod Cymru ymhell ar ei hôl hi o ran niferoedd aelodau seneddol Ewropeaidd.[805]

Wrth drafod annibyniaeth, ymuno gyda'r gymuned Ewropeaidd ehangach, ac wrth archwilio trefedigaethedd, y mae rhagfarn James ar ei hamlycaf. Nodedig, er enghraifft, yw iddo fynnu mai 'byddin Lloegr'[806] sydd yn atal unigolion rhag cerdded ar fur dinas Doire, yn hytrach na byddin y Deyrnas Unedig (neu yn wir 'y fyddin', gan y byddai hynny'n ddigon

---

799 Ibid., t. 18.
800 Ibid.
801 Ibid.
802 Ibid., t. 114.
803 Ibid., t. 108.
804 Ibid., t. 59.
805 Ibid., t. 17.
806 Ibid., t. 117.

amlwg o nodi'r cyd-destun at ba fyddin y cyfeiriai). Yn yr un modd, yr 'Ymerodraeth Seisnig' yw'r enw a rydd i'r Ymerodraeth Brydeinig ac mae'n ddisgwyliedig lym ei farn arni.[807] Noda'n ddigamsyniol fod Iwerddon yn wlad y dylid ei dilyn fel esiampl:

> Y mae hi felly yn esiampl i ni yma yng Nghymru, yn gymydog rhydd o grafangau ymerodraeth Saesnig ac mae'n ddiddorol sylwi ar sut y mae'r iaith Wyddeleg, yr economi a'r bobl wedi elwa ers iddi hawlio ei hannibyniaeth yn 1922.[808]

Unwaith eto, bradycha ieithwedd James ei ragfarn. Drwy ddefnyddio 'crafangau', portreadir yr ymerodraeth fel rhywbeth bwystfilaidd, rheibus. Mae ei dueddiad i gyfeirio at endidau a fyddai'n cael eu galw'n Brydeinig, yn amlach na pheidio fel 'Seisnig', yn ddadlennol hefyd. Dyma ieithwedd sydd yn fwy ymfflamychol ei naws na gweddill y gyfrol sydd yn ceisio cadw'r arddull yn un led-braich. Mae ieithwedd o'r fath yn gogwyddo'r drafodaeth yn erbyn Lloegr, yn fwy nag o blaid Iwerddon a'i hannibyniaeth.

Ceir elfen o adnabod cynulleidfa yma hefyd ac anelu geirfa a fyddai'n debygol o apelio at ddarllenwyr gwladgarol y gyfrol. Ceir enghraifft debyg wrth i James drafod hanes cynnar trefedigaethu yn y Gogledd gan alw'r meistri newydd yn 'uchelwyr estron'.[809] Dyma ieithwedd wrth-drefedigaethol unwaith eto. Dewiswyd yr ansoddair yn fwriadol i ennyn cydymdeimlad darllenydd cenedlaetholgar Cymraeg, yn enwedig, felly, gan i'r uchelwyr hyn gael eu cyfosod â'r tywysogion brodorol a oedd yn berchen ar y tir cyn hynny. Drwy hyn, mae modd cymharu hanes y ddwy wlad, ac mae barn yr awdur am yr estroniaid hyn yn eglur. Pwysleisir y tebygrwydd rhwng hanes y ddwy wlad ac fe gyflëir yr annhegwch a wynebodd Iwerddon ag ieithwedd gref.

Mae enghreifftiau eraill, llawn amlycach ar un wedd, o rym rhagfarn ac ystrydebau yn y gyfrol hon. Yr amlycaf, heb os, yw'r clawr. Wedi ei liwio'n wyrdd i gyd-fynd â'r syniad o Iwerddon fel 'ynys werdd', ceir arno ddau ddarlun, a'r naill mor ystrydebol â'r llall. Y cyntaf yw darlun o ferch ifanc a chanddi wallt coch, ac wedi ei gwisgo mewn siwmper, a'r ôl iddi mae golygfa wledig. Honnir bod 10% o boblogaeth Iwerddon â gwallt coch,[810] o gymharu â

---

[807] Ibid., t. 17.
[808] Ibid.
[809] Ibid., t. 24.
[810] 'Irish red hair a result of our lack of sunlight' Irish Independent < https://www.independent.ie/style /beauty/irish-red-hair-a-result-of-our-lack-of-sunlight-29226550.html>; cyrchwyd 8 Mai 2020. Dylid nodi serch hynny bod y labordy a gynhaliodd yr arolwg hwn 'IrelandsDNA' yn gwmni a ddaeth o dan ymbarél cwmni BritainsDNA o dan arweiniad Alistair Moffat. Bu'r ymateb i ymddygiad a honiadau'r cwmni a Moffat yn benodol yn chwyrn mewn cylchoedd academaidd. Dylid derbyn unrhyw ffigwr gan gwmni o'r fath gyda pheth amheuaeth. Am grynhoad o'r ddadl yn erbyn gweithgarwch y cwmni a'u honiadau syfrdanol gweler Debbie A.

ffigwr rhyngwladol o oddeutu 1% a 2%.[811] Serch hynny, honnir hefyd fod canran o boblogaeth y Deyrnas Unedig oddeutu 10%.[812] Er bod yr union ganrannau'n ansicr, ystrydeb gydnabyddedig yw'r ffaith fod gan Wyddelod wallt coch, ac un y manteisiwyd yn fwriadol arni o safbwynt gwerthu'r gyfrol.

Bwydo ar ystrydeb y mae'r darlun arall ar y clawr hefyd, sef hen ŵr gyda chap stabl yn eistedd o flaen tair pwcedaid o datws. Unir dwy ystrydeb yma, sef y syniad fod Iwerddon yn wlad henffasiwn gyda phoblogaeth oedrannus, a'r cysyniad fod y Gwyddelod yn or-hoff o'u tatws. Caiff y darlun gwerinol ei atgyfnerthu gan yr hyn sydd ar gefn y gyfrol: ceir darlun o wartheg a chasgliad o ddynion hŷn mewn marchnad amaethyddol. Dyma ddarlun bugeiliol sy'n atgyfnerthu'r darlun gyda'r gŵr hŷn ar y clawr. Nid i atynnu pobl i ymweld â'r wlad y dewiswyd y darluniau hyn. Byddai llun o olygfeydd braf, er enghraifft, yn well i wneud hynny. Yn hytrach, fe'u dewiswyd am eu bod yn cynnig darlun cyfarwydd o'r wlad, un y gall darllenydd o Gymru ei uniaethu â'i ganfyddiad o Iwerddon. Dyma agwedd wrthwynebus i weddill y gyfrol, o gofio natur ffeithiol ac ymddangosiadol sensitif ei harddull.

Ceir nodyn ar ddechrau'r gyfrol yn diolch i'r Bord Fáilte am nifer o'r darluniau. Fel yn achos Williams, felly, ceir cymysgedd o luniau yn y gyfrol. Ni roddir esboniad manwl pa luniau a ddaeth gan y Bwrdd Croeso, a pha rai gan yr awdur neu'r wasg, ond gan i'r nodyn ddatgan bod 'amryw'[813] o'r lluniau yn eiddo iddynt, gellir casglu bod gweithgarwch y bwrdd wrth farchnata yn parhau. Rhaid cofio i bob llun yn y gyfrol gael eu dewis at bwrpas a gwnaethpwyd ymdrech fwriadol ar glawr y gyfrol ac oddi mewn i ddefnyddio lluniau cyfarwydd i apelio at ddarpar ddarllenwyr. Trwy hynny, cyflwynwyd darlun ystrydebol o'r wlad. Er, yn sicr, maent yn ddadlennol o'r hyn a ddisgwylir yng Nghymru wrth ddarlunio Iwerddon.

Mae'r lluniau oddi mewn yn gogwyddo tuag at y cyfarwydd ar sawl achlysur ac yn cynnig darlun o'r wlad fel un henffasiwn. Ceir, er enghraifft, lun o hen ŵr yn yfed Guinness,[814] a menyw mewn gwisg draddodiadol mewn gŵyl wystrys,[815] yn ogystal â lluniau o griw o gerddorion traddodiadol.[816] Er bod delweddau o drefi a dinasoedd cyfoes i'w gweld rhwng

Kennett, Adrian Timpson, David J. Balding a Mark G. Thomas, 'The Rise and Fall of BritainsDNA: A Tale of Misleading Claims, Media Manipulation and Threats to Academic Freedom', *Genealogy*, <https://doi.org/10.3390/genealogy2040047>; cyrchwyd 8 Mai 2020.

[811] Hannah Barnes, 'How many redheads are there in the world?', *BBC News*, <https://www.bbc.co.uk/news/magazine-24331615>; cyrchwyd 8 Mai 2020.

[812] Ibid.

[813] James, *Iwerddon*, t. 2.

[814] Ibid., t. 111.

[815] Ibid., t. 207.

[816] Ibid., t. 122.

cloriau'r gyfrol,[817] gyda bwrlwm modern i'w weld ynddynt, fe geir nifer mwy o olygfeydd gwledig, gan gynnwys tai to gwellt[818] neu geffyl a thrap.[819] Mae hyn yn atgyfnerthu syniad penodol o'r wlad. O'r lluniau o bobl yn y gyfrol, mae canran uchel ohonynt yn rhai o bobl hŷn,[820] sydd yn cadarnhau'r ystrydeb am 'henaint' poblogaeth Iwerddon. Mae'n werth nodi (o gofio cyfrol Williams) bod llun o ful yn y gyfrol hon hefyd a hynny yn agos at ei dechrau.[821]

Fel y nodwyd eisoes, ceir ymdriniaeth fwy addysgedig a sensitif â materion ieithyddol yn y gyfrol hon o'i chymharu â gwaith Williams. Nodwyd eisoes fod yr awdur yn defnyddio enwau cynhenid, a cheir rhestr hirfaith o enwau pentrefi, trefi a dinasoedd gyda chyfieithiad Saesneg o'r enwau a chanllaw ynganu ffonetig Cymraeg ar ddechrau'r gyfrol.[822] Ceir hefyd ambell ymadrodd syml fel a ganlyn: 'Bore da, Diolch yn fawr, Peint o Guinness, plîs, a Nos da'.[823] Nodedig yw'r ffaith fod holi am beint o Guinness yn cael ei gynnwys gyda chyfarchion syml a hanfodol a ddefnyddir o ran cwrteisi. Cymerir yn ganiataol fod darpar deithiwr am fanteisio'n llawn ar y 'ddiod genedlaethol', fel bod hynny'n rhan annatod o ymweliad â'r wlad. Tybir hefyd fod gofyn am alcohol yr un mor hanfodol yn Iwerddon ag yw cyfarch rhywun gyda, 'Bore da', neu ddiolch iddynt yn eu hiaith eu hunain. Yma eto, gwelir y ddeuoliaeth a gafwyd gyda'r clawr a'r delweddau. Mae James yn ymagweddu'n sensitif a chefnogol at Iwerddon, ei hiaith a'i diwylliant ar y naill llaw, ond yn cadarnhau ystrydebau ar y llall.

Ymwybyddiaeth a gyfyd o gyd-destun ieithyddol tebyg yw'r cymhelliad dros gynnig cymorth ynganu i'r Cymry, yn hytrach nag ymdeimlad o gysylltiadau Celtaidd tybiedig:

> Yng Nghymru, gwyddom o brofiad beth yw gweld estroniaid yn sathru a llurgunio enwau lleoedd o safbwynt sillafu ac ynganu. O'r herwydd rydym wedi defnyddio'r ffurfiau Gwyddeleg gwreiddiol yn y gyfrol hon.[824]

---

[817] Ibid., t. 101. Gweler hefyd t. 161.
[818] Ibid., t. 184.
[819] Ibid., t. 151.
[820] Cymherir er enghraifft y lluniau o unigolion y gellid eu galw'n 'hen' ar d. 147, t. 175, t. 178, t. 240, t. 137, t. 111, grŵp cymysg ar d. 122. Tra mae unigolion y gellid eu galw'n ifanc yn amlwg yn ymddangos ar d. 207, t. 211, t. 233, a t. 47 ceir felly ddau yn llai o luniau o bobl ifanc.
[821] Ibid., t. 4.
[822] Ibid., tt. 5-16.
[823] Ibid., t. 5.
[824] Ibid., t. 4.

Sefyllfa leiafrifol yr ieithoedd, a'r gwrthdaro rhwng hynny a dibyniaeth ardaloedd ar dwristiaeth, yw sail y gymhariaeth rhwng y ddwy iaith, yn hytrach na chyfeiriad echblyg at berthynas y ddwy fel ieithoedd Celtaidd.

Mae James yn pwysleisio ei wybodaeth am y Wyddeleg droeon yn y gyfrol, a hynny er mwyn cynnig darlun manwl o'i hanes a chynnig canllaw ynganu ar gyfer darpar deithwyr. Ceir dadansoddiad manwl o ffigyrau siaradwyr y Wyddeleg, a thrafodir problemau'r iaith yn hanesyddol ganddo.[825] Defnyddir tabl i ddangos dirywiad hanesyddol yr iaith,[826] a cheir golwg wrthrychol ar ei hedwiniad wedi annibyniaeth,[827] a hynny, er gwaethaf gogwydd y gyfrol hon o blaid annibyniaeth. Ceir golwg fanylach eto wrth gymharu ffigyrau cyfrifiad â realiti'r sefyllfa,[828] a nodir nad yw'r ffigyrau mor galonogol ag y maent yn ymddangos ar yr olwg gyntaf.  Er bod James, fel awduron eraill o Gymru, o blaid annibyniaeth i Iwerddon ac iddo nodi yn y gyfrol fanteision annibyniaeth i'r iaith,[829] mae'r ymlyniad at ffeithiau gwrthrychol yn cynnig darlun llawnach, mwy ffeithiol.

Ymhellach, nid yw James yn gorbwysleisio tebygrwydd honedig y ddwy iaith (fel y gwelwyd gan Williams). Y mae'n amlwg o ddarllen y gyfrol fod ymwybyddiaeth ieithyddol James yn llawn cywirach a'i fod yn trin y Wyddeleg fel iaith ar wahân i'r Gymraeg. Yn hytrach nag anecdotau am yr iaith a'i thebygrwydd i'r Gymraeg, fel a geir yn naratif Williams, ceir gwybodaeth ffeithiol, fanwl am y Wyddeleg a'i hanes. Noda, er bod y ddwy iaith yn perthyn, eu bod ar ganghennau gwahanol o'r teulu ieithyddol,[830] a'u bod, felly, yn ddwy iaith wahanol ar sawl ystyr. Er bod y mapiau a geir yn y gyfrol yn Wyddeleg eu hiaith o ran enwau llefydd, mae'r canllaw yn rhoi'r enwau Saesneg a allai fod yn fwy cyfarwydd i ddarllenwyr gan amlygu, yn wahanol i farn Williams, yr angen am gyfieithu rhwng y ddwy iaith. Pwysleisir y gwahaniaethau hynny ar ddechrau'r gyfrol gan ganllaw ynganu sydd yn ei gwneud yn berffaith amlwg fod gwahaniaethau rhyngddynt, er iddo ddefnyddio seiniau Cymraeg wrth ddisgrifio sut mae ynganu:

**si**—fel **Si**on, **si**oe
**y**— fel s**y**nnu
**ni**— fel o**ni**on (Saesneg)
**ng**— fel u**ng**oes, nid yngan
**li**— fel mil**li**on (Saesneg)

---

[825] Ibid., t. 53.
[826] Ibid., t. 55.
[827] Ibid., tt. 56-7.
[828] Ibid., t.58.
[829] Ibid., t.17.
[830] Ibid., t. 53.

> **tj**— fel **tj**ips
> j— fel garej.
> Y llythrennau eraill yn union fel yn y Gymraeg.[831]

Wrth drafod tebygrwydd y ddwy iaith, gofala bwysleisio'r gwahaniaeth rhyngddynt a nodi ei bod yn rhaid dysgu Gwyddeleg i'w deall. Serch hynny, mae rhai nodweddion tebyg: 'Gan ei bod yn iaith Geltaidd, mae cystrawen yr iaith yn debyg i'r Gymraeg. Yn sicr, mae'n haws i Gymro ddysgu'r Wyddeleg nag ydyw i Sais.'[832] Drwy hyn, ceir gwedd fwy realistig ar yr iaith nag a gafwyd gan Williams. Wrth bortreadu'r Wyddeleg fel iaith wahanol, mae James yn llwyddo i gynnig darlun o iaith sydd ar wahân i'r Gymraeg, ac un sydd yn ddieithrach na Gwyddeleg Williams.

Er cymaint sensitifrwydd ieithyddol a diwylliannol James, a'r modd y mae'n ei osod ei hun ar wahân i'r trwch o lyfrau taith eraill, mae dylanwad hen ystrydebau am Iwerddon i'w gweld yn ei waith yntau hefyd. Fel yng nghofnod Williams, mae'r cyfeillgarwch tybiedig rhwng y ddwy wlad yn fodd i ennyn ffafriaeth. Noda James, wrth drafod bodio: 'Drwy ddangos y Ddraig Goch yn amlwg mae'n bosib y bydd gennych well cyfle o gael eich codi drwy beidio â chael eich adnabod fel Sais!"[833] Ymddengys, felly, fod James yn ymwybodol fod cysylltiad rhwng Cymry a Gwyddelod a bod y Gwyddelod yn arddel y cysylltiad hwnnw. Serch hynny, nid yw'n nodi'n echblyg a ddaw'r cysylltiad yn yr achos hwn oddi wrth ryw reddf gynhenid Geltaidd ynteu o adwaith yn erbyn Saeson. Anodd hefyd yw deall pam y byddai gyrrwr yn cymryd yn ganiataol mai Sais fyddai bodiwr os na fyddai ganddo ddraig goch yn y golwg. Dyma enghraifft arall o ragfarn wrth-Seisnig James.

Erys Iwerddon James yn wlad sydd yn perthyn i'r gorffennol o ran ei harferion. Wrth drafod yr arferiad o fodio, er enghraifft, dywed: 'Arwydd arall o'r ffordd hen ffasiwn o fyw o hyd ar yr ynys yw'r parodrwydd i roi pas i bobl sy'n bodio ar ochr y lôn.'[834] Ceir yma awgrym o ddiniweidrwydd o oes sydd wedi darfod yng Nghymru ac o naïfrwydd ar ran y Gwyddelod. Er nad yw James yn rhamantu yn uniongyrchol, mae elfen o edrych yn ôl ar oes aur gymwynasgar a ddarfu yng Nghymru, ond sydd eto'n fyw yn Iwerddon. Mae Iwerddon yn wlad sy'n parhau i fod â throed yn y gorffennol, hyd yn oed yng ngolwg awdur sydd yn ceisio cynnig golwg fwy gwrthrychol, ymarferol ar wlad.

O safbwynt rhai materion ymarferol a thechnolegol, portreadir Iwerddon fel gwlad sydd eto i gyrraedd safonau Cymru hefyd. Nodir nad yw gorsafoedd petrol ar agor ar y Sul ac nad

---

[831] Ibid., t. 5.
[832] Ibid., t. 60.
[833] Ibid., t. 93.
[834] Ibid.

ydynt yn derbyn cardiau credyd, er enghraifft,[835] ac er bod petrol di-blwm ar gael yno, mae James yn rhybuddio nad yw'r 'chwyldro gwyrdd', fel y'i henwir ganddo, wedi cyrraedd pob cwr o'r ynys.[836] Difyr yw nodi hefyd, wrth drafod gyrru, i'r awdur gynnwys da byw wrth restru gwrthrychau y dylid bod yn wyliadwrus ohonynt: 'rhaid bod yn barod am gar wedi'i barcio, gwartheg neu blentyn'.[837] Dyma adleisio naratifau cynharach a'u disgrifiadau o anifeiliaid ar ffyrdd gwledig, yn enwedig, felly, ddisgrifiad Williams o wartheg yn pori ar ochr y ffordd.[838]

Serch hyn, mae yng nghyfrol James ymwybyddiaeth realistig â datblygiad y wlad, ac ymgais i wneud hynny'n eglur. Er bod trafod ar fythynnod to gwellt fel rhan o atyniad Iwerddon, cânt eu trin fel eithriadau yn hytrach na'r norm. Wrth drafod ardal Penrhyn Inis Eoghain mae James yn nodi: 'Ceir nifer mwy o fythynnod to gwellt nag sydd i'w gweld heddiw yn yr ardaloedd eraill hyd yr arfordir gorllewinol.'[839] Mae defnyddio 'heddiw' yn awgrymu bod Iwerddon wedi datblygu a rhydd y disgrifiad hwn argraff fwy realistig o bensaernïaeth y wlad.

Crybwyllir hefyd ddatblygiadau economaidd y wlad, ac yn enwedig, felly, yn y Gaeltacht,[840] wrth drafod amaethyddiaeth, agwedd ar fywyd Iwerddon a oedd yn cynnig cyfleoedd i hynafoli yn naratif Williams. Noda James: 'Rhwng 1926 a 1957 rhoddwyd pwyslais ar ddiwygio a moderneiddio amaethyddiaeth a'r diwydiannau crefft traddodiadol.'[841] Nid ymgyrch dros dro oedd honno ychwaith ac aiff James ymlaen i drafod datblygiadau pellach ym maes twristiaeth, technoleg ac isadeiledd gan nodi bod yr ymgyrch yn un hollbwysig i sicrhau ffyniant a dyfodol yr ardaloedd. Mae'r darlun yn un mwy dynamig nag eiddo Williams, ac mae hynny'n rhannol am ei fod yn cynnig golwg dros rychwant eang o amser, yn hytrach na chanolbwyntio ar un cyfnod yn unig. Mae Iwerddon yn wlad sydd wedi newid, ac wrthi'n newid, yn y gyfrol hon.

Ceir hefyd gyfosod yr Iwerddon hynafol a'r un fodern gan dynnu llinell glir rhwng y ddwy. Gwelir y ddeuoliaeth hon yn cael ei hamlygu mewn sylw digon ffwrdd-â-hi, wrth i James drafod Sí na Bhru a'r gwrthdaro sydd yno rhwng olion cyn-hanesyddol a thai diweddarach:

---

[835] Ibid., t. 82.
[836] Ibid.
[837] Ibid., t. 83.
[838] Myfi Williams, *Tro yn Iwerddon* (Caernarfon: 1964), t. 44.
[839] James, *Iwerddon*, t. 118.
[840] Ibid., t. 58.
[841] Ibid.

> Gyda'i gasgliad o adfeilion o 4,000 C.C, gellir teimlo rhyw awyrgylch rhyfedd yn cael ei greu gan y tai, sy'n perthyn i oes ddiweddarach na'r meini, y caerau cylch a'r beddau.[842]

Gwneir yn eglur fod gwahaniaeth rhwng yr hen Iwerddon a'r un gyfoes ac er y byddai modd dadlau fod yr elfen 'ryfedd' yn deillio o anallu i amgyffred delwedd o hanes gwlad, mae James yn dangos yn eglur nad gwlad wedi ei dal yn y gorffennol yw Iwerddon.

Wrth drafod yr ynysoedd wrth arfordir Iwerddon y daw James agosaf at adlewyrchu naratifau traddodiadol am Iwerddon. O dan bennawd o'r enw 'Ysbrydoliaeth', aiff ati i drafod rhagoriaethau'r ynysoedd hynny gan droi oddi wrth ei arddull ffeithiol arferol.[843] Mae'r pennawd ei hun yn bradychu delfryd ramantaidd o fywyd ynysig ac mae'r disgrifiad o'r ynysoedd a'u hapêl yn cadarnhau'r gogwydd hwnnw. Mewn cyfrol ffeithiol ei naws, mae'r gwyriad hwn yn drawiadol. Cyflëir y gellir cael ysbrydoliaeth o fynd i'r ynysoedd pellennig hyn a cheir awgrym y bydd y profiad yn un gweddnewidiol: 'Tybed pa ddylanwad a gânt arnoch chi?'[844] Noda James bod Harri Pritchard Jones wedi cael symbyliad i ysgrifennu am yr ynysoedd a chafodd Dr Carl Clowes yr ysbrydoliaeth i greu Antur Aelhaearn wedi iddo ymweld â hwy hefyd. Cyflëir rhyw naws led gyfriniol yn ei ddisgrifiad ohonynt gan awgrymu fod gan yr ynysoedd rym i ysgogi newid yng nghyfansoddiad unigolion, a hynny drwy ddirgel ffyrdd. Wrth ymdrin â'r ynysoedd y daw hen ystrydebau i'r golwg hefyd, megis cyd-fyw rhamantaidd rhwng dyn a natur: 'Mae natur pysgota ac amaethu ar yr ynysoedd yn parchu'r bywyd gwyllt.'[845] Nid amaethyddiaeth ddiwydiannol a modern a geir arnynt ond, yn hytrach, ffermio mwy traddodiadol, a barn James yw bod yr amaethu hwn yn digwydd mewn cytgord â'r amgylchedd. Dyma gysyniad rhamantaidd o fywyd bugeiliol, cytbwys sy'n adleisio'r cysyniad o Gelt fel plentyn natur, un sy'n cyd-fyw â bywyd gwyllt heb ei ddifetha. Mae'n annhebygol iawn fod pethau mor idylaidd mewn realiti, a gwelwn ymhellach yn yr astudiaeth, wrth drafod cyfrol Ioan Roberts yn rhan olaf y bennod hon, fod byw ar ynysoedd Aran ymhell o fod yn baradwys.

Darlunnir yr ynysoedd fel capsiwlau amser hyd yn oed ym mhortread mwy realistig o Iwerddon James. Er bod y byd modern yn dylanwadu arnynt, cânt hefyd lonydd i gadw rhai o'r hen ddulliau o fyw: 'Mae'r waliau cerrig yn nodweddiadol o'r ynysoedd, lle gwelir teledu a lladd gwair â phladur ochr yn ochr â'i gilydd.'[846] Ymddengys fod yr ynysoedd yn cadw

---

842 Ibid., t. 174.
843 Ibid., t. 193.
844 Ibid.
845 Ibid.
846 Ibid.

agweddau ar orffennol Cymru yn fyw hefyd: 'Yn y cartrefi a'r tafarndai, gellir clywed canu naturiol a nosweithiau llawen fel bu yng Nghymru ers talwm.'[847] Wrth ddatblygu a newid, collodd Cymru'r cyfoeth diwylliannol hwn yng ngolwg James, ond ar ynysoedd Iwerddon, mae'r ddelfryd o'r hen ffordd Gymreig, draddodiadol o fyw yn fyw ac yn iach. Cyflwynir diwylliant y trigolion cynhenid fel atyniad i ddarpar ymwelwyr. Yn ei hynafiaeth a'i gallu i gynnig profiad o'r oes a fu y mae gwerth yr ardal hon. Fel Llydaw Edwards, mae hi'n amgueddfa o fath, yn cynnig cip ar orffennol delfrydol a gwerinol ei naws.

Ceir rhamantu gorffennol y wlad ar adegau eraill. Canmolir Sligeach am gadw ei chymeriad traddodiadol: 'Mae'r strydoedd culion, gyda'u siopau a thafarndai, wedi cadw cymeriad traddodiadol trefi Iwerddon, y cymeriad sydd wedi'i golli mewn nifer ohonynt bellach.'[848] Er bod datblygiad economaidd er lles yr iaith yn beth manteisiol yng ngolwg James, nid yw datblygiad a newid mewn trefi yn rhywbeth sydd wrth fodd yr awdur, a chreda fod trefi traddodiadol yn well. Hyd yn oed i James, mae gan y stasis diwylliannol rhamantaidd ei apêl ac, yn ei olwg ef, collodd trefi a dinasoedd eraill ran o'u cymeriad 'Gwyddelig' wrth ddatblygu a moderneiddio.

Arhosodd rhai ardaloedd eraill o Iwerddon James yn ymddangosiadol lonydd hefyd, gyda rhai cilfachau gwledig yn parhau i gadw'r hen Iwerddon yn fyw. Mae Swydd Laoise yn un enghraifft: 'Hyd heddiw mae'n enghraifft o'r Iwerddon draddodiadol yn ddigon pell o'r ddinas fawr ac yn ddigon ffrwythlon i gynnal amaethyddiaeth.'[849] Bywyd amaethyddol, gwerinol yw'r un sydd yn adlewyrchu'r Iwerddon draddodiadol orau ym meddwl James. Ymddengys ei fod o'r farn mai gwlad sy'n cael ei nodweddu gan amaethyddiaeth yw Iwerddon yn ei hanfod, er ei fod yn rhoi darlun cytbwys drwy gydol y gyfrol. Noda: 'Mae swydd Muineachán yn nodweddiadol o Iwerddon. Naws amaethyddol, wledig sydd iddi gyda threfi bach, llynnoedd ac afonydd.'[850] Unwaith eto, portreadir Iwerddon fel gwlad amaethyddol, un wledig wedi ei phupro gan drefi bychain, afonydd a llynnoedd. Ni cheir trafodaeth helaeth am amaethyddiaeth yn y gyfrol, ac mae datganiad James yn taro'n rhyfedd. O ddarllen y gyfrol yn ei chrynswth, cyflëir Iwerddon fel gwlad amrywiol, gyda'i heconomi'n ddibynnol ar sawl sector. Eto, y darlun 'clasurol' hwnnw yw'r un a welir ar y clawr a'r un a gyflwynir gan James yma, y syniad o Iwerddon fel gwlad wledig, fymryn yn henffasiwn, gan gymaint yw grym ac apêl y darlun hwn.

---

[847] Ibid.
[848] Ibid., tt. 180-2.
[849] Ibid, t. 177.
[850] Ibid., t. 173.

Gwreiddiodd ystrydebau eraill heblaw am Iwerddon yng ngwaith James hefyd, er ei fod yn adweithio yn eu herbyn:

> Mae tafarndai Iwerddon, yn y Gogledd a'r Weriniaeth yn hollol wahanol i'r rhan fwyaf o dafarndai Cymru. Efallai mai'r prif reswm am y gwahaniaeth yw rôl y dafarn. Mae'r Gwyddelod yn mynd allan i chwilio am sgwrs dda a thipyn o gwmni a *creac*. Mae'r Cymro yn mynd allan i feddwi.[851]

Er bod ei gymhariaeth rhwng tafarndai Cymru ac Iwerddon yn euog o gyffredinoli y mae hefyd yn adweithio yn erbyn y cysyniad ystrydebol o Wyddelod meddw a chwerylgar. Y Cymry, yn hytrach, yw'r rhai sydd â'r berthynas broblematig ag alcohol, ac er bod James yn euog o ramantu bywyd tafarn Iwerddon wrth drafod y *creac* a'r ysbryd cymunedol, gwna ymgais i roi gwedd wahanol ar y portread o Iwerddon a'i pherthynas ag alcohol. Daw'r Gwyddelod yn fath o esiampl i'r Cymry, wrth i James awgrymu mai dim ond meddwi yw eu bwriad, tra bo'r Gwyddelod yn fwy cyfrifol a diwylliedig, er bod y cyffredinoli am hoffter y Gwyddelod o'r *creac* ynddo'i hun yn ystrydeb. Tanseilia hefyd y syniad poblogaidd mai dim ond un math arbennig o gwrw a yfir yno wrth nodi, 'Mae gan Iwerddon lawer mwy i'w gynnig i'w yfed na pheint o Guinness.[852] Mae'n ymwybodol o'r ystrydeb honno, er iddo ef ei hun, yn gynharach, ychwanegu ati gyda'i wers iaith, a serch bod y darluniau a geir yn y gyfrol o alcohol yn cynnwys y ddiod honno yn anad dim arall.[853]

Er yr ymgeisio uchod, mae'r hen ddarlun o'r Gwyddel meddw yn dal ei afael. Wrth drafod Poitín, diod anghyfreithlon sydd gyda'i chwedloniaeth ei hun, dywed: 'Gan fod y Gwyddel yn hoff iawn o dwyllo'r *gardai* ac yn hoff iawn o'i ddiod gadarn, mae gan nifer o bobl resymau da o hyd dros ddistyllu wisgi cartref.'[854] Dyma ddisgyn ar unwaith i fagl wrth gynnig darlun ystrydebol o Wyddel sy'n meddwi ac yn mynd benben â'r gyfraith. Defnyddir y term 'Gwyddel', yn hytrach na, dyweder, 'trigolion Iwerddon' neu 'rai aelodau o'r gymdeithas', gan atgyfnerthu'r disgẃrs rhagfarnllyd. Dau beth sy'n apelgar i'r Gwyddel generig hwn sef meddwi a thorcyfraith, a siomedig yw'r ymdriniaeth hon o gofio gofal James fel arfer. Dyma ddisgrifiad ystrydebol sydd yn henffasiwn o gymharu a thôn gyffredinol y gyfrol.

---

[851] Ibid., t. 238.
[852] Ibid.
[853] Ibid., t. 111., er enghraifft, lle mae hen ŵr yn yfed peint, neu d. 122., lle mae grŵp o gerddorion traddodiadol gyda gwydrau'n llawn diod sy'n debyg o ran edrychiad i Guinness ar y bwrdd o'u blaen.
[854] Ibid., t. 196.

Mae pob llyfr taith yn gynnyrch ei amser, ac yn cynnig cip ar agweddau penodol ei gyfnod, ond gyrrodd eithafiaeth ysbryd ymarferol James y gyfrol hon i gyfnod amseryddol penodol iawn. Mae cyfrol fel *Tro yn Iwerddon* yn fwy annelwig ynghylch manylion, ac felly, yn gallu adlewyrchu cyfnod hirach o amser, degawd, dyweder. Er bod y rhagair yn nodi mai yn haf 1962 yr aeth y teulu ar eu taith,[855] mae'r naratif ei hun yn benagored gan ehangu'r apêl. Nodir i'r teulu logi car 'Anglia' a oedd 'bron yn newydd',[856] ond ni thrafodir prisiau tanwydd neu fanylion eraill, er enghraifft. Nid yw *Iwerddon* mor annelwig. Mewn ymgais i gynnwys yr holl wybodaeth berthnasol i unigolion a fyn ymweld ag Iwerddon, cynhwysodd James wybodaeth a allai ddyddio'n sydyn iawn. Ceir enghreifftiau niferus o rifau ffôn a chyfeiriadau mudiadau,[857] nodir hefyd niferoedd poblogaeth prif ddinasoedd a threfi'r ynys,[858] ffigyrau a fyddai'n newid yn gymharol sydyn. At amcanion y gyfrol, dichon fod manylion o'r fath yn gwbl gyfiawn, ond golygant mai cul fyddai ei hapêl hyd yn oed yn gymharol fuan wedi ei chyhoeddi. Bellach, mae hi wedi dyddio'n enbyd tra bo cyfrolau eraill yn llwyddo i gadw eu hapêl er eu bod yn hŷn. Cyfrol y 1960au yw *Tro yn Iwerddon*, tra bo *Iwerddon* yn nes o lawer at y flwyddyn 1993, yn hytrach na'r degawd ar ei hyd. Ceir felly ddarlun eglur o gyfnod penodol.

Golwg wrthrychol ei naws sydd gan James ar fywyd crefyddol Iwerddon hefyd, ac ni cheir arlliw o'r naratif gwrth-Gatholig sydd wedi nodweddu gweithiau blaenorol am yr ynys. Datgenir yn blaen mai 'Ynys Gatholig yn ei hanfod yw Iwerddon wrth gwrs, ac un o brif ddiwydiannau'r ynys yw'r grefydd honno'.[859] Cesglir oddi wrth ymdriniaeth James â'r Eglwys fod hyn yn berffaith dderbyniol ganddo. Ni cheir, er enghraifft, warafun gwario'r Eglwys Gatholig, a phan drafodir codi eglwysi newydd,[860] gan gynnwys eglwys enfawr a godwyd yn 1976 yn Cnoc Mhuire, ni cheir beirniadaeth am wario arnynt. Rhoi adroddiad byr o natur yr eglwys benodol honno, a'r maes awyr cyfagos a godwyd er mwyn diwallu anghenion pererinion rhyngwladol, a wneir, heb grybwyll y gost a fyddai wedi bod yn sylweddol.[861]

Adroddiad ffeithiol a geir ganddo o dan y pennawd 'Crefydd' hefyd,[862] gyda disgrifiad cryno o brif enwadau'r wlad.[863] Ceir golwg fanylach ar bob enwad dros y tudalennau dilynol,

---

[855] Myfi Williams*, Tro yn Iwerddon*, t. 3.
[856] Ibid., t. 14.
[857] James, *Iwerddon*, t. 79. Gweler, hefyd, t. 38, t. 49, t. 107, t. 136.
[858] Ibid., t. 28.
[859] Ibid., t. 124.
[860] Ibid., t. 200.
[861] Ibid., t. 126.
[862] Ibid., t. 43.
[863] Ibid.

ond eto, cryno yw'r disgrifiadau, gan gynnig golwg fras ar brif nodweddion pob un. Nodir mai'r Eglwys Gatholig yw 'asgwrn cefn y gwasanaethau addysg ac iechyd cenedlaethol yn y Weriniaeth a'r Gogledd.'[864] Serch hynny, ni ddatgelir barn am y sefyllfa hon. Yn yr un modd, wrth drafod addysg uwchradd yn benodol, ni cheir sylw ar y ffaith mai'r Eglwys Gatholig sydd yn gyfrifol am y rhan helaethaf o'r ddarpariaeth. Rhoddir mwy o sylw i ddiffyg darpariaeth mewn Gwyddeleg gan adlewyrchu newid yn mlaenoriaeth darllenwyr. Yn yr un modd, disgrifir gweddill yr enwadau: Eglwys Iwerddon, Eglwys Bresbyteraidd Iwerddon, Eglwys Bresbyteraidd Rydd Iwerddon a'r Eglwys Fethodistaidd,[865] ond cadarnheir hyd yn oed yn yr arddull wrthrychol hon mai'r Eglwys Gatholig yw'r grym mwyaf dylanwadol yn Iwerddon. Unwaith eto, nid yw'r sefyllfa hon yn ennyn barn y naill ffordd na'r llall gan James.

Ar sawl achlysur, mae James yn bleidiol i achos y Catholigion yn Iwerddon ac yn y Gogledd, boed hynny mewn cyd-destun hanesyddol neu gyfoes. Caiff y gair 'Catholigion' ei ddefnyddio mewn modd cyfystyr â 'Gwyddelod brodorol' ar sawl achlysur ganddo, yn enwedig wrth drafod hanes y wlad. Trafodir yr erledigaeth systematig a gafwyd ar Gatholigion yng Ngogledd Iwerddon wedi 1609, a'r gorthrwm gwleidyddol, diwydiannol a diwylliannol a ddioddefwyd ganddynt, mewn modd cydymdeimladol gan James.[866] Cyhudda'r Protestaniaid yno o greu system 'er budd un gymuned yn unig'.[867] Disgynna James ar ochr y gymuned Gatholig heb os wrth drafod y terfysgoedd a gafwyd yn y Gogledd hefyd gan nodi, 'Beiau'r system hon oedd sylfaen y gwrthryfel o 1969 ymlaen a dwysáu a wnaeth y terfysg pan yrrwyd y lluoedd arfog Prydeinig yno.'[868] Mae dadansoddiad o'r fath yn cyd-fynd â gogwydd cyffredinol y gyfrol yn erbyn militariaeth Brydeinig yn sicr.

Wrth drafod hanes llywodraeth leol yn y Gogledd, noda James ymhellach fod 'annhegwch y system yn erbyn y boblogaeth Gatholig yn anhygoel',[869] gan atgyfnerthu ei ddadl fod y Catholigion yng Ngogledd Iwerddon wedi dioddef yn enbyd o dan reolaeth Prydain. Cânt eu portreadu fel lleiafrif o ran eu grym a'u hawliau, a chan hynny, mae'r darlun yn un pleidiol. Nid oedd y ddadl dros grefydd mor ganolog i Gymy'r 1990au, ond roedd materion yn ymwneud â hunaniaeth, iaith, a'r hawl i hunanreolaeth yn fwy pwysig. Adlewyrchir hynny yn y portread hwn o Gatholigion fel dioddefwyr, a dônt yn rhai i'w hedmygu ac i deimlo drostynt fel dioddefwyr o dan hualau crefyddol a gwleidyddol.

---

864 Ibid., t. 44.
865 Ibid., t 44-5.
866 Ibid., t. 24.
867 Ibid., t. 25.
868 Ibid.
869 Ibid., t. 35.

Er bod y Catholigion yn fwyafrif o ran poblogaeth yn Doire, rheolwyd y dref gan lywodraeth Brotestannaidd am hanner canrif, a hynny gan iddynt 'dwyllo gyda wardiau'r etholaethau',[870] yn ôl James. Gweddnewidiwyd y dref er mwyn 'sicrhau rheolaeth filwrol',[871] gan bwysleisio, unwaith eto, anfantais y Catholigion yn y Gogledd. Hanes tebyg sydd yn Béal Feirste hefyd, ac wrth drafod sloganau ar adeiladau y tu draw i'r ochr Gatholig o'r wal sy'n rhannu'r ddinas, noda James, 'a neges y geiriau yn newid i fod yn wrth-Gatholig ac o blaid parhau'r undod â Lloegr'.[872] Dengys hyn fod James yn ymwybodol o ragfarn wrth-Gatholig a'i fod yn gwrthwynebu ymagweddiad o'r fath. Unwaith eto, portreadir y Catholigion mewn golau cydymdeimladwy ac fel lleiafrif gorthrymedig. Cydymdeimlad gwleidyddol yn hytrach nag un crefyddol yw hwn, yn enwedig, felly, gan i'r dyfyniadau pleidiol uchod drafod Catholigion yn y Gogledd yn unig. Mae'r drafodaeth ar Gatholigion a Chatholigiaeth drwy Iwerddon yn fwy niwtral a gwrthrychol. Serch hynny, waeth beth fo'r cyd-destun, yn sicr, nid yw *Iwerddon* yn cynnig enghreifftiau o ragfarn wrth-Gatholig.

Cafwyd golwg fwy goddefgar, ffeithiol a phroffesiynol yn y gyfrol hon a gwnaethpwyd ymgais fwriadol i ehangu gwybodaeth y darllenydd am Iwerddon a'i thrigolion gan adweithio yn erbyn ystrydebau. Mae'n arwydd nodedig fod grym yr ystrydebau hynny i'w gael o hyd ynddi, a dengys hyn bod dylanwad canfyddiadau wedi eu seilio ar Geltigrwydd yn un pellgyrhaeddol ac yn anodd ei esgymuno'n llwyr. Er bod James yn rhoi darlun cywirach o Iwerddon nag a gafwyd gan Williams, ac wedi ymchwilio'n drylwyr, gwelwyd unwaith eto fod gan elfennau cyfarwydd o'r 'arall Celtaidd' le yn ei gyflwyniad yntau hefyd.

[870] Ibid, t. 116.
[871] Ibid.
[872] Ibid., t. 108.

*Pobol Drws Nesa. Taith fusneslyd drwy Iwerddon*

*Ioan Roberts.*

Mae teitl y gyfrol, *Pobol Drws Nesa. Taith fusneslyd drwy Iwerddon,*[873] yn bradychu barn yr awdur, Ioan Roberts, am y wlad a'i chysylltiad â Chymru yn syth. Awgrymir closrwydd a chyfeillgarwch gan y cysyniad hwn, ac o nodi 'pobol drws nesa' yn benodol (gyda sillafiad llafar), yn hytrach na 'chymdogion,' dyweder, pwysleisir unwaith eto natur gyfeillgar ac agosatoch y berthynas rhwng y Cymry a'r Gwyddelod. Taith sydd ag agwedd bersonol iawn yw un yr awdur a hynny am ei fod wedi magu cysylltiad gydag Iwerddon a'i phobl ers ei ymweliad cyntaf yn ugain oed.[874] Er mai yn 2008 y cyhoeddwyd y gyfrol hon, dyna'r rheswm dros ei dewis ar gyfer yr astudiaeth hon gan fod iddi, fel *Pererindodau*, yn wir, bortread o wlad dros gyfnod sylweddol o amser. Yn achos *Pobol Drws Nesa*, mae'r rhan helaethaf o'r rhychwant amseryddol hwnnw o fewn yr ugeinfed ganrif. Gofala grybwyll, serch hynny, fod ganddo ddiddordeb wedi bod yn Iwerddon ers ei blentyndod gan ei fod yn gallu gweld y wlad o'i gartref:

> Byddai 'Mynyddoedd Iwerddon' yn dod i'r golwg o'n tŷ ni ym Mhen Llŷn ar ambell ddiwrnod clir, a phawb yn ddigon balch o'u gweld nhw er y byddai'n siŵr o fwrw glaw drannoeth.[875]

Y mae'n amlwg o'r cychwyn cyntaf fod y cysylltiad rhwng yr awdur a'r wlad wedi bod yn un hirhoedlog. Mae ei chwilfrydedd fel plentyn, ynghyd â'r elfen ofergoelus ynghylch argoelion y tywydd, yn rhoi gwedd ramantus i ganfyddiad yr awdur o Iwerddon gan droi ei phortread yn nes at y Llydaw gyfriniol honno a'i dirgelwch a bortreadid ar ddechrau'r ugeinfed ganrif. Caiff y ddelwedd ramantaidd ei bwydo gan ei gof am fewnfudiad o Wyddelod a ddaeth i weithio ar waith dŵr yn Llŷn yn ddiweddarach ym mhlentyndod Roberts. Profodd atyniad yr 'arall' yn un cryf i blant yr ardal, a daeth y Gwyddelod yn sioe ac adloniant iddynt.[876] Roedd peth chwilfrydedd ynghylch ymddygiad y Gwyddelod hefyd a hynny wedi ei seilio ar ystrydebau cyfarwydd a oedd yn ymwneud ag alcohol: 'Cynyddodd ein hedmygedd wrth i straeon fynd ar led am eu campau nosweithiol yn swyno'r merched a chwffio yn y tafarnau — ymhlith ei gilydd yn bennaf.'[877] Er iddo gael ei swyno gan apêl

[873] Ioan Roberts, *Pobol Drws Nesa. Taith Fusneslyd drwy Iwerddon* (Llanrwst: 2008).
[874] Ibid., t. 11.
[875] Ibid., t. 8.
[876] Ibid., t. 9.
[877] Ibid.

straeon o'r fath, mae'r awdur yn ymwybodol iawn o ystrydebau am Iwerddon a'r berthynas gymhleth rhwng y Gwyddelod a'r Cymry yn hanesyddol. Teitl y bennod gyntaf yw 'Câr dy gymydog?' ac ynddi, ceir dadansoddiad a chrynhoad byr o berthynas dymhestlog y Cymry a'r Gwyddelod yn hanesyddol. Egyr y bennod gyda dau ddyfyniad. Daw'r naill gan Gerallt Gymro: 'Y mae'r Gwyddyl yn bobol aflan, yn ymdrybaeddu mewn trythyllwch. O'r holl bobloedd, hwy yw'r isaf eu dysg yn egwyddorion y ffydd.'[878] Dengys y dyfyniad arall ragfarn debyg o du'r Gwyddelod gan Caitlin Thomas: 'Dylan was a typical Welshman, a thief and a liar. Taffy was a Welshman, Taffy was a thief — that was a pretty accurate description of Dylan.'[879]

Dyma ddau ddyfyniad sydd yn dangos rhagfarn hanesyddol am y Cymry a'r Gwyddelod am yn ail. Portreadir y Gwyddelod fel anwariaid anaddysgiedig a'r Cymry fel lladron diegwyddor. Enghreifftiau unigol yw'r rhain o ragfarnau ehangach, ac mae Roberts yn ddigon parod i nodi bod yr agweddau hyn yn rhan o'i gyfansoddiad yntau yn ei ieuenctid. Noda mai'r Wyddeles gyntaf iddo ei chyfarfod oedd gwraig gŵr lleol o'r enw Meri (neu Mary cyn iddi symud i Lŷn, mae'n debyg). Oherwydd diffyg ei gafael ar y Gymraeg, a diffyg gafael ei gŵr ar y Saesneg, a natur anghonfensiynol eu perthynas, ychwanegu at ragfarnau yn hytrach na'u tanseilio a wnaethpwyd gan Mary: 'Yr argraff a gawsom oddi wrth Meri, eu llysgennad anfwriadol, oedd bod y Gwyddelod yn bobl dipyn bach yn od.'[880]

Unwaith eto, mae'r arall Gwyddelig yn destun chwilfrydedd ac adloniant, ac mae'r arallu yn parhau. Mae Roberts, serch hynny, yn ymwybodol y gallai'r gwrthwyneb fod yn wir hefyd gan ddweud 'ond ddim hanner mor od, mae'n siŵr, ag oedd y Cymry yn ei golwg hi'.[881] Dyma ddadansoddiad cytbwys sydd yn nodweddu'r gyfrol ar ei hyd. Ar raddfa bersonol, roedd gwrthdaro a rhagfarn wedi bwydo delwedd yr awdur o'r wlad cyn iddo feddwl am fynd yno. Roedd y rhagfarn hon yn un a adlewyrchid gan y gymdeithas yn ehangach hefyd ac enghreifftid hynny gan ddefnydd yr awdur o'r ffurfiau lluosog 'ein' a 'chawsom' gan dynnu barn ei gymuned yn ardal Rhoshirwaun i'r canfyddiad o'r Gwyddelod. Noda'n blaen ei gred fod ganddo ef a'r Cymry'n ehangach waith i oresgyn y rhagfarnau cynhenid hynny. Dywed fod 'closio at gymdogion yn golygu concro rhagfarnau, ac mae canrifoedd o rheiny i'w cael rhwng y Cymry a'r Gwyddelod'.[882] Roberts, heb os, yw awdur mwyaf hunanymwybodol yr astudiaeth hon yn hyn o beth, gan ei fod yn nodi'n gyson ragfarnau personol a chenedlaethol

---

[878] Ibid., t. 8.
[879] Ibid.
[880] Ibid., t. 9.
[881] Ibid.
[882] Ibid., t. 10.

a'u heffaith ar berthynas y ddwy wlad a'u canfyddiad o'i gilydd. Gwreiddiodd y rhagfarnau uchod yn ddwfn, a bu rhai eraill yn rhan o'i gefndir hefyd, yn wir, cawsai ei drwytho ynddynt. Esbonia ymhellach:

> Yn fy achos i roedd y ddrwgdybiaeth yn cael ei phorthi, nid yn unig gan nofelau Daniel Owen lle'r oedd "Gwyddel" bron yn gyfystyr â rheg, ond hefyd gan agweddau rhieni oedd wedi bod yn gweithio yn Lerpwl pan oedden nhw'n ifanc. Doedden nhw ddim yn manylu, ond cefais yr argraff nad oedd llawer o Gymraeg rhwng y ddwy garfan oedd mor niferus o fewn y ddinas. Doedd y ffaith fod eu crefydd nhw'n wahanol ddim yn help. Dyna pryd y clywais i gyntaf am y farn Anghydffurfiol am eglwysi drudfawr y Pabyddion efo plant bach troednoeth y tu allan.[883]

Nodir rhagfarn hanesyddol a diwylliannol yn y fan hon gan bwysleisio bod rhagfarn wrth-Wyddelig yn rhan o hanes diwylliannol Cymru. Er y defnyddir enghraifft bersonol wrth drafod profiadau rhieni'r awdur, adlewyrchu rhagfarn ehangach y mae'r profiad hwnnw hefyd, yn enwedig wrth drafod crefydd. Mae atgofion Roberts yn cadarnhau hynny ac yn atgyfnerthu'r syniad mai barn Anghydffurfiol gyffredinol oedd agweddau o'r fath, yn hytrach na barn ambell eithafwr. Sylwer, hefyd, iddo nodi mai 'plant bach troednoeth' yw'r antithesis moesol i 'eglwysi drudfawr' y Catholigion, gan fod plant troednoeth tlodaidd yn fotiff yng ngwaith O. M. Edwards wrth drafod Llydaw ac i'w weld yng nghofnod Williams o'i thaith o gwmpas Iwerddon hefyd.

Mae hunanymwybyddiaeth Roberts yn golygu y gall dorri llwybr mwy eglur rhwng rhagfarn a realiti. Noda, er enghraifft, ar ei daith gyntaf na chlywodd neb yn dweud yr ymadroddion ystrydebol hynny 'Begorra' neu 'Top of the Morning',[884] ond bod rhai agweddau eraill ar y darlun disgwyliedig o Iwerddon yn bodoli yno yn ystod y chwedegau:

> Ond, gwelais ddigon o fythynnod to gwellt, mwg mawn, mulod, teisi gwair a styciau ŷd, hen ddynion diddannedd yn llowcian Guinness, a baledwyr yn canu'n ddiddiwedd efo ffrind yn gafael llaw y canwr a'i throi fel handlen buddai. Doedd y cardiau post a'r hysbysebion Bwrdd Croeso ddim i gyd yn ddi-sail.[885]

Noder bod tôn hwyliog yn nodweddu'r gyfrol hon drwyddi a bod yr awdur yn ysgrifennu'n aml gyda'i dafod yn ei foch. Serch hynny, mae'n eglur fod sail i'r portread poblogaidd o Iwerddon fel gwlad henffasiwn yng ngolwg Roberts. Ond mae ganddo hefyd ymwybyddiaeth o ddulliau marchnata'r Bwrdd Croeso. Er iddo nodi nad oedd y cardiau post

---

883 Ibid.
884 Ibid., t. 11.
885 Ibid.

a'r marchnata yn ddi-sail, ceir awgrym o ddealltwriaeth fod portread penodol o'r wlad yn cael ei gyflwyno drwy'r cyfryngau hynny ac mai'r darlun hwnnw oedd yn tynnu'r twristiaid. Mae ei ymdriniaeth, felly, yn soffistigedig.

Rhaid nodi hefyd mai Roberts sydd gyda'r cysylltiad agosaf â'r wlad y mae'n ei disgrifio yn yr holl astudiaeth. Yn anorfod, mae peth *nostalgia* yn nodweddu naratif Roberts wrth iddo gofio'r Iwerddon a'i hatynnodd gyntaf. Goresgynnir y trafferthion hyn wrth i'r awdur gyfuno'r mannau cyfarwydd fel Penrhyn Dingle, lle bu gyda'i deulu yn lletya dros wyliau'r haf ers degawdau, gyda mannau anghyfarwydd lle na fu'r awdur ynddynt o gwbl, neu lefydd lle na fu ers peth amser. Mae'r gorffennol, fel y nodwyd gan L. P. Hartley, yn 'wlad estron'[886] a dichon fod y pellter amseryddol rhwng ymweliadau Roberts yn dieithrio digon ar y wlad. Ymhellach, profiad rhywun ar ei wyliau neu'n gweithio ar raglenni teledu oedd ganddo o Iwerddon, a cheir ymgais yn y gyfrol hon i ddadansoddi'r wlad a'i phobl a chael dealltwriaeth ehangach. Bu newid mawr yn Iwerddon yn ystod yr ugeinfed ganrif a llwydda Roberts i gynnig blas o'r newid hwnnw gan gyflwyno elfen o ddieithrwch unwaith eto. Holi am effaith y 'Teigr Celtaidd' a wna'n fynych,[887] gan ganolbwyntio ar effeithiau'r chwyldro economaidd hwnnw fel llinyn mesur o'r newid a welodd Iwerddon dros y degawdau diwethaf.

Yn wir, daw'r Teigr Celtaidd yn ffin ddefnyddiol i Roberts wrth iddo, ar y naill law, drafod yr 'hen' Iwerddon y disgynnodd mewn cariad â hi, a'r Iwerddon fodern. Wrth gyfosod y ddau gyfnod, mae'n cyfosod dwy wlad wahanol, a llwydda, wrth gyfuno'r cyfarwydd a'r anghyfarwydd, i ddangos digon o bellter rhyngddo a'r wlad, ond hefyd ddigon o arbenigedd fel sylwebydd arni.

Ymddengys bod gan Roberts gymhelliad tebyg i Bebb ac Owen wrth fynd ati i ysgrifennu ei gofnod. Wrth drafod mynd ati i lunio'r gyfrol, noda: 'Fy ngobaith oedd y byddwn i — a'r darllenwyr — yn adnabod ein cymdogion ychydig yn well ar ddiwedd y daith nac ar ei dechrau.'[888] Er bod Roberts yn hen law ar ymweld â'r wlad ac na fyddai Iwerddon yn wlad ddieithr i ddarpar ddarllenwyr, y mae yntau, fel James, yn pwysleisio nad yw'r gwledydd yn adnabod digon ar ei gilydd. Techneg arall yw hon i amlygu arbenigedd yr awdur wrth iddo ei osod ei hun yn lle tywysydd i ddatrys y broblem.

Er bod Roberts yn fwy pragmataidd ei agwedd tuag at Iwerddon a'r cysylltiadau rhwng y ddwy wlad, mae yntau'n grediniol fod cysylltiadau agos rhwng Cymru ac Iwerddon. Cred fod

---

[886] L. P. Hartley, *The Go-Between* (London: 2004), t.5.
[887] Ibid., t. 19.
[888] Ibid, t. 12.

y Cymry a'r Gwyddelod, os nad yn frodyr, yna'n 'gefndryd agos iawn',[889] a'u bod 'o'r un anian'.[890] Er nad yw Roberts yn trafod y cysylltiad hwn mewn cyd-destun penodol 'Geltaidd', mae'r disgrifiad o bobloedd o'r un anian (gan ddefnyddio termau teuluol) yn un cyfarwydd mewn trafodaethau o'r fath ac yn deillio o'r syniad o gwlwm Celtaidd o ran hil neu waed.

Er hyn, cysylltiadau personol yw'r rhai sy'n clymu'r ddwy wlad, yng ngolwg Roberts. Ei gyfeillion, neu bobl sydd â chysylltiadau personol ag ef neu â Chymru, sydd yn nodweddu'r daith drwy Iwerddon, yn hytrach na syniad ehangach o gyswllt rhwng pobloedd. Dechrau wrth ei draed y mae Roberts wrth bontio rhwng y ddwy wlad a bwydo'r naratif hwnnw a wna syniadau am gysylltiadau Celtaidd ehangach. Wrth sgwrsio yn Mayo, er enghraifft, a tharo ar hanes plant Llŷr, mae'n nodi bod y chwedl honno 'yn rhan o fytholeg Cymru hefyd'.[891] Nid y cysylltiad diwylliannol ehangach sydd yn bwysig ond, yn hytrach, y cysylltiad unigol gydag adroddwr yr hanes. Dichon fod hynny'n esbonio pam mai'r cysylltiadau hynny a drafodir amlaf yn y gyfrol yn hytrach na brawdgarwch Celtaidd annelwig. Wrth gloi'r gyfrol, mae'n crisialu'r meddylfryd hwn: 'Ers hynny daeth ein plant ni a'u plant a'u hwyrion hwythau yn rhan o'r un tylwyth mawr Celtaidd'.[892] Tylwyth yn yr ystyr bersonol, deuluol yw hwn yn gyntaf, yn hytrach na rhywbeth ehangach sy'n seiliedig ar syniad rhamantaidd am 'hil'. Nid rhywbeth cynhenid, o reidrwydd, yw'r cyswllt rhwng Iwerddon a Chymru iddo, ond yn hytrach, rywbeth y medrir ei fagu wrth fagu cyfeillgarwch. Drwy'r profiad hwn y daw pobl Iwerddon a Chymru yn rhan o'r un teulu Celtaidd, yn hytrach nag yn bobl gysylltiedig trwy waed.

Fel rhan o'i ymwybyddiaeth o'r ystrydebau poblogaidd am Iwerddon, mae Roberts yn cyffwrdd â'r tueddiad i hynafoli'r wlad. Trafodwyd uchod iddo weld y bythynnod to gwellt, mulod a thesi gwair a styciau ŷd,[893] a bod y rheiny'n ystrydebau disgwyliedig ac eto'n bethau a brofodd mewn realiti. Nid oedd ceir yng Nghonemara pan gyrhaeddodd yno gyntaf ychwaith,[894] ond sylw ysgafn yw hwnnw ac nid yw Roberts yn ei ddefnyddio fel adlewyrchiad o'r wlad yn ehangach. Mae Conemara'n ymgorffori'r cysyniad o Iwerddon hynafol iddo (er mai fel yr Iwerddon 'draddodiadol'[895] y cyfeiria Roberts ati), a noda iddo weld pob ystrydeb amdani yno. Llunia restr ychwanegol at yr un a grybwyllwyd eisoes sy'n

---

[889] Ibid., t. 11.
[890] Ibid.
[891] Ibid., t. 89.
[892] Ibid., t. 158.
[893] Ibid., t. 11.
[894] Ibid., t. 76.
[895] Ibid.

cynnwys 'bythynnod gwyngalchog to gwellt, teisi mawn, caeau bach, bach efo waliau cerrig a mwy o gerrig nag o wair ar y llawr'.[896]

Iwerddon amaethyddol yw'r un draddodiadol, yng ngolwg Roberts, ac mae'n gwbl ymwybodol o'r apêl sydd gan ddarlun o'r fath ac atyniad gwlad sydd yn ymddangosiadol gyntefig o'i chymharu â Chymru. Dywed, 'Roedd y "tlodion bodlon eu byd" yn rhoi cipolwg ar Gymru oedd wedi diflannu',[897] ac roedd yr apêl ramantaidd yn amlwg iddo. Daw'r dyfyniad uchod o gerdd gan T. Llew Jones, 'Connemara', cerdd sydd yn drwm dan ddylanwad rhamantiaeth ac sy'n trafod yr un nodweddion apelgar â'r rhai a restrwyd gan Roberts. Ceir, er enghraifft, drafod ar dai to gwellt[898] a hynafiaeth y wlad a'i phobl 'Hen, hudol a hardd yw chwedlau Iwerddon, / A hen yw mawredd gwyr Connemara.[899]

Ceir arwydd arall o'i ymwybyddiaeth o'r darlun traddodiadol o Iwerddon yng Nghymru a pham ei fod mor apelgar wrth iddo nodi: 'Hwyrach fod yma hefyd, yn yr isymwybod, ychydig o elfen nawddoglyd — fod yma genedl a oedd hyd yn oed yn dlotach na ni.'[900] Er bod Roberts yn nodi'r elfennau hynafol ac yn cael ei swyno ganddynt, fel Williams, nid yw'n esgeuluso trafod ystyr eu hapêl a sut mae hynny'n adlewyrchu'n wael ar deithiwr o Gymro. Roedd ganddo berthynas gymhleth â'r wlad yn ei ymweliadau cynnar, a thrwy hynny, mae'n ymgorffori tueddiad ehangach i ramantu. Gwêl Iwerddon fel esiampl ar y naill law, ond hefyd, mae'n ymwybodol ei fod yn ei thrin yn nawddoglyd fel chwaer dlawd ar y llall.

Yn 1969 yr aeth Roberts i Iwerddon gyntaf ac mae ei atgofion am y cyfnod hapus hwnnw, a'i bortread o'r wlad yn y 1960au, i'w cael drwy'r gyfrol ar ei hyd. Dim ond pum mlynedd oedd rhwng ei daith ef ac un Myfi Williams, ond mae'r portreadau yn dra gwahanol. Er bod Roberts yn nodi bod elfennau o'r wlad yn henffasiwn – cyfeiria, er enghraifft, at dyddynnwr yn teithio ar y ffordd gyda throl a mul tra mae'r awdur mewn Ford Cortina[901] - nid yw'r portread yn canolbwyntio'n llwyr ar agweddau o'r fath. Mae bwrlwm a brwdfrydedd yr ymweliad cyntaf hwnnw yn rhoi argraff wahanol iawn o Iwerddon at ei gilydd. Mae hi'n wlad i'w mwynhau mewn modd gwylltach na gwyliau teuluol sidêt ac yn wlad sydd yn datblygu ac yn newid. Trafoda, er enghraifft, gymdeithas gydweithredol yn ardal Penrhyn Dingle a ffurfiwyd er mwyn cryfhau'r economi a'r diwylliant lleol, menter radical sydd yn cael ei phortreadu fel un arloesol a modern.[902] Cyfeirir at reolwr y gymdeithas fel 'dyn ifanc

[896] Ibid.
[897] Ibid.
[898] T. Llew Jones, *Sŵn y Malu* (Llandysul: 1967), t. 14.
[899] Ibid.
[900] Roberts, *Pobol Drws Nesa,* t. 76.
[901] Ibid., t. 15.
[902] Ibid., t. 16.

brwd',[903] sy'n rhoi gwedd egnïol bellach i'r portread ac yn cadarnhau nad gwlad araf ac ar ei hôl hi oedd Iwerddon Roberts.

Nodwedd arall sydd yn gosod y gyfrol ar wahân i gyfrolau Williams a James yw bod y rhan helaethaf ohoni wedi ei seilio ym mhresennol yr awdur. Er ei fod yn trafod ei ymweliad gwreiddiol yn y 1960au, cynnig sylfaen i'w brofiad o deithio hyd at y presennol y mae hynny. Gwlad fodern yw Iwerddon Roberts, a hyd yn oed wrth drafod ei hanes a'i hynafiaeth, mae'n ymorol am gynnwys y cyfoes yn ei ddisgrifiadau. Digon hawdd wrth ddisgrifio hynodrwydd safle Achaidh Cheide, systemau caeau o Oes y Cerrig, fyddai canolbwyntio ar hynafiaeth y safle a'r hanes yn unig, a rhamantu'r tir anial lle mae olion y waliau ynghudd o dan y mawn. Cawn gan Roberts, serch hynny, ddarlun mwy cyflawn a chyfoes gyda disgrifiad o'r ganolfan ymwelwyr yn rhan o'i naratif. Disgrifir y ganolfan fel 'tŷ gwydr ar siâp pyramid',[904] modern ei naws. Ceir hefyd ddau ddarlun ar y dudalen ddilynol — y naill o'r tir mawnog ac wal gerrig ac iddynt natur ddiamser, ac yna lun o'r ganolfan ymwelwyr fel nad oes modd camgymryd cyd-destun amseryddol y darluniau.

Drwy adrodd yr hyn a ddysgodd am y safle yn y gyfrol, y mae Roberts hefyd yn tanseilio ystrydebau am orffennol cynhanesyddol y gwledydd Celtaidd fel rhai gwaedlyd a digyfnewid. Er mai trafod Oes y Cerrig mae Roberts, nid yr Oes Efydd hwyr a'r Oes Haearn sy'n cael eu nodi fel rhai nodweddiadol Geltiadd ac mae'n adweithio'n erbyn y cysyniad poblogaidd o orffennol monolithig sydd â'r Celtiaid yn rhan annelwig ohono. Noda'n blaen mai 'pobl heddychlon oedd yn byw yma,'[905] yn hytrach na rhai a fyddai'n rhyfela'n gyson neu'n mawrygu ymladd. Bu'r gymuned hon yn un 'ddyfeisgar, fyrlymus',[906] hefyd — ansoddeiriau sydd yn anghyffredin wrth ddisgrifio cymunedau cynhanesyddol. Ni cheir disgrifiadau o'r safle fel un distaw-gyfriniol a'i chymuned fel un ddirgel led hudolus fel ag a gafwyd gan awduron y cyfrolau am Lydaw. Hynny yw, yn hytrach na disgrifiadau chwedlonol eu naws fel a gafwyd gan Edwards, gyda cherrig cynhanesyddol yn troi'n bennau creaduriaid hynafol,[907] ceir dadansoddiad ffeithiol, gwrthrychol.

Ceir chware ar y syniad o amser digyfnewid a moderneiddio wrth iddo ymweld â chlogwyni Moher hefyd. Noda nad yw wedi eu gweld ers chwarter canrif ond mae'n ffyddiog na fyddant wedi newid llawer.[908] Eto i gyd, wedi iddo gyrraedd yno, gwêl fod y nodwedd oesol hon, fel caeau hynafol Cheide, wedi ei moderneiddio gan ddiwydiant twristiaeth.

---

903 Ibid.
904 Ibid., t. 92
905 Ibid., t. 94.
906 Ibid.
907 O. M. Edwards, *Tro yn Llydaw* (Wrecsam: 1921), t. 83.
908 Roberts, *Pobol Drws Nesa*, t. 72.

Bellach, mae yno faes parcio, siopau, mannau bwyta, sioe amlgyfryngol ac arddangosfeydd i gyd y tu mewn i'r Cliffs of Moher New Visitor Experience.[909] Yma hefyd mae'r modern a'r oesol yn cyd-fyw, ac er nad yw Roberts yn or-hoff o'r datblygiad, awgrymir mai digon ffwrdd-â-hi yw ei wrthwynebiad, a hynny am ei fod bellach yn gorfod talu €8 am ymweld â'r clogwyni. Nid yw moderneiddio yn cael ei drin fel rhywbeth sydd o'i hanfod yn difetha nodweddion hynafol y wlad, ond, yn hytrach, fel rhywbeth sydd wedi digwydd dros amser yn ddigon naturiol.

O gofio tueddiad rhai awduron i gymharu Llydaw â byd canoloesol, digon di-fflach yw ymweliad Roberts â pharc gwerin Castell Bunratty a chanddo 'atyniadau ffug-ganoloesol'.[910] Dim ond aros yno am ginio a wna, ac ni cheir llawer o sylw ynghylch y lle a'i atyniadau heblaw bod bendith draddodiadol Iwerddon wedi ei hysgrifennu ar wal y tu allan sydd yn cyfleu naws y lle yn gryno.[911] Man i dwristiaid yw hwn a chaiff hynny ei amlygu wrth i Roberts fanylu ar griw o Americanwyr a'u sŵn.[912] Ni chaiff yr atyniad ei drin fel mwy na hynny, lle digon digrif i oedi dros ginio a dim mwy. Nid yw'n gynrychioliadol o'r wlad yn ehangach na'i hanes ychwaith ac nid mewn hynafiaeth ffug y mae canfod Iwerddon, ym marn Roberts. Mae natur swta'r disgrifiad yn rhannol am fod brys ar Roberts i gyrraedd pen ei daith am y diwrnod, ond hefyd am nad oedd atyniad twristaidd o'r fath yn adlewyrchu'r wlad yr oedd am ei chyflwyno i'r darllenydd.

'Y mwyaf rhyfeddol o holl drysorau cynhanesyddol Iwerddon',[913] ym marn Roberts, yw beddrod Newgrange ac mae'r safle hwn fel petai'n ymgorfforiad o holl weledigaeth Roberts am y wlad. Yn gyntaf, ceir ymwybyddiaeth o ramantiaeth a syniadau ysbrydol am y wlad ac ymwrthod ysgafn â nhw. Wrth drafod digwyddiadau troad y mileniwm yn 1999, noda: 'Roedd rhai pobl yn disgwyl i ryw wirioneddau ysbrydol neu sêr-ddewinol newydd am y safle i ddod i'r fei yr adeg honno, ond eu siomi gawson nhw hyd y gwn i.'[914] Testun gwamalrwydd yw credoau o'r fath i Roberts, ac unwaith eto, mae sylw ffwrdd-â-hi yn tanseilio disgrifiad a allai fod wedi trio'n un rhamantaidd, cyfriniol gan awdur arall.

Esbonia Roberts fod yr hen a'r newydd yn gymysg yma hefyd. Er hynafiaeth y safle, mae'n edrych yn 'lled fodern',[915] a hynny am fod gwaith 'atgyweirio' wedi ei wneud yn y 1960au, gwaith sy'n parhau i fod yn ddadleuol am iddo ailwampio rhai nodweddion

---

909 Ibid.
910 Ibid., t. 60.
911 Ibid.
912 Ibid.
913 Ibid., t. 144.
914 Ibid.
915 Ibid., t. 145.

hanesyddol mewn dull ansensitif yng ngolwg rhai.[916] Disgrifir hefyd sut y bu'n rhaid newid y drws gwreiddiol i 'gydymffurfio â rheolau iechyd a diogelwch ein hoes ni',[917] sydd unwaith eto'n tanseilio'r cysyniad o safle hudolus a diamser. Mae'r modern a'r hynafol wedi ei gyfuno'n anorfod yma ac ni phortreadir Newgrange fel crair hynafol, digyfnewid, gan Roberts, ond yn hytrach, fel nodwedd archaeolegol sydd bellach yn atyniad twristiaid.

Canolbwyntia Roberts ar gyfleu ei brofiad fel ag yr oedd gan gynnwys tywysydd ac ymwelwyr eraill, ac nid yw'n ymatal rhag cydnabod bod newidiadau wedi digwydd i adeiladwaith y siambr.[918] Ar ddiwrnod byrraf y flwyddyn, mae pelydrau'r haul yn dod drwy'r bwlch uwch y drws presennol ac yn goleuo cefn y siambr. Wedi gosod y digwyddiad yn ei gyd-destun hanesyddol, mae Roberts yn adrodd sut y bu i'r tywysydd ail-greu'r effaith gyda golau artiffisial,[919] gan droi defod ymddangosiadol hynafol yn atyniad i dwristiaid a ail-adroddir droeon mewn diwrnod. Ymhellach, noda mai prin iawn yw'r rhai a gaiff weld y siambr yn cael ei goleuo gan yr haul. Er bod natur egsliwsif a chyfriniol yr achlysur yn cael ei hamlygu, caiff hefyd ei thanseilio wrth i Roberts adrodd bod yn rhaid bod yn rhan o loteri er mwyn gallu profi'r wefr o weld yr haul yn cyrraedd pen draw'r siambr. Mae trafod ffenomen oesol, gyfriniol a gysylltir â Derwyddaeth,[920] mewn cyd-destun cyfalafol modern yn tynnu peth o'r hud ohoni, ac aiff Roberts ymhellach i'r perwyl hwnnw. Gyda thafod yn ei foch, dywed i Americanwr nodi bod y broses, '"Yn debyg iawn i'r Superbowl"',[921] gan droi'r ddefod gyfalafol yn hyd yn oed fwy o gêm, ymhell o gyfriniaeth hynafol y safle. Mae'r sôn gan y tywyswr i ffermwr ddod o hyd i'r siambr wrth chwilio am gerrig,[922] a'r ffaith i Roberts ddefnyddio'r fersiwn lafar ogleddol ar yr enw 'ffarmwr',[923] yn gwreiddio'r holl safle ymhellach yn realiti'r byd diriaethol ac ymhell oddi wrth unrhyw fyd haniaethol Geltiadd.

O gofio cyd-destun ymweliad Roberts â'r wlad, a'i fod yn cyson gyfeirio at ymweliadau'r gorffennol, mae newid a datblygiad yn Iwerddon yn rhan bwysig o'i gyfrol. Yn anad dim, caiff ei phortreadu fel gwlad sydd wedi moderneiddio, a gwna Roberts sylwadau cyson am sut mae'r wlad yn un wahanol i'r un y teithiodd ynddi dros y degawdau. Ceir yn fynych gyfeiriadau fel y canlynol at dref Sligo wrth iddi gael ei disgrifio fel un 'dipyn mwy na'r

---

916 Lorna Siggins, 'Newgrange got new lease of light and life in 1960s "rebuild"', *Irish Times*, <https://www.irishtimes.com/news/newgrange-got-new-lease-of-light-and-life-in-1960s-rebuild-1.1275165>: cyrchwyd 12 Mai 2020.
917 Roberts, *Pobol Drws Nesa*, t. 145.
918 Ibid., t. 146.
919 Ibid.
920 'Newgrange', *Druidry.org*: <https://druidry.org/resources/new-grange-ireland>: cyrchwyd 15 Mai 2020.
921 Roberts, *Pobol Drws Nesa*, t. 146.
922 Ibid., t. 147.
923 Ibid.

darlun oedd gen i yn fy meddwl ar ôl fy unig ymweliad yn y saithdegau'.[924] Wrth nodi bod dinasoedd, trefi a thai tafarnau wedi newid ers ei ymweliadau yn y gorffennol, mae Roberts yn cynnig darlun o wlad fyw.

Canolbwyntir ar y newidiadau gwleidyddol hefyd, ac wrth deithio i Ogledd Iwerddon, gwêl Roberts beth o'r newid mwyaf ers ei ymweliad cyntaf â Belfast. Yn 1986 roedd hynny,[925] ac mae'r gwahaniaeth rhwng y cyfnod hwnnw a 2007 yn un mawr. Darlun disgwyliedig filwriaethus a geir o ddinas y 1980au gyda 'milwyr a cherbydau arfog ym mhobman, giatiau ar draws y prif strydoedd'.[926] Ond golwg wahanol a geir o'i ystafell yn 2007 wrth edrych dros y ddinas: 'I bob cyfeiriad bron mae'r gorwel yn cael ei ailwampio wrth i ddatblygiadau modern ddisodli gweddillion yr hen ddiwydiannau.'[927]

Yn hwyrach yn ei daith, wrth ymyl y dociau, gwelir bod hen nodweddion y ddinas yn parhau ond bod datblygu ar raddfa fawr yno hefyd. O glydrwydd y Crown Bar, adeilad sydd yn 'gampwaith o serameg Oes Fictoria',[928] disgrifia Roberts ardal sy'n cael ei thrawsnewid a 'Llanast y "tynnu yma i lawr a chodi draw"'.[929] Ceir yma gyfuniad o'r gorffennol a'r presennol ac mae ymdrech fwriadol ar ran y ddinas i gofio ei hanes hefyd: 'Ar y tir agored o gwmpas y neuadd mae darnau o gelf sy'n adlewyrchu hanes Belfast.'[930] Darnau mwy 'niwtral' o hanes yw'r rhain yn dathlu canrif o fragu yn y ddinas a safle ei marchnad anifeiliaid fwyaf.[931] Nid portreadu dinas gyda'r gorffennol yn fyw ynddi a wneir yma, ond yn hytrach, ddinas fodern sydd yn dewis darnau o'i hanes i'w cofio ac un sydd wrthi'n datblygu.

Nid cofnod o newidiadau i bensaernïaeth yn unig a geir gan Roberts gan iddo hefyd holi unigolion ar ei deithiau. Caiff y newid ym Melffast ei drafod o bersbectif lleol gan Pat, gyrrwr tacsi o'r dref: ' "Mae pethau wedi bod yn gwella'n rheolaidd ers mwy na deng mlynedd, ond dydi'r cwestiynau sylfaenol ddim wedi cael eu datrys, a does dim ateb fydd yn bodloni pawb."'[932] Dyma ddadansoddiad llawnach na dim ond nodi newidiadau gweledol a ddigwyddodd i'r ddinas. Er nad yw'r sefyllfa wedi datblygu i'w llawn botensial fel petai, mae sylwadau Pat yn enghreifftio bod newidiadau a datblygiadau yn digwydd yn gyson ac nad sefyllfa statig mohoni.

---

924 Ibid., t. 103.
925 Ibid., t. 115.
926 Ibid.
927 Ibid., t. 116.
928 Ibid., t. 129.
929 Ibid.
930 Ibid.
931 Ibid.
932 Ibid., t. 121.

Mae Robert Camlin, cyfrannwr arall i'r gyfrol, wedi ei osod mewn lle da i drafod newidiadau'r ddinas hefyd gan ei fod yn un o'r rhai sydd yn dylunio ei phensaernïaeth newydd.[933] Fel un sydd yn llythrennol yn siapio dyfodol y ddinas, ac yntau wedi treulio ei blentyndod yno, mae'n pwysleisio cymaint o newid sydd wedi bod. Un o'r prosiectau dan sylw ganddo oedd pont droed dros yr afon a fyddai'n cysylltu'r cymunedau Catholig a Phrotestannaidd.[934] Nodi bod y sefyllfa rhwng y ddwy gymuned wedi gwella a bod pobl wedi 'tyfu i fyny'[935] a wna Camlin, gan roi'r argraff fod y ddinas yn symud yn ei blaen at ddyfodol llewyrchus.

Fel Roberts, sydd heb wirioni gyda phob newid, nid yw'r trigolion yn gweld y moderneiddio yn nodwedd bositif bob tro. Pryderon economaidd, er gwaetha'r datblygiadau drwy'r wlad, sydd wrth wraidd pryder Mrs Duignan, perchennog siop a thafarn yn Drumsna, er enghraifft, gan fod y bywyd pentref traddodiadol wedi darfod a bod nifer o'r trigolion lleol yn mynd i siopa mewn archfarchnadoedd. [936] Bu'n rhaid i'r busnes ddatblygu o'r herwydd a throi at gynnig prydau bwyd yn ogystal â chwrw a nwyddau tŷ. Gwêl Mrs Duignan newid yng nghymeriad y trigolion hefyd gan nodi bod y to ifanc wedi mynd yn rhy ariangar a materol.[937] Daeth y datblygiad economaidd ag anfanteision felly, ac er bod ei mab, Noel, yn llai damniol, mae yntau yn poeni am y to ieuanc ac, yn enwedig felly, am eu hiechyd meddwl gan fod cyfraddau hunanladdiad yn uwch nag y bu.[938] Efallai mai Noel sydd yn mantoli agweddau'r trigolion orau wrth iddo nodi nad yw pethau'n fêl i gyd ond bod y twf economaidd yn fendith hefyd: 'Rydw i'n optimist ac yn besimist yr un pryd.'[939]

Darlun cymysg hefyd sydd gan Gwyneth Wynn, Cymraes a fudodd i Iwerddon. Mae hithau'n gweld budd y twf economaidd gan nodi bod nifer o drigolion ei hardal a fudodd i wledydd eraill bellach wedi dychwelyd yn dilyn dyfodiad y Teigr Celtaidd. Pan fu i Roberts ymweld â'r ardal gyntaf yn y 1990au wrth ffilmio cyfres *Pedwar Cae*, roedd diboblogi yn broblem enbyd yno gyda naw deg y cant o'r trigolion lleol a fynnai weithio yn gadael yr ardal.[940] Er hynny, mae'r twf mewn adeiladu tai, a hynny heb ddigon o oruchwyliaeth gan y wladwriaeth, yn beth drwg yng ngolwg Gwyneth: 'Y newid mwyaf a welodd yn ystod ei chyfnod yn yr ardal yw'r tai newydd sy'n codi ym mhobman.'[941] Mae'r ardal ymhell o fod yn

933 Ibid., t. 128.
934 Ibid., t. 130.
935 Ibid.
936 Ibid., t. 100.
937 Ibid., t. 101.
938 Ibid.
939 Ibid., t. 102.
940 Ibid., t. 80.
941 Ibid., t. 81.

statig a hynafol ei naws, yn wir, mae diffyg hynafiaeth yn broblem gynyddol yno: 'Unrhyw beth sy'n hen, maen nhw'n ei chwalu.'[942]

Mae eraill, fel Maidhc Dainín Ó Sé, yr awdur a'r cerddor, ac un a fudodd ei hun i ddod o hyd i waith, yn cynnig golwg fwy positif.[943] Mae'n croesawu'r datblygiadau economaidd a'r swyddi newydd gan nodi nad oedd dim i'w wneud ond gadael i chwilio am waith i bob pwrpas,[944] a bod y mewnlifiad yn sgil y Teigr Celtiadd yn beth i'w groesawu.

Daw datblygu a diwydiant â'i broblemau i drigolion ardal Rossport fel y disgrifir yn y bennod 'Dafydd a Goleiath',[945] wrth iddynt brotestio yn erbyn pibell olew nwy newydd gan gwmni Shell a fyddai'n mynd drwy'u hardal. Er bod darlun o darfu ar borth braf, ac yr arfordir 'hyfryd',[946] nid arbed delfryd o dirwedd yw bwriad y trigolion ond, yn hytrach, ddiogelu cymuned. Er bod y bibell nwy yn adlewyrchu datblygiad newydd yn y gymuned a bod y trigolion yn adweithio yn ei herbyn, nid portread o griw o bobl yn ceisio glynu at y gorffennol a geir, ond un o weithredwyr ymarferol cyfoes.

Chwerwfelys yw ymweliad Roberts â Doolin hefyd ac yntau heb fod yno er 1982,[947] gan hynny mae'r newid yn un syfrdanol: 'Doeddwn i ddim yn adnabod y lle i ddechrau'.[948] Lle nad oedd ond 'mawnog a cherrig o'r blaen',[949] codwyd byngalos a chyfleusterau gwyliau i ymwelwyr, ac ehangodd arlwy Doolin o dafarn yn unig yn y1980au i gynnwys nifer o siopau wedi eu hanelu at ddiwallu anghenion twristiaid. Ar un llaw, mae Roberts yn falch o weld prysurdeb yn llenwi'r lle, ond noda fod un peth ar goll ac mai 'Gwyddelod'[950] yw hwnnw. Ni cheir, serch hynny, ramantu'r gorffennol lle'r oedd pethau'n wahanol ond, yn hytrach, derbynnir y sefyllfa fel gwirionedd trist.

Dadrith yw ymateb Roberts i'r newid yma, yn enwedig o gofio hanes y pentref a'i ran yn adfywiad cerddoriaeth werin Iwerddon gyda thafarn enwog O'Connors wedi newid dwylo hefyd, ond bod y perchnogion newydd yn cadw'r enw gan ei fod yn atynnu busnes.[951] Yr ymweliad â'r dafarn hon, a chlywed prinder acenion Gwyddelig a arweiniodd Roberts at ei ddadrithiad gyda'r pentref yn ehangach. Nid yw'r newidiadau hyn wrth fodd Roberts, gan i'r pentref bychan droi'n ganolfan dwristiaeth i bob pwrpas ac i ddiwydiant ymwelwyr

---

942 Ibid.
943 Ibid.
944 Ibid., t. 29.
945 Ibid., tt. 82-91.
946 Ibid., t. 89.
947 Ibid., t. 61.
948 Ibid.
949 Ibid.
950 Ibid.
951 Ibid., t. 62.

feddiannu'r ardal. Llawn gwell gan Roberts oedd Doolin y 1980au a gellir dadlau ei fod, o'r herwydd, yn rhamantu peth ar y gorffennol gan weld y pentref fel yr oedd yn llawn mwy deniadol.

Llafn deufin yw datblygiad yng ngolwg Roberts, yn ogystal â rhai o drigolion y wlad. Peth naturiol efallai yw teimlo chwithdod wrth weld lleoliadau atgofion melys yn newid, a cheir ymdeimlad gan Roberts, fel y gwelir uchod, fod llefydd, wrth newid a moderneiddio, yn colli peth o'u cymeriad. Mae mannau fel Doolin yn ymylu ar beidio â bod yn Iwerddon o gwbl, gan gymaint eu newid, ac er bod natur ysgafn y gyfrol yn ymatal rhag trafod gormod ar y syniad yma o chwithdod, nid yw Roberts ychwaith yn ymatal rhag trafod ei ganfyddiadau. Mae'r newid yn cadarnhau bod y wlad yn parhau i ddatblygu ac ymhell o fod yn wlad statig 'draddodiadol Geltaidd.'

Ceir rhai lleoliadau sydd wedi newid ond sy'n dal wrth fodd yr awdur. Un o'r rheiny yw Dinas Galway sydd wedi ei gweddnewid ers ymweliad cyntaf Roberts:

> Ond doedd fawr o debygrwydd rhwng y ddinas wledig ei naws a welais bryd hynny a'r metropolis sydd yma heddiw, dinas gyda phoblogaeth ifanc ac un o'r rhai cyflymaf eu twf yn Ewrop.[952]

Dyma ddinas sy'n llawn bwrlwm modernrwydd ond sydd eto'n cadw ei hapêl iddo, dinas na fyddai'n gallu bod mewn portread traddodiadol o Iwerddon hynafol. Mae yma ymwelwyr hefyd, a'r ddinas wedi datblygu i ddiwallu eu hanghenion, ond, serch hynny, wrth fynd i un o'i hoff dafarnau yn y dref, Tigh Neachtain, 'hen dafarn wych',[953] caiff Roberts fwynhad o weld bod yno 'groestoriad teg o ddinas Galway'.[954] Nid yw newid yn ei hanfod yn beth drwg os yw'r gymuned leol yn parhau i fod yn rhan o'r newid hwnnw a'i fod, at ei gilydd, o'u plaid.

Tanseilir hefyd y cysyniad fod yna linyn heb ei dorri rhwng y gorffennol a'r presennol ymysg y bobl hynny sy'n byw oddi ar y tir yn nhraddodiad rhamantu amaethyddiaeth gan sgwrs gyda chriw o ffermwyr ar Ynysoedd Aran. Gyda dim ond ychydig amser cyn i'w long adael yr ynys, aiff Roberts i dafarn a chodi sgwrs gyda thrigolion lleol.[955] Roedd criw ohonynt wedi bod ar gwrs yn dysgu sut y byddai eu cyndeidiau yn trin y tir. Noda un ohonynt

---

[952] Ibid., t. 74.
[953] Ibid., t. 75.
[954] Ibid.
[955] Ibid., t. 67.

ei fod wedi dysgu pethau am ei fferm ei hun na wyddai ddim amdanynt ynghynt,[956] gan ddangos yn eglur bod dulliau amaethu wedi moderneiddio yno ac nad oes ymwybyddiaeth gynhenid ymysg y trigolion o ddulliau hynafol.

Defnyddir yr ansoddair 'cyntefig' i ddisgrifio tafarn Brics fel ag yr oedd hi pan ymwelodd Roberts â hi gyntaf.[957] Awgrymir nad oedd hynny'n ddrwg o beth o ystyried perthynas hirhoedlog yr awdur â hi, ac mae elfen o *nostalgia* yn ei ddisgrifiad o'r diffyg tai bach a'r canu Gwyddelig wrth iddo hel atgofion amdani.[958] Serch hynny, defnyddio ansoddair o'r fath er mwyn pwysleisio datblygiad yr adeilad a wna Roberts wrth gyfosod y dafarn fel yr oedd gyda'r dafarn ar ei newydd wedd. Bellach, mae'r lle 'wedi dyblu, os nad treblu yn ei faint, ond mewn ffordd chwaethus a di-lol',[959] ac er ei bod wedi newid, ni chollodd hi ddim o'i chymeriad. Daeth y bar 'yn ddigon mawr i gynnal y nosweithiau cerddoriaeth gorlawn yn ystod yr haf, ac yn ddigon clyd i beidio bod yn oeraidd yn y gaeaf'.[960] Unwaith eto gwelwn nad yw newid a datblygu yn beth drwg yn ei hanfod, ym meddwl Roberts, a daw'r dafarn hon yn rhyw adlewyrchiad o Iwerddon yng ngweddill y gyfrol. Ynddi, mae'r hynafol a'r modern yn cydfodoli law yn llaw, 'a phaneli gwydr lliw yn adlewyrchu rhai o drysorau cynhanesyddol yr ardal'.[961] Ond mae hi wedi newid yn ei hanfod ers ymweliad cyntaf Roberts, ac nid yw hynny, o reidrwydd, yn ddrwg o beth.

Gan ei fod wedi byw a newid gydag Iwerddon, ceir darlun mwy triw o realiti gan Roberts a thrwy gynnwys barn a geiriau trigolion lleol, yn hytrach na gwerthuso'r wlad drwy lygaid teithiwr yn unig, llwydda i gynnig darlun llawnach o Iwerddon ac un mwy cytbwys.

Daw Iwerddon Roberts yn fyw i'r darllenydd drwy'r defnydd hwnnw o brofiad personol, boed hynny'n un yr awdur neu'n un trigolion y wlad. Cafodd Ynysoedd Aran eu rhamantu yn y cyfrolau blaenorol ac er bod Roberts yntau'n euog o'u trafod mewn golau sy'n gogwyddo at hynny, mae'n ymwybodol o gyd-destun ehangach. Caiff sgwrs gyda'r meddyg lleol, Dr Marion Broderick,[962] ac mae hi'n llym ei thafod am realiti byw mewn ardal sydd yn denu rhai miloedd o ymwelwyr, gan nodi, 'Byddai ychydig o bobl yr ynysoedd ar eu hennill, a'r gweddill yn gorfod derbyn y peth',[963] wrth drafod y ddadl economaidd o blaid ymwelwyr. Dyma faes na chyffyrddwyd ag ef yn fanwl gan y cyfrolau eraill, er i Williams nodi wrth

---

[956] Ibid.
[957] Ibid., t. 18.
[958] Ibid.
[959] Ibid.
[960] Ibid.
[961] Ibid.
[962] Ibid., t. 64.
[963] Ibid., t. 65

edrych ar rai o drigolion yr ynys, 'Tybed a ddirmygent ni am feddwl archwilio'r lle mewn ychydig oriau?'[964] Ond nid archwilir y cwestiwn hwnnw ac aiff y teulu yn eu blaen i fwynhau'r ynys fel twristiaid, gan gynnwys bwyta brechdanau eu hunain yno,[965] gweithred gan dwristiaid sydd yn ennyn dirmyg Dr Broderick rai degawdau'n ddiweddarach.[966] Yn ddiweddarach, noda Williams ei bod yn hawdd maddau i drigolion yr ynysoedd am hawlio pris uchel am fwyd yno i'r sawl a fynnai ei brynu gan mai 'byr oedd tymor yr ymwelwyr [...] a byddai gweddill y flwyddyn yn llwm a chaled. Pwy welai fai arnynt am fanteisio ar eu cyfle?'[967] Er hynny, golwg gyffredinol iawn yw hon gan gymryd bod gwerth economaidd i bob un o drigolion yr ynysoedd mewn twristiaeth.

Aiff cipolwg Roberts drwy lygaid Dr Broderick yn ddyfnach wrth iddo drafod y syniad o ramant byw ar ynysoedd o'r fath yn uniongyrchol. Nid yw'r bywyd yno fel y byddai rhai yn ei ddisgwyl a chael siom o wynebu realiti bywyd ynysig oedd eu hanes:

> Ond doedd hi ddim yn meddwl llawer o'r mewnfudwyr a fyddai'n cael eu denu i'r ynys gan freuddwyd ramantaidd am y "Llwydwyll Celtaidd". Anaml y byddai'r rheiny yn aros mwy nag un gaeaf.[968]

Drwy gynnwys persbectif un o'r trigolion lleol, cawn olwg fanylach ar ardal sydd wedi bod yn llawn swyngyfaredd yn flaenorol, a gwelwn effeithiau'r swyngyfaredd honno wedi iddi hudo pobl draw. Dangoswyd, hefyd, sut mae'r freuddwyd Geltophilaidd yn dadlaith wrth iddi fynd benben â realiti bywyd mewn ardal anghysbell. Nid yw'r darlun hwn gan Roberts yn un anffafriol ac nid yw'n bwriadol danseilio'r darluniau blaenorol ychwaith. Yn hytrach, canlyniad ei ddull o lunio'r gyfrol a'i bwyslais ar sgwrsio gyda thrigolion y wlad yw'r olwg fwy realistig hon.

Anaml y rhamantir agweddau henffasiwn ar Iwerddon. Ar adegau, digon pytiog yw'r sylw a wneir o apêl mannau sydd yn hen gyda phentref Leenaun yn un 'hardd a hen ffasiwn',[969] er enghraifft, er nad oedir i ddisgrifio mwy na hynny arno. Pan fo'r elfennau hynny yn adlewyrchu Cymru ei blentyndod, serch hynny, mae'r apêl yn gryfach. Er nad yw golwg Roberts ar y wlad yn ymhyfrydu gymaint yn yr agwedd hon ar fywyd y wlad, caiff ei dynnu gan ei apêl ar adegau. Mewn cyngerdd, mae'n sylwi ar natur gymysg y gynulleidfa:

---

[964] Myfi Williams, *Tro yn Iwerddon* (Caernarfon: 1964), t. 58.
[965] Ibid., t. 62.
[966] Roberts, *Pobol Drws Nesa*, t. 65.
[967] Williams, *Tro yn Iwerddon*, t. 69.
[968] Roberts, *Pobol Drws Nesa*, t. 66.
[969] Ibid., t. 83.

> pobol o bob oed a chefndir a chwaeth, oedd yn fy atgoffa o gynulleidfa drama neu noson lawen yn neuadd Rhoshirwaun ers talwm, cyn i deledu ddechrau cadw pobl yn y tŷ.[970]

Mae mymryn o eiddigedd yma wrth i gynulleidfa Iwerddon ddal ysbryd profiad cymunedol sydd, yn ôl Roberts, beth bynnag, wedi darfod â bod yn Llŷn. Hiraetha Roberts am amser sydd wedi mynd ers dyfodiad y teledu yn Llŷn ond sydd yn fyw o hyd yn Iwerddon. Awgryma hyn fod y gynulleidfa hon wedi cadw rhyw gynneddf o orffennol Cymru sydd bellach wedi darfod â bod.

Weithiau, rhamantir gan y trigolion eu hunain yn ogystal. Crybwyllwyd eisoes farn Mrs Duignan am materoldeb ac ariangarwch y genhedlaeth ifanc,[971] a'r newidiadau cymdeithasol a ddaeth yn sgil moderneiddio a wnaeth cadw siop a thafarn fechan yn anos.[972] Wrth sgwrsio gyda'r Tad Andy Leahy, daw'n amlwg ei fod yn teimlo fod rhai pethau wedi eu colli wrth i Iwerddon ddatblygu a newid, yn benodol, felly, yr ysbryd cymunedol a'r ffaith fod pobl wedi mynd yn fwy materol.[973] Er bod arsylwadau'r Tad yn deillio o brofiad personol gan ei fod wedi byw yn yr ardal yn blentyn a dychwelyd iddi,[974] mae ei ganfyddiad o'r ardal wedi ei liwio gan ramant at y gorffennol a chanfyddiad idylig o'r presennol. Dyma ardal wledig ac ynddi mae nifer o'r nodweddion hynny y byddai rhywun fel Arnold yn eu gweld yn y gwledydd Celtaidd:

> Rydw i'n gwerthfawrogi ysbrydolrwydd y lle, a'r harmoni rhwng môr a thir, rhwng pobol a natur. Dyma sy'n gwneud y lle yn arbennig ac rydw i'n falch iawn mod i wedi fy magu yma.[975]

Dyma ddangos bod y syniadau poblogaidd hynny wedi ymdreiddio ymysg y boblogaeth leol a bod ganddynt rym yn eu canfyddiad o'u hardal.

Nid yw'r closrwydd hwn yn arwydd o hynafoliaeth bob tro. Defnyddia Roberts y cysyniad agosrwydd at natur i adlewyrchu modernrwydd Iwerddon ar un achlysur a thanseilio'r syniad mai rhywbeth sy'n clymu'r wlad wrth y gorffennol yw hynny. Yn ardal Conemara, caiff Roberts aros mewn 'tŷ a phopeth o'i gwmpas mewn cytgord gyda byd natur'.[976] Nid hen fwthyn to gwellt yw hwn ond, yn hytrach, adeilad 'Sgandinafiadd yr olwg',[977] wedi ei

---

970 Ibid., t. 58.
971 Ibid., t. 101.
972 Ibid.
973 Ibid., t. 21.
974 Ibid., tt. 20-1.
975 Ibid., t. 21.
976 Ibid., t. 77.
977 Ibid.

adeiladu fel cartref i deulu sydd â chysylltiadau yn Llŷn. Mae Marie, un o berchnogion y tŷ, yn Swyddog Adnoddau Gwledig sy'n gweithio i ledaenu'r gair da am ddulliau arbed egni tra bo ei gŵr, Josie, yn adeiladwr. Technegau modern, nid rhai hynafol, sy'n gyfrifol am gytgord y tŷ â natur, felly. Ymhellach, mae natur, meddai Roberts, yn 'ganolog i fywydau'r teulu',[978] a hynny am resymau economaidd yn hytrach na rhai ysbrydol. Mae gan Josie gymwysterau awyr agored ac wrthi'n adeiladu canŵ pan gyrhaedda Roberts. Dyma roi gogwydd cyfoes ar ystrydeb o ymlyniad a harmoni Gwyddelod gyda natur a'r tir o'u cwmpas.

Prin yw'r disgrifiadau rhamantaidd o fyd natur yng nghyfrol Roberts er iddo, ar ambell achlysur, weld golygfa arbennig yn werth ei rhannu. Un o'r achlysuron hynny yw yn ystod ei ymweliad â Chonemara, ac nid cyd-ddigwyddiad yw ei fod ar fin ymweld ag artist yw hynny. Mae naws gyfriniol i'w ddisgrifiad wrth iddo ganolbwyntio ar nodweddion naturiol: '"Pe bawn yn artist..." Fedrwn i ddim osgoi'r teimlad hwnnw wrth i haul y bore losgi'r tarth a datgelu golygfa hudolus dros fryniau a chorstir a llynnoedd.'[979] Mae'r tarth yn diflannu yn adleisio disgrifiadau rhamantaidd beirdd y gorffennol tra bo'r ansoddair 'hudolus' yn rhoi gwedd arallfydol i'r disgrifiad, ond byrhoedlog yw'r disgrifiad a'r agwedd yma.

Mae rhywbeth yn Dderwyddol-wyllt yn ymddangosiad y cerddor, Liam Ó Maonlai, hefyd, wrth iddo ymddangos wedi noson hwyr i gael sgwrs gyda'r awdur. Nid yw'r ffaith fod y ddau yn adnabod ei gilydd drwy gysylltiadau teuluol yn gwneud dim i liniaru'r portread hwn,[980] yn wir, gallai cofio na welodd Roberts Liam ers pan oedd yn blentyn ychwanegu at y canfyddiad ohono fel dieithryn. Pan ymddengys Liam i gael sgwrs â Roberts, nid yw'n ymdebygu i gerddor modern o gwbl: 'O leiaf doedd o ddim yn edrych fel un o sêr y byd roc, ond yn fwy fel bardd neu un o broffwydi'r Hen Destament.'[981] Mae naws ramantaidd iddo a chaiff darllenydd ei atgoffa o ddarlun enwog Thomas Jones, 'The Last Bard', wrth feddwl am feirdd a phroffwydi hynafol. Yn hytrach nag ymddangos fel cerddor a berthynai i'r byd cyfoes, modern, caiff ei bortreadu fel darn o'r gorffennol wedi dod yn fyw. Mae darlun o Liam ar y dudalen flaenorol yn ei ddangos gyda gwallt trwchus a phwt o farf sydd unwaith eto'n adleisio darluniau cyfarwydd o feirdd blêr.[982] Mae delweddu barddonol o'r fath yn gweddu i gerddor gwerin yn well nag un roc, dyweder, ac felly gall y *genre* y gweithia Liam ynddo fod yn rhannol gyfrifol am ogwydd Derwyddol y disgrifiad.

---

978 Ibid.
979 Ibid., t. 78.
980 Ibid., t. 42.
981 Ibid., t. 44.
982 Ibid., t. 43.

Mae Roberts hefyd yn cymharu Iwerddon â Chymru'n aml ac yn tynnu cymariaethau rhwng trigolion y wlad. Mae synnwyr digrifwch y Gwyddelod a'r Cymry yn debyg, yn ei dyb ef, ac yn nhafarn 'Duignan's', mae'n cofio sut y bu iddo gael ei 'atgoffa o hiwmor y cymoedd a'n blynyddoedd ym Mhontypridd'.[983] Ychwanega fod y cyfaill a oedd gydag ef yn mwynhau'r cwmni yn frodor o Borth Tywyn ac yn gartrefol iawn yno.[984] Awgrymir felly fod y criw cymysg hwn hefyd o'r un anian. Cymhara Roberts fannau penodol yn y ddwy wlad gan gyflwyno tebygrwydd rhyngddynt. Mae elfen arall yn ennyn cymhariaeth gyda Phontypridd wrth iddo sylwi fod yr *English Market* yn ninas Corc yn ei atgoffa o farchnad y dref honno.[985] Wrth drafod Michael Collins a'i garchariad yng ngwersyll Fron-Goch, noda fod tebygrwydd rhwng ardal ei gartref a Meirionnydd: 'Wrth edrych ar y bryniau gwyrddion o gwmpas Sam's Cross roedd hi'n hawdd deall pam bod tirwedd Meirionnydd yn codi hiraeth arno am ei gartref.'[986] Nid cymharu er mwyn ehangu apêl yr ardal a wneir yma, fel y gwnaethpwyd gan James, ond yn hytrach, nodi tebygrwydd dwy ardal fel modd o ehangu gwybodaeth y darllenydd am Collins, a'i ddynoli hefyd.

Hyd yn oed pan nad yw Roberts yn cymharu Iwerddon â Chymru yn unig, mae cysylltiad Cymreig i'r gymhariaeth. Wrth iddo deithio ar y ffordd i Fangor-yn-Erris, er enghraifft, mae'n cymharu'r ardal anial, 'heb weld na thŷ na thwlc',[987] i deithio drwy'r Paith ym Mhatagonia. Nid yw'r cymariaethau ychwaith yn rhai ffafriol bob amser gyda Bundoran yn cael ei chymharu â 'Rhyl wedi dirywiad y Marine Lake',[988] tref 'dlodaidd' yw hi ac un a ddirywiodd ers ymweliad blaenorol yr awdur. Yr hyn sydd yn cysylltu'r cymariaethau hyn yw eu bod nhw'n debygol o fod yn gyfarwydd i ddarllenwyr y gyfrol fel yn achos James. Yr un yw diben eu defnyddio yma, sef cynnig darlun eglurach o fan penodol i'r sawl sydd heb fod yno. Dichon hefyd, fel yn achos y farchnad, fod Roberts ei hun yn profi'r wlad drwy bersbectif Cymreig a bod hynny'n lliwio'i ganfyddiad ohoni.

Trafodwyd uchod sut yr oedd gan Roberts ymwybyddiaeth o rai ystrydebau am Iwerddon ac mae'r ymwybyddiaeth honno yn mynd law yn llaw ag ysbryd ysgafn y gyfrol. Un enghraifft nodedig o fod yn ymwybodol o ddisgwyliadau cynulleidfa Gymreig yw ei sylw wrth drafod cyfnod yn ffilmio yn Iwerddon a pham yr aeth y criw i dafarn: 'Fedrwch chi ddim gwneud rhaglenni am Iwerddon heb ffilmio grŵp o gerddorion traddodiadol gyda'u

---

983 Ibid., t. 97.
984 Ibid.
985 Ibid., t. 41.
986 Ibid., t. 37.
987 Ibid., t. 85.
988 Ibid., t. 105.

ffidlau a'u bodhran a'u banjo amgylch tân mawn mewn tafarn.'[989] Gŵyr Roberts fod rhai pethau'n ddisgwyliedig mewn darlun o'r wlad, ond mae ei ddisgrifiad o'r noson a ddilynodd yn cynnig darlun dyfnach o'r ystrydeb arwynebol. Rhoddwyd y camerâu i'r neilltu ac ymunwyd yn yr hwyl leol, ac er bod mwynhau'r 'craic' a chael noson hir mewn tafarn yn ystrydeb ynddi'i hun, i raddau, mae portread Roberts yn un dyfnach na hynny'n unig. Mae'r criw yn brecwasta gyda perchnogion y dafarn yn dilyn y dathlu ac mae'n nodi iddo yrru ambell gerdyn Nadolig at drigolion Drumsna;[990] portreadir y dafarn a'r bobl oedd ynddi yn llawnach o'r herwydd.

Darlun digon cyfarwydd a geir o yfwyr mewn tafarn yn Galway sef un o hen dyddynwyr, a physgotwyr mewn capiau stabal, yn yfed Guinness mewn snygiau.[991] Eto i gyd, mae Roberts yn ymwybodol o apêl y ddelwedd hon ac o ba mor ystrydebol yw hi gan nodi bod gan y dynion hyn 'y math o wynebau a ddangoswyd ganwaith ar galendrau a chardiau Real Ireland'.[992] Unwaith eto, ceir ganddo well darlun o'r Iwerddon go iawn na'r cardiau hynny gan iddo nodi nad hen ddynion mewn capiau oedd unig gwsmeriaid y dafarn hon; roedd ganddi, yn hytrach, ystod ehangach gyda nifer dda o'r 'trendis ifanc'[993] yno hefyd yn yfed arlwy fwy amrywiol.

Cyffyrddwyd eisoes â sut y bu i Roberts ddod wyneb yn wyneb â sawl ystrydeb neu syniad ohonynt a'u trin yn ei ffordd ddihafal ei hun ar Ynysoedd Aran. Mae'n ymwybodol na fyddai tafarn *Ti Joe Mac Bar Hostel* yn gweddu i'r syniad arferol o dafarn Wyddelig: 'Welwch chi mo'i lun ar galendr tafarnau traddodiadol Iwerddon',[994] a hynny am mai 'Blocyn sgwâr hyll ar ochr bryn'[995] yw'r adeilad. 'Digymeriad'[996] yw'r bar yno hefyd, ymhell o fyd tafarndai 'traddodiadol' gyda'u snygiau a gwaith coed celfydd. Unwaith eto, wrth holi'r hwn a'r llall a chael profiad dyfnach o'r adeilad nag edrych arno'n unig, daw Roberts i ddeall bod y lle ymhell o fod yn 'ddi-gymeriadau',[997] gan ddangos bod mwy i'r dafarn na rhagdybiaethau.

Serch hynny, nid yw Roberts mor hunanymwybodol o rym ystrydebau pan ddaw at unigolion gan iddo, ar fwy nag un achlysur, gyfeirio at unigolion fel darluniau o 'Wyddelod'. Mae'r enghraifft gyntaf yn enwedig o nodedig gan mai Cymraes yn hytrach na Gwyddeles

---

989 Ibid., t. 96.
990 Ibid.
991 Ibid., t. 75.
992 Ibid.
993 Ibid.
994 Ibid., t. 67.
995 Ibid.
996 Ibid.
997 Ibid.

yw hi. Wrth ei disgrifio, noda: 'Gyda'i gwallt cringoch ffwrdd-â-hi, ei phrysurdeb hamddenol a'r groes ar gadwyn o amgylch ei gwddw, mae Gwyneth yn edrych fel Gwyddeles.'[998] Nodweddion gweledol Gwyddeles, felly, yw gwallt coch heb fod yn rhy daclus, a chawn ein hatgoffa yn hynny o beth o glawr *Iwerddon* gan Clive James, un a oedd yn hael gyda ei ddefnydd o ystrydebau. Yn ail, mae'r groes ar gadwyn yn awgrymu ymlyniad wrth Gatholigiaeth neu natur fwy ysbrydol na'r sawl nad yw yn gwisgo gemwaith o'r fath. Gall disgrifiad fel hwn fod wedi ei lunio i geisio cyfleu pa mor llwyddiannus oedd Gwyneth wedi dod yn rhan o'r gymuned y bu iddi fyw ynddi ers blynyddoedd, ond mae, yn anad dim, yn ailgylchu hen ystrydebau am ymddangosiad Gwyddelod.

Ceir enghraifft arall o ddefnyddio 'teipiau' wrth iddo gyfarfod â John, un o berchnogion gwesty gwely a brecwast yn Noolin. Gan iddo gyfarfod Bridget, ei wraig, yn gyntaf, a'i bod hi o Bafaria, y mae'n disgwyl cyfarfod ag 'Almaenwr talsyth, soffistigedig'[999] sy'n bradychu rhagfarn o sut mae'r awdur yn meddwl am drigolion y wlad honno. Er bod cywair y rhagdybiad hwn yn un ysgafn a'i fod, yn ôl pob tebyg, wedi ei anelu at godi gwên ymysg darllenwyr, nid yw defnyddio ystrydeb o'r fath o dan esgus hiwmor yn ei hesgusodi. Mae'r ffaith fod ystrydeb o'r fath wedi ei defnyddio at bwrpas hiwmor a bod yr awdur wedi troi ati yn nodedig ynddi hun ac yn awgrymu bod gan Roberts ymwybyddiaeth o apêl darlun o'r fath a pharodrwydd darpar ddarllenydd i'w derbyn.

Nid Almaenwr ystrydebol a gyferfydd Roberts, ond yn hytrach, '[g]ymeriad o Wyddel',[1000] ac mae ei edrychiad yn rhan fawr o'r canfyddiad hwnnw. Dyma ddyn gyda 'barf drwchus yn britho [...] wyneb direidus ffermwr-bysgotwr o'r gorllewin: gwladwr o'i gorun i'w sawdl, ac eto'n un y gallech yn hawdd ei blannu ynghanol grŵp y Dubliners'.[1001] Gyda'i locsyn a'i olwg briddog, mae'r gŵr hwn yn edrych fel Gwyddel clasurol, ym meddwl Roberts, a chaiff rhywun ei atgoffa o ddisgrifiad plant Williams o ddyn a oedd yn 'rêl Gwyddel',[1002] gan gymaint ei flerwch. Serch hynny, er bod ymddangosiad John yn cael ei ddefnyddio i ategu ystrydebau am Wyddelod, mae ei farn am yr ardal a gofnodir gan Roberts yn ategu ei ddadansoddiad realistig, diramant o Doolin. Nid oes unrhyw ddelfrydu yng ngolwg John wrth iddo ddisgrifio dirywiad y gymuned leol a'r tai haf sydd wedi llenwi'r pentref.[1003]

---

[998] Ibid., t. 80.
[999] Ibid., t. 69.
[1000] Ibid.
[1001] Ibid.
[1002] Williams, *Tro yn Iwerddon*, t. 131.
[1003] Roberts, *Pobol Drws Nesa*, t. 69.

Apelir at fythau dirywiad Celtaidd gan Roberts hefyd gan ddefnyddio'r cysyniad o golledion y Celtiaid y tu draw i gyd-destun hanesyddol bodolaeth dybiedig y bobloedd hynny. Wrth drafod ymdrech Wolfe Tone yn 1798 i frwydro yn erbyn Llywodraeth Prydain gyda'r *United Irishmen* a thros fil o filwyr o Ffrainc, dywed: 'Colli'n anrhydeddus, yn y traddodiad Celtaidd, oedd eu hanes.'[1004] Ceir yma chwarae ar natur gysurlon ystrydeb, bod y Celtiaid, er cymaint eu brwdfrydedd, wedi eu tynghedu i golli, un sydd yn olrhain ei gwreiddiau waith Matthew Arnold a thu hwnt. Nododd Arnold: 'For ages and ages the world has been constantly slipping, ever more and more, out of the Celt's grasp. "They went forth to the war," Ossian says most truly, but they always fell!'[1005] Ceir hefyd gydnabyddiaeth gan Roberts mai Celtiaid yw'r Gwyddelod a'u bod yn perthyn i gyd-destun ehangach o ran colledion mewn brwydrau.

Aiff natur oddefgar Roberts, a ddeillia o'i adnabyddiaeth o'r wlad a'i phobl, ymhellach wrth iddo drafod y gwahaniaethwr mawr rhwng Cymru ac Iwerddon, a Llydaw, yn ystod yr ugeinfed ganrif, sef crefydd. Nodwyd uchod fod Roberts yn llawn ymwybodol o ragfarn wrth-Gatholig a'i heffeithiau ar ei ganfyddiad o Wyddelod cyn iddo ddechrau ymweld â'r wlad, a gwna ymdrech fwriadol i beidio ag ailadrodd yr un rhagfarnau.[1006]Agwedd ryddfrydig tuag at Gatholigion sydd gan Roberts ac mae'n gydymdeimladwy â hanes y Catholigion ym Melffast yn enwedig, yn llawn mwy na'r Protestaniaid, gan adleisio James yn hynny o beth. Wrth ymweld ag ardal Babyddol yn y ddinas, caiff y trigolion eu portreadu fel dioddefwyr a'r Protestaniaid fel gorthrymwyr.[1007]

Ceir portread ffafriol ganddo o offeiriad hefyd, a hynny, unwaith eto am iddo ei adnabod ers ei deithiau blaenorol ac am iddo gynnal sgwrs ag ef er mwyn trafod ei safbwyntiau.[1008] Caiff y Tad Andy Leahy ei bortreadu fel gŵr rhesymol ac mae'r darlun ohono yn ei grys agored yn dal ci heb arwydd o goler gron yn un agosatoch.[1009] Mae myfyrdodau'r Tad yn trafod yr Eglwys Gatholig fel ag y bu, ac yn ddigon beirniadol wrth drafod newidiadau ym mharch pobl Iwerddon at offeiriaid: 'Roedd o'n fwy o ofn nag o barch, a diolch i Dduw bod y dyddiau hynny drosodd.'[1010] Drwy rannu safbwynt o'r fath yng ngeiriau offeiriad, gall Roberts bortreadu rhywbeth a oedd yn ganfyddiad gan awduron llyfrau taith eraill mewn dull llawer mwy cytbwys a rhesymol.

---

[1004] Ibid., t. 94.
[1005] Matthew Arnold, *On the Study of Celtic Literature* (London: 1867) tt. 106-7.
[1006] Roberts, *Pobol Drws Nesa*, t. 10.
[1007] Ibid., t. 120.
[1008] Ibid., t. 20.
[1009] Ibid.
[1010] Ibid., t. 21.

Ar yr olwg gyntaf, mae Roberts yr un mor oddefgar o'r ffaith fod merch dau gyfaill iddo wedi mabwysiadu Catholigiaeth fel crefydd. Magwyd Rhian Haf yn ferch i ddau riant Cymraeg yn Nrumsana ac er bod Siân a Dai, ei rhieni, wedi dod yn rhan weithgar o'r gymuned, noda Roberts: 'Bron yr unig weithgaredd yn y pentref nad oedd Siân a Dai yn rhan ohono oedd y bywyd crefyddol.'[1011] Mae hynny, mae'n debyg, am nad ydynt yn Gatholigion. Ymddengys mai fel gwrthbwynt i hynny y nodwyd bod Rhian newydd dderbyn ei chymun cyntaf, fel modd o ddangos bod rhan o'r teulu wedi dod yn rhan gyflawn o'r gymuned. Sylw'r frawddeg ganlynol yw'r un dadlennol, serch hynny, gan fradychu olion y rhagfarnau hynny a drafodwyd gan Roberts ei hun ar ddechrau'r gyfrol. Wedi trafod y cymun cyntaf, dywed, 'Ond mae'n ymwybodol iawn o'i Chymreictod.'[1012] Yr awgrym, anfwriadol, yw bod y ddeubeth, sef derbyn Cymun Catholig a Chymreictod, yn wrthwynebus i'w gilydd a bod yn rhaid i Roberts sicrhau'r darllenydd fod Rhian heb fod ar ei cholled o wneud hynny. Dim ond wedyn y trafodir sefyllfa ieithyddol y teulu a'r ffaith fod Rhian yn deall Cymraeg er nad yw hi'n siarad yr iaith bellach, ac ymddengys bod ei daliadau crefyddol yn llawer mwy dylanwadol ar ei Chymreictod nag unrhyw ffactor arall.

Golwg fwy cyffredinol a geir o grefydd wrth i Roberts ymweld â Croagh Padrig, mynydd sanctaidd Iwerddon. Ceir disgrifiad diragfarn o arferion y pererinion yn cerdded i ben y mynydd hwnnw ac nid yw Roberts yn gweld dim o'i le arnynt.[1013] Mae beirniadaeth, serch hynny, ar natur fasnachol y bererindod fodern wrth iddo nodi, 'Gwelsom ar ddechrau'r daith fod Mamon yn fyw ac yn iach ymysg y pethau ysbrydol.'[1014] Cyfeirio y mae at nifer o stondinau yn gwerthu croesau, cofroddion a ffyn i ddarpar ddringwyr. Nid yw Roberts yn nodi'n echblyg fod y berthynas rhwng y masnachu hwn a chrefydd yn unigryw i Gatholigiaeth, ond o gofio'r traddodiad o gyfosod ariangarwch a Chatholigiaeth yn y canon Cymreig, mae'r sylw hwn yn cyd-fynd â phatrwm ehangach. Yn nodweddiadol o'i arddull, ychwanegir dogn o hiwmor at y sylw wrth iddo nodi ymateb plentyn i ymholiad Catrin Beard, cyflwynydd y rhaglen, a oedden nhw'n gwerthu ffyn: '"Too fucking right we are," oedd yr ymateb defosiynol.'[1015] Mae'n amlwg, er y gwamalu, nad yw Roberts yn or-hoff o natur gyfalafol y mynydd, ond ni cheir beirniadaeth ar Gathologiaeth yn uniongyrchol, ond yn hytrach, ar ysbryd cyfalafol y sawl sy'n manteisio ar bererinion. Ceir cymysgedd o feirniadaeth a hiwmor ymhellach wrth i Roberts drafod ymweliad â'r eglwys fechan ar y copa

[1011] Ibid., t. 100.
[1012] Ibid.
[1013] Ibid., t. 83.
[1014] Ibid.
[1015] Ibid.

ar ‘Reek Sunday’, y diwrnod pwysicaf i bererinion.[1016] Er iddynt gyrraedd hanner awr cyn diwedd tybiedig y gwasanaeth, roedd y capel wedi ei gau a’r offeiriaid yn gwrando ar gêm bêl-droed gan ei bod yn ddiwrnod ‘local derby’.[1017] Sylw Roberts oedd bod rhaid i bererinion hwyrol ‘ofalu am eu lles ysbrydol eu hunain’,[1018] felly, ni cheir beirniadaeth ar offeiriaid yn gyffredinol yma, ond yn hytrach, ar yr unigolion penodol a benderfynodd gau’r eglwys ynghynt. Ni ddefnyddir yr esiampl unigol hon fel rhywbeth sydd yn gynrychioliadol o Gatholigiaeth neu Gatholigion yn ehangach. Unwaith eto, mae arddull ysgafn Roberts yn lleihau effaith y feirniadaeth gan i’r digwyddiad gael ei drin fel anhawster bychan, digrif yn hytrach na dim arall.

Drwy ei berthynas unigryw ag Iwerddon a’i phobl, a natur hirhoedlog y berthynas honno, llwyddodd Roberts i gynnig darlun dwfn a phersonol o’r wlad. Darluniwyd gwlad gyfoes ac un sydd yn parhau i newid ac addasu i ofynion ei hoes, ond a oedd gyda’i thraddodiadau a’i harferion hanesyddol. Nodyn cefndirol yw Celtigrwydd yn ei waith, gyda’r cysylltiadau unigol rhyngddo a chyfeillion neu unigolion eraill y mae’n eu cyfarfod ar ei daith yn cael blaenoriaeth. Cysylltiadau a ffurfiwyd drwy gyfeillgarwch blynyddoedd yw rhai Roberts gydag Iwerddon yn hytrach na rhai byrhoedlog. Mae’r gyfrol yn un ddefnyddiol at bwrpas yr astudiaeth hon am ei bod yn cynnig trosolwg o gyfnod eang, a thrwy hynny, nid yn unig yn dangos newidiadau cymdeithasol yn Iwerddon (llacio grym Catholigiaeth, er enghraifft), ond hefyd y newidiadau yng nghanfyddiad y ddwy wlad o’i gilydd.

---

[1016] Ibid.
[1017] Ibid.
[1018] Ibid.

CASGLIAD

“Pam maen nhw isio tynnu’n lluniau ni, Deicws?”[1019] yw’r cwestiwn a ofynna’r cymeriad Iwerydd i’w phartner dawns wrth i’r Ŵyl Fabsant fynd rhagddi yn nofel Robin Llywelyn *O’r Harbwr Gwag i’r Cefnfor Gwyn*. Mae’r ‘pam’ hwnnw, sef beth yw cymhelliad unigol yr awduron dan sylw, a hynny yng ngolau Celtigrwydd wedi bod yn greiddiol i’r astudiaeth hon. Yn wir, fel y dangosodd y bennod gyntaf, mae’r cymhelliad hwnnw wedi bod yn gyd-destun hanfodol yn y portread o’r ‘Celtiaid’ ers y dechrau’n deg. Drwy drafod hanes a datblygiad y termau ‘Celt’, ‘Celtiaid’ a ‘Cheltigrwydd’, gosodwyd cyd-destun priodol i ddadansoddi’r cwestiwn yn y traethawd hwn.

Noda Deicws nad yw’r golwg ‘allanol’ yn gweld dim.[1020] Er bod ei ganfyddiad o’r twristiaid, sef fel rhes ddiwyneb o gamerâu na fedr gael llun ohono, wedi bod yn rhywbeth y cofiwyd amdano drwodd a thro wrth baratoi’r astudiaeth hon, nid yw’n gwbl gywir ychwaith. Nid yw’r cyhuddiad o ‘weld dim’ yn wir yn achos yr awduron a drafodwyd uchod. Yr hyn a gafwyd gan bob awdur, fel y gwelwyd, oedd fersiynau unigol o Lydaw ac Iwerddon ond a oedd hefyd yn adlewyrchu tueddiadau a chanfyddiadau ehangach. Nid cyfrolau sydd yn dangos ‘sgwâr gwag’[1021] (chwedl Deicws wrth drafod yr hyn a fyddai yn lluniau’r twristiaid) yw’r rhai yn y traethawd hwn, felly. Ceir yn hytrach fersiynau amrywiol o’r sgwâr wedi eu siapio gan ragfarnau unigol am Geltigrwydd a etifeddwyd o draddodiad cymhleth, hynafol a hirhoedlog o gyndyn.

Gwelwyd sut y bu i Geltigrwydd ymdreiddio’n ymwybodol ac yn ddiarwybod i bortreadau’r awduron Cymraeg gan ddylanwadu ar eu canfyddiad o Lydaw ac Iwerddon. Atgynhyrchwyd syniadau poblogaidd am Geltigrwydd ganddynt, yn enwedig felly yr ymdeimlad o gysylltiad rhwng y gwledydd a’u trigolion. Bu rhamantu hefyd yn rhan nodedig o’r gweithiau a astudiwyd a berthynai i ddegawdau cynnar yr ugeinfed ganrif. Yn wir, cadwodd elfennau o’r rhamantiaeth honno eu gafael tan yn ddiweddar. Gwelwyd bod rhamantu, a’r rhyddid yn ei sgil i gynnig darlun simplistig, yn rhan o apêl y syniadaeth ‘Geltaidd’. Etifeddu eu syniadau am Celtigrwydd a wnaeth yr awduron Cymraeg a hynny gan sawl ffynhonnell. Gwelwyd bod y ffynonellau hynny wedi mynd drwy felin diwylliant mwyafrifol cyn eu cyrraedd. Gan hynny, fel awduron Saesneg yn disgrifio’r Cymry ‘Celtaidd’, defnyddiwyd rhai ystrydebau problematig ganddynt er mwyn cynnig darlun mwy apelgar o’r gwledydd ‘Celtaidd’ eraill. Gwelwyd bod cysgod dadansoddiadau Fictoriaidd Matthew Arnold yn un hir, gyda hyd yn oed y rhai hynny a oedd yn ‘Geltegwyr’ mawr fel

[1019] Robin Llywelyn, *O’r Harbwr Gwag i’r Cefnfor Gwyn* (Llandysul: 1994), t. 47.
[1020] Ibid.
[1021] Ibid.

John Dyfnallt Owen ac W. Ambrose Bebb yn troi at syniadau treuliedig wrth bortreadu'r 'arall' Celtaidd.

Drwy drafod Llydaw ac Iwerddon mewn cyfnodau gwahanol yn nwy ran greiddiol yr astudiaeth hon, cafwyd golwg eang ar sut y newidiodd y cysyniad o Geltigrwydd ei ffurf yn ôl y gofyn, gan esblygu i weddu i gyd-destunau ac agweddau cymdeithasol newydd. Cadwodd ei rym ym mhob achos, er i awduron diweddarach fel Ioan Roberts ddod yn fwy hunanymwybodol wrth ymdrin ag ef. Un o ganfyddiadau mwyaf yr astudiaeth hon yw'r un o hirhoedledd y syniad o Geltigrwydd a'i natur apelgar mewn amrywiol gyd-destunau ac ar draws rhychwant amseryddol eang. Gwelwyd yn eglur yn rhan ragarweiniol y traethawd fod ansicrwydd ynghylch sail hanesyddol y term. Ond gallwn ddadlau fod y Celtiaid yn bodoli erbyn hyn, waeth ymhle oedd eu dechreuad, boed yng nghyfandir Ewrop gynhanesyddol neu yn niwloedd rhamantiaeth y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Os mai mewnforiad diweddar yw'r cysyniad o Geltigrwydd, fel yr awgrymir gan y dystiolaeth a drafodwyd ym mhennod gyntaf y traethawd hwn, yna bu'n un eang ei effaith a'i ddylanwad.

O feddwl am yr effaith a'r dylanwad hwnnw ar amryfal feysydd yn yr ugeinfed ganrif, cododd y traethawd hwn gwr y llen ar y maes. Trwy ddewis canolbwyntio ar lenyddiaeth teithio, cafwyd cip deublyg, nid yn unig ar syniad 'mewnol' y Cymry o Geltigrwydd a sut y perthynai i'w hunaniaeth, ond hefyd yr un 'allanol' wrth iddynt gynnig darlun o wlad 'Geltaidd' arall. Yn sicr, mae lle i drafod ymhellach. Hyderir, serch hynny, i'r traethawd presennol osod sylfaen i astudiaethau pellach, boed wrth drafod *genres* eraill neu drafod y gwledydd na chanolbwyntiwyd arnynt yn yr achos hwn.

Yn sicr, dangoswyd yn eglur na fyddai'r gweithiau hyn yn *genre* llyfr teithio wedi bodoli fel y maent, os o gwbl, heb 'Geltigrwydd', a'r holl syniadau a'r dulliau o ymagweddu at wledydd 'Celtaidd' eraill a ddaeth yn ei sgil. Yn wir, byddai cynnyrch gwaith oes sawl un o'r awduron a astudiwyd (Dyfnallt, Bebb a Roberts yn benodol, efallai) yn bur wahanol heb yr ymwybyddiaeth a roddodd 'Celtigrwydd' iddynt o Lydaw ac Iwerddon. Siapiwyd eu perthynas gyda'r gwledydd hyn yn llwyr gan brism Celtigrwydd, a gellid bod wedi gwneud astudiaeth lawn ar unrhyw un o'r awduron hyn a'u perthynas â Cheltigrwydd mewn amryfal feysydd. Gobeithir, felly, y gallai'r dadansoddiadau cryno a geir yma fod yn sylfaen i ymdriniaeth bellach â gweithiau'r awduron hyn.

Gall yr astudiaeth hon hefyd daflu goleuni ar faterion cyfoes. Nid perthyn i'r gorffennol yn unig y mae Celtigrwydd, fel y crybwyllwyd eisoes yn yr astudiaeth. Mae'n parhau yn rhan annelwig o hunaniaeth gan godi i'r wyneb yn ystod tymor chwaraeon neu wrth wylio 'Cân i Gymru', dyweder . Mae'n 'frand' sydd yn eang ei apêl. Boed yn 'Codi Hwyl' i Lydaw yng

nghwmni John Pierce Jones a Dilwyn Morgan yn y gyfres boblogaidd ar S4C, neu'n gyfeiriad at y tueddiad o 'wastad yn mynd i Llydaw, byth yn mynd i Ffrainc' gan fand Datblygu,[1022] mae gan Geltigrwydd ei le yn ein hymwybyddiaeth ddiwylliannol a'n hadloniant heddiw. Nododd John Pierce Jones, er enghraifft, mewn cyfweliad wrth drafod y gyfres honno:

> Roeddan ni wedi gwneud dwy gyfres yn Iwerddon ac isio aros hefo'r thema Geltaidd felly dyma benderfynu mynd tua Llydaw at ein cefndryd yn fanno. Ond er y cysylltiad agos, roedd hi'n daith tridiau i groesi Sianel Lloegr, a'r holl draffig sydd arni, ac roeddan ni'n teimlo bo ni 'di bod ar siwrna' go iawn i gyrraedd [...] Fe gawson ni groeso anhygoel. Mae 'na gysylltiad arbennig rhyngddyn nhw a ni - yr un bobl ydan ni mewn gwirionedd - ond bo' nhw wedi dianc yn bellach! Un o fy uchafbwyntiau i oedd mynd i fferm deuluol i helpu gyda'r cynhaeaf nionod. Roedd cyndeidiau'r ffermwr yn Sioni Winwns go iawn oedd yn dod drosodd i Gymru i werthu nionod o ddrws i ddrws ac roedd y cymdogion i gyd yn helpu hefo codi'r nionod fel oeddan nhw'n neud yn cynhaea gwair ac ati ers talwm. [1023]

Mae'r dyfyniad cymharol fyr hwn yn costrelu ystod eang o ystrydebau a drafodwyd eisoes: o gysylltiad agos rhwng dwy wlad 'Geltaidd at y syniad mai'r 'un bobl' yw'r Cymry a'r Llydawyr a'r elfen hynafol yn arferion amaethu'r wlad a'i bod fel Cymru 'erstalwm'. Canrif a mwy ers cofnod O. M. Edwards gwelwn fod yr un syniadau am Lydaw yn parhau'n ffyniannus. Cyffyrddwyd hefyd â sut y mae Celtigrwydd yn fodd o hybu neu werthu cynnyrch — o lyfrau academaidd poblogaidd hyd at beiriannau torri gwellt[1024] neu ddelwedd benodol o artist neu ddarn o waith creadigol. Nid oes dim o'i le ar hyn yn ei hanfod wrth gwrs, ac mae ailbriodoli ystrydebau a'u defnyddio fel 'llaw-fer' i greu delwedd benodol yn draddodiad anrhydeddus.

Yn yr un modd ag y dangoswyd bod gan Geltigrwydd ei rôl mewn naratifau niweidiol yn yr ugeinfed ganrif, gellid dadlau bod hynny'n wir hyd heddiw. Fe'n clymir wrth ystrydebau cyfarwydd o gysylltiadau 'Celtaidd' rhwng gwledydd penodol a hynny, gellid dadlau, ar draul meddwl yn fwy agored am wledydd eraill a allai gynnig esiampl fwy amgen. Rhaid bod yn wyliadwrus hefyd rhag llyncu'r stori gyfarwydd o gyd-fodlonrwydd Celtaidd ac o ryw gysylltiad hirhoedlog gan ei fod yn gorsymleiddio ein hanes. Ym mha fodd 'Celtaidd', er enghraifft, yr oedd y Cymry hynny yn y fyddin Brydeinig yn ymagweddu at y Gwyddelod yn ystod cyfnod y Terfysgoedd o'r 1960au i'r 1990au yn Iwerddon?

---

[1022] David R Edwards, Rhiannon Mathews, 'Cân i Gymry', *Libertino* (Caerdydd: Label Ankst,1993), Trac 4.
[1023] 'Codi pac a chodi hwyl am gyfres arall o ffraeo a checru ar y tonnau.', *Daily Post*, 10 Mehefin 2017, t. 5.
[1024] 'Celtic Mowers, Abertawe', < https://www.celticmowers.com/>; cyrchwyd 20 Awst 2021.

Mae'r cysyniad o waed 'Celtaidd' sydd yn deillio o Geltigrwydd genynnol hefyd yn un peryglus. Nodwyd eisoes yn y traethawd hwn mai gwallus yw syniadaeth o'r fath, ond nid yw hynny wedi atal Celtigrwydd rhag ennyn apêl nodedig ymysg mudiadau asgell dde a chylchoedd goruchafiaeth wyn. Noda yr *Anti-Defamation League*, er enghraifft, fod y groes Geltaidd yn symbol casineb mewn rhai cyd-destunau.[1025] Mae gan y syniad o ymerodraeth Ewropeaidd hanesyddol honedig wyn apêl bendant i unigolion o'r fath, ac ni ddylid anghofio am ensyniadau fel y rhain wrth wirioni ar seremoni'r Orsedd o'r pafiliwn neu wrth droi at y gair 'Celtaidd' rhag gorfod dweud 'Prydeinig'. Bu'r awduron a astudiwyd yn euog o ddewis yr agweddau a apeliai atynt gan hepgor y rhai nad oeddynt yn gweddu i'r naratif penodol yr oeddynt yn dymuno ei gyfleu a dylid gochel rhag syrthio i'r un fagl.

Nid yw'r anawsterau hyn yn golygu y dylid ymwrthod yn gyfan gwbl â Cheltigrwydd o reidrwydd eithr dylid bod yn ymwybodol o ddiffygion ac ensyniadau negyddol y syniad. Prism yw Celtigrwydd ac fel y dangoswyd droeon yn yr astudiaeth hon y mae pob prism yn golygu y gwelir rhai pethau'n eglur tra bo eraill yn ystumedig neu'n anweladwy. Dylid cadw hynny mewn cof. Oblegid, gydag ymwybyddiaeth o hanes Celtigrwydd, ei apêl, a'i anfanteision, gellir arfogi i sylwi ar yr amrywiol agweddau hyn ac i roddi golwg wrthrychol arnynt. Yn hynny o beth, hyderir bod trafodaethau a chanfyddiadau'r astudiaeth hon wedi bod yn gam at sicrhau bod y darlun a'r canfyddiad o'r gwledydd a adwaenir fel gwledydd 'Celtaidd' hyd heddiw yn fwy cytbwys. Neu yn null ymadrodd nofel Robin Llywelyn, y nofel a grybwyllwyd ar ddechrau'r astudiaeth hon, ei bod yn gam at sicrhau bod y 'sgwariau gweigion' rywfaint yn llawnach nag y buont yn y gorffennol.

[1025] 'Celtic Cross, General Hate Symbols', *ADL*, <https://www.adl.org/education/references/hate-symbols/celtic-cross>; cyrchwyd 23 Awst 2021.

## LLYFRYDDIAETH

### Llyfryddiaeth Gynradd

BEBB, W. Ambrose, *Llydaw* (Llundain: Depot Cymraeg Foyle, 1929).

---------- , *Ein hen, hen hanes* (Wrecsam: Hughes a'i fab, 1932).

----------, *Crwydro'r Cyfandir; Anturiaethau Tri o Gymry drwy Ffrainc, yr Eidal, a Swistir* (Wrecsam, Hughes a'i fab, 1936).

----------, *Dydd-lyfr Pythefnos neu y Ddawns Angau* (Bangor: Sackville Printing Works, 1939).

---------- , *Pererindodau* (Dinbych: Gwasg Gee, 1941).

---------- , *Machlud yr Oesoedd Canol: hanes Cymru ar ddiwedd yr oesoedd canol* (Abertawe: Swansea Printers, 1951).

---------- , *Yr Argyfwng* (Llandebie: Llyfrau'r Dryw, 1956).

EDWARDS, Owen Morgan, *Tro yn Llydaw* (Dolgellau: E.W. Evans, 1888).

---------- , *Cartrefi Cymru* (Wrecsam: Hughes a'i fab, 1896).

---------- , *O'r Bala i Geneva* (Y Bala: Davies ac Evans, 1889).

---------- , *Clych Adgof: Penodau yn Hanes fy Addysg* (Caernarfon: Cymru, 1906).

---------- , *Tro i'r De* (Caernarfon: Swyddfa Cymru, 1907).

---------- , *Tro trwy'r Gogledd* (Caernarfon: Swyddfa Cymru, 1907).

---------- , *Dinbych yn ei Hynafiaeth a'i Henwogion* (Dinbych, Gee a'i Fab cyf., 1907).

---------- , *Tro yn yr Eidal* (Wrecsam: Hughes a'i Fab, 1921).

---------- , *Tro yn Llydaw* (Wrecsam: Hughes a'i Fab, 1921).

---------- , *Yn y Wlad: Troeon Crwydr yma ac acw yng Nghymru* (Wrecsam: Hughes a'i Fab, 1927).

JAMES, Clive, *Iwerddon: llawlyfr teithio i'r Cymry Cymraeg* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch, 1993).

---------- , ‘Faint sy’n siarad y Llydaweg?’, *Barn*, 313 (Chwefror 1989), tt. 11-13.

---------- , ‘Y Gaeleg a’r Gair’, *Cristion*, (Ionawr/Chwefror 1990), tt. 11-13.

---------- , ‘Llwybr Arfordirol Cymru’, *Mynydda: Cylchgrawn Clwb Mynydda Cymru* (Haf 2002) t. 19.

OWEN, John Dyfnallt, *Myfyrion a chaneuon Maes y Tân* (Caerfyrddin: W. M. Evans a'i Fab, 1917).

---------- , *O Ben Tir Llydaw* (Aberystwyth: Gwasg Aberystwyth, 1937).

---------- , *Y Greal a cherddi eraill* (Aberystwyth: Gwasg Aberystwyth, 1946).

---------- , *Ar y Tŵr* (Abertawe: Llyfrfa’r Annibynwyr Cymraeg, 1953).

---------- , Papurau John Dyfnallt Owen, GB 0210 JDYFWEN, Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

---------- , ‘Papurau’n ymwneud â Llydaw’, Papurau John Dyfnallt Owen, GB 0210 MSJDYFNBRITT, Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

WILLIAMS, Myfi, *Cartrefi Enwogion: pererindodau pump mewn chwe Sir* (Lerpwl: Gwasg y Brython, 1960).

---------- , *Tro yn Iwerddon* (Caernarfon: Llyfrfa’r Methodistiaid, 1964).

ROBERTS, Ioan, (gol.) *Almanac* (Caerdydd: Hughes a’i fab, 1984).

---------- , *Achos y Bomiau Bach* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch, 2001).

---------- , *Cymru Geoff Charles: hanner canrif o fywyd Cymru mewn llun a gair* (Talybont: Y Lolfa, 2004).

---------- , *Welcome to Pwllheli* (Llanrwst: Llygad Gwalch, 2004).

---------- , *Welcome to Aberdaron – Nefyn* (Llanrwst: Llygad Gwalch, 2005).

---------- , *Welcome to Abersoch / Llanbedrog* (Llanrwst: Llygad Gwalch, 2005).

---------- , *Pobol Drws Nesa. Taith Fusneslyd Drwy Iwerddon* (Llanrwst: Carreg Gwalch, 2008).

**Llyfryddiaeth Eilaidd**


ABEL, Charles W., (Cyfieithiad Y Parch. L. Williams, Bontnewydd) *Bywyd Anwaraidd yn New Guinea* (Llundain, Cymdeithas Genhadol Llundain, 1901?).

ANDERSON, Benedict, *Imagined Communities* (London: Verso, 1991).

AP DAFYDD, Myrddin, *Hiwmor Iwerddon* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch, 1998).

ARNOLD, Matthew, *On The Study of Celtic Literature, Popular Edition* (London: Smith, Elder and Co., 1891).

BEDDOE, John, *The Races of Britain; a contribution to the anthropology of Western Europe* (Bristol: J. W. Arrowsmith, 1885).

*Y BEIBL*, (Llundain: Y Gymdeithas Feiblaidd Frytanaidd a Thramor, 1968).

BOLT, Christine*, Victorians Attitues to Race* (London: Routledge & Keegan Paul, 1971).

BORKHAM, Helmut, *Celts. Images of their culture* (Wien: Osterreichische Akademie Der Wissenschaften, 1999).

BROOKS, Simon, *Yr Hawl i Oroesi* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch, 2009).

BUTLER, Jenny 'Paganism in Ireland: Syncretic Processes, Identity and a Sense of Place' yn ROUNTREE, Kathryn (gol.), *Contemporary Pagan and Native Faith Movements in Europe: Colonialist and Nationalist Impulses*, (Oxford: Brenaghn Books, 2015) tt. 196-215.

CAUFIELD, James Walter, *Overcoming Matthew Arnold: Ethics in Culture and Criticism* (Farnam: Ashgate Publishing Ltd, 2012).

CENHADAETH DRAMOR Y METHODISTIAID CALFINAIDD, *Adroddiad yr ymwelwyr â Llydaw, Mai 11-22, 1921.* (Lerpwl: Hugh Evans a'i Feibion, 1921).

CHAPMAN, Malcolm, *The Celts: the construction of a myth* (London: Macmillan, 1992).

CHAPMAN, T. Robin, *W. Ambrose Bebb* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1997).

COLLIS, John, *The Celts, Origins Myths & Inventions* (Stroud: Tempus Publishing Limited, 2003).

---------- , 'The Sheffield Origins of Celtic Art', yn GOSDEN, Christopher a CRAWFORD, Sally (goln.) *Celtic Art in Europe: Making Connections,* (Oxford: Oxbow Books, 2014) tt. 19-27.

CÔR GLANNAU YSTWYTH, *Go dti Baile Átha Claith 1989 = Taith i Ddulyn Iwerddon Hydref 1989* (Pontrhydygroes: Côr Glannau Ystwyth, 1989).

CRANSTON, Maurice William*, The noble savage : Jean-Jacques Rousseau, 1754-1762*

(Chicago : University of Chicago Press, 1991).

DAVIES, Ceri (gol.) *Rhagymadroddion a Chyflwyniadau Lladin, 1551-1632* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1980).

DAVIES, Hazel Walford, *O. M. Cofiant Syr Owen Morgan Edwards* (Llandysul: Gwasg Gomer, 2020)

DAVIES, John, *Hanes Cymru* (London: Penguin Books, 2007)

DAVIES, Russell, *Secret Sins: sex, violence and society in Carmarthenshire, 1870-1920* (Cardiff : University of Wales Press, 2012)

---------- , *Hope and Heartbreak: a social history of Wales and the Welsh, 1776-1871*

(Cardiff: University of Wales Press, 2005)

*Y DDRAIG GOCH*, Ionawr 1926-Rhagfyr 1984 (Aberystwyth: Plaid Cymru, 1926-84).

DEARY, Terry, *Cut Throat Celts* (London: Scholastic, 2011).

DUFFY, Edna, '"As White as Ours" Africa, Ireland, Imperial Panic, and the Effects of British Race Discourse.', yn MACPHEE, Graham, PODDAR, Prem (goln.), *Empire and After: Englishness in Postcolonial Perspective* (Oxford: Berghahn Books, 2010), tt. 25-56.

EDENSOR, Tim, *National Identity, Popular Culture and Everyday Life* (Oxford: Berg, 2002)

EDWARDS, Hywel Teifi, *O'r Pentre Gwyn i Gwmderi* (Llandysul: Gwasg Gomer, 2004).

EDWARDS, Justin D., Graulund, RUNE, *Postcolonial Travel Writing Critical Explorations* (Basingstoke: Palgrave Macmillan: 2010).

ELIAS, Twm, RICHARDS, Emlyn, *Y Dyrnwr Mawr* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch 2017).

EVANS, Theophilus, *Drych y Prif Oesoedd Yn Ddwy Ran* (Caerfyrddin: W. Spurrell, 1854)

FARLEY, Julia, HUNTER, Frase (goln.), *Celts: Art and Idendity* (London: British Museum Press, 2015).

FUSSELL, Paul, *The Norton Book of Travel* (New York: Norton, 1987).

*GEIRIADUR Prifysgol Cymru, II: G-LLYYS* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1968-1987)

GELLNER, Ernest, *Nations and Nationalism* (Oxford: Blackwell May, 1983).

GRIFFITHS, Gwyn, *Crwydro Llydaw* (Abertawe: C. Davies, 1977).

---------- , *Llydaw: ei Llên a'i Llwybrau* (Llandysul: Gwasg Gomer, 2000).

HASTINGS, Adrian, *The Construction of Nationhood: ethnicity, religion, and nationalism*, (Cambridge: Cambridge University Press, 1997).

HARTLEY, L. P., *The Go-Between* (London: Penguin, 2004)

HOOPER, Glenn, 'Animals as figures of otherness in travel narrative of Brittany, 1840-1895' yn HOOPER, Glenn, YOUNGS, Tim, (goln.), *Perspectives on Travel Writing* (Aldershot: Ashgate, 2004), tt. 71-85.

HUMPHREYS, Robin (gol.), *Lloffion o Ddyddiaduron Ambrose Bebb 1920-1926* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1996).

HUNT, James, *On the Negro's Place in Nature* (London: Trübner and co., 1863).

INNES, Lynn, 'Orientalism and Celticism', yn HOOPER, G., GRAHAM, C., (goln.), *Irish and Postcolonial Writing: History, Theory, Practice* (Basingstoke: Palgrave Macmillan, 2002), tt. 142-56.

JOB, J. T., Evans, VINCENT, E., (gol.), *Cofnodion a Chyfansoddiadau Eisteddfod Genedlaethol 1903* (Caerdydd: Gwaith Argraffu Deheudir, 1903) tt. 1-44.

JAMES, Simon, *The Atlantic Celts, Ancient People or Modern Invention?* (London: British Museum Press, 1999).

JENKINS, R. T., *Ffrainc a'i Phobl* (Wrecsam: Hughes a'i fab, 1930).

---------- , *Casglu Ffyrdd* (Wrecsam: 1956).

JONES, Dafydd Glyn Jones, *Agoriad yr Oes* (Talybont: 2001).

JONES, Geraint Elfyn, *Bywyd a Gwaith John Dyfnallt Owen* (Abertawe: Tŷ John Penry, 1976).

JONES, Richard Wyn, *Rhoi Cymru'n Gyntaf: syniadaeth Plaid Cymru* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2007).

JONES, T. Gwynn, *Caniadau* (Abertawe: Hughes a'i fab, 1978).

JONES, T. Llew, *Sŵn y Malu* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1967).

KOCH, John T, (gol.) *The Celtic Heroic Age Literary Sources for Ancient Celtic Europe & Early Ireland & Wales* (Aberystwyth: Celtic Studies Publications, 2000).

---------- , (gol.), *Celtic Culture: a historical encyclopedia*. (Santa Barba: ABCCLIO, 2006).

KNOX, Robert, *The Races of Men: a Fragment* (London: Henry Renshaw, 1850).

LEOUSSI, Athena S., (gol.), *Encyclopedia of Nationalism* (London: Transaction Publishers, 2001).

LESLIE, Catherine Amoroso, *Needlework Through History: An Encyclopedia* (London: 2007).

LEWIS, Henry, PEDERSEN, Holger, *A Concise Comparative Celtic Grammar* (Göttingen : Vandenhoeck & Ruprecht, 1937).

LEWIS, Llŷr Gwyn*, 'Newydd gân a luniodd i'w genedl': Agweddau ar Geltigrwydd T. Gwynn Jones a W. B. Yeats, 1890-1925'* (Traethawd PhD heb ei gyhoeddi, Prifysgol Caerdydd, Caerdydd, 2014).

LÖFFLER, Marion, *A Book of Mad Celts: John Wickens and the Celtic Congress of Caernarfon 1904*. *John Wickens a Chyngres Geltaidd Caernarfon* (Llandysul: Gwasg Gomer, 2000).

LLOYD, D. Tecwyn, 'Broseliawnd' yn JARVIS, Branwen (gol.), *Trafod Cerddi* (Caerdydd: Gwasg Taf, 1985).

LLYWELYN, Robin, *O'r Harbwr Gwag i'r Cefnfor Gwyn* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1994).

LLYWELYN-WILLIAMS, Alun, *Y Nos, y Niwl a'r Ynys: Agweddau ar y Profiad Rhamantaidd yng Nghymru 1890-1914* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1960).

MAZZENO, Lawrence W., *Matthew Arnold: The Critical Legacy* (Rochester: Camden House, 1999).

MOCAËR, Pierre, *Llydaw a Chymru* (Morlaix: A. Lajat, 1921?).

MORRIS, William (gol.) *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Llandudno a'r Cylch 1963* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1963), tt. 109-18.

MORRIS-JONES, John, *Gwlad fy Nhadau, Rhodd Cymru i'w Byddin* (London: Hodder and Stoughton, 1915).

MORSE, Michael A., *How the Celts Came to Britain, Druids, Ancient Skulls and the Brith of Archaeology* (Stroud: Tempus Publishing Limited, 2005).

MWYN, Rhys, *Cam i'r Gorffennol* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch, 2014).

O'DRISCOLL, Robert, *The Celtic Consciousness* (Edinburgh: Canongate Publishing, 1982).

PRICE, Thomas, *Hanes Cymru, a chenedl y Cymry, o'r cynoesoedd hyd at farwolaeth Llewelyn ap Gruffydd,* (Crughywel: T. Williams, 1842).

PRISE, John yn DAVIES, Ceri (gol.), *Historiae Britannicae Defensio = A Defence of the British History* (Oxford: The Bodleian Library, 2015).

RABAN, Jonathan, *Writers Abroad* (London: British Council, 1992).

REES, Alwyn, REES, Brinley, Celtic Heritage: *Ancient Tradition in Ireland and Wales* (London: Thames and Hudson, 1978).

RENAN, Ernest, 'La poésie des races celtiques', yn *Essais de Morale et de Critique* (Paris: Michel Lévy Frères, 1859).

RENAN, Auguste, *The Poetry of the Celtic Races and other Essays* (London: The Walter Scott Publishing Co., 1896).

RHYS, John, *Celtic Britain* (London: Random House, 1996).

ROBERTS, Ernest, 'Ffeil Ernest Roberts o adroddiadau'r ddirprwyaeth i Lydaw, 1947, ynghyd â'i adroddiad ar gyfarfod ym Mangor yn 1951 i drafod y drafft terfynol' Papurau Frank Price Jones, GB 0210 FRANJON, ff. 110. Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

ROBERTS, Kate, *Rhigolau bywyd: a storïau eraill* (Aberystwyth: Gwasg Aberystwyth, 1929).

---------- , *Tywyll Heno: stori fer hir* (Dinbych: Gwasg Gee, 1962).

ROWLANDS, Henry *Mona Antiqua Restaurata: An Archaeological Discourse on the Antiquities, Natural and Historical, of the Isle of Anglesey, the Antient Seat of the British Druids* (London: J. Knox, 1766).

SAID, Edward, *Orientalism* (London: Penguin, 1977).

SMITH, Anthony D., *The Ethnic Origins of Nations* (Oxford: Basil Blackwell, 1986).

---------- , *National Identity* (Reno: University of Nevada Press, 1993)

SMITH, Herbert, *Cenhadaeth y Bedyddwyr yn Llydaw. Y Cymry allan o Gymru a'r llafur er eu lles.* (London: Alexander a Sherpard Cyfyngedig, ?)

Sven-Myer, Gwenfrewi Nonn, *Ymateb Llenorion Llydaw i Ddigwyddiadau 1940-1944* (Traethawd PhD heb ei gyhoeddi, Prifysgol Aberystwyth, Aberystwyth, 2003).

THOMAS, Thomas, *Llyfr Pawb ar Bob-peth: sef y ffordd oreu i gyflawni holl ddeledswyddau, ac i gyfarfod a holl amgylchiadau bwywyd cyffredin* (Wrexham: Hughes and Son, 1880)

THOMPSON, Carl, *Travel Writing: the New Critical Idiom* (Abingdon: Routledge, 2011).

WATKIN, Morgan, (gol.) *Adroddiad y Ddirprwyaeth o'r Cyngor a Ymwelodd â Llydaw yn Ebrill, 1947* (Caerdydd: William Lewis cyf., 1947).

WILLIAMS, Gerwyn, *Y Rhwyg: Arolwg o Farddoniaeth Gymraeg ynghylch y Rhyfel Byd Cyntaf* (Llandysul: Gomer, 1993)

WILLIAMS, Gwyn A., *When was Wales? : a history of the Welsh* (London: British Broadcasting Corporation, 1979).

WILLIAMS, Jane (gol.) *The Literary Remains of The Rev. Thomas Price, Carnhuanawc, Vicar of Cwm Dû, Breconshire and Rural Dean, Author of Hanes Cymru, Essays on the Geographical Progress of Empire and Civilivation, ETC ETC.* (Llandovery: William Rees, 1854).

**Erthyglau**

‘At ein Darllenwyr’, *Y Lladmerydd*, I (1885), t. i.

AP IESTYN, Maredydd, ‘Traddodiad adeiladu tai Llydaw’, *Barn*, 315 (Ebrill 1989), tt. 13-16.

BEBB, W. Ambrose, ‘Gogoniant Llydaw yw ei Chelfyddyd’, *Y Ford Gron*, 3/10 (Awst 1933), t. 225-226.

BECKA, Ulrike, WAGNERA, Mayke, LIB, Xiao, DURKIN-MEISTERERNSTC, Desmond, TARASOVD, Pavel E., ‘The invention of trousers and its likely affiliation with horseback riding and mobility: A case study of late 2nd millennium BC finds from Turfan in eastern Central Asia.’, *Quaternary International*, 348 (Hydref 2014), t. 224-35.

BRIDGMAN, Timothy P., ‘Keltoi, Galatai, Galli: Were They All One People?’ *Proceedings of the Harvard Celtic Colloquium*, 24/25 (2004/5), tt. 155-62.

BROOKS, Simon, ‘Iwerddon, y Celtiaid a ni’ *Barn*, 428 (Medi 1998), t. 6.

‘Codi pac a chodi hwyl am gyfres arall o ffraeo a checru ar y tonnau.’, *Daily* Post, 10 Mehefin 2017, t. 5.

COLLINS, J. T., ‘Harvest Technology and Labour Supply in Britain, 1790-1870’ *The Economic History Review*, 22/3 (1969), tt. 453–73.

‘Cymanfa’r holl Geltiaid’, *Yr Herald Cymraeg*, 30 Awst 1904, t. 5.

‘Cymru, a’i Chyfeillion’, *Baner ac Amserau Cymru*, 23 Mawrth 1892, t. 5.

‘Crybwyllion Llenyddol – “Tro yn Llydaw”’, *Seren Gomer*, 6/47 (1890), t. 142.

DIETLER, Michael, ‘Celticism, Celtitude and Celticity; The consumption of the past in the age of globalization’ *Academia*;<https://www.academia.edu/273595/Celticism_Celtitude_and_Celticity_the_consumption_of_the_past_in_the_age_of_globalization>; cyrchwyd 4 Medi 2020.

DONNELLY, Peter ac eraill, ‘The fine-scale genetic structure of the British population’, ‘Nature’ <http://www.nature.com/nature/journal/v519/n7543/full /nature14230.html>; cyrchwyd 6 Hydref 2020.

EVANS, A. Vaughan, 'Fy ngwyliau llawen yn Llydaw', *Y Ford Gron*, 3/9 (Gorffennaf 1933), tt. 197-8.

EVANS, Bethan, 'Llydaw yn galw eto', *Golwg*, 8/47 (8 Awst 1996), tt.19-21.

FERNÁNDEZ-GÖTZ, Manuel, '"Celts: art and identity" exhibition: "New Celticism" at the British Museum', *Antiquity,* 90/349 (Chwefror 2016) tt. 237-44.

GRIFFITHS, J. Gwyn 'Teyrnged i Olygydd- ysgrifau Dyfnallt', *Y Dysgedydd*, 133/10 (1953), t. 225.

JOB, J. T, 'Bardd Cadeiriol Llanelli', *Y Gymraes; Cyhoeddiad Misol Darluniadol i Ferched Cymru*, 8/89, t. 25.

JONES, Dewi Morris, 'Cenhadaeth y Bedyddwyr yn Llydaw.' *Trafodion Cymdeithas Hanes Bedyddwyr Cymru,* 1991, tt. 1-25.

JONES, Thomas, 'Dyddiadau cyhoeddi "O'r Bala i Geneva", "Tro yn yr Eidal" a "Tro yn Llydaw"*, Journal of the Welsh Bibliographical Society*, 9/2 (Gorffennaf 1959), tt.78-82.

KENNETT, Debbie A, TIMPSON, Adrian, BALDING, David J., THOMAS, Mark G., 'The Rise and Fall of BritainsDNA: A Tale of Misleading Claims, Media Manipulation and Threats to Academic Freedom' *Genealogy*, 2(4)/47 (2018), <https://doi.org/10.3390/genealogy2040047>; cyrchwyd 8 Mai 2020.

LEWIS, Timothy, 'Haf yn Iwerddon', *Y Ford Gron*, 3/1 (Tachwedd 1933), t. 7. t. 22.

LEVINGER, Matthew, LYTLE, Paula Franklin, 'Myth and Mobilisation': the triadic structure of nationalist rhetoric', *Nations and Nationalism,* 7 (2001), tt. 175-94.

LÖFFLER, Marion, 'Agweddau ar yr Undeb Pan-Geltaidd, 1889–1914', *Y Traethodydd*, 155/652 (2000), tt. 43–59.

LLOYD, D. Tecwyn ,'Taldir a Bebb', *Y Genhinen*, 24 (1975), tt. 202-6.

'Llyfrau'r Mis- "Tro yn Llydaw"', Cymru Fydd Cylchgrawn y Blaid Genedlaethol Gymreig, 3/4, (1890), tt. 242-5.

'Llyfrau Newyddion- "Tro yn Llydaw", *Trysorfa y Plant*, *Cyhoeddiad Misol i Ieuenctyd*, 39/341 (1890), t. 129.

LYNCH, Peredur, ‘Y Gwefreiddiol a’r Gwachul’, *Barn*, 635/6 (Rhagfyr 2015 / Ionawr 2016), tt.42-44.

LLYWELYN, Robin, ‘Celtigrwydd?’, *Llais Llyfrau*: *Rhifyn Arbennig ar Hunaniaeth Geltaidd* (Gwanwyn 1998), tt. 5-6.

MEGAW, J. V. S., MEGAW M. R, ‘Ancient Celts and Modern Ethnicity’, *Antiquity*, 70/267 (Mawrth 1996), tt. 175 – 181.

MOCAËR, Pierre, ‘Hanes Llydaw: chwaer Cymru’, Y Ford Gron, 4/12 (Hydref 1934), t. 270, t. 288.

MORGAN, Catrin Puw, ‘Athro ar Daith’, *Yr Arloeswr*, 5 (Gaeaf 1959) tt. 5-12.

MOTT, Lewis F, ‘Renan and Matthew Arnold’ *Modern Language Journal,* 2 (1918), *JSTOR*, <http://www.jstor.org/stable/2915405>; Cyrchwyd 12 Rhagfyr 2020.

‘Nodiadau ar Lyfrau – “Tro yn Llydaw”, *Y Lladmerydd, Cylchgrawn Misol at Wasanaeth yr Ysgol Sabbothol ac Addysg Grefyddol*, VI/64 (1890), t. 127.

OWEN, John Dyfnallt, ‘Wales and the Celtic Movement’, *The Welsh Outlook,* 9, Chwefror 1922.

---------- , ‘Brittany’s Plight’, *Western Mail*, 28 Tachwedd 1943, t. 3.

---------- , ‘’Ing Llydaw’, *Baner ac Amserau Cymru,* 2 Ionawr 1946, t. 4.

---------- , ‘Yr Erlid yn Llydaw’, *Baner ac Amserau Cymru*, 2 Ionawr 1946, t. 8.

---------- , ‘Achos Ropaz Hermon’, *Baner ac Amserau Cymru*, 30 Ionawr 1946, t. 4.

---------- , ‘Dau Lythyr o Lydaw’, *Baner ac Amserau Cymru* , 30 Ionawr 1946, t. 5.

---------- , ‘Dau Lythyr Arall o Lydaw’, *Baner ac Amserau Cymru,* 13 Mawrth 1946, t. 5.

---------- , ‘Ateb i Llydawr III’, *Baner ac Amserau Cymru,* 24 Ebrill 1946, t.3.

---------- , ‘Prawf Ropaz Hermon’, *Baner ac Amserau Cymru*, 29 Mai 1946, t. 5.

---------- , ‘Achos Llydaw a’r Parchedig J. Gerlan Williams’, *Baner ac Amserau Cymru* , 19 Mehefin 1946, t. 4.

---------- , ‘Diolch Hermon’, *Baner ac Amserau Cymru*, 26 Mehefin 1946, t. 5.

---------- ,‘Lladd Offeiriad Dewr, *Baner ac Amserau Cymru*, 25 Rhagfyr 1946, t. 1.

----------,  'Crwydro Llydaw', *Y Tyst*, 29 Mai 1947,  t. 5.

REES, Mair I., 'Merched Llydaw' *Y Ford Gron*, 3/11 (Medi 1933), t. 247.

SIÔN, Aled, 'Taith Urdd Gobaith Cymru i Orllewin Iwerddon, Haf 1991' *Mynydda : Cylchgrawn Clwb Mynydda Cymru*, 2 (Hydref 1992), t. 18.

SIMS-WILLIAMS, Patrick, 'Celtic Civilization: Continuity or Coincidence?', *Cambrian Medieval Celtic Studies*, 64 (Gaeaf 2012), tt. 1-45.

---------- , 'The Visionary Celt: The Construction of an Ethnic Preconception' yn *Cambridge Medieval Studies*, 11 (Haf 1986), tt. 71-96.

Thomas, David, 'Ar olwyn yn Iwerddon', *Lleufer*, 21/2 (Haf 1965), tt. 77-79.

---------- , 'Ar olwyn yn Iwerddon 2, Killarney' *Lleufer*, 21/3 (Hydref 1965), tt. 127-132.

---------- , 'Ar Olwyn yn Iwerddon 3, Afon Shannon', *Lleufer*, 21/4 (Gaeaf 1965), tt. 183-189.

Tomos, Robyn. 'Y coch, y gwyrdd a'r crac: criw Theatr Felinfach yn Iwerddon', *Golwg*, 4/34 (7 Mai 1992) tt. 15-16.

*Y TYST*, Ionawr 1927- Rhagfyr 1956.

WIGLEY,  Llion, '"Rhyfeddu at y Cread", Llenyddiaeth taith yn y Gymraeg *c*.1931—1975,' *Y Traethodydd*, 174/734 (Gorffennaf 2020),  tt. 135-59.

---------- , "Rhyfeddu at y Cread": Llenyddiaeth taith yn y Gymraeg *c*.1931-1975 (ii)", *Y Traethodydd*, 174/735 (Hydref 2020) tt. 226-232.

'Y Gongl Gystadleuol', *Cymru'r Plant*, 4/44, (1895), t. 234.

**Gwefannau**

BARNES, Hannah, 'How many redheads are there in the world?', *BBC News*, <https://www.bbc.co.uk/news/magazine-24331615>; cyrchwyd 8 Mai 2020.

'Burial and funeral rites in Iron Age Britain', *britishmuseum.org*, <http://www.britishmuseum.org/explore/highlights/article_index/b/burial_rites,_iron_age_britain.aspx>; cyrchwyd 14 Medi 2020.

‘Cathédrale Saint-Pierre’, *POP : la plateforme ouverte du patrimoine* <https://www.pop.culture.gouv.fr/notice/merimee/PA00090675>; cyrchwyd 9 Gorffennaf 2021.

‘Celtic Cross, General Hate Symbols’, *ADL,* <https://www.adl.org/education/references/hate-symbols/celtic-cross>; cyrchwyd 23 Awst 2021.

‘Celtic Mowers, Abertawe’, < https://www.celticmowers.com/>; cyrchwyd 20 Awst 2021.

‘Celts: Art and Identity.’, *britishmuseum.org,* <http://www.britishmuseum.org/whats_on/exhibitions /celts.aspx>; cyrchwyd 20 Tachwedd 2020.

‘Celts: People’ *Britannica*, <http://www.britannica.com/topic/Celt-people>; cyrchwyd 12 Medi 2019.

‘Celtic Legend "Ysolt Ynn Gweinten" feat Gwenno Saunders’, <https://www.youtube.com/watch?v=PYMhh6u3nks>; cyrchwyd 3 Mehefin 2021.

‘Druids’, *Britishmuseum.org*, <http://www.britishmuseum.org/explore/highli

ghts/articles/d/the_druids.aspx>; cyrchwyd 21 Medi 2020.

‘Église Saint-Germain’, *Le site de la Paroisse Saint-Germain de Rennes* <https://saint-germain-rennes.fr/eglise-saint-germain/>; cyrchwyd 9 Gorffenaf 2021.

‘“Eus Keus?”’, *YouTube,* < https://www.youtube.com/watch?v=6_U9yh6ivjc>; cyrchwyd 3 Mehefin 2021.

GHOSH, Pallab, *BBC News*, ‘DNA study shows Celts are not an unique genetic group’ <http://www.bbc.co.uk/news/science-environment-31905764>; cyrchwyd 15 Rhagfyr 2020.

‘Gwyn Alf Williams the greatest Welsh historian in history’, *YouTube*, <https://www.youtube.com/watch?v=1AuTnRtKpwg>; Cyrchwyd 10 Medi 2020.

‘Hallstatt’ *Britannica*, <http://www.britannica.com/EBchecked/topic/2528

89/Hallstatt>; cyrchwyd 17 Mai 2020.

‘Hollywood star Luke Evans stars in new advert promoting Wales to the world’, *WalesOnline*, <https://www.walesonline.co.uk/lifestyle/showbiz/hollywood-star-luke-evans-stars-12674528>; cyrchwyd 3 Mehefin 2021.

‘Irish red hair a result of our lack of sunlight’ *Irish Independent* < https://www.independent.ie/style/beauty/irish-red-hair-a-result-of-our-lack-of-sunlight-29226550.html>; cyrchwyd 8 Mai 2020.

JOSEPHSON, Paul R., ‘United Kingdom’, *Britannica*, <http://www.britannica.com/EBchecked/topic/615557/United-Kingdom/44734/Iron-Age#ref482452>; cyrchwyd 15 Tachwedd 2020.

‘La Téne,’ *Britannica*, < http://www.britannica.com/EBchecked/topic/326554/

La-Tene>; cyrchwyd 18 Mai 2020.

‘Leixlip’ Library Ireland, <https://www.libraryireland.com/IrishPlaceNames /Leixlip.php>; cyrchwyd 11 Rhagfyr 2020.

LEWIS, Saunders, ‘Tynged yr Iaith’, Gwefan Llyfrgell Genedlaethol Cymru,

< https://www.llgc.org.uk/ymgyrchu/Iaith/TyngedIaith/tynged.htm>; cyrchwyd10 Tachwedd 2020.

‘Llwybrau Celtaidd’ <https://llwybrauceltaidd.cymru/>; cyrchwyd 3 Mehefin 2021.

‘Newgrange’ *Druidry.org*, <https://druidry.org/resources/new-grange-ireland>*;* cyrchwyd 15 Mai 2020.

‘One foot in Celtic mysticism and Welsh folksong, one in the world of crisp electronic beats’, *swnfest.com*, <https://swnfest.com/casi/>; cyrchwyd 3 Mehefin 2021.

*Papurau Newydd Cymru* <https://papuraunewydd.llyfrgell.cymru/home>; cyrchwyd 12 Awst 2020.

‘Places to visit along The Celtic Trail’, *Visit Wales*, <https://www.visitwales.com/things-do/adventure-and-activities/cycling-and-mountain-biking/celtic-trail-journey-discovery>; cyrchwyd 3 Mehefin 2021.

SIGGINS, Lorna, ‘Newgrange got new lease of light and life in 1960s "rebuild”’, *Irish Times*, [https://www.irishtimes.com/news/newgrange-got-new-lease-of-light-and-life-in-1960s-rebuild-1.1275165>; cyrchwyd 12 Mai 2020.

‘Trousers’, *Britannica*, <http://www.britannica.com/topic/trousers>; Cyrchwyd 14 Medi 2020.

ATODIAD 1

Delweddau o gyfrol *Tro yn Iwerddon* Myfi Williams  (Caernarfon: Llyfrfa'r Methodistiaid, 1964).

Delwedd 1



CAERGYBI YN Y NOS

Delwedd 2, 3



BANC IWERDDON

*Trwy ganiatâd Bord Fáilte Eireann*



AR LAN LIFFEY—Y "FOUR COURTS"

*Trwy ganiatâd Bord Fáilte Eireann*

Delwedd 4



Y SIOU FAWR YN NULYN

Delwedd 5, 6




HEOL O'CONNELL, DULYN
*Trwy ganiatâd Bord Fáilte Eireann*



SWYDDFEYDD Y TOLLAU, DULYN
*Trwy ganiatâd Bord Fáilte Eireann*

Delwedd 7, 8



GOLYGFA GYFFREDIN YN IWERDDON



DUN LAOGHAIRE

*Trwy ganiatâd Bord Fáilte Eireann*

Delwedd 9, 10



KINNEGAD, SWYDD WESTMEATH

*Trwy ganiatâd Bord Fáilte Éireann*



ST. PATRICK'S COLLEGE, MAYNOOTH

*Trwy ganiatâd Bord Fáilte Éireann*

Delwedd 11, 12



DAWNSIO YN IWERDDON

*Trwy ganiatâd Bord Fáilte Éireann*



ATHLONE: Y BONT DROS AFON SHANNON, AC EGLWYS SANT PEDR A SANT PAUL

Delwedd 13



BWTHYN YN IWERDDON

Trwy ganiatâd Bord Fáilte Eireann

Delwedd 14, 15



CLOGWYNI MOHER, SWYDD CLARE

*Trwy ganiatâd Bord Fáilte Eireann*



CORYGLWYR YNYSOEDD ARAN

*Trwy ganiatâd Bord Fáilte Eireann*

Delwedd 16, 17



AFON CORRIB, SWYDD GALWAY

*Trwy ganiatâd Bord Fáilte Éireann*




COFGOLOFN PADRAIC O'CONAIRE, GALWAY

*Trwy ganiatâd Bord Fáilte Éireann*

Delwedd 18



Y BWA SBAENAIDD

Trwy ganiatâd Bord Fáilte Éireann

Delwedd 19, 20



YN Y WLAD



PUMP O GYMRU AC UN O IWERDDON

Delwedd 21, 22



CONNEMARA

*Trwy ganiatâd Bord Fáilte Éireann*




DIWRNOD MARCHNAD YNG NGORLLEWIN IWERDDON

*Trwy ganiatâd Bord Fáilte Éireann*

Delwedd 23, 24




COFEB MICHAEL DAVITT



Y MALL, CASTLEBAR

*Trwy ganiatâd Bord Fáilte Éireann*

Delwedd 25, 26



ENNISCRONE, SWYDD SLIGO
*Trwy ganiatâd Bord Fáilte Eireann*



MINION MOY
*Trwy ganiatâd Bord Fáilte Eireann*

Delwedd 27, 28



TREF SLIGO

*Trwy ganiatâd Bord Fáilte Éireann*




BEDD YEATS

Delwedd 29



LOUGH GILL, SWYDD SLIGO

*Trwy ganiatâd Bord Fáilte Éireann*

Delwedd 30, 31



*Trwy ganiatâd Bord Fáilte Eireann* BENBULBEN, SWYDD SLIGO



*Trwy ganiatâd Bord Fáilte Eireann* LOUGH KEY, SWYDD ROSCOMMON

Delwedd 32, 33



CYCHOD AR AFON SHANNON

*Trwy ganiatâd Bord Fáilte Eireann*



CARRICK-ON-SHANNON, SWYDD LEITRIM

*Trwy ganiatâd Bord Fáilte Eireann*

Delwedd 34



Y BWA YN JAMESTOWN

*Trwy ganiatâd Bord Fáilte Éireann*